



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2011
Wednesday, 13 July 2011**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills
- 27 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions to the Minister for Local Government and Communities
- 48 Datganiad am Adroddiad Estyn
Statement on the Estyn Report
- 63 Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
Motions to Elect Members to Committees
- 64 Cynnig i Ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y Refferendwm ar Bwerau'r
Cynulliad
Motion to Amend Standing Orders following the Assembly Powers Referendum
- 96 Dadl Plaid Cymru: Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus
Plaid Cymru Debate: Public Sector Employment
- 121 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Busnesau Bach
Welsh Liberal Democrats Debate: Small Businesses
- 144 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon, **Y Llywydd:** Prynawn da, bawb. everyone.

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau Questions to the Minister for Education and Skills

The Presiding Officer: Question 1, OAQ(4)0028(ESK), is transferred for written answer. **Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0028(ESK), ar gyfer ateb ysgrifenedig.

Gwella Safonau a Pherfformiad Mewn Addysg

2. Sandy Mewies: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella safonau a pherfformiad mewn addysg yng Nghymru. OAQ(4)0026(ESK)*

Leighton Andrews: I have set out a 20-point action plan, which has been designed specifically to drive up standards and performance.

Sandy Mewies: Thank you for that answer. Welsh Labour in Government has always prioritised support for pupils from deprived areas through various measures such as the deprivation factor used in the revenue support programme; grants; the RAISE programme; Flying Start and the foundation phase. However, in light of the Estyn report published yesterday, which calls for schools to give more targeted support to disadvantaged pupils, what attention is being given to raising the attainment of the poorest children in Wales?

Leighton Andrews: I will respond to the Estyn report in due course, but we clearly welcome what Estyn had to say in raw terms. In previous reports, Estyn has established that schools that do well in disadvantaged areas are the schools that are practising very similar activities to schools in other areas: they focus on strong leadership; they build excellent relationships with the family and they are effective in the way in which they mobilise the community around the school.

Improving Standards and Performance in Education

2. Sandy Mewies: *What action is the Welsh Government taking to improve standards and performance in education in Wales. OAQ(4)0026(ESK)*

Leighton Andrews: Yr wyf wedi gosod cynllun gweithredu 20 pwynt, wedi'i gynllunio'n benodol i godi safonau a pherfformiad.

Sandy Mewies: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Mae Llafur Cymru mewn Llywodraeth bob amser wedi blaenoriaethu cymorth ar gyfer disgyblion o ardaloedd difreintiedig drwy fesurau amrywiol megis y ffactor amddifadedd a ddefnyddir yn y rhaglen cymorth refeniw; grantiau; y rhaglen Rhagori; Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, yng ngoleuni adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ddoe, sydd yn galw am i ysgolion roi mwy o gymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion difreintiedig, pa sylw a roddir i godi cyrhaeddiad y plant tlotaf yng Nghymru?

Leighton Andrews: Byddaf yn ymateb i adroddiad Estyn maes o law, ond rydym yn amlwg yn croesawu'r hyn a oedd gan Estyn i'w ddweud mewn termau amrwd. Mewn adroddiadau blaenorol, mae Estyn wedi profi mai'r ysgolion sy'n gwneud yn dda mewn ardaloedd difreintiedig yw'r ysgolion sy'n ymarfer gweithgareddau tebyg iawn i ysgolion mewn ardaloedd eraill: maent yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth gref; maent yn adeiladu perthynas ardderchog gyda'r teulu, ac maent yn effeithiol yn y ffordd y maent yn ysgogi'r gymuned o amgylch yr

ysgol.

Mark Isherwood: You are obviously aware that under your policies, such as the twenty-first century schools agenda and that on your approach to surplus places, local authorities have to propose their own solutions involving school mergers, the removal of sixth forms or what have you. In Flintshire, there is current concern regarding some of the proposals. I know that you will say that it is a matter for the local authority, but it would say that it is your policy that is requiring it to address this. Do you agree that in addition to surplus places, factors such as the role the school plays in the community, the whole-school community ethos and the pooling of budgets within the schools between sixth forms and the lower years are vitally important considerations, or do you feel that the surplus places issue should ride roughshod over everything?

Leighton Andrews: We set out in our guidance on school organisation a variety of factors that local authorities need to take into account when planning the distribution of schools within their area. Clearly, all local authorities have a responsibility to ensure that their school provision is fit for purpose and that they are addressing the issue of surplus places. The issue of surplus places was identified in the recent report by the group on the structure of delivery of education in Wales, chaired by Viv Thomas, as something that needs to be tackled by local authorities across the whole of Wales.

Simon Thomas: It has been a busy week for Estyn because the Estyn report today on the performance of Blaenau Gwent County Borough Council is a damning indictment of the poor standards of educational attainment and leadership in some of our most deprived communities. This local education authority has now been found to be unsatisfactory and in need of special measures in the same year as the Welsh Government's figures, and its own added value tables, rated it as third overall in Wales, and it was said to have two of the top-performing schools in Wales. Which figures are we to believe, Minister, yours or Estyn's? How will your proposed banding system reveal the truth about

Mark Isherwood: Yr ydych yn amlwg yn ymwybodol, o dan eich polisau, megis yr agenda ysgolion unfed ganrif ar hugain ac ar eich ymagwedd tuag at leoedd gwag, mae'n rhaid i awdurdodau lleol cynnig atebion eu hunain sy'n cynnwys uno ysgolion a chael gwared ar chweched dosbarth ac ati. Yn Sir y Fflint, mae yna bryder ynglŷn â rhai o'r cynigion. Gwn y byddwch yn dweud ei fod yn fater i'r awdurdod lleol, ond byddai hwnnw'n dweud mai eich polisi chi sy'n ei orfodi i ymdrin â hyn. A ydych yn cytuno, yn ogystal â lleoedd gwaged, bod ffactorau megis y rôl y mae'r ysgol yn chwarae yn y gymuned, ethos cymuned ysgol gyfan a chyfuno cyllidebau o fewn ysgolion rhwng dosbarthau'r chweched a'r blynyddoedd is yn ystyriaethau hanfodol bwysig, neu a ydych yn teimlo y dylai mater lleoedd gwag sathru ar bopeth?

Leighton Andrews: Nodir gennym yn ein canllawiau ar drefniadaeth ysgolion amrywiaeth o ffactorau y mae angen i awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth wrth gynllunio dosbarthiad yr ysgolion o fewn eu hardaloedd. Yn amlwg, mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod eu darpariaeth ysgolion yn addas at y diben a'u bod yn rhoi sylw i'r broblem o leoedd gwag. Nodwyd y mater o leoedd gwag yn yr adroddiad diweddar gan y grŵp ar y strwythur cyflenwi addysg yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth Viv Thomas, fel rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef gan awdurdodau lleol ar draws Cymru gyfan.

Simon Thomas: Bu'n wythnos brysur i Estyn oherwydd bod adroddiad Estyn heddiw ar berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gyhuddiad damniol o safonau gwael cyrhaeddiad addysgol ac arweinyddiaeth mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Canfuwyd yr awdurdod addysg lleol hwn bellach yn anfodddhaol ac angen mesurau arbennig yn yr un flwyddyn ag y gwnaeth ffigurau Lywodraeth Cymru a'i thablau gwerth ychwanegol ei hun, ei raddio'n drydydd yn gyffredinol yng Nghymru, ac fe'i dywedwyd bod ganddo ddau o'r ysgolion sy'n perfformio uchaf yng Nghymru. Pa ffigurau y dylem eu credu, Weinidog, eich rhai chi neu Estyn? Sut y

educational attainment in Wales and raise our poorest children out of their present poverty of aspiration?

Leighton Andrews: I will be making a statement later on the Estyn report on Blaenau Gwent and I will go into much more detail on the issues raised. In respect of the issue of value added, this is one of the reasons why we do not accept the basis of simplistic league tables. We believe that there are a wide range of factors that need to be taken into account in making judgments about the banding of schools. However, this is not a question of our figures versus Estyn's. Estyn's conclusions are very clear and, as I said, I will respond to those later.

Simon Thomas: I thank the Minister for that answer and we will have an opportunity to go into that in a bit more detail later. However, the Minister has another problem, does he not, because today's statement by the Higher Education Funding Council for Wales has revealed a lack of strategic direction in many of our higher education institutions? Its solution—and his it seems—is to merge these institutions together. I am not sure, however, quite what benefit accrues from merging two institutions that both lack strategic direction—this may be a case of the proverbial one-legged duck. Nevertheless, those mergers have proved elsewhere to be incompatible. Therefore, is it now his policy to force these mergers through, and in particular, does he intend to take the powers to enable him to do that?

Leighton Andrews: I intend to follow the same policy as the One Wales Government of Labour and Plaid Cymru; its Cabinet approved HEFCW's corporate strategy last June. That has been the basis for HEFCW's subsequent further consideration of these issues.

Aled Roberts: Minister, in your statement on 29 June, to which you referred previously, you mentioned that one of the principles behind the review, apart from best value, was that higher education institutions had to play to their strengths. One of the recognised strengths of Glyndŵr University, Wrexham,

bydd eich system fandio arfaethedig yn datgelu'r gwir am gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru ac yn codi ein plant tlotaf o'u tlodi presennol o ddyhead?

Leighton Andrews: Byddaf yn gwneud datganiad yn nes ymlaen ar adroddiad Estyn ar Flaenau Gwent ac af i lawer mwy o fanylion ar y materion a godwyd. O ran y mater o werth ychwanegol, mae hwn yn un o'r rhesymau pam nad ydym yn derbyn y sail tablau cynghrair simplistig. Credwn fod angen ystyried amrywiaeth eang o wrth farnu ynghylch y system o fandio ysgolion. Fodd bynnag, nid yw hwn yn fater o ein ffigurau ni yn erbyn rhai Estyn. Mae casgliadau Estyn yn glir iawn ac, fel y dywedais, byddaf yn ymateb i hynny yn ddiweddarach.

Simon Thomas: Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw, a bydd gennym gyfle i fynd i mewn i ychydig mwy o fanylion ar hynny yn nes ymlaen. Fodd bynnag, onid oes gan y Gweinidog broblem arall, oherwydd mae datganiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru heddiw wedi datgelu diffyg cyfeiriad strategol mewn llawer o'n sefydliadau addysg uwch? Ei ateb—ac ymddengys mai ei ateb ef ydyw hefyd—yw uno'r sefydliadau hyn gyda'i gilydd. Nid wyf yn siŵr, fodd bynnag, yn gwmws pa fudd sy'n cronni o uno'r ddau sefydliad a'r ddau ohonynt â diffyg cyfeiriad strategol—gallai hyn fod yn achos o'r hwyaden ungoes diarhebol. Serch hynny, profwyd yr achosion hynny o uno mewn mannau eraill yn anghydnaws. Felly, ai ei bolisi ef yn awr yw gorfodi'r uno hyn, ac yn benodol, a yw'n bwriadu cymryd y pwerau i'w alluogi i wneud hynny?

Leighton Andrews: Yr wyf yn bwriadu dilyn yr un polisi â Llywodraeth Cymru'n Un Llafur a Phlaid Cymru; cymeradwyodd ei Chabinet strategaeth gorfforaethol CCAUC fis Mehefin diwethaf. Dyna fu'r sail ar gyfer ystyriaeth ddilynol bellach CCAUC o'r materion hyn.

Aled Roberts: Weinidog, yn eich datganiad ar 29 Mehefin y cyfeiriasoch ato yn gynharach, soniasoch mai un o'r egwyddorion y tu ôl i'r adolygiad, ar wahân i werth gorau, oedd bod yn rhaid i sefydliadau addysg uwch chwarae yn ôl eu cryfderau. Un o gryfderau cydnabyddedig Prifysgol

is the role it plays in widening participation. Can you, therefore, explain what is meant by Glyndŵr's role being led by Bangor and Aberystwyth?

Leighton Andrews: I have published today a statement on higher education, which contains, appended to it, the advice submitted to me by HEFCW. That is now out for consultation by all stakeholders, and I look forward to the representations that come our way.

Aled Roberts: Following the First Minister's comments yesterday regarding the calculations that have to be made following this week's announcement on tuition fee levels, when are Assembly Members likely to receive that evidence so that we can consider those calculations?

Leighton Andrews: We published the calculations based on an average tuition fee of £9,000 in March, in answer to a freedom of information request from the BBC. That received widespread coverage at the time on *BBC Wales Today* and *Newyddion* and on the BBC's online site. Following what the First Minister said yesterday, and as I said in committee this morning, we will look at the full detail, since we will, over the next few days, be in a position to compile the likely fee levels being set by institutions across England and Wales. That will give us better data on which to compile what are likely to be the future costs for the Government.

William Powell: A recent study by the Sutton Trust showed that just four independent schools and one state sixth-form college, all in the south-east of England, sent more students to Oxbridge than 2,000 schools combined over the three years of the study. Also, figures released by Oxford and Cambridge universities under freedom of information requests showed that just four of 87 applicants from Wales's six least educationally successful regions received offers in 2010. What does the Minister plan to do to ensure that university applicants are not discriminated against on the basis of their economic background or what school they attended in Wales?

Glyndŵr, Wrecsam, yw'r rôl y mae'n ei chwarae yn ehangu cyfranogiad. A allwch chi, felly, egluro'r hyn a olygir gan rôl Glyndŵr yn cael ei arwain gan Fangor ac Aberystwyth?

Leighton Andrews: Yr wyf wedi cyhoeddi datganiad heddiw ar addysg uwch, sy'n cynnwys, wedi'i atodi iddo, y cyngor a gyflwynwyd i mi gan CCAUC. Mae hynny'n awr allan ar gyfer ymgynghori gan yr holl randdeiliaid, ac edrychaf ymlaen at y cynrychiolaethau ger ein bron.

Aled Roberts: Yn dilyn sylwadau'r Prif Weinidog ddoe ynglŷn â'r cyfrifiadau hynny sydd yn rhaid eu gwneud yn dilyn y cyhoeddiad yr wythnos hon ar lefelau ffioedd dysgu, pryd mae Aelodau'r Cynulliad yn debygol o dderbyn y dystiolaeth honno fel y gallwn ystyried y cyfrifiadau hynny?

Leighton Andrews: Fe wnaethom gyhoeddi'r cyfrifiadau yn seiliedig ar ffi dysgu gyfartalog o £9000 ym mis Mawrth, mewn ateb i gais rhyddid gwybodaeth gan y BBC. Derbyniodd hynny darllediad eang ar y pryd ar *BBC Wales Today* a *Newyddion* ac ar safle ar-lein y BBC. Yn dilyn yr hyn y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, ac fel y dywedais yn y pwyllgor y bore yma, byddwn yn edrych ar y manylion llawn, gan fyddwn, dros y dyddiau nesaf, mewn sefyllfa i lunio'r lefelau tebygol o ffioedd a osodir gan sefydliadau ledled Cymru a Lloegr. Byddai hynny'n rhoi gwell data ar gyfer llunio beth sy'n debygol o fod yn gostau i'r Llywodraeth yn y dyfodol.

William Powell: Dangosodd astudiaeth ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Sutton fod dim ond pedwar ysgol annibynnol ac un coleg chweched dosbarth gwladol, oll yn neddwyrain Lloegr, yn anfon mwy o fyfyrwyr i Oxbridge na chyfuniad o 2,000 o ysgolion dros dair blynedd yr astudiaeth. Hefyd, dengys ffigurau a gyhoeddwyd gan brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt o dan geisiadau rhyddid gwybodaeth mai dim ond pedwar o 87 o ymgeiswyr o'r chwe rhanbarth lleiaf llwyddiannus ym myd addysg Cymru oedd wedi derbyn cynnig yn 2010. Beth mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn ymgeiswyr prifysgol ar sail eu cefndir economaidd neu'r

ysgol y gwnaethon fynychu yng Nghymru?

Leighton Andrews: The first thing that we are doing in Wales is to ensure that we pay the additional cost that would be levied on students travelling to higher education institutions, whether they study in Wales or in England—a policy that I urge the Member to encourage his colleagues in the UK Cabinet to follow.

Addysg Gymraeg yn y Gogledd-ddwyrain

3. Llyr Huws Gruffydd: *Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru o safbwynt Addysg Gymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. OAQ(4)0021(ESK)*

Leighton Andrews: Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn amlinellu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer twf parhaol hyfforddiant ac addysg cyfrwng Cymraeg, a fydd yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith, a hynny ym mhob rhan o Gymru.

Llyr Huws Gruffydd: Mae cynlluniau i ad-drefnu ysgolion sir y Fflint yn bygwth dyfodol addysg Gymraeg yn y sir. Mae bwriad i uno Ysgol Gwenffrwd gyda thair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ar un campws yn Nhreffynnon. Bydd hynny yn chwalu ethos ac awyrgylch Gymraeg yr ysgol. Bydd hefyd yn lleihau'r nifer sy'n mynd ymlaen i addysg uwchradd Gymraeg, wrth i rieni ddewis cadw eu plant ar yr un safle. Yn yr un modd, mae rhieni Ysgol Terrig yn Nhreuddyn yn wynebu'r posibilrwydd y bydd eu hysgol yn cael ei huno gydag ysgol cyfrwng Saesneg. A yw hyn yn gydnaws â'ch gweledigaeth i ddatblygu addysg Gymraeg? A wnewch ysgrifennu at Gyngor Sir y Fflint i'w annog i ailystyried ei gynlluniau?

Leighton Andrews: Mae'n amhosibl i mi ddweud unrhyw beth ar y pwnc hwn gan ei bod yn bosibl y bydd cynnig sir y Fflint yn dod ataf er mwyn i mi benderfynu arno yn y dyfodol.

Mark Isherwood: I am a former chair of

Leighton Andrews: Y peth cyntaf yr ydym yn ei wneud yng Nghymru yw sicrhau ein bod yn talu'r gost ychwanegol y codir ar fyfyrwyr sy'n teithio i sefydliadau addysg uwch, pe baent yn astudio yng Nghymru neu yn Lloegr—polisi yr wyf yn erfyn ar yr Aelod i annog ei gyd-Aelodau yng Nghabinet y DU i ddilyn.

Welsh Education in North-east Wales

3. Llyr Huws Gruffydd: *What is the Welsh Government's vision with regard to Welsh Education in North East Wales. OAQ(4)0021(ESK)*

Leighton Andrews: The Welsh-medium education strategy outlines the Welsh Government's long-term vision for the continuing growth of Welsh-medium education and training, which will lead to an increase in the number of people who are able to use the language with their families, in their communities and in the workplace in all parts of Wales.

Llyr Huws Gruffydd: Plans to reorganise Flintshire schools threaten the future of Welsh-medium education in the county. Plans have been drawn up to merge Ysgol Gwenffrwd with three English-medium primary schools and an English-medium secondary school on one campus in Holywell. That will destroy the school's Welsh ethos and atmosphere. It will also lead to a reduction in the numbers going on to Welsh-medium secondary education, as parents choose to keep their children on the same site. Likewise, parents at Ysgol Terrig, Treuddyn face the possibility that their school will be merged with an English-medium school. Is this compatible with your vision for developing Welsh-medium education? Will you write to Flintshire County Council to encourage it to reconsider its plans?

Leighton Andrews: It is impossible for me to say anything on this subject as Flintshire council's proposal could come to me for a decision in the future.

Mark Isherwood: Yr wyf yn gyn-gadeirydd

governors at Ysgol Parc y Llan, which is one of the schools that could potentially be merged with Ysgol Terrig, next door. In fact, the proposals have now moved on from amalgamation to federation, respecting the importance of immersion in the Welsh language. Therefore, although they might share a governing body and a headteacher, they would be completely separate, including at play time and lunch time and for sport and learning. Do you agree that, whatever the decision taken, it must respect the importance of immersion in the Welsh language? As Menter Iaith in Flintshire has said, keeping the Welsh-medium provision apart from the English-medium provision in a county such as Flintshire is essential, and, clearly, that would also apply in Holywell with Gwenffrwd, as we have heard, and also a possible replacement for Ysgol Croes Atti in Oakenhalt.

Leighton Andrews: One of the first statements that I issued in the previous Assembly related to the impact of transformation proposals on the Welsh language. We have said that we do not wish to see transformation proposals reduce the availability of Welsh-medium education.

Kenneth Skates: Minister, following the written statement that you issued today about the future of higher education in Wales, I wish to put on record my support for the efforts to secure a stronger working relationship between higher education institutions in Wales by 2013. Creating a world-class university structure is a project that we can all support and I look forward to seeing this work continue over coming years. Following on from that, I ask whether consideration can be given to examining the specific challenges being faced by institutions in the north and mid Wales regions. The geographical challenges that closer institutional working pose are significant, and it is important to protect smaller institutions from becoming mere satellite arms of larger universities. This is particularly important—

The Presiding Officer: Order. Are you coming to a question soon?

llywodraethwyr Ysgol Parc y Llan, sy'n un o'r ysgolion hynny gellid, o bosibl, eu huno ag Ysgol Terrig, drws nesaf. Mewn gwirionedd, mae'r cynigion bellach wedi symud ymlaen o uno i ffederasiwn, sy'n parchu pwysigrwydd trochiad yn y Gymraeg.

Felly, er efallai eu bod yn rhannu corff llywodraethu a phennaeth, fyddent yn hollol ar wahân, gan gynnwys amser chwarae ac amser cinio ac ar gyfer chwaraeon a dysgu. A ydych yn cytuno, beth bynnag fo'r penderfyniad, rhaid ei pharchu pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg? Mae dweud fel Menter Iaith yn Sir y Fflint, cadw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar wahân o'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn sir fel mae Sir y Fflint yn hanfodol, ac, yn amlwg, hefyd fyddai'n berthnasol yn Nhreffynnon gyda Gwenffrwd, fel rydym wedi clywed, a hefyd yn disodli posibl ar gyfer Ysgol Croes Atti yn Oakenhalt.

Leighton Andrews: Roedd un o'r datganiadau cyntaf a gyhoeddais yn y Cynulliad blaenorol yn ymwneud ag effaith y cynigion ar gyfer trawsnewid ar yr iaith Gymraeg. Yr ydym wedi dweud nad ydym am weld cynigion trawsnewid yn lleihau argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg.

Kenneth Skates: Weinidog, yn dilyn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gennych heddiw ynglŷn â dyfodol addysg uwch yng Nghymru, hoffwn ddweud ar goedd fy mod yn cefnogi ymdrechion i sicrhau cydberthynas gwaith cryfach rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru erbyn 2013. Mae creu strwythur prifysgol o'r radd flaenaf yn brosiect a gallwn ni i gyd ei gefnogi ac edrychaf ymlaen at weld y gwaith hwn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Yn dilyn hynny, gofynnaf a ellir rhoi ystyriaeth i archwilio'r heriau penodol a wynebwr gan sefydliadau yn rhanbarthau'r gogledd a'r canolbarth. Mae'r heriau daearyddol sy'n codi o ganlyniad i gydweithio agosach rhwng sefydliadau yn sylweddol, ac mae'n bwysig amddiffyn sefydliadau llai rhag dod yn ddim byd mwy na changhennau sy'n perthyn i brifysgolion mwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig —

Y Llywydd: Trefn. A ydych chi ar fin cyrraedd y cwestiwn?

Kenneth Skates: Yes. This is particularly important where lucrative cross-border manufacturing links are present. Minister, will you commit to ensuring that, in creating a world-class higher education system, particularly in north-east Wales, the strengths of the current structure are not lost and that new collaborative arrangements continue to serve the needs of learners, businesses and communities?

Leighton Andrews: Clearly, we want the higher education system in Wales to play to its strengths, and the Member has made a good case for the strengths that exist in north-east Wales in respect of support for learners and the needs of business, including our anchor companies. We have now put those proposals out for consultation. I look forward to the comments that we will receive on them. The Member will be well aware of the commitment that we made in our manifesto to ensuring that there were a smaller number of stronger universities, a policy that, of course, I am following and which we were also implementing in the previous Government.

Dysgu Plant i Ddarllen

4. Simon Thomas: *Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r dulliau gorau o ddysgu plant i ddarllen. OAQ(4)0020(ESK)*

Leighton Andrews: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y gallu i ddarllen yn effeithiol yn hanfodol er mwyn datblygu o ran dysgu ac er mwyn gallu cymryd rhan yn llawn yn yr ysgol a thu hwnt. Yr ydym yn parhau i ddweud y dylid defnyddio gwybodaeth ffonig a graffig ynghyd â dealltwriaeth gyd-destunol fel strategaethau ar gyfer datblygu darllen.

Simon Thomas: Diolchaf i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw a oedd yn glir iawn. Mae'n dweud mai dyma'r ffordd ymlaen o ran addysgu darllen yn ein hysgolion. A ydyw'n fwiad ganddo sicrhau mai dyna'r dechneg a ddefnyddir, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1? A ydyw felly yn bwriadu cyflwyno'r prawf darllen cenedlaethol sydd

Kenneth Skates: Ydw. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae cysylltiadau gweithgynhyrchu proffidiol a thrawsffiniol yn bresennol. Weinidog, a wnewch chi ymrwmo i sicrhau, wrth greu system addysg uwch o'r radd flaenaf, yn enwedig yng ngogledd-ddwyrain Cymru, nad yw cryfderau'r strwythur presennol yn mynd ar goll a bod trefniadau cydweithredol newydd yn parhau i gwrdd ag anghenion y dysgwyr, busnesau a chymunedau?

Leighton Andrews: Yn amlwg, yr ydym am i'r system addysg uwch yng Nghymru weithredu ar sail ei chryfderau, a gwnaeth yr Aelod achos da dros y cryfderau sy'n bodoli yng ngogledd-ddwyrain Cymru o ran cymorth ar gyfer dysgwyr ac anghenion busnes, gan gynnwys ein cwmnïau angori. Yr ydym bellach wedi cyhoeddi'r cynigion hynny ar gyfer ymgynghori. Edrychaf ymlaen at y sylwadau a gawn arnynt. Bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o'r ymrwymiad a wnaethom yn ein maniffesto i sicrhau bod gennym nifer lai o brifysgolion cryfach, sef polisi, wrth gwrs, yr wyf yn ei ddilyn ac yr oeddem hefyd yn ei weithredu yn y Llywodraeth flaenorol.

Teaching Children to Read

4. Simon Thomas: *What assessment has the Welsh Government made of the best means of teaching children to read. OAQ(4)0020(ESK)*

Leighton Andrews: The Welsh Government acknowledges that the ability to read effectively is essential to progress in learning and to fully participate in school and beyond. We maintain that phonic and graphic knowledge and contextual understanding should be used as strategies to develop reading.

Simon Thomas: I thank the Minister for that very clear answer. He says that that is the way forward in terms of teaching reading in our schools. Is it his intention to ensure that that is the technique that will be used, especially in key stage 1? Does he therefore intend to introduce the national reading test that he has in the pipeline to respond to this

ganddo ar y gweill i ymateb i'r dechneg addysgu darllen hon?

technique of teaching reading?

Leighton Andrews: I have already announced that national reading tests will take effect from this autumn. That will be followed through on the basis of the recommendations made to us by Professor Rhona Stainthorp following her evaluation of the reading tests that were in operation across Wales. She said that there were some inconsistencies in what was being delivered. Therefore, we would expect that for years 2 to 5 there will be a national reading test introduced in the summer term, and I am pleased that the Association of Directors of Education in Wales has agreed to seek to implement the reading test from this year. I very much welcome the support that the Member is giving to the initiatives that we are taking on literacy.

Leighton Andrews: Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi y daw profion darllen cenedlaethol i rym o'r hydref hwn. Caiff hynny ei gyflawni ar sail yr argymhellion a wnaethpwyd i ni gan yr Athro Rhona Stainthorp yn dilyn ei gwerthusiad o'r profion darllen a oedd yn gweithredu ledled Cymru. Dywedodd fod rhai anghysondebau yn yr hyn a oedd yn cael ei gyflawni. Felly, byddem yn disgwyl y caiff brawf darllen cenedlaethol ar gyfer blynyddoedd 2 i 5 ei gyflwyno yn nhymor yr haf, ac yr wyf yn falch bod Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru wedi cytuno ceisio gweithredu'r prawf darllen o eleni. Croesawaf yn fawr y gefnogaeth y mae'r Aelod yn ei rhoi i'r mentrau rydym yn eu cymryd ar lythrennedd.

Angela Burns: Will you be able to assure us about two things, Minister? First, I seek assurance that the Department for Education and Skills now understands the role of a learning support assistant—it was clear that the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills did not understand that when the previous Finance Committee carried out an inquiry into the funding of the foundation phase, because its officials did not realise that an LSA is there to look after specific children rather than being a factotum at the beck and call of teachers. The second thing on which I am seeking an assurance is that reading, which is so important to our children, will now become a prime job of teachers, rather than be given out to other people who may not have reading as one of the direct focuses of their jobs.

Angela Burns: A allwch roi sicrwydd inni am ddau beth, Weinidog? Yn gyntaf, gofynnaf am sicrwydd bod yr Adran Addysg a Sgiliau bellach yn deall rôl cynorthwydd cymorth dysgu—yr oedd yn amlwg nad oedd yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn deall hynny pan gynhaliodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol ymchwiliad i mewn i ariannu'r cyfnod sylfaen, oherwydd nad oedd ei swyddogion yn sylweddoli bod cynorthwydd cymorth dysgu yno i edrych ar ôl plant penodol yn hytrach na bod yn Siôn pob swydd at alwad athrawon. Yr ail beth yr wyf yn ceisio sicrwydd yn ei gylch yw y bydd darllen, sydd mor bwysig i'n plant, yn awr yn dod yn brif swydd i athrawon, yn hytrach nag yn cael ei roi allan i bobl eraill nad yw darllen efallai yn un o ganolbwyntiau uniongyrchol eu swyddi.

1.45 p.m.

Leighton Andrews: I do not accept the first point that she made. In respect of the teaching of reading, the reality is that we have many skilled practitioners in the school workforce who are teaching reading. Indeed, I met a teaching assistant in Narberth on Saturday who has been actively engaged in the teaching of reading for many years. This is not something that we have to see simply as the responsibility of teachers. Although we

Leighton Andrews: Nid wyf yn derbyn y pwynt cyntaf a wnaeth hi. Mewn perthynas ag addysgu darllen, y gwir amdani yw bod gennym lawer o ymarferwyr medrus yn y gweithlu ysgolion sy'n addysgu darllen. Yn wir, cyfarfûm â chynorthwy-ydd addysgu yn Arberth ddydd Sadwrn sydd wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn addysgu darllen am lawer o flynyddoedd. Nid yw hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei weld fel

want all teachers to see themselves as teachers of literacy, the teaching of reading is something that we would expect to be shared within the school workforce.

Cwmni Gyrfa Cenedlaethol ar gyfer Cymru

5. Mark Drakeford: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amserlen y mae'n bwriadu ei dilyn i gyflwyno un cwmni gyrfa cenedlaethol ar gyfer Cymru. OAQ(4)0023(ESK)*

The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert): Thank you for the question. My officials are undertaking work on the options for establishing a single body for the delivery of careers services. This requires complex work to determine both the form of the new organisation and its remit. I expect to make an announcement in the autumn outlining the future of the careers service.

Mark Drakeford: I thank the Deputy Minister for that answer. Can he give us an assurance that, as part of that complex plan, consultation is taking place between the Welsh Government and Careers Wales, as an employer, and with the employees of that organisation and the relevant trade unions?

Jeff Cuthbert: I can confirm that dialogue with Careers Wales continues. I will be meeting board members as required. Tomorrow, I have a meeting with the chair of NewCo—the organisation that embraces the six companies currently—and its interim chief executive. I am also awaiting information from Unison, which is conducting its own review of this matter.

Nick Ramsay: Deputy Minister, this process involves bringing together different strands and existing programmes. I wish to ask you about the effect on existing programmes. I am thinking specifically about project dynamo in my constituency, in Monmouth Comprehensive School, which has helped younger people to develop their entrepreneurial skills and an interest in entrepreneurship generally, ready for when they enter the world of work. Can you tell the

cyfrifoldeb athrawon yn unig. Er ein bod am i bob athro i weld eu hunain fel athrawon llythrennedd, mae addysgu darllen yn rhywbeth y byddem yn disgwyl iddo gael ei rannu o fewn gweithlu'r ysgol.

A National Careers Company for Wales

5. Mark Drakeford: *Will the Minister outline the timetable against which he plans to bring about a single, national careers company for Wales. OAQ(4)0023(ESK)*

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert): Diolch am y cwestiwn. Mae fy swyddogion yn gwneud gwaith ar yr opsiynau ar gyfer sefydlu un corff ar gyfer darparu gwasanaethau gyrfaoedd. Mae hyn yn mynnu gwaith cymhleth i bennu ffurf y sefydliad newydd a'i gylch gwaith. Yr wyf yn disgwyl gwneud cyhoeddiad yn yr hydref yn amlinellu dyfodol y gwasanaeth gyrfaoedd.

Mark Drakeford: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ateb hwnnw. A all roi sicrwydd i ni, fel rhan o'r cynllun cymhleth hwnnw, bod ymgynghoriad yn digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Gyrfaoedd Cymru, fel cyflogwr, a gyda gweithwyr y sefydliad hwnnw a'r undebau llafur perthnasol?

Jeff Cuthbert: Gallaf gadarnhau bod deialog gyda Gyrfaoedd Cymru yn parhau. Byddaf yn cwrdd ag aelodau'r bwrdd yn ôl y gofyn. Yfory, byddaf yn cyfarfod â chadeirydd NewCo—y sefydliad sy'n cwmpasu'r chwe chwmmi ar hyn o bryd—a'i brif weithredwr dros dro. Yr wyf hefyd yn aros am wybodaeth gan Unison, sydd yn cynnal ei adolygiad ei hun o'r mater hwn.

Nick Ramsay: Ddirprwy Weinidog, mae'r broses hon yn golygu dwyn ynghyd wahanol linyddau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Hoffwn ofyn i chi am yr effaith ar y rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Yr wyf yn meddwl yn benodol am brosiect dynamo yn fy etholaeth, yn Ysgol Gyfun Trefynwy, sydd wedi helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaidd a diddordeb mewn entrepreneuriaeth yn gyffredinol, yn barod ar gyfer pan fyddant yn mynd i mewn i'r byd

Assembly how the new single national careers service will tie in with existing programmes so that we do not lose a lot of the good work that has been done to date?

Jeff Cuthbert: I thank the Member for Monmouth for that. If he would like to send me more details of project dynamo as it operates in his constituency, I will certainly take that information on board. However, what I can say at the moment is that the roles, responsibilities and remit of the new organisation are being considered by my officials and will form part of my deliberations. It is important that good initiatives continue.

Alun Ffred Jones: Mae Gyrfa Cymru a'r modd y mae'n gweithredu yn fy ardal i wedi bod yn llwyddiannus iawn. Yr hyn sydd o ddiddordeb i mi wrth i chi fwrw ymlaen â'ch cynlluniau yw deall sut yr ydych yn bwriadu cynnal yr adnabyddiaeth leol honno a'r arweiniad lleol hwnnw sydd wedi bod yn nodwedd o'r gwasanaeth hyd yn hyn.

Jeff Cuthbert: Thank you for that question. There is nothing to suggest that a single unified company will not have local flexibility, and where there are examples of good practice, I expect those to be taken into account.

Dioddefwyr Aflonyddu Hiliol Neu Rywiol

6. Jocelyn Davies: *Pa arweiniad fydd y Gweinidog yn ei roi i ysgolion ynghylch cefnogi dioddefwyr aflonyddu hiliol neu rywiol. OAQ(4)0027(ESK)*

Leighton Andrews: Building on the existing guidance, 'Respecting Others', we will be issuing more specific guidance on five forms of bullying, including racial and sexual bullying, in the autumn. Our school-based counselling initiative provides support for young people who need it in this context.

Jocelyn Davies: I recently asked Newport City Council to give me information on school exclusions and was very pleased to find that the number of exclusions had in fact

gwaith. A allwch chi ddweud wrth y Cynulliad sut y bydd y gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol newydd sengl yn cyd-fynd â rhaglenni sy'n bodoli eisoes fel nad ydym yn colli llawer o'r gwaith da sydd wedi'i wneud hyd yn hyn?

Jeff Cuthbert: Diolch i'r Aelod dros Fynwy am hynny. Pe byddai am anfon mwy o fanylion i mi am y prosiect dynamo fel y mae'n gweithredu yn ei etholaeth, byddwn yn sicr yn ystyried y wybodaeth. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd yw bod y rolau, cyfrifoldebau a chylch gwaith y sefydliad newydd yn cael eu hystyried gan fy swyddogion ac yn rhan o'm trafodaethau. Mae'n bwysig bod mentrau da yn parhau.

Alun Ffred Jones: Careers Wales and the way in which it operates in my area have been very successful. As you press ahead with your plans I am interested in understanding how you intend to maintain that local recognition and leadership that have been a feature of the service thus far.

Jeff Cuthbert: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Nid oes unrhyw beth i awgrymu na fydd cwmni unedig sengl yn cael hyblygrwydd lleol, a lle y ceir enghreifftiau o arfer da, yr wyf yn disgwyl i'r rheiny gael eu cymryd i ystyriaeth.

Victims of Racial or Sexual Harassment

6. Jocelyn Davies: *What guidance does the Minister issue to schools with regards to supporting the victims of racial or sexual harassment. OAQ(4)0027(ESK)*

Leighton Andrews: Gan adeiladu ar y canllawiau presennol, 'Parchu Eraill', byddwn yn cyhoeddi canllawiau mwy penodol ar bum math o fwlio, gan gynnwys bwlio hiliol a rhywiol, yn yr hydref. Mae ein menter cwnsela yn yr ysgol yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc y mae arnynt ei angen yn y cyd-destun hwn.

Jocelyn Davies: Yn ddiweddar, gofynnais i Gyngor Dinas Casnewydd am wybodaeth am waharddiadau ysgolion ac roeddwn yn falch iawn o weld bod nifer y gwaharddiadau

dropped considerably in recent years. However, are you aware that the number of cases of racial and sexual harassment had increased? As this is consistent with the evidence that was gathered on sexual harassment by the Bailey review of premature sexualisation, and if this trend is consistent across the country, will you take steps to give greater support to schools and, more importantly, to the victims?

Leighton Andrews: Yes, indeed; I think that you raised a number of important points. The main focus of this year's Anti-bullying Week will be to raise awareness in the education community of our new guidance, which will give a further opportunity to highlight the importance of tackling racial and sexual bullying and the approaches that may be used in order to do this. It is essential that all schools have effective anti-bullying strategies.

Byron Davies: Minister, we all recognise that education has a key role to play in eradicating racism and promoting the value of diversity. All education establishments, including those with few or no ethnic minority pupils, have a responsibility in this regard. Promoting racial equality demands a whole-school approach and a commitment from all of those involved in the life and work of their school. There is a worrying link between racism and poor educational achievement. Minister, will you outline your plans to increase awareness and understanding of the impact of racism on educational achievement?

Leighton Andrews: Yes, but I start by reminding the Assembly that we are increasing the budgets for the ethnic minority attainment grant over the period of this spending review. The points that the Member raises are valid. It is essential that, through our community cohesion initiatives, we take forward the agenda to tackle racism. We have published separate guidance documents for school and further education institutions and, throughout the guidance, the emphasis is on protecting vulnerable young people through a range of strategies. We have held awareness-raising sessions across Wales for some local

mewn gwirionedd wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, a ydych yn ymwybodol bod nifer yr achosion o aflonyddu hiliol a rhywiol wedi cynyddu? Gan fod hyn yn gyson â'r dystiolaeth a gasglwyd ar aflonyddu rhywiol gan adolygiad Bailey o rywioli cyn pryd, ac os yw'r duedd hon yn gyson ar draws y wlad, a fyddwch yn cymryd camau i roi mwy o gefnogaeth i ysgolion ac, yn bwysicach, i'r dioddefwyr?

Leighton Andrews: Ie, yn wir; rwyf yn meddwl eich bod wedi codi nifer o bwyntiau pwysig. Prif ffocws yr Wythnos Gwrth-fwlio eleni fydd codi ymwybyddiaeth yn y gymuned addysg o'n canllawiau newydd, a fydd yn rhoi cyfle pellach i dynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael â bwlio hiliol a rhywiol a'r dulliau y gellir eu defnyddio er mwyn gwneud hyn. Mae'n hanfodol bod gan bob ysgol strategaethau gwrth-fwlio effeithiol.

Byron Davies: Weinidog, yr ydym i gyd yn cydnabod bod gan addysg ran allweddol i'w chwarae mewn dileu hiliaeth a hyrwyddo gwerth amrywiaeth. Mae gan bob sefydliad addysgol, gan gynnwys y rhai sydd ag ychydig neu ddim disgyblion o leiafrifoedd ethnig, gyfrifoldeb yn hyn o beth. Mae hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gofyn am ymagwedd ysgol gyfan ac ymrwymiad gan bawb sy'n ymwneud â bywyd a gwaith eu hysgol. Mae cysylltiad sy'n peri pryder rhwng hiliaeth a chyflawniad addysgol gwael. Weinidog, a wnewch chi amlinellu eich cynlluniau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith hiliaeth ar gyflawniad addysgol?

Leighton Andrews: Ie, ond yr wyf am ddechrau drwy atgoffa'r Cynulliad ein bod yn cynyddu'r cyllidebau ar gyfer y grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig dros gyfnod yr adolygiad hwn o wariant. Mae'r pwyntiau y mae'r Aelod yn eu codi yn ddilys. Mae'n hanfodol, drwy ein mentrau cydlyniedol, ein bod yn bwrw ymlaen â'r agenda i fynd i'r afael â hiliaeth. Rydym wedi cyhoeddi dogfennau canllaw ar wahân ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach a, thrwy'r canllawiau, mae'r pwyslais ar amddiffyn pobl ifanc sy'n agored i niwed drwy amrywiaeth o strategaethau. Rydym

authorities and for students alongside organisations such as Show Racism the Red Card, and I would like to commend the work being done by that organisation and others.

Bwlio Homoffobig

7. Christine Chapman: Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion. OAQ(4)0029(ESK)

Leighton Andrews: We shall be issuing comprehensive new guidance on bullying, including homophobic bullying, in the autumn. In addition, bullying is addressed through personal and social education. Support for young people is available through the school-based counselling initiative and we promote programmes to manage pupils' behaviour and support their emotional development.

Christine Chapman: Thank you for that reply, Minister. The recent Stonewall publication, 'The School Report', shows that 98 per cent of young people hear homophobic phrases such as 'That's so gay', or, 'You're so gay' in schools. Homophobic bullying is particularly damaging to young people, making them more likely to leave school early, more prone to truancy, more vulnerable to mental health problems and at a higher risk of self-harm or suicide. In addition, the legacy of section 28 means that teachers have often received little or no training in how to deal with such issues in the classroom. Will the Minister ensure that raising awareness about this is integrated into future teacher training and retraining programmes?

Leighton Andrews: The Member has raised a series of important questions. We believe that there should be zero tolerance of any form of bullying. My officials will be working with organisations such as Stonewall Cymru specifically on the issue of homophobic bullying. The new guidance that we will produce this autumn, combined with

wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ar draws Cymru ar gyfer rhai awdurdodau lleol ac ar gyfer myfyrwyr ochr yn ochr â sefydliadau megis Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, a hoffwn ganmol y gwaith a wneir gan y sefydliad hwnnw ac eraill.

Homophobic Bullying

7. Christine Chapman: What is the Welsh Government doing to tackle homophobic bullying in schools. OAQ(4)0029(ESK)

Leighton Andrews: Byddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd cynhwysfawr ar fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig, yn yr hydref. Ar ben hynny, eir i'r afael â bwlio drwy addysg bersonol a chymdeithasol. Mae cefnogaeth i bobl ifanc ar gael drwy'r fenter cwnsela mewn ysgolion ac rydym yn hyrwyddo rhaglenni i reoli ymddygiad disgyblion ac yn cefnogi eu datblygiad emosiynol.

Christine Chapman: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae cyhoeddiad diweddar Stonewall, 'Yr Adroddiad Ysgol', yn dangos bod 98 y cant o bobl ifanc yn clywed ymadroddion homoffobig megis 'Mae hynny mor hoyw', neu, 'Rydych chi mor hoyw' yn yr ysgolion. Mae bwlio homoffobig yn arbennig o niweidiol i bobl ifanc, gan eu gwneud yn fwy tebygol o adael yr ysgol yn gynnar, yn fwy tueddol o driwanta, yn fwy agored i broblemau iechyd meddwl ac mewn mwy o berygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad. Yn ogystal, mae'r hyn a etifeddir o adran 28 yn golygu bod athrawon yn aml wedi cael ychydig neu ddim hyfforddiant ar sut i ymdrin â materion o'r fath yn yr ystafell ddsbarth. A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod codi ymwybyddiaeth am hyn yn cael ei integreiddio i raglenni hyfforddi ac ailhyfforddi athrawon yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Mae'r Aelod wedi codi cyfres o gwestiynau pwysig. Credwn na ddylai fod unrhyw oddefgarwch o unrhyw fath o fwlio. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau megis Stonewall Cymru yn benodol ar y mater o fwlio homoffobig. Bydd y canllawiau newydd y byddwn yn cynhyrchu yr hydref hwn, ynghyd

the planned training modules on behaviour-management issues for teachers, the meetings with anti-bullying co-ordinators that will take place in all local authorities, and the Anti-bullying Week amount to an approach that will start to get to grips with this issue. However, the Member has raised a subject that will require sustained work over a period of time by us and a number of other organisations.

Mohammad Asghar: Minister, I am a big supporter of faith schools. They have a hugely important role to play in our education system and I was proud that the Welsh Conservative's manifesto for the election included a commitment to support faith schools. However, I am concerned that the Stonewall report highlights the issues that can exist regarding homophobic bullying in faith schools. The report shows that staff in faith schools are only half as likely to see homophobic bullying as a serious problem, yet Stonewall says that pupils in faith schools are more likely to experience homophobic bullying. How is the Welsh Government working with teachers and pupils to deal with such situations in Wales?

Leighton Andrews: The Member rightly raises the challenges faced in relation to homophobic bullying in faith schools as well as the wider school environment. We expect faith schools to adopt a similar approach to that taken by all other schools in Wales in co-operation with organisations such as Stonewall Cymru and the Welsh Government. One thing that we need to ensure within the faith school network—this is a point that I made in my speech to a recent conference of faith schools in Wales—is that we have to demonstrate that they are diverse communities and that they understand their obligations to all of their members.

Leanne Wood: Minister, I am not sure whether it is the same one referred to earlier, but a survey conducted by Stonewall three years ago, which surveyed more than 2,000 primary and secondary school teachers across the UK, found that nine out of 10 secondary

â'r modiwlau hyfforddiant arfaethedig ar faterion rheoli ymddygiad ar gyfer athrawon, y cyfarfodydd gyda chydlynwyr gwrth-fwlio a fydd yn digwydd ym mhob awdurdod lleol, a'r Wythnos Gwrth-fwlio yn creu ymagwedd a fydd yn dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'r Aelod wedi codi pwnc a fydd yn gofyn am waith parhaus dros gyfnod o amser gennym ni a nifer o sefydliadau eraill.

Mohammad Asghar: Weinidog, yr wyf yn gefnogwr mawr o ysgolion ffydd. Mae ganddynt rôl bwysig iawn i'w chwarae yn ein system addysg ac roeddwn yn falch bod maniffesto Ceidwadwyr Cymru ar gyfer yr etholiad yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi ysgolion ffydd. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu bod adroddiad Stonewall yn amlygu'r materion a all fodoli ynghylch bwlio homoffobig mewn ysgolion ffydd. Dengys yr adroddiad fod staff mewn ysgolion ffydd dim ond hanner mor debygol o weld bwlio homoffobig fel problem ddifrifol, ac eto mae Stonewall yn dweud bod disgyblion mewn ysgolion ffydd yn fwy tebygol o brofi bwlio homoffobig. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag athrawon a disgyblion i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath yng Nghymru?

Leighton Andrews: Mae'r Aelod yn iawn i godi heriau a wynebier mewn perthynas â bwlio homoffobig mewn ysgolion ffydd yn ogystal ag amgylchedd ehangach yr ysgol. Rydym yn disgwyl i ysgolion ffydd fabwysiadu ymagwedd debyg i'r hyn a gymerir gan yr holl ysgolion eraill yng Nghymru mewn cydweithrediad â sefydliadau fel Stonewall Cymru a Llywodraeth Cymru. Un peth y mae angen i ni ei sicrhau o fewn rhwydwaith yr ysgol ffydd—mae hyn yn bwynt a wnes yn fy araith i gynhadledd ddiweddar o ysgolion ffydd yng Nghymru—yw bod yn rhaid i ni ddangos eu bod yn gymunedau amrywiol a'u bod yn deall eu rhwymedigaethau i bob un o'u haelodau.

Leanne Wood: Weinidog, nid wyf yn siŵr mai'r un y cyfeiriwyd ato yn gynharach ydyw, ond canfu arolwg a gynhaliwyd gan Stonewall dair blynedd yn ôl, a oedd yn arolwg o fwy na 2,000 o athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y Deyrnas

school teachers and two out of 10 primary school teachers witnessed children being subjected to homophobic bullying. The One Wales Government made a commitment to reducing hate crime, which I would define as domestic, sexual, racial, homophobic, elder and child abuse and the abuse of vulnerable adults. Would the Minister be prepared to go further and consider implementing a policy like the one contained in a paper that I wrote in 2008, on making our communities safer? The paper proposes a primary school curriculum that contains respect and relationships education, designed to challenge and change early signs of sexist, racist, homophobic and other abusive attitudes. Would you be open to introducing such a hate-crime strategy in our schools?

Leighton Andrews: The issues that the Member raises are largely already covered in the curriculum. However, I would be happy to consider any further proposals that she may wish to write me about.

Julie Morgan: Governors who are concerned about homophobic bullying in schools have told me that they are afraid to raise the issue in governing body meetings. I fear that the matter is often not discussed at all in these meetings. Does the Minister agree that governors' training should include sessions on how to discuss issues, so that governing bodies are an open place where all issues can be raised?

Leighton Andrews: I do, and I will draw that to the attention of my officials as they are preparing future guidance for the training of governors. The Member raises some important points on this issue. My view is that we have to ensure that governing bodies are places where issues like this are freely discussed. I hope that the advice that we are giving through organisations such as Governors Wales is enabling that to happen.

Unedig, bod naw o bob 10 o athrawon ysgol uwchradd a dau allan o 10 o athrawon ysgol gynradd yn dyst i blant yn dioddef bwlio homoffobig. Gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un ymrwymiad i leihau troseddau casineb, y byddwn yn eu diffinio fel cam-drin yn y cartref, cam-drin yn rhywiol, yn hiliol, cam-drin homoffobig, cam-drin plant a phobl hŷn a cham-drin oedolion sy'n agored i niwed. A fyddai'r Gweinidog yn barod i fynd ymhellach ac ystyried gweithredu polisi fel yr un a geir mewn papur a ysgrifennais yn 2008, ar wneud ein cymunedau yn fwy diogel? Roedd y papur yn cynnig cwricwlwm ysgol gynradd sy'n cynnwys addysg parch a pherthynas, a gynlluniwyd i herio a newid arwyddion cynnar o agweddau cam-drin rhywiaethol, hiliol, homoffobig ac agweddau difriol eraill. A fydddech yn agored i gyflwyno strategaeth troseddau casineb o'r fath yn ein hysgolion?

Leighton Andrews: Mae'r materion y mae'r Aelod yn eu codi wedi'u cynnwys eisoes i raddau helaeth yn y cwricwlwm. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i ystyried unrhyw gynigion pellach y dymunai ysgrifennu ataf yn eu cylch.

Julie Morgan: Mae llywodraethwyr sy'n pryderu am fwlio homoffobig mewn ysgolion wedi dweud wrthyf eu bod yn ofni codi'r mater mewn cyfarfodydd cyrff llywodraethu. Rwy'n ofni nad yw'r mater yn cael ei drafod o gwbl yn y cyfarfodydd hyn. A ydyw'r Gweinidog yn cytuno y dylai hyfforddiant llywodraethwyr gynnwys sesiynau ar sut i drafod materion, fel bod cyrff llywodraethu yn lefydd agored lle gall pob mater gael ei godi?

Leighton Andrews: Ydw, a byddaf yn tynnu hynny i sylw fy swyddogion gan eu bod yn paratoi canllawiau i'r dyfodol ar gyfer hyfforddi llywodraethwyr. Mae'r Aelod yn codi rhai pwyntiau pwysig ar y mater hwn. Fy marn i yw bod yn rhaid inni sicrhau bod cyrff llywodraethu yn lefydd lle mae materion fel hyn yn cael eu trafod yn rhydd. Gobeithio y bydd y cyngor yr ydym yn ei roi drwy sefydliadau fel Llywodraethwyr Cymru yn galluogi i hynny ddigwydd.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Additional Learning Needs

8. Rebecca Evans: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda ddiwygio statudol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. OAQ(4)0025(ESK)*

Leighton Andrews: The pilot projects to test alternatives to the current statutory framework are scheduled to end this summer. Following consideration of the evaluation reports, we will bring forward legislation.

Rebecca Evans: Since the beginning of the 'statements or something better?' review, parents have often expressed unease around whether a future replacement for a statement will continue to hold legal status. Although many parents do not wish to go to tribunal to resolve educational disputes, the security of knowing that they have the option of doing so if matters cannot otherwise be resolved is often of great comfort. Could the Minister please confirm whether he is minded to ensure that families still have this protection in the new system?

Leighton Andrews: I know the Member's background on these issues and I know the importance that parents attach to the security of being able to take a case to the special educational needs tribunal. It is vital that they have confidence in the new statutory framework to replace statements. This is one of the key issues that we will need to address in developing detailed legislative proposals in the light of the evaluation of the pilot projects that we will receive early next year.

Angela Burns: I thank Rebecca Evans for asking this question. In my constituency, a lot of parents come forward to say that their children are being denied statements because the state—the local authority—does not want to have to undertake a statutory obligation to provide help. Minister, what is your view on the current situation, where it can take six weeks for a local education authority to consider a request, 10 weeks for an assessment and decision on statements, two weeks to draft the proposed statement and then eight weeks to finalise it? These statements are all related to children who are in desperate need of help. What is your view

8. Rebecca Evans: *Will the Minister provide an update on the statutory reform agenda for additional learning needs. OAQ(4)0025(ESK)*

Leighton Andrews: Mae'r prosiectau peilot i brofi dewisiadau eraill yn y fframwaith statudol presennol wedi'u trefnu i ddod i ben yr haf hwn. Ar ôl ystyried yr adroddiadau gwerthuso, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth.

Rebecca Evans: Ers cychwyn yr adolygiad 'datganiadau neu rywbeth gwell?' mae rhieni yn aml wedi mynegi pryder ynghylch a fydd gan ddatganiadau'r dyfodol statws cyfreithiol o hyd. Er nad yw llawer o rieni yn dymuno mynd i dribiwnlys i ddatrys anghydfodau addysgol, mae'r sicrwydd o wybod bod ganddynt yr opsiwn o wneud hynny os na ellir datrys materion fel arall yn aml o gysur mawr. A allai'r Gweinidog gadarnhau a ydyw o blaid sicrhau bod teuluoedd yn dal i gael yr amddiffyniad hwn yn y system newydd?

Leighton Andrews: Yr wyf yn gwybod cefndir yr Aelod ar y materion hyn ac rwy'n gwybod y pwysigrwydd y mae rhieni yn ei roi ar y sicrwydd o allu mynd ag achos i'r tribiwnlys anghenion addysgol arbennig. Mae'n hanfodol bod ganddynt hyder yn y fframwaith statudol newydd i gymryd lle datganiadau. Mae hwn yn un o'r materion allweddol y bydd angen inni roi sylw iddo wrth ddatblygu cynigion deddfwriaethol manwl yng ngoleuni'r gwerthusiad o'r prosiectau peilot y byddwn yn eu derbyn yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Angela Burns: Diolch i Rebecca Evans am ofyn y cwestiwn hwn. Yn fy etholaeth i, mae llawer o rieni yn dod ymlaen i ddweud bod eu plant yn cael eu gwrthod oherwydd nad yw'r wladwriaeth—yr awdurdod lleol—am ymgymryd â rhwymedigaeth statudol i ddarparu cymorth. Weinidog, beth yw eich barn am y sefyllfa bresennol, lle y gall gymryd chwe wythnos i awdurdod addysg lleol ystyried cais, 10 wythnos am asesiad a phenderfyniad ar ddatganiadau, pythefnos i ddrafftio datganiad arfaethedig ac yna wyth wythnos i'w gwblhau? Mae'r datganiadau hyn i gyd yn gysylltiedig â phlant sydd mewn angen dybryd am gymorth. Beth yw eich barn

on that timeline?

Leighton Andrews: The Member raises issues that will be familiar to many of us as constituency Members. In 2006, the review of SEN undertaken by a committee of the second Assembly concluded that the current statutory framework for producing statements was an inefficient process that was too complex, bureaucratic and costly, and insufficiently child-centred or user-friendly. Further reports by Estyn and others since then have confirmed that view.

2.00 p.m.

Angela Burns: Do you have a view on how you are going to close the gap that sometimes exists between educational authorities and mental health provision, which is provided via social services? Again, pupils tend to fall between the two, with people saying, 'Well, it's not really an educational need, it's a mental health need', or 'No, it's not about mental health; it's education'. A number of my constituents simply cannot get a resolution for children who desperately need that extra help to make the best of their lives.

Leighton Andrews: We are all familiar with the difficulties that sometimes arise with multi-agency working. One of our pilot schemes is looking at an inter-agency model for pupils with severe and complex needs. That is being assessed in Carmarthenshire and Torfaen. We will get the evaluations of the pilot schemes early next year and I hope that we can move forward on that basis.

Lindsay Whittle: We are all aware of the excellent work that is being done in special schools for children with additional learning needs. Will the Minister take steps to urge local authorities not to jeopardise provision for these particularly precious children of primary and secondary school age because of any local authority cutbacks? I appreciate that all children are precious, but these children are particularly precious.

am y llinell amser hwnnw?

Leighton Andrews: Mae'r Aelod yn codi materion a fydd yn gyfarwydd i lawer ohonom fel Aelodau etholaethol. Yn 2006, daeth adolygiad o AAA a gynhaliwyd gan un o bwyllgorau'r ail Gynulliad i'r casgliad bod y fframwaith statudol bresennol ar gyfer cynhyrchu datganiadau yn broses aneffeithlon a oedd yn rhy gymhleth, yn fiwrocraidd ac yn gostus, nad oedd yn canolbwyntio ddigon ar y plentyn neu yn gyfeillgar i'r defnyddiwr. Mae adroddiadau pellach gan Estyn ac eraill ers hynny wedi cadarnhau'r farn honno.

Angela Burns: A oes gennych farn ar sut yr ydych yn mynd i gau'r bwloch sy'n bodoli weithiau rhwng awdurdodau addysg a darpariaeth iechyd meddwl, a ddarperir drwy wasanaethau cymdeithasol? Unwaith eto, mae disgyblion yn tueddu i syrthio rhwng y ddau, gyda phobl yn dweud, 'Wel, nid yw wir yn angen addysgol; angen iechyd meddwl ydyw', neu 'Na, nid yw'n ymwneud ag iechyd meddwl; mae'n ymwneud ag addysg'. Yn syml, ni all nifer o'm hetholwyr gael penderfyniad ar gyfer plant sydd ag angen taer am help ychwanegol i wneud y gorau o'u bywydau.

Leighton Andrews: Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â'r anawsterau sy'n codi weithiau gyda gweithio amlasiantaethol. Mae un o'n cynlluniau peilot yn edrych ar fodel rhyngasiantaethol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion difrifol a chymhleth. Mae hynny'n cael ei asesu yn Sir Gaerfyrddin a Thor-faen. Byddwn yn cael y gwerthusiadau o'r cynlluniau peilot yn gynnar y flwyddyn nesaf, ac yr wyf yn gobeithio y gallwn symud ymlaen ar y sail honno.

Lindsay Whittle: Yr ydym i gyd yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud mewn ysgolion arbennig ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. A wnaiff y Gweinidog gymryd camau i annog awdurdodau lleol i beidio â pheryglu darpariaeth ar gyfer y plant arbennig o werthfawr hyn o oedran ysgol gynradd ac uwchradd oherwydd unrhyw doriadau awdurdodau lleol? Yr wyf yn sylweddoli bod

pob plentyn yn werthfawr, ond mae'r plant hyn yn arbennig o werthfawr.

Leighton Andrews: Yes, indeed. We have put in additional sums, particularly for post-16 additional learning needs in recent years, and have budgeted to do so in the future.

Leighton Andrews: Ie, yn wir. Rydym wedi rhoi symiau ychwanegol, yn enwedig ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ôl-16 yn y blynyddoedd diwethaf, ac wedi cyllidebu i wneud hynny yn y dyfodol.

Peter Black: I welcome the approach that you are taking on this, Minister. I am very supportive of it. The education committee in the second Assembly did a lot of work on this. One of its reports looked at the additional learning needs of those aged over 16. To what extent have you reviewed that report and are taking that particular agenda forward?

Peter Black: Yr wyf yn croesawu'r dull gweithredu yr ydych yn ei gymryd ar hyn, Weinidog. Yr wyf yn gefnogol iawn iddo. Gwnaeth y pwyllgor addysg yn yr ail Gynulliad lawer o waith ar hyn. Edrychodd un o'i adroddiadau ar anghenion dysgu ychwanegol y rhai dros 16 oed. I ba raddau yr ydych wedi adolygu'r adroddiad hwnnw ac yn cymryd yr agenda penodol hwnnw ymlaen?

Leighton Andrews: The Member chaired the education committee during the second Assembly, so he is very familiar with the conclusions of that report. He may recall that I established a task and finish group to look at post-16 SEN provision, which reported last year. I suggest that he looks at the content of that report, which we are taking forward.

Leighton Andrews: Bu'r Aelod yn cadeirio'r pwyllgor addysg yn ystod yr ail Gynulliad, felly mae'n gyfarwydd iawn â chasgliadau'r adroddiad hwnnw. Efallai y bydd yn cofio imi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ôl-16, a gyflwynodd ei adroddiad y llynedd. Awgrymaf ei fod yn edrych ar gynnwys yr adroddiad hwnnw, yr ydym yn ei roi ar waith.

Grant Dysgu'r Cynulliad

The Assembly Learning Grant

9. Mike Hedges: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad. OAQ(4)0031(ESK)*

9. Mike Hedges: *Will the Minister provide an update on the Assembly Learning Grant scheme. OAQ(4)0031(ESK)*

Leighton Andrews: Welsh higher education students receive a means-tested Assembly learning maintenance grant of up to £5,000. Provisional annual year statistics for 2010-11 indicate that 36 per cent of student support applicants received a full Assembly learning grant and 26 per cent received a partial Assembly learning grant for higher education. The final statistics for 2009-10 indicate that 80 per cent of applications for the further education Assembly learning grant were approved.

Leighton Andrews: Mae myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru yn derbyn grant cynnal dysgu'r Cynulliad sy'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £5,000. Mae ystadegau blynyddol dros dro ar gyfer 2010-11 yn dangos bod 36 y cant o fyfyrwyr sy'n ymgeisio am gymorth wedi derbyn grant dysgu llawn y Cynulliad a 26 y cant wedi derbyn grant dysgu rhannol y Cynulliad ar gyfer addysg uwch. Mae'r ystadegau terfynol ar gyfer 2009-10 yn dangos bod 80 y cant o'r ceisiadau ar gyfer grant dysgu addysg bellach y Cynulliad wedi eu cymeradwyo.

Mike Hedges: I thank the Minister for his response. I understand that there were 6,500 such students in 2009-10, many of whom would not have gone on to further or higher

Mike Hedges: Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Deallaf fod 6,500 o fyfyrwyr o'r fath yn 2009-10, a ni fyddai llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i addysg bellach neu uwch heb

education without an Assembly learning grant. It makes further education available to people who would otherwise not find it possible to go on to further education. Can I have an assurance from the Minister that it will continue to be provided to those in both in higher and further education? There is concern that what is happening in England may be copied in Wales—we were told that that was a good idea yesterday, in fact. We should continue to do this, because it makes a huge difference to a large number of people. I taught a number of further education students, many of whom were your constituents, and they found it useful and it allowed them to carry on with their studies. Therefore, I want a commitment from you that this will continue, especially for FE students.

Leighton Andrews: This Government can stand proud on its record of supporting learners in further and higher education. We are keeping the education maintenance allowance in Wales, whereas England has attempted to cut it severely. Alongside the EMA, the Assembly learning grant and support for students with particular needs, such as those with disabilities or childcare responsibilities, we have put in place the fairest and most equitable tuition fee support ever available to full and part-time learners in higher education. We are committed to ensuring that opportunities to enter higher learning and further education are open to all who can benefit from them, not just those who can pay.

Darren Millar: There have been many changes to student finance in Wales and England in recent months, and you have reaffirmed your commitment to continue to subsidise all Welsh students. The situation can be confusing for students and learners, and it is obvious that we need to ensure that accurate information is available to them about the pathways for funding their education. The Student Finance Wales website and guidance have been out of date in recent months—we have corresponded on that issue. What action are you taking to ensure that accurate information is always available via the website and other publications for Welsh learners?

grant dysgu'r Cynulliad. Mae'n rhoi addysg bellach o fewn cyrraedd pobl na fyddai fel arall yn ei chael yn bosibl i fynd ymlaen i addysg bellach. A allaf gael sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn parhau i gael ei ddarparu i'r rhai sydd mewn addysg uwch ac addysg bellach? Mae pryder y gall yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr gael ei gopïo yng Nghymru—dywedwyd wrthym ddoe fod hynny'n syniad da, a dweud y gwir. Dylem barhau i wneud hyn, oherwydd ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr i nifer fawr o bobl. Bûm yn dysgu nifer o fyfyrwyr addysg bellach, gyda llawer ohonynt ymhlith eich etholwyr, ac yr oeddent yn ei chael yn ddefnyddiol ac yr oedd yn eu galluogi i barhau â'u hastudiaethau. Felly, yr wyf am ymrwymiad gennych y bydd hyn yn parhau, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr addysg bellach.

Leighton Andrews: Gall y Llywodraeth hon ymfalchïo yn ei record o gefnogi dysgwyr mewn addysg bellach ac uwch. Rydym yn cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg yng Nghymru, tra bod Lloegr wedi ceisio ei dorri'n ddifrifol. Ochr yn ochr â'r LCA, mae grant dysgu'r Cynulliad a chefnogaeth ar gyfer myfyrwyr ag anghenion penodol, megis y rhai sydd ag anableddau neu gyfrifoldebau gofal plant, yr ydym wedi rhoi ar waith y cymorth ffioedd dysgu mwyaf teg a chyfiawn sydd ar gael erioed i ddysgwyr llawn amser a rhan amser mewn addysg uwch. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfleoedd i fynd i addysg uwch ac addysg bellach yn agored i bawb a all gael budd ohonynt ac nid yn unig y rhai sy'n gallu talu.

Darren Millar: Bu llawer o newidiadau i gyllid myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr dros y misoedd diwethaf, ac yr ydych wedi ailddatgan eich ymrwymiad i barhau i roi cymhorthdal i holl fyfyrwyr Cymru. Gall y sefyllfa fod yn ddryslyd i fyfyrwyr a dysgwyr, ac mae'n amlwg bod angen i ni sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael iddynt am y llwybrau ar gyfer ariannu eu haddysg. Mae gwefan a chanllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi dyddio yn ystod y misoedd diwethaf—yr ydym wedi gohebu ar y mater hwnnw. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir bob amser ar gael ar y wefan ac mewn cyhoeddiadau eraill ar gyfer dysgwyr y

Gymraeg?

Leighton Andrews: That is of great concern to us and my officials are taking that forward with Student Finance Wales. The important thing to understand is that this Government will support Welsh students wherever they study in the United Kingdom. Unlike the party opposite, we will not make them pay full fees.

Bethan Jenkins: Mae fy nghwestiwn yn ychwanegu at yr hyn a ddywedwyd yn gynharach ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarperir drwy'r grantiau penodol hyn. Yn sicr, arwyddodd nifer ohonom ni ym Mhlaid Cymru ddatganiad 'Mynediad i Bobman' Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yn ystod ymgyrch yr etholiad a bu i chi ei arwyddo hefyd. Hoffwn gadarnhad eich bod yn driw i hynny ac y byddwch yn parhau i fabwysiadu'r hyn yr oedd yr ymgyrch honno yn gofyn amdano.

Leighton Andrews: I am completely true to the principles of that campaign and drink my tea out of an NUS Wales mug every day.

The Presiding Officer: That is very useful information, Minister. [*Laughter.*]

Safonau Addysg

10. Andrew R.T. Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau addysgol yng Nghymru. OAQ(4)0030(ESK)*

Leighton Andrews: We are committed to securing a step change in educational performance across Wales by taking forward the actions that we set out in our manifesto.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Minister, for that answer. One thing that improves educational attainment levels is a seamless transition for learners between the various facilities that provide their educational package as they progress through the education system. In evidence to the Enterprise and Learning Committee in March 2011 you highlighted that co-operation between the secondary sector and the further education sector was not as good as one

Leighton Andrews: Mae hynny'n peri pryder mawr i ni ac mae fy swyddogion yn mynd i'r afael â hyn gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru. Y peth pwysig i'w ddeall yw y bydd y Llywodraeth hon yn cefnogi myfyrwyr o Gymru lle bynnag y byddant yn astudio yn y Deyrnas Unedig. Yn wahanol i'r blaidd gyferbyn, ni fyddwn yn gwneud iddynt dalu ffioedd llawn.

Bethan Jenkins: My question adds to what was said earlier about the support provided through these specific grants. Certainly, many of us in Plaid Cymru signed the National Union of Students Wales's 'Access All Areas' statement during the election, as did you. I would like confirmation that you are true to that and will continue to support the principles of that campaign.

Leighton Andrews: Yr wyf yn hollol ffyddlon i egwyddorion yr ymgyrch honno ac yn yfed fy nhe o fwg UCM Cymru bob dydd.

Y Llywydd: Mae honno'n wybodaeth ddefnyddiol iawn, Weinidog. [*Chwerthin.*]

Educational Standards

10. Andrew R.T. Davies: *Will the Minister make a statement on educational standards in Wales. OAQ(4)0030(ESK)*

Leighton Andrews: Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau newid sylweddol mewn perfformiad addysgol ar draws Cymru drwy fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd gennym yn ein maniffesto.

Andrew R.T. Davies: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Un peth sy'n gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol yw pontio di-dor ar gyfer dysgwyr rhwng y gwahanol gyfleusterau sy'n darparu eu pecyn addysgol wrth iddynt symud drwy'r system addysg. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu Mawrth 2011, bu i chi amlygu nad yw cydweithio rhwng y sector uwchradd a'r sector addysg bellach gystal ag y byddai rhywun yn ei hoffi a chyfeiriasoch at fesurau

would like and you alluded to measures that you might be able to take—monetary measures, I think—to persuade certain secondary schools to work more collaboratively with FE institutions. Given that time has gone by, are you happy that there is better collaboration between the secondary sector and the further education sector? If not, will you impose sanctions to make that collaboration happen?

Leighton Andrews: As we discussed in the Enterprise and Business Committee this morning, we still face challenges in relation to collaboration between different parts of the education sector. We have put funding in place for the 14 to 19 learning networks in the past. However, as you will be aware, I have decided to review the national planning and funding system, as I think that it is essential—particularly for post-16 education but potentially for post-14 education—that we have measures in place that do not encourage competition between institutions, but rather encourage co-operation between them.

Eluned Parrott: Minister, you have said that you will ask all schools to work with their year 8 and 9 students who will face the Programme for International Student Assessment tests next time on their skills. Will the Minister confirm that he is not suggesting that we will be teaching in order to improve our standing according to PISA, but rather to improve students' employability skills more broadly?

Leighton Andrews: Indeed. PISA, essentially, tests the understanding and usage of those skills, as I have said in a number of speeches and statements in the Assembly and outside the Assembly. We want to ensure that Wales does better in PISA tests in the future and that is why we are working with schools across Wales to ensure that that happens.

Jenny Rathbone: You issued a written statement this morning, following the publication of HEFCW's report on the future structure of universities in Wales. Could you elaborate on the commitment to secure Cardiff University's position as a world-class

y gallech eu cymryd—mesurau ariannol, rwy'n credu—i berswadio rhai ysgolion uwchradd i weithio'n fwy cydweithredol gyda sefydliadau addysg bellach. O ystyried bod amser wedi mynd heibio, a ydych yn fodlon bod gwell cydweithio rhwng y sector uwchradd a'r sector addysg bellach? Os na, a fyddwch yn gosod sancsiynau i sicrhau bod cydweithio yn digwydd?

Leighton Andrews: Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor Menter a Busnes y bore yma, yr ydym yn dal i wynebu heriau o ran cydweithio rhwng gwahanol rannau o'r sector addysg. Rydym wedi darparu arian ar gyfer y rhwydweithiau dysgu 14 i 19 oed yn y gorffennol. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, yr wyf wedi penderfynu adolygu'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol, gan fy mod yn meddwl ei bod yn hanfodol—yn enwedig ar gyfer addysg ôl-16, ond o bosibl ar gyfer addysg ôl-14—bod gennym fesurau ar waith nad ydynt yn annog cystadlu rhwng sefydliadau, ond yn hytrach yn annog cydweithrediad rhyngddynt.

Eluned Parrott: Weinidog, yr ydych wedi dweud y byddwch yn gofyn i bob ysgol i weithio gyda'u myfyrwyr blwyddyn 8 a 9 a fydd yn wynebu profion y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr y tro nesaf o safbwynt eu sgiliau. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nad oedd yn awgrymu y byddwn yn addysgu er mwyn gwella ein safle yn ôl PISA, ond yn hytrach i wella sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr yn ehangach?

Leighton Andrews: Yn wir. Mae PISA, yn ei hanfod, yn profi dealltwriaeth a defnydd o'r sgiliau hynny, fel y dywedais mewn nifer o areithiau a datganiadau yn y Cynulliad a'r tu allan i'r Cynulliad. Rydym am sicrhau bod Cymru yn gwneud yn well mewn profion PISA yn y dyfodol, a dyna pam yr ydym yn gweithio gydag ysgolion ledled Cymru er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

Jenny Rathbone: Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gennych y bore yma, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar strwythur prifysgolion yn y dyfodol yng Nghymru. A allech chi ymhelaethu ar yr ymrwymiad i sicrhau

research-intensive university?

Leighton Andrews: That is a recommendation that has come to me from HEFCW in its guidance. I take this opportunity to congratulate Cardiff University on the appointment of its new vice-chancellor, Professor Colin Riordon, which was announced today. He is currently vice-chancellor of the University of Essex but has had a distinguished career in Wales and in England, and was one of those supporting our Government's review of higher education earlier this year. We have to ensure that higher education in Wales is performing to the greatest extent that it can to support the needs not only of learners, but of the Welsh economy. We see Cardiff University playing a leading role in that.

The Presiding Officer: Question 11, OAQ(4)0032(ESK), has been withdrawn.

Lefelau Sgiliau Galwedigaethol

12. Ann Jones: *Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella lefelau sgiliau galwedigaethol yng Nghymru.* OAQ(4)0024(ESK)

Jeff Cuthbert: Significant work is being done with adults through schemes such as ReAct, and with young people through apprenticeship schemes and the new traineeship programme, which will be launched in August. An increasing number of vocational programmes are also being offered by the 14-19 learning pathways.

Ann Jones: I thank the Deputy Minister for that answer. He will know that I steered the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011 through the last Assembly. Hopefully, the regulations under that Measure are making good progress. During that period I spoke to many experts in the industry about the installation of fire sprinkler systems and was told that Wales does not have enough people trained to fit sprinkler systems when the regulations come into force. Deputy First Minister—[*Laughter.*] I just promoted you there; now I know that you will give me a good answer. Do you agree, Deputy Minister,

sefyllfa Prifysgol Caerdydd fel prifysgol ymchwil dwys o safon byd-eang?

Leighton Andrews: Mae hynny'n argymhelliad sydd wedi dod ataf o CCAUC yn ei ganllawiau. Achubaf ar y cyfle hwn i longyfarch Prifysgol Caerdydd ar benodi ei is-ganghellor newydd, yr Athro Colin Riordon, a gyhoeddwyd heddiw. Ar hyn o bryd, mae'n is-ganghellor Prifysgol Essex, ond wedi cael gyrfa nodedig yng Nghymru ac yn Lloegr, ac yn un o'r rhai sy'n cefnogi adolygiad ein Llywodraeth o addysg uwch yn gynharach eleni. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn perfformio i'r graddau mwyaf y gall i gefnogi anghenion nid yn unig y dysgwyr, ond economi Cymru. Rydym yn gweld Prifysgol Caerdydd yn chwarae rhan flaenllaw yn hynny.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(4)0032(ESK), yn ôl.

Vocational Skills Levels

12. Ann Jones: *What action is the Minister taking to improve vocational skills levels in Wales.* OAQ(4)0024(ESK)

Jeff Cuthbert: Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud gydag oedolion drwy gynlluniau fel ReAct, a gyda phobl ifanc drwy gynlluniau prentisiaeth a'r rhaglen hyfforddeiaeth newydd, a gaiff ei lansio ym mis Awst. Mae nifer cynyddol o raglenni galwedigaethol hefyd yn cael eu cynnig gan y llwybrau dysgu 14-19.

Ann Jones: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am yr ateb hwnnw. Bydd yn gwybod fy mod wedi llywio'r Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 drwy'r Cynulliad diwethaf. Y gobaith yw bod y rheoliadau o dan y Mesur hwnnw'n gwneud cynnydd da. Yn ystod y cyfnod hwnnw bûm yn siarad â llawer o arbenigwyr yn y diwydiant ynglŷn â gosod systemau taenllu tân, a dywedwyd wrthyf nad oes gan Gymru ddigon o bobl wedi'u hyfforddi i osod systemau chwistrellu pan fydd y rheoliadau yn dod i rym. Dirprwy Brif Weinidog—[*Chwerthin.*] Yr wyf newydd eich dyrchafu; yn awr yr wyf yn

that we have a prime opportunity now, while the regulations are going through, to put on courses in colleges so that people can take advantage of the law and be trained to fit sprinkler systems and we can have indigenous businesses fitting those sprinkler systems in the future?

Jeff Cuthbert: I thank the Member for her question. I remember her work to bring about that new Welsh law, and I congratulate her on that. It is difficult for me to comment on specific training requirements and courses, but support towards the cost of training and retraining employees can be accessed through the workforce development programme, and all companies can apply for that support. Direct applications for support of up to £1,000 can also be made through the business training support programme for businesses employing fewer than 10 employees who require training leading to a recognised vocational qualification. I would trust that the appropriate sector skills council is now working with the industry to ensure that a duly recognisable accredited qualification can be produced.

Suzu Davies: When I was on a recent visit to a manufacturing business in my region, the chief executive officer expressed his view that college students did not always have the training appropriate to his firm's needs, despite the apparently relevant nature of their qualifications. The Confederation of British Industry's report in May criticised some school leavers for their poor grasp of basic workplace skills, such as timekeeping, self-discipline and customer service. If we agree, Deputy Minister, that business needs to have a closer connection with further education, how far do you see businesses being included in the design of further education courses? How do you propose to ensure that local businesses and community organisations are not frozen out by larger, more generous corporations?

gwybod y byddwch yn rhoi ateb da i mi. A ydych yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, fod gennym gyfle gwych yn awr, tra bod y rheoliadau yn mynd trwodd, i ddarparu cyrsiau mewn colegau fel y gall pobl fanteisio ar y gyfraith a chael eu hyfforddi i osod systemau chwistrellu a gallwn gael busnesau cynhenid yn gosod y systemau chwistrellu hynny yn y dyfodol?

Jeff Cuthbert: Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yr wyf yn cofio ei gwaith i sicrhau'r gyfraith Gymreig newydd, ac yr wyf yn ei llongyfarch ar hynny. Mae'n anodd imi wneud sylw ar ofynion hyfforddiant penodol a chysiau, ond gellir cael mynediad i gefnogaeth tuag at gost hyfforddiant a chyflogeion ailhyfforddi drwy raglen datblygu'r gweithlu, a gall pob cwmni wneud cais am y cymorth hwnnw. Gall ceisiadau uniongyrchol am gymorth o hyd at £1,000 hefyd gael eu gwneud drwy'r rhaglen cymorth hyfforddiant busnes ar gyfer busnesau sy'n cyflogi llai na 10 o weithwyr sydd angen hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster galwedigaethol cydnabyddedig. Byddwn yn gobeithio bod y cyngor sgiliau sector priodol yn awr yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau y gall cymhwyster achrededig adnabyddedig priodol gael ei gynhyrchu.

Suzu Davies: Pan oeddwn ar ymweliad yn ddiweddar â busnes gweithgynhyrchu yn fy rhanbarth i, mynegodd y prif swyddog gweithredol ei farn nad oedd myfyrwyr coleg bob amser yn cael yr hyfforddiant priodol i anghenion ei gwmni, er gwaethaf natur berthnasol, yn ôl pob golwg, eu cymwysterau. Ym mis Mai, beirniadodd adroddiad Cydffederasiwn Diwydiant Prydain y rhai a oedd yn ymadael â'r ysgol am eu gafael gwael ar sgiliau sylfaenol yn y gweithle, megis cadw amser, hunan-ddisgyblaeth a gwasanaeth cwsmeriaid. Os byddwn yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, bod angen ar fusnes gysylltiad agosach ag addysg bellach, pa mor bell ydych chi'n gweld busnesau yn cael eu cynnwys yn y dyluniad o gyrsiau addysg bellach? Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau nad yw busnesau lleol a sefydliadau cymunedol yn cael eu cau allan gan gorfforaethau mwy o ran maint a mwy hael?

Jeff Cuthbert: I thank the Member very much for that question. If she would like to write to me about the specific problem that that firm faced, I will certainly look into the matter. In general terms, it is critical that employers large and small seek to engage with further education providers, and education more generally, to ensure that the courses on offer are relevant to the needs of the local economy. That engagement must ensure that the key skills that you are alluded to are part of any training course, and that the skills taught are relevant to the needs of the local economy.

Mick Antoniw: You indicated in May that a comprehensive tender for apprenticeship provision had resulted in the award of contracts for work-based learning. A previous training provider, Carillion Construction Training, of Cardiff, did not tender, and, as a result, many of its apprentices were understandably concerned for the future of their training. Their concerns were addressed somewhat by your assurances that your officials were working with Carillion to secure continued employment and an alternative training provider for each apprentice. Could the Minister provide an update on the current position of these former Carillion apprentices?

Jeff Cuthbert: I thank the Member for that question. I must correct him on one point—Carillion did tender, but it was not successful. Until the end of July, these apprentices are still employed by Carillion, with their training funded by the Welsh Government. The Government is doing all that it can to ensure that no Carillion apprentices will be made redundant at the end of this month. Negotiations with alternative providers are positive and ongoing. A final decision is expected no later than next week.

Addysg Gymraeg

13. Llyr Huws Gruffydd: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o safbwynt Addysg Gymraeg yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0022(ESK)

Jeff Cuthbert: Diolch yn fawr i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Os hoffai ysgrifennu ataf ynghylch y broblem benodol y mae'r cwmni yn ei hwynebu, byddaf yn sicr yn edrych i mewn i'r mater. Yn gyffredinol, mae'n hanfodol bod cyflogwyr mawr a bach yn ceisio ymgysylltu â darparwyr addysg bellach, ac addysg yn fwy cyffredinol, i sicrhau bod y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn berthnasol i anghenion yr economi leol. Rhaid i'r ymgysylltiad sicrhau bod y sgiliau allweddol, yr ydych yn cyfeirio atynt, yn rhan o unrhyw gwrs hyfforddi, a bod y sgiliau a addysgir yn berthnasol i anghenion yr economi leol.

Mick Antoniw: Dywedasoch ym Mai fod tendr cynhwysfawr ar gyfer darpariaeth prentisiaeth wedi arwain at ddyfarnu contractau ar gyfer dysgu seiliedig ar waith. Ni wnaeth darparwr hyfforddiant blaenorol, Hyfforddiant Adeiladu Carillion, o Gaerdydd, dendro, ac, o ganlyniad, mae llawer o'i brentisiaid yn bryderus am ddyfodol eu hyfforddiant. Rhoddwyd rhywfaint o sylw i'w pryderon gan eich sicrwydd bod eich swyddogion yn gweithio gyda Carillion i sicrhau cyflogaeth barhaus a darparwr hyfforddiant arall ar gyfer pob prentis. A allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa bresennol y cyn-brentisiaid Carillion hyn?

Jeff Cuthbert: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae'n rhaid i mi ei gywiro ar un pwynt—gwnaeth Carillion dendro, ond nid oedd yn llwyddiannus. Hyd at ddiwedd Gorffennaf mae'r prentisiaid hyn dal yn gyflogedig gan Carillion, ac ariennir eu hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau na fydd unrhyw brentisiaid Carillion yn cael eu diswyddo ar ddiwedd y mis hwn. Mae trafodaethau gyda darparwyr eraill yn gadarnhaol a pharhaus. Disgwylir penderfyniad terfynol ddim hwyrach nag wythnos nesaf.

Welsh Education

13. Llyr Huws Gruffydd: What are the Welsh Government's priorities with regard to Welsh education in north Wales. OAQ(4)0022(ESK)

Leighton Andrews: Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn pennu cynlluniau Lywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cynulliad hwn yn cynnwys sefydlu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg gydag awdurdodau lleol a gwella cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer y rhai 14-19 oed, ac mewn dysgu sy'n seiliedig ar waith a'r ddarpariaeth addysg uwch.

Llyr Huws Gruffydd: Diolch i chi am yr ateb hynny. Gyda'r twf yn y galw am addysg Gymraeg ymhob rhan o Gymru, mae pryder na fydd digon o athrawon i ateb y galw. Felly, pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod digon o athrawon, a phrifathrawon yn enwedig, gyda'r profiad a'r cymwysterau priodol i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a pha anogaeth sydd, er enghraifft, i athrawon sy'n medru'r Gymraeg newid o ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg i gael yr hyder i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

2.15 p.m.

Leighton Andrews: We have given significant support to Welsh-medium teaching, including a sabbatical scheme, for which I recently announced additional funding. We do not necessarily have a shortage of teachers overall in Wales, which is one of the issues that we have had to address through our approach to initial teacher training. However, working alongside a number of institutions, including the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, we have measures in place to try to increase the provision of Welsh-medium education, and we hope to encourage more people to teach through the medium of Welsh. I think that you would agree with me that we must also ensure that local authorities are making a realistic assessment of the demand for Welsh-medium education in their area and that their planning is therefore appropriate for the medium and long term.

Mark Isherwood: Those assessments, unless they are made in predominantly first-language Welsh areas, would normally

Leighton Andrews: The Welsh-medium education strategy sets out the Welsh Government's plans for Welsh-medium education and training across Wales. Key priorities for this Assembly include establishing Welsh-in-education strategic plans with local authorities and improving Welsh-medium and bilingual opportunities for those aged 14 to 19, and in work-based learning and higher education provision.

Llyr Huws Gruffydd: Thank you for that answer. With the increase in demand for Welsh-medium education across Wales, there is concern that there will not be enough teachers to meet the demand. Therefore, what steps have you taken to ensure that there are sufficient teachers, and headteachers in particular, with the appropriate experience and qualifications to teach through the medium of Welsh, and what encouragement is there, for example, for teachers who speak Welsh but who teach through the medium of English to develop the confidence to teach through the medium of Welsh?

Leighton Andrews: Yr ydym wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i addysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynllun sabothol, ac, yn ddiweddar, cyhoeddais gyllid ychwanegol ar gyfer y cynllun hwnnw. Nid oes gennym, o reidrwydd, brinder athrawon yn gyffredinol yng Nghymru, sydd yn un o'r materion yr ydym wedi gorfod mynd i'r afael â hwy drwy ein darpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon. Fodd bynnag, gan weithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae gennym fesurau ar waith i geisio cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a gobeithiwn annog mwy o bobl i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Credaf y byddech yn cytuno â mi ein bod hefyd yn gorfod sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud asesiad realistig o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal a bod eu cynllunio felly yn briodol ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor.

Mark Isherwood: Byddai'r asesiadau hynny, oni bai eu bod wedi cael eu gwneud mewn ardaloedd lle mai'r Gymraeg yw'r

involve children from quite a wide catchment area to a school, whereas the English-medium school may be more specifically focused on the local village or ward. Without being specific to any one county, and following your earlier answer, do you agree that it is vital that, in the context of Welsh-medium education, the principal of immersion is held to in delivery, so that children learning through the medium of Welsh are learning only through the medium of Welsh during the day, without mixing with children who use English as their first language?

Leighton Andrews: I do not have any difficulties with what you said. The important thing that we have sought to ensure, which I made clear in a statement issued in January 2010, is that the proposals for transformation by local authorities did not lead to diminution of Welsh-medium education, particularly post 16.

iaith gyntaf yn bennaf, fel arfer yn cynnwys plant o ddalgylch eithaf eang ar gyfer ysgol, tra gall yr ysgol gyfrwng Saesneg ganolbwyntio'n fwy penodol ar y pentref neu'r ward lleol. Heb fanylu ar unrhyw sir, ac yn dilyn eich ateb cynharach, a ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol, yng nghyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg, glynu at yr egwyddor o drochi wrth ddarparu, fel bod plant sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn ystod y dydd, heb gymysgu gyda phlant sy'n defnyddio Saesneg fel eu hiaith gyntaf?

Leighton Andrews: Nid yw'r hyn a ddywedasoch yn peri unrhyw anawsterau imi. Y peth pwysig yr ydym wedi ceisio ei sicrhau, a gwneuthum yn glir mewn datganiad a gyhoeddwyd yn Ionawr 2010, yw na fyddai'r cynigion ar gyfer trawsnewid gan awdurdodau lleol yn arwain at grebachu addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig addysg ôl-16.

Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Questions to the Minister for Local Government and Communities

Cofrestrï Asedau Cymunedol

1. Mark Drakeford: *A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddatblygu cynigion ar gyfer creu cofrestrï asedau cymunedol mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru. OAQ(4)0034(LGC)*

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I thank Mark Drakeford, the elected Member for Cardiff West. I can confirm that the community right to buy clauses of the Localism Bill will apply in Wales and England. I am currently considering how this could be applied in Wales and will make an announcement regarding the appropriate timing.

Mark Drakeford: Thank you very much for that reply, Minister. In giving consideration in the way that you have outlined, will you take steps to be satisfied that sufficient safeguards are in place in respect of such important community assets as Bute, Llandaf and Pontcanna fields in Cardiff, which seem

Community Asset Registers

1. Mark Drakeford: *Does the Minister have any plans to develop proposals for the creation of community asset registers in local authority areas across Wales. OAQ(4)0034(LGC)*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Diolch i Mark Drakeford, yr Aelod etholedig dros Orllewin Caerdydd. Gallaf gadarnhau y bydd y cymalau am yr hawl gymunedol i brynu yn y Bil Lleoliaeth yn weithredol yng Nghymru a Lloegr. Yr wyf wrthi'n ystyried sut y gellid gweithredu hyn yng Nghymru a gwnaf gyhoeddiad ynghylch amseriad priodol.

Mark Drakeford: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Wrth roi ystyriaeth yn y modd yr ydych wedi ei amlinellu, a fyddwch yn cymryd camau fel eich bod yn fodlon bod digon o fesurau diogelu ar waith o ran asedau cymunedol pwysig fel caeau Bute, Llandaf a Phontcanna

under such constant threat of commercial exploitation by the present city council?

Carl Sargeant: I thank the Member for his comments. I will certainly take that on board when I make my decisions in future. We must remember that the community asset transfer activity is already ongoing, with the community asset transfer fund supported by the Big Lottery Fund. There are also some excellent examples with regard to the saving of community facilities around Wales, which I clearly support.

Suzy Davies: I, too, welcome the proposals in the Localism Bill and hope that the Welsh Government will find a place in its heritage or local government legislation to offer local people a similar chance to acquire and protect assets of community value. If so, could the Minister confirm that the widest possible definition of 'community interest group' will be applied to ensure that the pool of possible purchasers will not be restricted to community councils and specific bodies, such as Communities First, but can include any community organisation with access to the appropriate funds?

Carl Sargeant: Those are detailed questions, and I will consider them at the appropriate time, when the Bill's provisions apply in Wales.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn nodi bod Llywodraeth San Steffan wrthi'n trafod elfennau o'r hawl i brynu yn y Bil Lleoliaeth a fyddai'n rhoi'r cyfle i grwpiau cymunedol i gofrestru eiddo a thir yn asedau o werth cymunedol. A allwch esbonio eich rôl yn y broses a'r hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud o ran hynny?

Carl Sargeant: Thank you for your question. As I said earlier, the right-to-buy clause of the Localism Bill will apply in Wales and in England. I am currently considering the implications of how the right to buy will apply in Wales, and I will give further details on that in an announcement later this year.

yng Nghaerdydd, sydd yn ymddangos fel pe baent o dan y fath fygythiad cyson o gael eu hecsbloetio yn fasnachol gan gyngor presennol y ddinas?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Byddaf yn sicr yn ystyried hynny pan wnaif fy mhenderfyniadau yn y dyfodol. Rhaid inni gofio bod y gweithgaredd o drosglwyddo asedau cymunedol eisoes yn bwrw rhagddi, gyda'r gronfa trosglwyddo asedau cymunedol yn cael ei chefnogi gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae yna hefyd rai enghreifftiau gwych o ran achub cyfleusterau cymunedol ledled Cymru, yr wyf yn amlwg yn eu cefnogi.

Suzy Davies: Croesawaf innau y cynigion yn y Bil Lleoliaeth a gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn dod o hyd i le yn ei deddfwriaeth ar dreftadaeth neu lywodraeth lleol i gynnig cyfle tebyg i gaffael a diogelu asedau o werth cymunedol i bobl leol. Os felly, a all y Gweinidog gadarnhau y bydd y diffiniad ehangaf posibl o 'grŵp buddiant cymunedol' yn cael ei ddefnyddio i sicrhau na fydd y gronfa o brynwyr posibl yn cael ei gyfyngu i gynghorau cymuned a chyrrff penodol, megis Cymunedau yn Gyntaf, ond y gall gynnwys unrhyw sefydliad cymunedol sydd â mynediad at y cronfeydd priodol?

Carl Sargeant: Mae'r rheiny'n gwestiynau manwl, ac fe'u hystyriaf ar yr adeg briodol, pan fydd darpariaethau'r Bil yn weithredol yng Nghymru.

Bethan Jenkins: I note that the Westminster Government is discussing elements of the right to buy in the Localism Bill, which would give community groups the ability to register land and property of value to the community. Can you explain your role in the process and what the Government intends to do in this regard?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn. Fel y dywedais yn gynharach, bydd y cymal am yr hawl i brynu yn y Bil Lleoliaeth yn weithredol yng Nghymru ac yn Lloegr. Yr wyf wrthi'n ystyried y goblygiadau o sut y bydd yr hawl i brynu yn weithredol yng Nghymru, a rhoddaf fanylion pellach ar hynny mewn cyhoeddiad yn ddiweddarach eleni.

Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a'r Heddluoedd

2. Rhodri Glyn Thomas: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglyn â chydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r heddluoedd. OAQ(4)0023(LGC)W*

Carl Sargeant: Most local authorities collaborate well with the police, and many have emphasised that in their outcome agreements with us. For example, there is strong collaboration between the local authority and the police in Denbighshire, where there was a 27 per cent reduction in alcohol-related violent crime during 2010-11.

Rhodri Glyn Thomas: Wrth reswm, Weinidog, mae awdurdodau lleol a'r heddluoedd dan wasgfa ariannol llym ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried toriadau'r glymblaid yn San Steffan. Mae Heddlu Dyfed Powys wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu cau nifer o safleoedd mewn ardaloedd gwledig yn sir Gaerfyrddin, er enghraifft. A gredwch y gallai'r heddlu ac awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn bresennol yn lleol drwy rannu safleoedd, gan gynnwys llyfrgelloedd, er enghraifft?

Carl Sargeant: Absolutely. That is exactly what I have been telling local authorities and the broader public sector to do for many months. Sharing premises is one way of reducing the costs of delivering the services that people expect. The police can certainly benefit from working more closely with local authorities in Wales.

Rhodri Glyn Thomas: A yw'r Gweinidog yn barod i fynd gam ymhellach a hyrwyddo hynny i awdurdodau lleol? Yn yr ardaloedd gwledig hynny yn sir Gaerfyrddin, mae pryder mawr ynglŷn â'r ffaith na fydd gan yr heddlu safle ac na fydd yn bresennol yno, ac mae pryder y bydd hynny'n arwain at gynnydd yn nifer y droseddau. A yw'r Gweinidog yn barod i drafod yn uniongyrchol gyda Heddlu Dyfed Powys a Chyngor Sir Gâr?

Collaboration between Local Authorities and Police Forces

2. Rhodri Glyn Thomas: *Will the Minister make a statement on collaboration between local authorities and police forces. OAQ(4)0023(LGC)W*

Carl Sargeant: Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydweithio'n dda gyda'r heddlu, ac mae llawer wedi pwysleisio hynny yn eu cytundebau canlyniadau gyda ni. Er enghraifft, mae cydweithio cryf rhwng yr awdurdod lleol a'r heddlu yn sir Ddinbych, lle'r oedd gostyngiad o 27 y cant mewn troseddau treisgar a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn ystod 2010-11.

Rhodri Glyn Thomas: Of course, Minister, local authorities and police forces are under severe financial pressure at the moment, especially considering the cuts being made by the coalition in Westminster. Dyfed Powys Police has announced that it plans to close a number of sites in rural areas in Carmarthenshire, for example. Do you think that the police and local authorities could co-operate in order to ensure that the police have a presence locally by sharing sites, including libraries, for example?

Carl Sargeant: Yn hollol. Dyna'n union beth yr wyf wedi bod yn ei ddweud wrth awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach i'w wneud ers misoedd lawer. Mae rhannu eiddo yn un ffordd o leihau costau darparu'r gwasanaethau y mae pobl yn eu disgwyl. Gall yr heddlu yn sicr fod ar eu hennill drwy weithio yn agosach gydag awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhodri Glyn Thomas: Is the Minister willing to go a step further and promote it to local authorities? In those rural areas in Carmarthenshire, there is great concern about the fact that the police will not have a site and will not be present there, and there is concern that this will lead to an increase in crime. Is the Minister prepared to negotiate directly with Dyfed Powys Police and Carmarthenshire County Council?

Carl Sargeant: I would be happy to be involved in any discussions to promote this activity. I believe that it is already being done in Torfaen, where the police are working in local government buildings. I do not see why we cannot share best practice throughout Wales, and I will give further consideration to the example that you have given today.

Byron Davies: Minister, collaboration is about much more than sharing a highly paid chief executive or director. The real efficiencies in respect of value for money and service delivery are achieved by delivering services on a regional level, if not more widely. The shared resource service in Blaenavon is a cross-service partnership that includes Gwent Police, Monmouthshire County Council and Torfaen County Borough Council. Many organisations in the public sector cannot realise the full benefits of collaboration with other bodies, and indeed some are unable to collaborate at all. I suggest that that is mainly a result of political dogma. The health service is a great example of that problem, and it has a real impact on the potential for collaboration between the NHS and local government. Will you commit to investigating the impact that that has on collaboration in Wales, and reassure us of your position on partnership with the private sector?

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. I refer him to the Gwent frailty project, which involves fantastic interaction between local authorities and the health service in that area. It is one example of working jointly in order to achieve the best outcomes for public service. I believe that there are great opportunities associated with collaboration. I am surprised at your comments regarding the senior posts and the joint appointments in that respect; that is often the catalyst to develop services under a broader structure that is supported by one or two officers as opposed to 22 officers. We do not need a high-level structure of management; we need a high level of quality services.

Carl Sargeant: Byddwn yn hapus i fod yn rhan o unrhyw drafodaethau i hyrwyddo'r gweithgarwch hwn. Credaf ei bod eisoes yn cael ei wneud yn Nhor-faen, lle mae'r heddlu yn gweithio mewn adeiladau llywodraeth leol. Ni welaf pam na allwn rannu arferion gorau ledled Cymru, a byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r enghraifft a roesoch heddiw.

Byron Davies: Weinidog, mae cydweithio yn golygu llawer mwy na rhannu prif weithredwr neu gyfarwyddwr â chyflog uchel. Cyflawnir arbedion gwirioneddol o ran gwerth am arian a darparu gwasanaethau drwy ddarparu gwasanaethau ar lefel ranbarthol, os nad yn ehangach. Mae'r gwasanaeth adnoddau a rennir ym Mlaenafon yn bartneriaeth traws-wasanaeth sy'n cynnwys Heddlu Gwent, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Ni all llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus wireddu manteision llawn cydweithio â chyrff eraill, ac yn wir mae rhai yn methu â chydweithio o gwbl. Awgrymaf fod hynny'n bennaf o ganlyniad i ddogma gwleidyddol. Mae'r gwasanaeth iechyd yn enghraifft wych o'r broblem honno, ac mae'n cael effaith gwirioneddol ar y potensial ar gyfer cydweithio rhwng y GIG a llywodraeth leol. A wnewch chi ymrwymo i ymchwilio i'r effaith a gaiff hynny ar gydweithio yng Nghymru, a rhoi sicrwydd i ni am eich safiad ar bartneriaeth â'r sector preifat?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Fe'i cyfeiriai at brosiect eiddilwch Gwent, sy'n cynnwys rhyngweithio penigamp rhwng awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd yn yr ardal honno. Mae'n un enghraifft o weithio ar y cyd er mwyn llwyddo i gael y canlyniadau gorau ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus. Credaf fod yna gyfleoedd gwych yn gysylltiedig â chydweithio. Yr wyf yn synnu at eich sylwadau ynglŷn â'r swyddi uwch a'r penodiadau ar y cyd yn hynny o beth; dyna yn aml y catalydd i ddatblygu gwasanaethau o dan strwythur ehangach sy'n cael ei gefnogi gan un neu ddau swyddog yn hytrach na 22 o swyddogion. Nid oes arnom angen strwythur rheoli lefel uchel: mae arnom angen lefel uchel o wasanaethau o safon.

Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr

Armed Forces and Veterans

3. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru i gefnogi aelodau ein Lluoedd arfog a chyn-filwyr. OAQ(4)0032(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for South Wales East. Our programme for government reaffirms our continuing commitment to the welfare of the armed forces community in Wales. We want to ensure that serving personnel, veterans and forces' families have access to services that meet their specific needs and that they are not disadvantaged as a result of their service.

William Graham: Thank you very much for your answer, Minister. Yesterday in the Chamber, the Prime Minister highlighted the incredible work that Welsh regiments are currently doing in Afghanistan and around the world. No doubt many Members will have attended events to mark Armed Forces Day two weeks ago, such as the flag-raising ceremony in Newport civic centre, which was made particularly poignant by the loss of serving soldiers from the city.

Minister, do you have any specific plans to introduce travel bonuses for veterans and members of the armed forces, particularly given the fact that they have been introduced in London by its mayor, Boris Johnson?

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. We have many support facilities for veterans and members of the armed forces. As you are aware, responsibility for the armed forces is not devolved, but we are responsible for the service personnel and the veterans who reside in Wales. One example I can give you today is the fact that we will extend the free swimming scheme to veterans and serving military personnel who are on leave. That is something that Huw Lewis is taking forward in his portfolio. Also, we are formalising existing support arrangements for Armed Forces Day parades in Wales, and this is in recognition of the service personnel who are resident in Wales, demonstrating the support of the Welsh Government and the Assembly.

3. William Graham: *Will the Minister outline the Welsh Government's policies to support members of our armed Forces and veterans. OAQ(4)0032(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Mae ein rhaglen llywodraethu yn ailddatgan ein hymrwymiad parhaus i les cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru. Yr ydym am sicrhau bod personél sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a theuluoedd lluoedd yn cael mynediad at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion penodol ac nad ydynt o dan anfantais o ganlyniad i'w gwasanaeth.

William Graham: Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Ddoe, yn y Siambr, amlygodd y Prif Weinidog y gwaith anhygoel y mae'r catrodau Cymreig yn ei wneud yn Afghanistan ac o gwmpas y byd ar hyn o bryd. Mae'n siŵr y bydd llawer o Aelodau wedi mynychu digwyddiadau i nodi Diwrnod y Lluoedd Arfog bythefnos yn ôl, megis y seremoni codi baner yng nghanolfan ddinesig Casnewydd, a oedd yn arbennig o deimladwy oherwydd y collwyd milwyr o'r ddinas wrth iddynt wasanaethu.

Weinidog, a oes gennych unrhyw gynlluniau penodol i gyflwyno taliadau bonws teithio ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog, yn enwedig o ystyried y ffaith eu bod wedi cael eu cyflwyno yn Llundain gan y maer, Boris Johnson?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae gennym lawer o gyfleusterau cymorth ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog. Fel y gwyddoch, nid yw'r cyfrifoldeb am y lluoedd arfog wedi'i ddatganoli, ond yr ydym yn gyfrifol am yr aelodau o'r lluoedd arfog a'r cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru. Un enghraifft y gallaf ei roi ichi heddiw yw'r ffaith y byddwn yn ymestyn y cynllun nofio am ddim i gyn-filwyr a phersonél milwrol sy'n gwasanaethu sydd ar absenoldeb. Mae hynny'n rhywbeth y mae Huw Lewis yn bwrw ymlaen ag ef yn ei bortffolio. Hefyd, yr ydym yn ffurfioli'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer gorymdeithiau Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghymru, ac mae hyn mewn cydnabyddiaeth o aelodau'r lluoedd arfog sy'n byw yng

Nghymru, gan ddangos cefnogaeth Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Simon Thomas: Croesawaf yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud ar y pwnc hwn. Mae'n hynod bwysig ein bod yn estyn cefnogaeth i aelodau'r lluoedd arfog pan ddychwelant o faes y gad, hyd yn oed os nad ydym fel gwleidyddion yn cytuno bob tro â'r rheswm dros eu hanfon i ryfel. Yn y cyddestun hwnnw, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod y profiad o fod yn aelod o'r lluoedd arfog yn aml yn rhoi straen ar y teulu ac yn arwain at ysgariad a chwalu teulu? Pa gamau y gall eu cymryd i sicrhau bod y cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei estyn i ŵr neu wraig a phlant y sawl sydd wedi bod yn y lluoedd arfog, hyd yn oed os bydd y teulu wedi chwalu, efallai oherwydd aelodaeth o'r lluoedd arfog?

Carl Sargeant: I thank the Member for his important question. There is a duty on the UK Government to provide support for service personnel and their families. I recognise the issues involved in the return of service personnel from active service. I recently visited RAF Valley on Anglesey, where I had many discussions with the families of members of the armed forces. I gained a real insight into the pressures on them beyond the boundaries of the service. I have talked to Cabinet colleagues about these matters in order to see how we can offer help and support, such as education opportunities, health services and other fundamental forms of support that the Welsh Government will provide, where it is able to do so.

Trafnidiaeth Gyhoeddus yn Islwyn

4. Gwyn R. Price: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus yn Islwyn. OAQ(4)0030(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for Islwyn. There are good public transport services in Islwyn, with a frequent train service on the Rhymney valley line and regular bus services to Blackwood, Newport and other destinations.

Gwyn R. Price: Thank you for that answer,

Simon Thomas: I welcome what the Minister has to say on this subject. It is extremely important that we extend support to members of the armed forces when they return from the battlefield, even if, as politicians, we do not always agree with the reasons for sending them to war. In that context, does the Minister agree that the experience of being a member of the armed forces often puts a strain on the family and leads to divorce and family breakdown? What steps can be taken to ensure that the support offered by the Welsh Government is extended to the husband or wife and children of those who have been in the armed forces, even if the family has broken down, perhaps because of membership of the armed forces?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn pwysig. Mae dyletswydd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi cymorth i aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd. Yr wyf yn cydnabod y materion sy'n ymwneud â dychweliad aelodau o'r lluoedd arfog o wasanaeth gweithredol. Yn ddiweddar, ymwelais ag RAF y Fali ar Ynys Môn, lle cefais sawl trafodaeth gyda theuluoedd aelodau o'r lluoedd arfog. Fe'm goleuwyd yn wirioneddol am y pwysau sydd arnynt y tu hwnt i ffiniau'r gwasanaeth. Yr wyf wedi siarad â chydweithwyr yn y Cabinet am y materion hyn er mwyn gweld sut y gallwn gynnig cymorth a chefnogaeth, megis cyfleoedd addysg, gwasanaethau iechyd a ffurfiau sylfaenol eraill o gefnogaeth wedi eu darparu gan Lywodraeth Cymru, lle mae'n gallu gwneud hynny.

Public Transport in Islwyn

4. Gwyn R. Price: *Will the Minister make a statement on public transport provision in Islwyn. OAQ(4)0030(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Islwyn. Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus da yn Islwyn, gyda gwasanaeth trên rheolaidd ar reilffordd cwm Rhymni a gwasanaethau bws rheolaidd i'r Coed Duon, Casnewydd a chyrchfannau eraill.

Gwyn R. Price: Diolch am yr ateb hwnnw,

Minister. Many of my constituents are delighted by the increased bus provision between Blackwood and Cardiff, as this will increase access to jobs in Cardiff for people throughout Islwyn. Another way of increasing access to job opportunities for the people of my constituency will come with the reopening of the Newport spur on the Ebbw valley line. Minister, can you give us an update on this matter?

Carl Sargeant: Thank you for your question. Many Members, across the parties, ask me this question. My officials have received a draft feasibility study from Network Rail, and that is undergoing detailed revision before being finalised. Once this work has been done, my officials will undertake an appraisal of the business case and I will then consider the case regarding investment. I will write to you accordingly when I have made some decisions around that.

2.30 p.m.

William Graham: First Minister, will you join with me in welcoming Stagecoach's investment of £750,000 in seven new enviro-buses to operate on the 26 service between Blackwood and Cardiff? It will also run twice as frequently as in the past. With the improvements to this service, and the success of the X24 route between Blaenavon and Newport, which carries more than 1.5 million passengers a year, does the Minister agree that this is indicative of the strong and growing demand for public transport routes between the Gwent valleys and the cities of Newport and Cardiff, and adding to the call for what my colleague just raised, that is, the long-promised rail link between Newport and Ebbw Vale? I heard what you said on that, but could we have a timescale?

Carl Sargeant: I will be considering the feasibility report over the summer, which will then feed into the more detailed discussions around the national transport plan, on which I will make a statement in the autumn. Of course, I welcome any capital investment in

Weinidog. Mae llawer o'm hetholwyr wrth eu bodd gyda'r ddarpariaeth bysiau wedi ei chynyddu rhwng y Coed Duon a Chaerdydd, gan y bydd hyn yn cynyddu mynediad i swyddi yng Nghaerdydd ar gyfer pobl ledled Islwyn. Bydd ffordd arall o gynyddu mynediad at gyfleoedd gwaith i bobl fy etholaeth yn dod yn sgil ailagor cainc Casnewydd ar linell dyffryn Ebwy. Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y mater?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn. Mae llawer o Aelodau, ar draws y pleidiau, yn holi'r cwestiwn hwn i mi. Mae fy swyddogion wedi derbyn astudiaeth dichonoldeb ddrafft gan Network Rail, ac y mae'n cael ei adolygu yn fanwl cyn cael ei gwblhau. Unwaith y mae'r gwaith hwn wedi'i wneud, bydd fy swyddogion yn cynnal arfarniad o'r achos busnes ac wedyn byddaf yn ystyried yr achos ynghylch buddsoddi. Byddaf yn ysgrifennu atoch i'r perwyl hwnnw pan fyddaf wedi gwneud rhai penderfyniadau ynghylch hynny.

William Graham: Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu buddsoddiad Stagecoach o £750,000 mewn saith bws Enviro newydd i weithredu ar y gwasanaeth 26 rhwng y Coed Duon a Chaerdydd? Bydd hefyd yn rhedeg ddwywaith mor aml ag yn y gorffennol. Gyda'r gwelliannau i'r gwasanaeth hwn, a llwyddiant y llwybr X24 rhwng Blaenafon a Chasnewydd, sy'n cario mwy na 1.5 miliwn o deithwyr y flwyddyn, a ydyw'r Gweinidog yn cytuno bod hwn yn arwydd o'r galw cryf a chynyddol am lwybrau cludiant cyhoeddus rhwng cymoedd Gwent a dinasoedd Casnewydd a Chaerdydd, ac yn ychwanegu at y galw am yr hyn a godwyd gan fy nghyd-Aelod, hynny yw, y cysylltiad rheilffyrdd hir-addawedig rhwng Casnewydd a Glynebwy? Clywais yr hyn a ddywedasoeh ar hynny, ond a allem gael amserlen?

Carl Sargeant: Byddaf yn ystyried yr adroddiad dichonoldeb dros yr haf, a fydd wedyn yn bwydo i mewn i'r trafodaethau mwy manwl ynghylch y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, y byddaf yn gwneud datganiad arno yn yr hydref. Wrth gwrs, rwy'n

infrastructure. Services such as the ones that you mentioned aid public transport across Wales, which I welcome.

William Graham: At a recent meeting with the company that operates a number of bus routes across Wales, its representatives again raised concerns about the level of the bus operators' subsidy, which had resulted in a number of routes not being profitable and therefore at risk of being withdrawn. How is your Government working with bus operators across Wales to ensure that they are fully compensated for concessionary fares and the services they run so that cancellations or changes in the frequency of buses on less popular routes are always avoided?

Carl Sargeant: You raise an interesting point about the financing of bus operators and bus routes. That is why I have asked my team to look at the possibility of re-regulating bus routes across Wales, which will enhance the opportunities to introduce packages of bus routes, where you have profitable and non-profitable services together as a package, for the benefit of our communities.

The Presiding Officer: I remind people that this is a question on transport in Islwyn.

Vaughan Gething: As you will be aware, within a 30-mile radius of Cardiff, there are over 1.4 million people living, including 80,000—some from Islwyn—who commute into Cardiff to work every day. [Laughter.] Unfortunately, in a number of areas within that 30-mile radius, including the east of my own constituency, there is no rail network linking them to either the city centre, the Valleys network or Newport to the east. Improved transport links are vital to the economy as well as having an important social aspect. Will you update us on the campaign to electrify the Valleys lines to Cardiff, and equally, will you confirm the attitude of the Welsh Government to the proposal to provide a south Wales metro, which will increase both the bus and rail network across the whole of south Wales?

croesawu unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith. Mae gwasanaethau megis y rhai a grybwyllwyd gennych yn cynorthwyo cludiant cyhoeddus ar draws Cymru, a chroesawaf hynny.

William Graham: Mewn cyfarfod diweddar gyda'r cwmni sy'n gweithredu nifer o lwybrau bws ledled Cymru, codwyd pryderon gan ei gynrychiolwyr eto ynghylch lefel y cymhorthdal i'r gweithredwyr bysiau, a arweiniodd at nifer o lwybrau nad ydynt yn gwneud elw ac felly mewn perygl o gael eu tynnu'n ôl. Sut y mae eich Llywodraeth yn gweithio gyda gweithredwyr bysiau ledled Cymru i sicrhau y cânt eu digolledu'n llawn am gonsesiynau teithio a'r gwasanaethau y maent yn eu rhedeg i osgoi canslo neu newidiadau yn amllder y bysiau ar lwybrau llai poblogaidd bob amser?

Carl Sargeant: Rydych yn codi pwynt diddorol am ariannu gweithredwyr bysiau a llwybrau bysiau. Dyna pam yr wyf wedi gofyn i'm tîm i edrych ar y posibilrwydd o ail-reoleiddio llwybrau bysiau ledled Cymru, a fydd yn gwella'r cyfleoedd i gyflwyno pecynnau llwybrau bysiau, lle bo gennych wasanaethau proffidiol ac amhroffidiol gyda'i gilydd fel pecyn, er budd ein cymunedau.

Y Llywydd: Atgoffaf bobl mai cwestiwn ar drafnidiaeth yn Islwyn yw hwn.

Vaughan Gething: Fel y byddwch yn ymwybodol, o fewn radiws o 30 milltir o Gaerdydd, mae dros 1.4 miliwn o bobl yn byw, gan gynnwys 80,000—rhaid o Islwyn—sy'n cymudo i Gaerdydd i weithio bob dydd. [Chwerthin.] Yn anffodus, mewn nifer o feysydd o fewn y radiws o 30 milltir, gan gynnwys dwyrain fy etholaeth fy hun, nid oes rhwydwaith rheilffyrdd sy'n cysylltu naill ai canol y ddinas, rhwydwaith y Cymoedd neu Gasnewydd i'r dwyrain. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwell yn hanfodol i'r economi yn ogystal â chael agwedd gymdeithasol bwysig. A wnewch chi ein diweddarau ar yr ymgyrch i drydaneiddio rheilffordd y Cymoedd i Gaerdydd, ac yn yr un modd, a wnewch chi gadarnhau agwedd Llywodraeth Cymru at y cynnig i ddarparu metro de Cymru, a fydd yn cynyddu'r rhwydwaith bysiau a rheilffyrdd ar draws de Cymru gyfan?

Carl Sargeant: I thank the Member for his detailed question and for highlighting the extremely important links between Cardiff and Islwyn. [*Laughter.*] I would suggest that the issues you raised regarding the electrification of the Valleys lines and the potential metro link are dependent on the business case that is made. My team are working actively to support a business case to take to Westminster regarding funding, as was mentioned in committee this morning. We have to be very aware of the issues around funding these schemes and it is critical therefore that we support the First Minister in his attempt to seek borrowing powers for the Assembly, as a lot of the large build schemes across Wales will be dependent upon the opportunity to borrow.

Jocelyn Davies: In Islwyn, public transport for some is essential, and for others is a choice, and I am sure that we will all look forward to seeing the feasibility study on the link to Newport. However, when do you expect to have good news for the Islwyn residents who either need or want to travel to Ebbw Vale town by train?

Carl Sargeant: Thank you for your question. This is all dependent upon the feasibility studies by Network Rail and, from there, broadening the opportunities to develop new routes into communities, as you mentioned. However, it is all dependent on a reasonable settlement from Westminster. Unfortunately, my capital programme has been reduced by about 40 per cent, and it is therefore extremely challenging for me and the communities to deliver good quality services.

David Rees: Minister, in your written evidence to this morning's Enterprise and Business Committee, you highlighted the role that transport plays in reducing poverty by supporting economic growth and, in particular, linking people to jobs. Can you outline the support being given to Valleys communities, such as those in the Afan valley, which have found that bus services, particularly the early morning and evening services—

The Presiding Officer: Order. No, I am

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn manwl ac am dynnu sylw at y cysylltiadau pwysig iawn rhwng Caerdydd ac Islwyn. [*Chwerthin.*] Byddwn yn awgrymu bod y materion a godwyd gennych ynglŷn â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r cyswllt metro posibl yn dibynnu ar yr achos busnes a wneir. Mae fy nhîm yn gweithio'n frwd i gefnogi achos busnes ynghylch ariannu i fynd ag ef i San Steffan, fel y soniwyd yn y pwyllgor y bore yma. Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol iawn o'r materion ynghylch ariannu'r cynlluniau hyn ac mae'n hanfodol felly ein bod yn cefnogi'r Prif Weinidog yn ei ymgais i geisio pwerau benthyca i'r Cynulliad, gan y bydd llawer o'r cynlluniau adeiladu mawr ledled Cymru yn dibynnu ar y cyfle i fenthyca.

Jocelyn Davies: Yn Islwyn, mae cludiant cyhoeddus yn hanfodol i rai, ac i eraill, y mae'n ddewis, ac yr wyf yn siŵr y byddwn i gyd yn edrych ymlaen at weld yr astudiaeth dichonoldeb ar y cyswllt i Gasnewydd. Fodd bynnag, pryd ydych yn disgwyl cael newyddion da i drigolion Islwyn sydd naill ai angen neu eisiau teithio i dref Glynebwy ar y trê'n?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn. Mae hyn i gyd yn dibynnu ar astudiaethau dichonoldeb Network Rail ac, oddi yno, ehangu'r cyfleoedd i ddatblygu llwybrau newydd i mewn i gymunedau, fel y soniasoch. Fodd bynnag, mae'r cyfan yn dibynnu ar setliad rhesymol o San Steffan. Yn anffodus, mae fy rhaglen gyfalaf wedi cael ei leihau rhyw 40 y cant, ac y mae felly yn heriol iawn i mi ac i'r cymunedau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

David Rees: Weinidog, yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Busnes y bore yma, fe wnaethoch amlygu'r rôl y mae trafndiaeth yn ei chwarae mewn lleihau tlodi drwy gefnogi twf economaidd ac, yn benodol, mewn cysylltu pobl â swyddi. A allwch amlinellu'r cymorth a roddir i gymunedau'r Cymoedd, megis y rhai yng Nghwmafan, a ganfu bod y gwasanaethau bws, yn enwedig y gwasanaethau bore cynnar a gyda'r nos—

Y Llywydd: Trefn. Na, mae'n ddrwg gennyf,

sorry, but this is really a question about Islwyn—

David Rees: It is a Valleys community.

The Presiding Officer: Well, no, it is Islwyn. I have already given leeway to a previous speaker, so I am calling you out of order. We will move to question 5.

David Rees: This one is definitely okay.

The Presiding Officer: Good.

Diogelwch Cymunedol

5. David Rees: Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch cymunedol. OAQ(4)0028(LGC)

Carl Sargeant: I thank the Member for Aberavon. The Welsh Government works closely with the community safety partnerships in Wales to ensure a joined-up multi-agency approach to tackling crime, anti-social behaviour, substance misuse, youth offending, violence against women and domestic abuse, and we will continue to provide this support.

David Rees: Thank you, Minister. I recently met with the commander for my area from the South Wales Police force, who indicated that, as a result of the Westminster Government's severe cuts of £47 million to the funding for South Wales Police, they will be facing the loss of 256 officers. The Welsh Labour manifesto highlighted the provision of 500 police community support officers to support our safer communities strategy. My local PCSO, Shaun Thomas, is a perfect example of how we can provide the services to improve community safety. Therefore, Minister, can you indicate when the process of allocating funding for these additional staff will commence so that the Welsh Government can start to offset some of the damage being caused by the UK Government?

Carl Sargeant: Thank you for your question. The commitment in our manifesto on PCSOs is well on track and I hope to be announcing

ond mewn gwirionedd, mae hwn yn gwestiwn am Islwyn—

David Rees: Mae'n gymuned yn y Cymoedd.

Y Llywydd: Wel, na, Islwyn ydyw. Rwyf eisoes wedi rhoi hyblygrwydd i'r siaradwr blaenorol, felly yr wyf yn eich galw allan o drefn. Symudwn i gwestiwn 5.

David Rees: Mae'r un hwn yn bendant yn iawn.

Y Llywydd: Da iawn.

Community Safety

5. David Rees: What action will the Welsh Government be taking to improve community safety. OAQ(4)0028(LGC)

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod dros Aberafan. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru i sicrhau ymagwedd aml-asiantaeth cydgysylltiedig at daclo troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, troseddau ieuenctid, trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, a byddwn yn parhau i ddarparu'r cymorth hwn.

David Rees: Diolch ichi, Weinidog. Cyfarfûm yn ddiweddar â chomander fy ardal i o Heddlu De Cymru, a nododd, o ganlyniad i doriadau difrifol Llywodraeth San Steffan o £47 miliwn i'r arian ar gyfer Heddlu De Cymru, y byddant yn wynebu colli 256 o swyddogion. Tynnodd maniffesto Llafur Cymru sylw at y ddarpariaeth o 500 o swyddogion cymorth cymunedol i gefnogi ein strategaeth cymunedau mwy diogel. Mae fy PCSO lleol, Shaun Thomas, yn enghraifft berffaith o sut y gallwn ddarparu'r gwasanaethau i wella diogelwch cymunedol. Felly, Weinidog, a allwch ddweud pryd y bydd y broses o ddyrannu arian ar gyfer y staff ychwanegol hyn yn dechrau fel y gall Llywodraeth Cymru ddechrau gwrthbwysu rhai o'r difrod a achosir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig?

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich cwestiwn. Mae'r ymrwymiad yn ein maniffesto ynghylch swyddogion cymorth

some positive news around Christmas this year for the development of PCSOs in our communities across Wales. Interestingly, on your comments regarding police cuts, I note with interest that David T.C. Davies, a former Member of this Assembly, today condemned the UK Government's cuts to the police force. I wholeheartedly support that position.

Mohammad Asghar: Minister, the firefighting service plays a key role in maintaining community safety. The South Wales Fire and Rescue Service runs a uniformed cadet scheme that teaches young people skills such as basic firefighting, first aid and community safety. In my region, the fire service has been recruiting cadets in Abergavenny, Merthyr Tydfil, Caerphilly and Tredegar. Will you join me, Minister, in welcoming this initiative, which has a key role to play in teaching young people key skills linked to community safety and the importance of embracing personal responsibility and wider responsibility for their local communities?

Carl Sargeant: I am very pleased to endorse the young firefighters scheme. I also wish to place on record my thanks to the volunteers who support the group's activity right across Wales. Most recently, with Ann Jones, I visited the young firefighters in Prestatyn, who were clearly doing a fantastic job with the volunteer leaders. This is a great opportunity to embrace the young people in our communities and to empower them to take community responsibility. I certainly endorse the scheme and I thank you for your comments today.

Llyr Huws Gruffydd: Fel yn achos heddluoedd eraill Cymru, ac fel yr ydym wedi clywed yn barod, mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn mynd i orfod ysgwyddo baich sylweddol iawn o safbwynt toriadau yn ei gyllideb gan San Steffan. Un o ganlyniadau'r toriadau bydd cau nifer o orsafoedd heddlu ar draws gogledd Cymru a fydd, ynddo'i hun, yn effeithio ar ganfyddiad pobl o ddiogelwch cymunedol. A ydych yn credu bydd eich polisi o greu 500 o

cymunedol ar y trywydd iawn ac, rwy'n gobeithio, yn cyhoeddi rhywfaint o newyddion cadarnhaol tua'r Nadolig eleni ar gyfer datblygu PCSOs yn ein cymunedau ledled Cymru. O ran eich sylwadau ynghylch toriadau'r heddlu, mae'n ddi-ddorol nodi bod David T.C. Davies, cyn Aelod o'r Cynulliad hwn, heddiw yn condemnio toriadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r heddlu. Llwyd gefnogaf y sefyllfa honno.

Mohammad Asghar: Weinidog, mae'r gwasanaeth diffodd tân yn chwarae rôl allweddol o ran cynnal a chadw diogelwch cymunedol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn rhedeg cynllun cadet mewn lifrai sy'n dysgu sgiliau sylfaenol i bobl ifanc megis diffodd tân, cymorth cyntaf a diogelwch cymunedol. Yn fy rhanbarth i, mae'r gwasanaeth tân wedi bod yn recriwtio cadetiaid yn y Fenni, Merthyr Tudful, Caerffili a Thredegar. A wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i groesawu'r fenter hon, sydd â rôl allweddol i'w chwarae mewn dysgu sgiliau allweddol i bobl ifanc sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol a'r pwysigrwydd o goleddu cyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb ehangach ar gyfer eu cymunedau lleol?

Carl Sargeant: Rwyf yn falch iawn o gefnogi'r cynllun diffoddwyr tân ifanc. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r gwirfoddolwyr sy'n cefnogi gweithgarwch y grŵp ar draws Cymru. Yn fwy diweddar, ymwelais i ac Ann Jones â'r diffoddwyr tân ifanc ym Mhrestatyn, sy'n amlwg yn gwneud gwaith gwych gyda'r arweinwyr gwirfoddol. Mae hwn yn gyfle gwych i gofleidio'r bobl ifanc yn ein cymunedau a'u grymuso i gymryd cyfrifoldeb cymunedol. Rwyf i yn sicr yn ategu'r cynllun a diolch i chi am eich sylwadau heddiw.

Llyr Huws Gruffydd: As is the case with other police forces in Wales, and as we have already heard, North Wales Police will also have to shoulder a very heavy burden in terms of cuts to its budget from Westminster. One of the results of those cuts will be the closure of a number of police stations across north Wales that will, in itself, have an impact on people's perception of community safety. Do you believe that your policy of creating 500 new PCSOs will fill that gap,

swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu newydd yn llenwi'r bwlch hwnnw, yn enwedig o gofio bod Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi beirniadu'r polisi gan ei fod yn poeni na fydd y cyhoedd yn deall pan na fydd PCSOs yn medru ymateb i alwadau brys, er enghraifft?

Carl Sargeant: I thank the Member for his comments. I do not recognise the comments that the police federation is opposed to our 500 PCSOs in Wales. The fact of the matter is that we do not pretend that PCSOs are a replacement for police officers; they are clearly not, and that is something that I have been talking about with chief officers across Wales. This is about a commitment to support community safety, and you are right to say that we are already seeing devastating cuts in the police budget so that around 1,600 police officers and staff across Wales will lose their jobs. That is the equivalent of all of North Wales Police, which is something that worries me. Our 500 PCSOs will not replace those police officers, but they will support our communities and that is something that we are committed to delivering.

Peter Black: Minister, I am also concerned about the cuts in the police budgets, especially as this is not the first year that they have been cut—they were also cut during the last year of the Labour Government in Westminster. In answer to David Rees's supplementary question, you said that you were looking forward to making an announcement at Christmas, but as the supplementary budget was agreed yesterday, will you confirm that you have the £10 million to £15 million a year in your budget that will be necessary to fund these 500 PCSOs?

Carl Sargeant: Yes.

Peter Black: Thank you for that helpful answer, Minister. Will you therefore confirm that you will be rolling out that scheme in full during this financial year or do you intend to roll it out gradually over the five years of this Assembly?

particularly bearing in mind that the Police Federation of England and Wales has criticised the policy because of its concern that the public will not understand that PCSOs will not be able to respond to emergency calls, for example?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Nid wyf yn cydnabod y sylwadau bod ffederasiwn yr heddlu yn gwrthwynebu ein 500 PCSO yng Nghymru. Y ffaith amdani yw nad ydym yn esgus bod swyddogion cymorth cymunedol yn cymryd lle swyddogion yr heddlu; nid ydynt, yn glir, ac mae hynny'n rhywbeth y bûm yn siarad amdano gyda phrif swyddogion ledled Cymru. Mae hwn ynglŷn ag ymrwymiad i gefnogi diogelwch cymunedol, ac rydych yn iawn i ddweud ein bod eisoes yn gweld toriadau dinistriol yng nghyllideb yr heddlu fel bod tua 1,600 o swyddogion yr heddlu a staff ledled Cymru wedi colli eu swyddi. Mae hynny'n cyfateb i Heddlu Gogledd Cymru gyfan, sy'n rhywbeth sy'n fy mhoeni. Ni fydd ein 500 PCSO yn disodli'r swyddogion heddlu hynny, ond byddant yn cefnogi ein cymunedau ac y mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ymrwmo i'w gyflawni.

Peter Black: Weinidog, yr wyf innau yn bryderus ynghylch y toriadau i gyllidebau'r heddlu, yn enwedig gan nad hon yw'r flwyddyn gyntaf y maent wedi'u torri—fe'u torrwyd hwy hefyd yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Llywodraeth Lafur yn San Steffan. Mewn ateb i gwestiwn atodol David Rees, dywedasoch eich bod yn edrych ymlaen at wneud cyhoeddiad adeg y Nadolig, ond gan fod y gyllideb atodol wedi cael ei chytuno ddoe, a wnewch chi gadarnhau bod gennych y £10 miliwn i £15 miliwn y flwyddyn yn y gyllideb a fydd yn angenrheidiol i ariannu'r 500 PCSO hyn?

Carl Sargeant: Gwnaf.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb defnyddiol hwnnw, Weinidog. A wnewch chi gadarnhau felly y byddwch yn lledaenu'r cynllun hwnnw'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon neu a ydych yn bwriadu ei gyflwyno'n raddol dros bum mlynedd y Cynulliad hwn?

Carl Sargeant: There will be a gradual introduction of PCSOs starting around Christmas time, if everything is lined up in order to do that. The key is to ensure that PCSOs are fully trained and ready to go onto the streets of our communities, and that will start with the roll out at Christmas.

Carl Sargeant: Bydd cyflwyniad graddol o PCSOs yn dechrau adeg y Nadolig, os yw popeth yn barod i wneud hynny. Yr allwedd yw sicrhau bod swyddogion cymorth cymunedol wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn barod i fynd ar strydoedd ein cymunedau, a bydd hynny yn cychwyn adeg y Nadolig.

Cymunedau Difreintiedig

6. Mark Isherwood: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag amddifadedd mewn cymunedau difreintiedig. OAQ(4)0026(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for North Wales for the question. The Welsh Government has given a commitment to continuing to support the most disadvantaged communities across Wales through programmes such as Communities First. The current phase of the programme will end in March 2012 and we are currently consulting on the future, post March 2012.

Mark Isherwood: Last week, you announced the consultation to which you have just referred and to which you will no doubt receive many submissions, including mine. Have you ruled anything in or out in terms of the future direction of the programme? Will you consider the findings of the Wales Council for Voluntary Action, which it published in 'A Way Forward' last year? It identified the need for communities to move beyond programmes to establish their own independent institutions that the community values, owns and is willing to mobilise around? Would you consider its statement that each community requires a hub, which would include a right to bid, so that communities could put forward proposals to run local services, and a right to a fair return, in that where a community-run service saves a statutory service provider costs, it should be entitled to a share of those savings?

Carl Sargeant: I will not pre-empt the results consultation exercise because it is important to have a consultation exercise as a listening post for submissions. I have not counted anything out in terms of the detail, therefore I await your proposals and I will

Disadvantaged Communities

6. Mark Isherwood: *What action is the Welsh Government taking to tackle deprivation in disadvantaged communities. OAQ(4)0026(LGC)*

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod dros Ogledd Cymru am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad i barhau i gefnogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru drwy raglenni megis Cymunedau yn Gyntaf. Bydd cyfnod cyfredol y rhaglen yn dod i ben ym mis Mawrth 2012 ac rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y dyfodol, wedi Mawrth 2012.

Mark Isherwood: Yr wythnos diwethaf, cyhoeddasoch yr ymgynghoriad yr ydych newydd gyfeirio ato, ac y byddwch, yn ddiaw yn derbyn llawer o gyflwyniadau iddo, gan gynnwys fy un i. A ydych wedi diystyru unrhyw beth o ran cyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol? A wnewch ystyried canfyddiadau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a gyhoeddwyd yn 'Cymunedau yn Gyntaf— Ffordd Ymlaen' y llynedd? Nododd yr angen i gymunedau symud y tu hwnt i raglenni i sefydlu eu sefydliadau annibynnol eu hunain y mae'r gymuned yn eu gwerthfawrogi, yn berchen arnynt ac yn barod i weithredu o'u hamgylch? A fydddech yn ystyried ei ddatganiad bod angen canolfan ar bob cymuned, a fyddai'n cynnwys hawl i wneud cais, fel y gall cymunedau gyflwyno cynigion i redeg gwasanaethau lleol, a hawl i gael elw teg, fel bod gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan gymuned ac yn arbed costau i ddarparwr gwasanaethau statudol â'r hawl i gael cyfran o'r arbedion hynny?

Carl Sargeant: Ni fyddaf yn rhagdybio canlyniadau'r ymarfer ymgynghori oherwydd mae'n bwysig i gael ymarfer ymgynghori fel safle gwranddo ar gyfer cyflwyniadau. Nid wyf wedi diystyru unrhyw beth o ran y manylion, felly disgwyliaf am eich cynigion

use the WCVA's paper to inform the next phase of the post-2012 Communities First programme.

Kenneth Skates: Minister, last Friday I visited the excellent Leonard Cheshire Home in Dolywern, a superb and valued community facility that helps many people to get the dignified care and support that they need as they get older. As you will be aware, of all the reckless and irresponsible spending cuts proposed by the coalition Government, the meanest and nastiest cutback is the proposal to withdraw mobility allowance for people in care. It is an important benefit that enables scores of disabled people to get out and about from residential homes in Wales. What efforts is the Welsh Government making to stand up for older people in care and to lobby the Westminster Government to ensure that this shameful and demeaning cut never sees the light of day in Wales?

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. This is of concern to me and we have listened carefully to the strong concerns raised by individuals and organisations regarding the proposal in the spending review of the UK Government to withdraw disability living allowance mobility payments. This is something that I have little power of intervention over, as the issue is dealt with by the UK Government. However, people should make the strongest representations to Ministers in Westminster. On a personal note, I do not support those proposals.

2.45 p.m.

Lindsay Whittle: According to the Bevan Foundation, 23 per cent of people living in Wales are already below the poverty line. Shame on successive London Governments, say I. However, last year, the Welsh Government did an equality assessment of its budgets. What consideration has the Minister given to encouraging local authorities in Wales to apply a similar equality assessment of their budgets in order to help protect the most vulnerable group from the cuts? For example, last week, the Ebbw Vale food bank had its busiest week since opening in 2008, with a 50 per cent increase in its clients.

a byddaf yn defnyddio papur CGGC i lywio cyfnod nesaf y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ôl 2012.

Kenneth Skates: Weinidog, ddydd Gwener diwethaf ymwelais â'r cartref Leonard Cheshire rhagorol yn Nolywern, cyfleuster cymunedol ardderchog a werthfawrogir, sy'n helpu llawer o bobl i gael y gofal urddasol a'r cymorth y mae arnynt eu hangen wrth iddynt fynd yn hŷn. Fel y byddwch yn ymwybodol, o'r holl doriadau i wariant di-hid ac anghyfrifol a gynigiwyd gan y Llywodraeth glymblaid, y toriad mwyaf cynnil a chas yw'r cynnig i dynnu'n ôl y lwfans symudedd i bobl mewn gofal. Mae'n fudd-dal pwysig sy'n galluogi ugeiniau o bobl anabl i fynd allan o gartrefi preswyl yng Nghymru. Pa ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i sefyll dros bobl hŷn mewn gofal ac i lobio Llywodraeth San Steffan i sicrhau nad yw'r toriad cywilyddus a diraddiol hwn byth yn gweld golau dydd yng Nghymru?

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae hwn yn peri pryder i mi, ac yr ydym wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon cryf a godwyd gan unigolion a sefydliadau ynglŷn â'r cynnig yn adolygiad o wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig i dynnu yn ôl taliadau symudedd y lwfans byw i'r anabl. Mae hyn yn rhywbeth y mae gennyf ychydig o bŵer ymyrryd drosto, gan mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n ymdrin â'r mater. Fodd bynnag, dylai pobl wneud y sylwadau cryfaf i Weinidogion yn San Steffan. Ar nodyn personol, nid wyf yn cefnogi'r cynigion hyn.

Lindsay Whittle: Yn ôl Sefydliad Bevan, mae 23 y cant o bobl yng Nghymru eisoes yn byw dan y llinell dlodi. Rhag cywilydd i Lywodraethau Llundain olynol, ddywedaf i. Fodd bynnag, y llynedd, gwnaeth Llywodraeth Cymru asesiad cydraddoldeb o'i chyllidebau. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi ei roi i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud cais asesiad cydraddoldeb tebyg o'u cyllidebau er mwyn helpu i ddiogelu'r grŵp mwyaf agored i niwed rhag y toriadau? Er enghraifft, yr wythnos diwethaf, cafodd banc bwyd Glynebwy ei wythnos prysuraf ers agor yn 2008, gyda

chynnydd o 50 y cant yn ei gleientiaid.

Carl Sargeant: I would encourage local authorities to conduct an impact assessment of their budget proposals. That is why I have written to local authorities in terms of their relationship with the third sector and how they engage in service provision. Often, the third sector is the first line of support for people, but also the first line for cuts from local authorities. That is not acceptable.

Carl Sargeant: Byddwn yn annog awdurdodau lleol i gynnal asesiad o effaith eu cynigion cyllideb. Dyna pam yr wyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol o ran eu perthynas â'r trydydd sector a sut y maent yn ymgysylltu mewn darpariaeth gwasanaeth. Yn aml, y trydydd sector yw'r llinell gymorth gyntaf ar gyfer pobl, ond hefyd y llinell gyntaf ar gyfer toriadau gan awdurdodau lleol. Nid yw hynny'n dderbyniol.

Perfformiad Awdurdod Lleol

7. Jenny Rathbone: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad awdurdod lleol yng Nghaerdydd. OAQ(4)0021(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for Cardiff Central for that question. Like all local authorities, Cardiff Council has its strengths and weaknesses.

Jenny Rathbone: I will focus on the weakness that incurs the most complaints, certainly in Cardiff Central: the state of people's front gardens and the amount of rubbish to be found in front gardens. This is as a result of the rather quaint custom and practice that binmen only collect rubbish placed on the public footpath on collection day. The seagulls love it, but people with eyesight and mobility problems absolutely hate it. Why is it not possible for Cardiff binmen to pick up the rubbish from people's front gardens, as they do in most other cities in the UK? Secondly, a minority of people use their front gardens as a general dumping ground for all manner of things for which they cannot be bothered to arrange collection or take to the dump themselves. Could you give your view on the award-winning eyesore gardens scheme set up by the London Borough of Barking and Dagenham Council, which has proved hugely effective at improving the built environment there?

Carl Sargeant: I thank the Member for her question. She raises an important issue regarding local pride in our communities. First, I place on record my support for those who work in public services, including

Local Authority Performance

7. Jenny Rathbone: *Will the Minister make a statement on local authority performance in Cardiff. OAQ(4)0021(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Fel pob awdurdod lleol, mae gan Gyngor Caerdydd ei gryfderau a'i wendidau.

Jenny Rathbone: Canolbwyntiaf ar y gwendid sy'n achosi'r mwyafrif o gwynion, yn sicr yng Nghanol Caerdydd: cyflwr gerddi blaen pobl a'r sbwriel sydd i'w gweld yng ngerddi blaen. Mae hyn o ganlyniad i'r arfer eithaf od sydd gan gasglwyr sbwriel o gasglu dim ond y sbwriel sydd wedi'i osod ar y llwybr cyhoeddus ar ddiwrnod casglu. Mae'r gwylanod wrth eu boddau gydag ef, ond y mae'n peri atgasedd i'r bobl sydd â phroblemau golwg a symudedd. Pam nad yw'n bosibl i gasglwyr sbwriel Caerdydd godi'r sbwriel o gerddi blaen pobl, fel y gwnânt yn y rhan fwyaf o ddinasoedd eraill yn y Deyrnas Unedig? Yn ail, mae lleiafrif o bobl sy'n defnyddio eu gerddi blaen fel tomen gyffredinol ar gyfer pob math o bethau na allant drafferthu i drefnu casgliad ohonynt neu i fynd â hwy i'r domen sbwriel eu hunain. A allech roi eich barn ar y cynllun gerddi anniben a enillodd wobrau ac a sefydlwyd gan Gyngor Bwrdeistref Barking a Dagenham, Llundain, sydd wedi ei brofi o fod yn hynod effeithiol o ran gwella'r amgylchedd adeiledig yno?

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae hi'n codi mater pwysig ynghylch balchder lleol yn ein cymunedau. Yn gyntaf, cofnodaf fy nghefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau

binmen, across Wales who do a fantastic job. However, I also recognise the issues that the Member raises. This is probably more of a question for the Minister for Environment and Sustainable Development; I will ask him to write to you on the detail of your question.

Andrew R.T. Davies: One issue that now falls into your portfolio is transportation. Cardiff Council and the Welsh Government have had a relationship for quite some time on the sustainable towns initiative, emanating from the previous Assembly. One of the sustainable options to which people have access is buses. You will be aware of the appalling state of the central bus terminus in Cardiff. The council has brought successive plans forward, but little improvement has been seen for the benefit of the patrons of that facility. In your new portfolio responsibility, will you work collaboratively with the council to progress this agenda? For the capital city of Wales to have such a poor central bus terminus is a crying shame.

Carl Sargeant: I have to look at the strategic overview of Wales as a whole in terms of the delivery of travel and transport support. Cardiff is just one of many concerns that I will have to take forward in the future. The difficulties in driving this agenda forward arise from finances. If you could possibly ask your colleagues in Westminster for more money, we would be very grateful.

Julie Morgan: My constituents in Cardiff North are very concerned about the length of time taken by Cardiff Council to respond to complaints about anti-social behaviour, particularly noise nuisance. This is despite a major ombudsman report that criticised Cardiff's procedures and stressed the need for retraining at all levels. What can be done to improve Cardiff's response to situations that cause such misery for so many of our constituents?

Carl Sargeant: I thank the Member for her question. Obviously, these are questions that

cyhoeddus, gan gynnwys casglwyr sbwriel, ledled Cymru sy'n gwneud gwaith gwych. Fodd bynnag, yr wyf hefyd yn cydnabod y materion a godir gan yr Aelod. Mae hwn, yn fwy na thebyg, yn gwestiwn sy'n fwy addas i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; gofynnaf iddo ysgrifennu atoch ynglŷn â manylion eich cwestiwn.

Andrew R.T. Davies: Un mater sydd yn awr yn eich portffolio chi yw cludiant. Mae Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru wedi cael perthynas ers cryn amser bellach o safbwynt y fenter trefi cynaliadwy, sy'n deillio o'r Cynulliad blaenorol. Un o'r opsiynau cynaliadwy y mae gan bobl fynediad ato yw bysiau. Byddwch yn ymwybodol o gyflwr echrydus y terminws bysiau canolog yng Nghaerdydd. Mae'r cyngor wedi cyflwyno cynlluniau olynol, ond ychydig welliant sydd i'w weld er budd noddwyr y cyfleuster hwnnw. Yn eich cyfrifoldeb portffolio newydd, a wnewch chi weithio ar y cyd â'r cyngor i symud yr agenda hwn ymlaen? Mae'n siom enbyd bod gan brifddinas Cymru derminws bysiau sydd mewn cyflwr mor wael.

Carl Sargeant: Mae'n rhaid imi edrych ar drosolwg strategol o Gymru gyfan o ran darparu cymorth teithio a thrafnidiaeth. Mae Caerdydd yn un o lawer o bryderon y bydd yn rhaid imi fwrw ymlaen â hwy yn y dyfodol. Mae'r anawsterau o ran hyrwyddo'r agenda hwn yn deillio o gyllid. Pe gallech ofyn, o bosibl, eich cydweithwyr yn San Steffan am fwy o arian, byddem yn ddiolchgar iawn.

Julie Morgan: Mae fy etholwyr yng Ngogledd Caerdydd yn bryderus iawn am faint o amser a gymerwyd gan Gyngor Caerdydd i ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig niwsans sŵn. Mae hyn er gwaethaf prif adroddiad ombwdsmon sy'n beirniadu gweithdrefnau Caerdydd ac yn pwysleisio'r angen ar gyfer ailhyfforddi ar bob lefel. Beth y gallwn ei wneud i wella ymateb Caerdydd i sefyllfaoedd sy'n achosi'r fath ddiodefaint i gynifer o'n hetholwyr?

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae'n amlwg bod y rhain yn

would probably be better placed to the chief executive of Cardiff Council, but I am happy to take your comments forward and raise the detail with the appropriate people in the council.

Eluned Parrott: With regard to the performance of Cardiff Council, it might be helpful to put a few of the issues that we have heard about already into context in framing my question—I hope that you do not mind.

The Presiding Officer: Order. I do not want you to have a conversation across the Chamber; just carry on.

Eluned Parrott: With regard to rubbish collection, waste disposal and so on, I am unable to comment on schemes in London, but will the Minister join me in congratulating Cardiff on the way in which it deals with rubbish disposal in an area in which plenty of properties have no front gardens—a huge amount of housing fronts directly onto the street—and where these issues are extremely difficult to tackle?

Carl Sargeant: That is a question for the Minister for the environment on the operation of Cardiff Council's waste disposal function.

Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd Statudol

8. Jocelyn Davies: *Pa arweiniad fydd y Gweinidog yn ei gyhoeddi i gynghorwyr ynghylch eu presenoldeb mewn cyfarfodydd statudol. OAQ(4)0022(LGC)*

Carl Sargeant: The attendance of councillors at council meetings is a matter for local authorities and their standing orders. I do not issue guidance on this.

Jocelyn Davies: Are you aware that, according to the *Gwent Gazette* through freedom of information requests, some councillors' attendance record is extremely low, with some missing more than three quarters of the meetings that they are expected to attend? Yet they continue to accept full pay and its associated benefits. Do you agree that this could be more transparent for voters, perhaps by getting councils to

gwestiynau a fyddai, efallai, yn fwy addas i'w gofyn i brif weithredwr Cyngor Caerdydd, ond yr wyf yn hapus i fwrw ymlaen â'ch sylwadau a chodi'r manylion gyda'r bobl briodol yn y cyngor.

Eluned Parrott: O ran perfformiad Cyngor Caerdydd, gallai fod yn ddefnyddiol i roi ychydig o'r materion yr ydym wedi clywed amdanynt eisoes mewn cyd-destun wrth lunio fy nghwestiwn—rwy'n gobeithio nad oes gwahaniaeth gennyh.

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf am i chi gael sgwrs ar draws y Siambr; parhewch.

Eluned Parrott: O ran casglu sbwriel, gwaredu gwastraff ac ati, ni allaf wneud sylwadau ar gynlluniau yn Llundain, ond a wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch Caerdydd ar y ffordd y mae'n ymdrin â gwaredu sbwriel mewn ardal lle mae digon o dai heb erddi blaen—mae nifer fawr o dai sy'n sefyll ar y stryd—a lle mae'r materion hyn yn eithriadol o anodd i fynd i'r afael â hwy?

Carl Sargeant: Mae hwnnw'n gwestiwn i'r Gweinidog dros yr amgylchedd ar weithredu swyddogaeth gwaredu gwastraff Cyngor Caerdydd.

Attendance at Statutory Meetings

8. Jocelyn Davies: *What guidance does the Minister issue to councillors regarding their attendance at statutory meetings. OAQ(4)0022(LGC)*

Carl Sargeant: Mater i awdurdodau lleol a'u rheolau sefydlog yw presenoldeb gan gynghorwyr yng nghyfarfodydd y cyngor. Nid wyf yn cyhoeddi canllawiau ar hyn.

Jocelyn Davies: A ydych yn ymwybodol, yn ôl y *Gwent Gazette* drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth, bod presenoldeb rhai cynghorwyr yn isel iawn, gyda rhai yn colli mwy na thri chwarter o'r cyfarfodydd y disgwylir iddynt eu mynychu? Eto, maent yn parhau i dderbyn cyflog llawn a'r manteision cysylltiedig. A ydych yn cytuno y gallai hyn fod yn fwy tryloyw ar gyfer pleidleiswyr, efallai drwy gael cynghorau i gyhoeddi

routinely publish the attendance records of members? Perhaps you could take this up with the Welsh Local Government Association the next time that you meet its representatives.

Carl Sargeant: I have already made representations through the Local Government (Wales) Measure 2011, which gives local authorities an opportunity to publish members' attendance and other interesting details about council members, such as which committees they sit on. I would welcome attendance information being made available so that the local electorate can make a decision on the issues that you raised.

Mohammad Asghar: Minister, if councillors regularly fail to turn up for council meetings, they are doing a disservice to the people who elected them and to their council ward. Having spoken to a number of councillors across Wales, I have listened to numerous complaints regarding the attendance levels of their elected colleagues, with some doing the bare minimum. How do you liaise with councils, Minister, to ensure that, wherever possible, this state of affairs is avoided in Welsh councils?

Carl Sargeant: The election of councillors is a matter for local people. I do not wish to enter into the micromanagement of council structures. This is a matter for local councillors, but any councillor who fails to attend council meetings for six months is deemed to have resigned from the council. That rule has been in place for many years and still applies today.

Recordio Cyfarfodydd Cyngor

9. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw arweiniad a gyhoeddir i Awdurdodau Lleol ynghylch recordio cyfarfodydd cyngor. OAQ(4)0033(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for South Wales East. I have not issued any guidance to local authorities on this matter.

William Graham: Thank you for that answer, Minister, although it is rather

cofnodion presenoldeb eu haelodau fel mater o drefn? Efallai y gallwch godi hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y tro nesaf y byddwch yn cwrdd â'i chynrychiolwyr.

Carl Sargeant: Rwyf eisoes wedi gwneud sylwadau drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n rhoi cyfle i awdurdodau lleol gyhoeddi presenoldeb aelodau a manylion diddorol eraill ynghylch aelodau'r cyngor, megis pa bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt. Byddwn yn croesawu gweld gwybodaeth am bresenoldeb yn cael ei darparu fel y gall etholwyr lleol wneud penderfyniad ar y materion a godwyd gennych.

Mohammad Asghar: Weinidog, os bydd cynghorwyr yn methu â mynychu cyfarfodydd cyngor yn rheolaidd, maent yn gwneud anghymwynas â'r bobl a'u hetholodd ac â'u wardiau cyngor. Wedi siarad â nifer o gynghorwyr ledled Cymru, yr wyf wedi clywed nifer o gwynion ynglŷn â lefelau presenoldeb eu cyd-aelodau etholedig, gyda rhai yn gwneud y lleiaf posibl. Sut ydych chi'n cysylltu â chynghorau, Weinidog, i sicrhau, lle bo modd, y caiff y sefyllfa hon ei hosgoi yng nghynghorau Cymru?

Carl Sargeant: Mater i bobl leol yw ethol cynghorwyr. Ni ddymunaf fynd yn rhan o feicroreoli strwythurau cynghorau. Mater i gynghorwyr lleol yw hwn, ond ystyrir bod unrhyw gynghorydd sy'n methu â mynychu cyfarfodydd cyngor am chwe mis wedi ymddiswyddo o'r cyngor. Mae'r rheol honno wedi bod ar waith ers blynnyddoedd lawer ac y mae'n dal yn berthnasol heddiw.

Recording of Council Meetings

9. William Graham: *Will the Minister outline any guidance issued to Local Authorities concerning the recording of council meetings. OAQ(4)0033(LGC)*

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Nid wyf wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau i awdurdodau lleol ar y mater hwn.

William Graham: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, er ei fod braidd yn

disappointing. You know that there is considerable interest in making council meetings open, both inside and outside the Chamber. A statement of opinion that I tabled in June attracted cross-party support, and you will be aware that a number of councillors in authorities across Wales, including, most recently, Councillor Howlett in Pembrokeshire, have tabled motions to allow the public to record meetings when permitted. How will your Government encourage more local authorities to follow the examples of councils such as Monmouthshire in embracing internet broadcasting and using social media? The ideal scenario is to broadcast council meetings on the internet whenever possible, rather than having many observers filming on phones or camcorders. Few of us wish to see similar scenes to the embarrassing ones when police removed a blogger filming a Carmarthenshire County Council meeting.

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. I encourage all local authorities to make the maximum effort to enable the public to engage with them and their proceedings. I support that. However, I do not support the secret recording of meetings. Members should be made aware of whether they are being filmed, but I would support local councils in their endeavour to make their activities much more public.

Alun Ffred Jones: Minister, would you like to congratulate Gwynedd Council, which pioneered the broadcasting of council meetings on the internet in the mid-1990s, under its visionary leadership at that time? [*Laughter.*]

Carl Sargeant: Of course, I endorse your words and welcome any pioneers who want to share best practice across Wales.

William Powell: As you may know, Minister, I have been promoting a statement of opinion on permitting and encouraging the recording of national park meetings in Wales, which I realise does not fall within your remit. However, given your remit for community safety and your earlier comments

siomedig. Byddwch yn gwybod bod cryn ddiddordeb mewn gwneud cyfarfodydd cyngor yn agored, y tu mewn a thu allan i'r Siambr. Denodd datganiad barn a gyflwynais ym Mehefin gefnogaeth drawsbleidiol, a byddwch yn ymwybodol bod nifer o gynghorwyr mewn awdurdodau ledled Cymru, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, Cynghorydd Howlett yn Sir Benfro, wedi cyflwyno cynigion i ganiatáu i'r cyhoedd i gofnodi cyfarfodydd pan y caniateir. Sut y bydd eich Llywodraeth yn annog mwy o awdurdodau lleol i ddilyn yr enghreifftiau o gynghorau fel Sir Fynwy a chroesawu darlledu rhyngwyd a defnyddio cyfryngau cymdeithasol? Y sefyllfa ddelfrydol yw darlledu cyfarfodydd cyngor ar y rhyngwyd lle bo modd, yn hytrach na chael llawer o sylwedyddion yn ffilmio ar ffonau neu gamerâu fideo. Ychydig ohonom sy'n dymuno gweld golygfeydd tebyg i'r rhai annifyr pan wnaeth yr heddlu symud blogiwr a oedd yn ffilmio mewn cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin.

Carl Sargeant: Diolchaf i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwyf yn annog pob awdurdod lleol i wneud yr ymdrech mwyaf i alluogi'r cyhoedd i ymgysylltu â hwy a'u trafodion. Byddwn yn cefnogi hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn cefnogi cofnodi cyfrinachol o gyfarfodydd. Dylid sicrhau bod aelodau yn ymwybodol a ydynt yn cael eu ffilmio, ond byddwn yn cefnogi cynghorau lleol yn eu hymdrechion i wneud eu gweithgareddau yn llawer mwy cyhoeddus.

Alun Ffred Jones: Weinidog, a hoffech longyfarch Cyngor Gwynedd, a wnaeth arloesi gyda darlledu cyfarfodydd y cyngor ar y rhyngwyd yng nghanol y 1990au, dan ei harweinyddiaeth weledigaethol ar yr adeg honno? [*Chwerthin.*]

Carl Sargeant: Wrth gwrs, ategaf eich geiriau a chroesawaf unrhyw arloeswyr sydd am rannu arferion gorau ar draws Cymru.

William Powell: Fel y gwyddoch, Weinidog, yr wyf wedi bod yn hyrwyddo datganiad barn ar ganiatáu ac annog cofnodi cyfarfodydd parc cenedlaethol yng Nghymru; yr wyf yn sylweddoli nad yw hyn yn dod o fewn eich cylch gwaith. Fodd bynnag, o gofio eich cylch gwaith ar gyfer diogelwch cymunedol

on the sharing of good practice between local authorities and the police, not to mention the slightly overzealous activities in Carmarthenshire some weeks ago, would you favour the broadcasting of police authority meetings, particularly in the context of the police having to withdraw from some of our communities on the grounds of cost?

Carl Sargeant: We live in a different world in terms of financial pressures. Providing that there is no legal reason why they should not be publicised, it would provide benefits of openness and transparency. I would encourage the video-streaming or recording of meetings so that people can watch them at a later date.

Y Gwasanaeth Tân

10. Keith Davies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw doriadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y Gwasanaeth Tân. OAQ(4)0019(LGC)*

Carl Sargeant: Total budgeted gross revenue expenditure for fire and rescue authorities in Wales in 2011-12 is £149 million. This is unchanged from 2010-11. Future years' expenditure levels are a matter for the constituent local authorities of the FRAs. During 2011-12, £10.3 million will be provided directly from the Welsh Government for preventive activities and resilience commitments.

Keith Davies: Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynllunio i gwtogi ei gyllid drwy newid system staffio ei orsafoedd. Yn ddiweddar, cyn unrhyw newidiadau, nid oedd unrhyw weithwyr yng ngorsaf dân Llanelli am brynhawn cyfan ar ôl i'r dynion tân orfod helpu mewn ardal gyfagos. Weinidog, beth yw eich cynlluniau i sicrhau nad yw'r toriadau mewn cyllid yn effeithio ar ddarpariaeth rheng flaen?

Carl Sargeant: Regrettably, this is not a matter for me: it is a matter for the fire authority. I am aware of the self-rostering system proposed for Llanelli station, where the aim is to roster staff more effectively and

a'ch sylwadau cynharach ar rannu arferion da rhwng awdurdodau lleol a'r heddlu, heb sôn am y gweithgareddau ychydig yn orfrwdfrydig yn Sir Gaerfyrddin rai wythnosau yn ôl, a fydddech yn ffafrio darlledu cyfarfodydd awdurdodau heddlu, yn enwedig yng nghyd-destun yr heddlu yn gorfod tynnu'n ôl o rai o'n cymunedau ar sail cost?

Carl Sargeant: Rydym yn byw mewn byd gwahanol o ran pwysau ariannol. Cyn belled nad oes unrhyw reswm cyfreithiol pam na ddylent eu cyhoeddi, bydd manteision o fod yn agored ac yn dryloyw. Byddem yn annog y fideo-ffrydio neu gofnodi cyfarfodydd fel y gall pobl eu gwyllo ar ddyddiad diweddarach.

The Fire Service

10. Keith Davies: *Will the Minister provide an update on any planned cuts to the Fire Service. OAQ(4)0019(LGC)*

Carl Sargeant: Roedd cyfanswm y gwariant refeniw gros a gyllidebwyd ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn 2011-12 yn £149 miliwn. Nid yw hwn wedi newid o 2010-11. Mater i awdurdodau lleol cyfansoddol yr awdurdodau tân ac achub yw lefelau gwariant blynyddoedd y dyfodol. Yn ystod 2011-12, darperir £10.3 miliwn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau ataliol ac ymrwymadau ystwythder.

Keith Davies: The Mid and West Wales Fire and Rescue Service is planning budget cuts by changing staffing systems at its stations. Recently, before any changes were introduced, there were no workers at Llanelli fire station for a whole afternoon because the firemen had been called to assist in a neighbouring area. Minister, what plans do you have to ensure that budget cuts do not impact upon front-line provision?

Carl Sargeant: Yn anffodus, nid mater i mi yw hwn: mater i'r awdurdod tân ydyw. Yr wyf yn ymwybodol o'r system hunan-restru a gynigiwyd i orsaf Llanelli, lle mai'r nod yw trefnu rhestrau staff yn fwy effeithiol ac

efficiently, but this is a matter that is based locally with the fire and rescue authority. I do not want to see a reduction in fire crews across our communities: they play a vital role, not only in tackling fires and rescue, but also in the preventive elements of fire and community safety. However, there is a sense of realism in that their budgets have been reduced across Wales, as our budgets have been significantly cut as a result of the UK Government reducing our budgets. That will obviously have an impact somewhere.

Russell George: Minister, there were 21 full-time firefighters based in three stations in Powys—in Newtown, Llandrindod Wells and Brecon. Under the plans of the Mid and West Wales Fire and Rescue Service, firefighters at those full-time staffed stations are being permanently stood down, and are only used for non-emergency activities. I also understand that the Newtown station is being downgraded and certain equipment used to tackle flooding and dangerous waste spillages could be withdrawn. In such a rural area, we need to protect these important services. As you, Minister, are responsible for the performance and accountability of the fire and rescue service, what are you doing to ensure that response times do not increase and put lives at risk. I appreciate your previous answer, but I would be grateful if you could make representations to the Mid and West Wales Fire and Rescue Service about my concerns.

3.00 p.m.

Carl Sargeant: I thank the Member for his comments. I have regular conversations with all the fire authorities across Wales. He is quite right to point out my duty and that the fire service is a devolved function. However, that does not detract from the point that I made to the Member previously—the funding that we receive from Westminster has dramatically reduced, and I cannot give out what I do not have. Therefore, perhaps he should make representations to his colleagues

effeithlon, ond mae hwn yn fater a seiliwyd gyda'r awdurdod tân ac achub lleol. Nid oes arnaf eisiau gweld gostyngiad mewn criwiau tân ar draws ein cymunedau: maent yn chwarae rôl hanfodol, nid yn unig mewn taclo tanau ac achub, ond hefyd yn yr elfennau atal tân a diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, mae ymdeimlad o realaeth gan fod eu cyllidebau wedi lleihau ar draws Cymru, fel y mae ein cyllidebau ni wedi torri'n sylweddol o ganlyniad i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn lleihau ein cyllidebau. Mae'n amlwg y bydd hynny'n cael effaith rhywle.

Russell George: Weinidog, yr oedd 21 o ddiffoddwyr tân llawn-amser mewn tair gorsaf ym Mhowys—yn y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu. O dan gynlluniau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r diffoddwyr tân yn y gorsafydd hynny sydd wedi'u staffio'n llawn amser, yn cael eu rhyddhau yn barhaol a dim ond yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rai brys. Deallaf hefyd fod gorsaf y Drenewydd yn cael ei hisraddio a bod offer penodol yn cael eu defnyddio i ymdrin â llifogydd a'r gollyngiadau gwastraff peryglus. Mewn ardal mor wledig, mae angen inni ddiogelu'r gwasanaethau pwysig hyn. Gan eich bod chi, Weinidog, yn gyfrifol am berfformiad ac atebolrwydd y gwasanaeth tân ac achub, beth ydych yn ei wneud i sicrhau nad yw amseroedd ymateb yn cynyddu ac yn rhoi bywydau mewn perygl. Yr wyf yn gwerthfawrogi eich ateb blaenorol, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno sylwadau i Wasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru a'r Canolbarth am fy mhryderon.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Yr wyf yn cael sgysiau rheolaidd gyda'r holl awdurdodau tân ledled Cymru. Mae'n hollol iawn i dynnu sylw at fy nyletswydd, a bod y gwasanaeth tân yn swyddogaeth ddatganoledig. Fodd bynnag, nid yw hynny'n tynnu oddi wrth y pwynt a wneuthum i'r Aelod ynghynt—mae'r cyllid a gawn gan San Steffan wedi gostwng yn ddramatig, ac ni allaf roi allan yr hyn nad oes gennyf. Felly, efallai y dylai ef gyflwyno

at Westminster.

sylwadau i'w gydweithwyr yn San Steffan.

Datganiad am Adroddiad Estyn Statement on the Estyn Report

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I want to advise Members of the results of Estyn's inspection of the education services in Blaenau Gwent County Council, published today. I also want to inform Members of the action I am considering in response to this report.

As I set out on 2 February, Wales has a great task ahead to raise school standards. Our children have the same potential as those born anywhere: sadly, in Blaenau Gwent, far too many do not reach their potential. Following inspection of the education services of Blaenau Gwent in May 2011, Estyn has now published its inspection report. The inspection team, in its overall summary judgments, found the current performance of the local authority education services for children and young people to be unsatisfactory, and also found the local authority's prospects for improvement to be unsatisfactory.

It is with real regret and concern for the education of our young people in Blaenau Gwent that I advise you that in the light of serious service shortcomings Estyn is of the opinion that special measures are required in relation to this authority. That is because it is failing to provide an acceptable standard of education and senior leaders and elected members have also failed to secure the necessary improvements.

The shortcomings identified are quite simply unacceptable. Children and young people in Blaenau Gwent do not make good progress and standards are well below what is expected. Support for school improvement and additional learning needs is unsatisfactory, and a systemic failure of management has resulted in the authority providing poor value for money.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Hoffwn roi gwybod i Aelodau ganlyniadau arolygu Estyn o'r gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Blaenau Gwent, a gyhoeddwyd heddiw. Rwyf hefyd yn awyddus i roi gwybod i'r Aelodau am y camau yr wyf yn eu hystyried mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

Fel y nodais ar 2 Chwefror, mae gan Gymru dasg fawr o'n blaenau i godi safonau ysgolion. Mae gan ein plant yr un potensial â'r rhai a anwyd yn unrhyw le: yn anffodus, ym Mlaenau Gwent, mae llawer gormod yn methu â chyrraedd eu potensial. Yn dilyn arolygiad o wasanaethau addysg Blaenau Gwent ym mis Mai 2011, mae Estyn bellach wedi cyhoeddi ei adroddiad arolygu. Nodwyd gan y tîm arolygu, yn ei farn gryno gyffredinol, bod perfformiad presennol gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn anfoddfaol, a hefyd bod rhagolygon yr awdurdod lleol ar gyfer gwelliant yn anfoddfaol.

Gyda gofid gwirioneddol a phryder am addysg ein pobl ifanc ym Mlaenau Gwent, yr wyf yn eich cynghori, yng ngoleuni'r diffygion difrifol yn y gwasanaeth, bod Estyn o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r awdurdod. Mae hynny oherwydd ei fod yn methu â darparu safon dderbyniol o addysg ac y mae uwch arweinwyr ac aelodau etholedig hefyd wedi methu â sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae'r diffygion a nodwyd, yn eithaf syml, yn annerbyniol. Nid yw plant a phobl ifanc ym Mlaenau Gwent yn gwneud cynnydd da ac y mae safonau ymhell islaw yr hyn a ddisgwylir. Mae cymorth ar gyfer gwella ysgolion ac ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn anfoddfaol, ac y mae methiant systemig o reolaeth wedi arwain at yr awdurdod yn darparu gwerth gwael am arian.

The local authority has unsatisfactory prospects for improvement because senior officers and elected members have provided unsatisfactory leadership that does not challenge underperformance and poor learner outcomes effectively. Managers do not make effective use of data to evaluate the impact of initiatives or to inform the targeting of resources, and leaders and managers have a track record of slow and incomplete responses to recommendations made in successive Estyn inspection reports.

To illustrate the nature of these failings, I will share with you some of the inspectors' observations. The percentage of Blaenau Gwent learners leaving school without a recognised qualification remains the worst in Wales, and the percentage of learners staying in full-time education at 16 remains among the lowest in Wales, with the percentage not in full-time education, training or employment among the highest.

The gap in performance between boys and girls is larger than the Welsh average across all key stages. Blaenau Gwent does not know all of its schools well enough, and has not been sufficiently effective in identifying and supporting those schools in its area that are causing concern. The targets set are not sufficiently challenging. Insufficiently defined criteria for additional support mean that the local authority does not know whether all learners are appropriately placed or whether they receive the additional support that they need to make good progress. Finally, scrutiny of education by elected members has too often been undermined by political point scoring. That has meant education officers and headteachers have not been held accountable for poor performance, in effect letting them off the hook.

Given these serious service failings, it may surprise you all to hear that Blaenau Gwent is among the highest-spending local authorities in Wales when it comes to education. Unsurprisingly, the report judges resource management also to be unsatisfactory.

Mae gan yr awdurdod lleol ragolygon anfoddhaol ar gyfer gwella oherwydd bod uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi darparu arweiniad anfoddhaol nad yw'n herio tanberfformio a chanlyniadau gwael ar gyfer y dysgwyr yn effeithiol. Nid yw rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i arfarnu effaith mentrau neu i hysbysu targedu adnoddau, ac y mae gan arweinwyr a rheolwyr hanes o ymatebion araf ac anghyflawn i argymhellion a wnaed mewn adroddiadau arolygu olynol Estyn.

I ddangos natur y diffygion hyn, byddaf yn rhannu gyda chi rai o sylwadau'r arolygwyr. Mae canran y dysgwyr ym Mlaenau Gwent sy'n ymadael â'r ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn parhau i fod y gwaethaf yng Nghymru, ac mae canran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg llawn amser hyd at 16 oed yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru, gyda'r ganran nad ydynt mewn addysg llawn amser, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhlith yr uchaf.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn fwy na chyfartaledd Cymru ar draws pob cyfnod allweddol. Nid yw Blaenau Gwent yn adnabod pob un o'i hysgolion yn ddigon da, ac nid yw wedi bod yn ddigon effeithiol wrth nodi a chefnogi'r ysgolion hynny yn ei hardal sy'n achosi pryder. Nid yw'r targedau a osodir yn ddigon heriol. Mae'r meini prawf annigonol a ddiffiniwyd ar gyfer cymorth ychwanegol yn golygu nad yw'r awdurdod lleol yn gwybod a ydyw'r holl ddysgwyr yn cael eu gosod yn briodol neu a ydynt yn cael y cymorth ychwanegol y mae arnynt ei angen i wneud cynnydd da. Yn olaf, mae craffu ar addysg gan aelodau etholedig wedi cael ei danseilio'n rhy aml gan sgorio pwyntiau gwleidyddol. Mae hynny'n golygu nad yw swyddogion a phenaethiaid addysg wedi cael eu dwyn i gyfrif am berfformiad gwael, gan eu hesgusodi, i bob pwrpas, rhag y bai.

O gofio'r methiannau difrifol hyn yn y gwasanaeth, efallai y bydd yn syndod i chi i gyd i glywed bod Blaenau Gwent ymhlith yr awdurdodau lleol sy'n gwario mwyaf yng Nghymru pan ddaw i addysg. Nid yw'n syndod bod yr adroddiad yn

beirniadu rheolaeth adnoddau yn anfoddhaol.

Much of Blaenau Gwent is severely deprived, of course. That means that a small council faces significant challenges across all of the services it provides. However, that cannot be an excuse—there can be no excuses for letting children and young people down this badly. If one compares Blaenau Gwent's performance with that of other councils serving deprived areas, or with other small authorities, it is still unacceptably poor.

It is with considerable concern that I have noted the findings and recommendations of the Estyn inspection report. Let us be clear about this: the authority is failing to provide learners and schools in its area with the quality of services that they are entitled to expect and which are crucial to improving learning outcomes and the wellbeing of children and young people.

Blaenau Gwent is in a serious position and it is abundantly clear that urgent action is required to turn this around. Therefore, I will intervene to put the necessary arrangements and support in place to secure improvement as quickly as possible. It is clear that Blaenau Gwent requires significant support to secure effective delivery of the improvements needed. My intervention will mean that such support will be provided urgently, which is what this situation demands. There will be a task force led by Neath Port Talbot County Borough Council and its director of education, Karl Napieralla. I am grateful for the swift and positive response that I and my officials have received from Neath Port Talbot council and its leader on this. Estyn will re-inspect Blaenau Gwent in a year's time.

One option open to me is handing over responsibility for some or all of Blaenau Gwent's executive functions in relation to its education services to another public or private body. I intend to do that and to

Mae llawer o Flaenau Gwent yn ddifrifol o ddifreintiedig, wrth gwrs. Mae hynny'n golygu bod cyngor bach yn wynebu heriau sylweddol ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, ni all hynny fod yn esgus—ni all fod unrhyw esgusodion dros siomi plant a phobl ifanc gymaint â hyn. Os yw un yn cymharu perfformiad Blaenau Gwent gyda pherfformiad cyngorau eraill sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig, neu ag awdurdodau bach eraill, mae'n dal i fod yn annerbyniol o wael.

Gyda chryn bryder yr wyf wedi nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad arolygu Estyn. Gadewch inni fod yn glir ynglŷn â hyn: mae'r awdurdod yn methu â darparu dysgwyr ac ysgolion yn ei ardal gydag ansawdd y gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl i'w disgwyl ac sy'n hanfodol i wella canlyniadau dysgu a lles plant a phobl ifanc.

Mae Blaenau Gwent mewn sefyllfa ddifrifol ac mae'n gwbl amlwg bod angen gweithredu ar frys i droi hyn o gwmpas. Felly, byddaf yn ymyrryd i roi'r trefniadau a'r gefnogaeth angenrheidiol ar waith i sicrhau gwelliant cyn gynted ag y bo modd. Mae'n amlwg bod angen cymorth sylweddol ar Flaenau Gwent i sicrhau darpariaeth effeithiol o'r gwelliannau y mae eu hangen. Bydd fy ymyriad yn golygu y bydd cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu ar frys, sef yr hyn y mae sefyllfa o'r fath yn ei fynnu. Bydd tasglu dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'i gyfarwyddwr addysg, Karl Napieralla. Yr wyf yn ddiolchgar am yr ymateb cyflym a chadarnhaol yr wyf fi a'm swyddogion wedi ei dderbyn gan gyngor Castell-nedd Port Talbot a'i arweinydd ar hyn. Bydd Estyn yn ail-arolygu Blaenau Gwent ymhen blwyddyn.

Un opsiwn sy'n agored i mi yw trosglwyddo cyfrifoldeb am rai neu bob un o swyddogaethau gweithredol Blaenau Gwent mewn perthynas â'i wasanaethau addysg i gorff cyhoeddus neu breifat arall.

establish an independent recovery board to oversee the improvements needed, monitor progress made, and provide accountability. It will report to me. I have asked my officials to begin the preparatory work to establish the board. I will also consider Blaenau Gwent's response to Estyn's damning report; I am expecting its response within the next two weeks. Clearly, decisions on further actions and intervention will need to take account of the broader corporate shortcomings outlined in the inspection report.

Service failure on this scale necessarily raises doubts about a local authority's corporate management. My colleague the Minister for Local Government and Communities is considering urgently what is needed to address those broader, corporate-level shortcomings, and he will provide further information about that at the appropriate time. The children and young people of Blaenau Gwent cannot afford for us to wait to take action and so discussions are already under way to secure additional support and capacity. I am pleased to say that officers and elected members from Blaenau Gwent have been actively involved in these discussions. On a positive note, I understand that the new director of education in Blaenau Gwent has made a positive contribution to the authority in the short time she has been in post.

This is not just a challenge for Blaenau Gwent Council. It is a challenge for the parents and young people of the county, a challenge to the region and the wider local government family to support the rebuilding of education, and a challenge to Wales and our ability and appetite to drive up performance. We accept no less than high standards and look to do everything in our power to achieve better outcomes for young people. I will return to this issue in the autumn and provide an update to Members outlining decisions, actions and progress on putting in place arrangements to turn around this serious situation in Blaenau Gwent.

Yr wyf yn bwriadu gwneud hynny a sefydlu bwrdd adfer annibynnol i oruchwylio'r gwelliannau y mae eu hangen, i fonitro cynnydd, ac i ddarparu atebolrwydd. Bydd yn adrodd i mi. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion i ddechrau ar y gwaith paratoi i sefydlu'r bwrdd. Byddaf hefyd yn ystyried ymateb Blaenau Gwent i adroddiad damniol Estyn; yr wyf yn disgwyl ei ymateb o fewn y pythefnos nesaf. Yn amlwg, bydd angen penderfyniadau ar gamau gweithredu ac ymyrryd pellach i ystyried y diffygion corfforaethol ehangach yr amlinellwyd yn yr adroddiad arolygu.

Mae methiant y gwasanaeth ar y raddfa hon o reidrwydd yn codi amheuan am reolaeth gorfforaethol awdurdod lleol. Mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn ystyried ar frys beth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r diffygion ehangach ar lefel gorfforaethol, a bydd yn darparu rhagor o wybodaeth am hynny ar yr adeg briodol. Ni all plant a phobl ifanc Blaenau Gwent fforddio i ni aros i weithredu ac felly y mae trafodaethau eisoes ar y gweill i sicrhau cefnogaeth a gallu ychwanegol. Yr wyf yn falch o ddweud bod swyddogion ac aelodau etholedig o Flaenau Gwent wedi cymryd rhan weithredol yn y trafodaethau hyn. Ar nodyn cadarnhaol, deallaf fod cyfarwyddwr addysg newydd Blaenau Gwent wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr awdurdod yn yr amser byr y mae hi wedi bod yn ei swydd.

Nid yw hyn yn her i Gyngor Blaenau Gwent yn unig. Mae'n her i rieni a phobl ifanc y sir, yn her i'r rhanbarth a theulu ehangach llywodraeth leol i gefnogi ailadeiladu addysg, ac yn her i Gymru a'n gallu a'r awydd i wella perfformiad. Rydym yn derbyn dim llai na safonau uchel ac yn edrych i wneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni gwell canlyniadau i bobl ifanc. Dychwelaf at y mater hwn yn yr hydref a byddaf yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau yn amlinellu'r penderfyniadau, y camau gweithredu a'r cynnydd o ran rhoi trefniadau ar waith i droi o gwmpas y sefyllfa ddifrifol hon ym Mlaenau Gwent.

Angela Burns: Thank you for bringing your statement forward today, Minister, and for being resolute enough to get in there and take some strong action to try to resolve the situation. However, I am unable to stand here today and give you a pat on the back and say, 'Well done', because the question is how on earth this was allowed to happen. How come these authorities are failing the children in the way that they are and have been doing so consistently, not for one year or six months, but for two, three or four years? I would like to draw your attention to the information that you sent me in response to a written question that I asked about educational performance throughout all the local authorities in Wales. In Blaenau Gwent in 2009 and 2010 25.5 per cent of pupils were not achieving level 4 at key stage 2 in English, as was the case for 18.9 per cent in science, 30 per cent in Welsh, and 25.3 per cent in mathematics. It is pretty obvious that those children were going nowhere fast.

We have also known for some time that Blaenau Gwent had had a substantial sum of money, over and above the national average. I do not need to pick things out of the report, because you have done quite a bit of that, but anyone who reads it will see that it is absolutely horrifying. These children cannot read, and, if you cannot read, you cannot access the national curriculum, get educated and grow in your personal life. Also, if you cannot read, you do not get pleasure and you do not develop as a human being and get that rounded experience. The report also states that the authority does not know its schools well enough, which is a shocking indictment, nor whether pupils with additional learning needs have been placed in the right place in order to get the right help. Again, that is shocking. Let us be clear: the local authority's main job is to educate children. Therefore, it is shocking that it does not know that.

I accept, as is stated in the report, that the new director of education has started to make

Angela Burns: Diolch i chi am ddod â'ch datganiad gerbron heddiw, Weinidog, ac am fod yn ddigon penderfynol i fynd i'r afael â hyn a chymryd rhai camau cryf i geisio datrys y sefyllfa. Fodd bynnag, ni allaf sefyll yma heddiw a churo eich cefn gan ddweud, 'Da iawn', oherwydd y cwestiwn yw: sut ar y ddaear y mae hyn wedi'i ganiatáu i ddigwydd. Sut y mae'r awdurdodau hyn wedi methu'r plant yn y ffordd y maent ac wedi bod yn gwneud hynny yn gyson, nid am flwyddyn neu chwe mis, ond am ddwy, tair neu bedair blynedd? Hoffwn dynnu eich sylw at y wybodaeth a gefais gennych mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, lle gofynnais am berfformiad addysgol ledled yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Ym Mlaenau Gwent yn 2009 a 2010, yr oedd 25.5 y cant o ddisgyblion nad oedd yn cyrraedd lefel 4 yng nghyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, fel yr oedd yn wir am 18.9 y cant mewn gwyddoniaeth, 30 y cant yn y Gymraeg, a 25.3 y cant mewn mathemateg. Mae'n eithaf amlwg nad yw'r plant hynny'n mynd i unman yn gyflym.

Rydym hefyd wedi gwybod ers peth amser fod Blaenau Gwent wedi cael swm sylweddol o arian, yn ychwanegol at y cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes angen i mi ddewis pethau yn yr adroddiad, gan eich bod wedi gwneud cryn dipyn o hynny, ond bydd unrhyw un sy'n ei ddarllen yn gweld ei fod yn gwbl arswydus. Ni all y plant hyn ddarllen, ac, os nad ydych yn gallu darllen, ni allwch gael mynediad i'r cwricwlwm cenedlaethol, cael eich addysgu na thyfu yn eich bywyd personol. Hefyd, os nad ydych yn gallu darllen, nid ydych yn cael pleser ac nid ydych yn datblygu fel bod dynol nac yn cael y profiad cyflawn hwnnw. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi nad yw'r awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn ddigon da, sydd yn ddamniol, nac a ydyw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi eu gosod yn y lle iawn er mwyn cael y cymorth cywir. Unwaith eto, mae hynny'n syfrdanol. Gadewch inni fod yn glir: prif swyddogaeth yr awdurdod lleol yw addysgu plant. Felly, mae'n syfrdanol nad yw'n gwybod hynny.

Yr wyf yn derbyn, fel y nodwyd yn yr adroddiad, bod y cyfarwyddwr addysg

some changes. However, when you read the part of the report that relates to tackling poverty and disadvantage in schools, you see that it tells a story about all our local authorities. Therefore, Minister, I have two questions. Why do you feel that a recovery board is needed given that you are intending to put in place regional consortia by September 2011 with clear objectives and lines of sight as to what they should be doing? Could they not pick up that work? They are supposed to be operational in two months' time, and that would perhaps be a quick way of sorting that out. Secondly, why has this been allowed to happen? I appreciate that we have had an awful lot of debates on education in the past few weeks and that you have introduced many initiatives, many of which we support. However, this situation is the result of years of mismanagement by previous Ministers and by the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. We ought to have a jolly good look at what is happening. The word that came to my mind when I read the report was 'endemic'. That means that this is pervasive and widespread: it is everywhere. We ought to be finding out what went wrong and call people to account. It is disgraceful.

Leighton Andrews: Ministers do not run education in Blaenau Gwent; it is Blaenau Gwent County Borough Council that is supposed to run education in Blaenau Gwent. A serious inspection has been undertaken by our education inspectorate, Estyn, which inspects local authorities at six-yearly intervals. In the course of that inspection, on the basis of its new common inspection framework, it has identified the failings in Blaenau Gwent council. We are responding seriously to those failings, and I do not think that the approach that the Member adopted of trying to turn this into criticism of the Welsh Government or its predecessors is helpful when we are taking serious action. We are putting in place a task force that will be led by Neath Port Talbot council, which has been through the same inspection regime and which received a good assessment from Estyn of the work that it has done. I am

newydd wedi dechrau gwneud rhai newidiadau. Fodd bynnag, pan fyddwch yn darllen y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, gwelwch ei fod yn adrodd stori am ein holl awdurdodau lleol. Felly, Weinidog, mae gennyf ddau gwestiwn. Pam ydych yn teimlo bod angen bwrdd adfer o gofio eich bod yn bwriadu rhoi ar waith gonsortia rhanbarthol erbyn Medi 2011 gydag amcanion a llinellau golwg clir o ran yr hyn y dylent fod yn ei wneud? Onid allent gyflawni'r gwaith hwnnw? Dylent fod yn weithredol ymhen deufis ac efallai y byddai hynny'n ffordd gyflym o ddatrys hynny. Yn ail, pam y mae hyn wedi cael caniatâd i ddigwydd? Yr wyf yn gwerthfawrogi ein bod wedi cael llawer iawn o ddadleuon ar addysg yn ystod yr wythnosau diwethaf a'ch bod wedi cyflwyno nifer o fentrau, y mae llawer ohonynt yr ydym yn eu cefnogi. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn ganlyniad blynyddoedd o gamreoli gan Weinidogion blaenorol a gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Dylem gael golwg agos ar yr hyn sy'n digwydd. Y gair a ddaeth i'm meddwl pan ddarllenais yr adroddiad oedd 'endemig'. Mae hynny'n golygu bod hyn yn dreiddiol ac eang: mae ym mhob man. Dylem fod yn canfod beth aeth o'i le a galw pobl i gyfrif. Mae'n warthus.

Leighton Andrews: Nid yw Gweinidogion yn rhedeg addysg ym Mlaenau Gwent; Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sydd i fod i redeg addysg ym Mlaenau Gwent. Mae arolygiad difrifol wedi cael ei wneud gan ein harolygiaeth addysg, Estyn, sy'n arolygu awdurdodau lleol bob chwe blynedd. Yn ystod yr arolygiad hwnnw, ar sail ei fframwaith arolygu cyffredin newydd, y mae wedi nodi'r methiannau yng nghyngor Blaenau Gwent. Rydym yn ymateb o ddifrif i'r methiannau hynny, ac nid wyf yn credu bod y dull a fabwysiadwyd gan yr Aelod o geisio troi hyn yn feirniadaeth o Lywodraeth Cymru neu ei rhagflaenwyr yn ddefnyddiol pan fyddwn yn cymryd camau difrifol. Rydym yn sefydlu tasglu a fydd yn cael ei arwain gan gyngor Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi bod drwy'r un drefn arolygu ac a dderbyniodd asesiad da gan Estyn o'r

proposing to take the executive responsibility for education away from Blaenau Gwent council while the recovery board is in place, working with the task force. With regard to that recovery board, we are looking to put in place members with experience of working in areas of deprivation and of achieving strong results in such areas. They will oversee the work that is needed to turn that authority around, and they will report to me. As I said, Estyn will re-inspect in 12 months' time. This is a serious response by a Government that is taking the issues seriously. I will not tolerate this kind of inadequate performance by a local education authority. This is the first time that I have received such a report, and I have taken the action that is required.

Alun Davies: I speak as the Member for Blaenau Gwent. Thank you, Minister, for the statement. I concur entirely with your last remark in response to the Conservative spokesperson on education. It is intolerable that the children and young people of Blaenau Gwent have been placed in this situation and have been let down by the local authority in this way. It is wholly unacceptable. The report is a devastating critique of an authority that has failed to meet the educational needs of the people who perhaps need that authority to succeed more than ever. I have been in contact with Blaenau Gwent County Borough Council, as people would expect. The authority is not in denial about where it is. It understands exactly where it is, and is not in denial about the key elements of the report. There is a commitment in the authority to work with the Welsh Government to ensure that the changes are made and that the children and young people of Blaenau Gwent are not let down in the future. The desire and the determination to succeed is there, Minister. It is important that the Welsh Government continues to support the local authority in Blaenau Gwent to enable it to make the improvements that are demanded and that are necessary as a consequence of the report, in order to deliver the education that the people there need and deserve.

gwaith y mae wedi'i wneud. Yr wyf yn bwriadu cymryd y cyfrifoldeb gweithredol dros addysg i ffwrdd o gyngor Blaenau Gwent tra bod y bwrdd adfer yn ei le, gan weithio gyda'r tasglu. O ran y bwrdd adfer, rydym yn ystyried sefydlu aelodau gyda phrofiad o weithio mewn ardaloedd difreintiedig ac o gyflawni canlyniadau cryf mewn ardaloedd o'r fath. Byddant yn goruchwyllo gwaith y mae ei angen i droi'r awdurdod hwnnw o gwmpas, a byddant yn adrodd i mi. Fel y dywedais, bydd Estyn yn ail-arolygu ymhen 12 mis. Mae hwn yn ymateb difrifol gan Lywodraeth sydd yn cymryd y materion o ddirif. Ni fyddaf yn goddef y math hwn o berfformiad annigonol gan awdurdod addysg lleol. Dyma'r tro cyntaf i mi gael adroddiad o'r fath, ac yr wyf wedi cymryd y camau y mae eu hangen.

Alun Davies: Yr wyf yn siarad fel yr Aelod dros Flaenau Gwent. Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'ch sylw olaf mewn ymateb i lefarydd y Ceidwadwyr ar addysg. Mae'n annioddefol bod plant a phobl ifanc Blaenau Gwent wedi cael eu rhoi yn y sefyllfa hon ac wedi cael eu gadael i lawr gan yr awdurdod lleol yn y modd hwn. Mae'n gwbl annerbyniol. Mae'r adroddiad hwn yn feirniadaeth ddinistriol o awdurdod sydd wedi methu â diwallu anghenion addysgol y bobl sydd efallai angen yr awdurdod hwnnw i lwyddo yn fwy nag erioed. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, fel y byddai pobl yn ei ddisgwyl. Nid yw'r awdurdod yn gwadu lle y mae. Mae'n deall yn union lle y mae, ac nid yw'n gwadu'r elfennau allweddol yn yr adroddiad. Mae ymrwymiad yn yr awdurdod i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu gwneud ac nad yw plant a phobl ifanc Blaenau Gwent yn cael eu gadael i lawr yn y dyfodol. Mae'r awydd a'r penderfyniad i lwyddo yno, Weinidog. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r awdurdod lleol ym Mlaenau Gwent i alluogi iddo wneud y gwelliannau sy'n cael eu galw amdanynt ac sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r adroddiad, er mwyn darparu'r addysg y mae ar y bobl ei hangen ac y maent yn ei haeddu.

You mentioned unsatisfactory leadership in your statement, Minister. You will be aware that the executive member for education resigned this morning. I watched the television news before coming to the Chamber this afternoon, and I saw the leader of the council telling us that he held his hands up. Let me say this, Des: the people of Blaenau Gwent do not need somebody with their hands in the air. They need somebody who will roll up their sleeves and get the job done. That has to be a priority. The current situation with regard to leadership cannot be allowed to continue.

3.15 p.m.

Minister, I thank you for the statement this afternoon. I am assured that you are going to work hard to ensure that the situation in Blaenau Gwent is resolved. Can you also assure us that the Welsh Government will continue to work with, and provide support for, Blaenau Gwent? This Government has made enormous investment in education over the past few years, and that is the key to the future of delivery of education throughout the borough. I hope that this report does not affect the Welsh Government's determination to deliver on that investment, because it promises the children and young people of Blaenau Gwent that they will have the ability to achieve and to succeed.

Leighton Andrews: I thank the Member for Blaenau Gwent for his comments. He is absolutely right to inform the Chamber today of the resignation of the cabinet member for education in the county.

The work that we are doing is intended to turn the situation around within this next school year. That is why Estyn will undertake another inspection this time next year. We have invested in Blaenau Gwent over several years, not just in post-16, but in the wider agenda that we have developed there through the Universities Heads of the Valleys Institute. That investment is not threatened by today's report; we have made that investment commitment. Judgments have been made about resource management, but the fact that

Soniasoch am arweinyddiaeth anfoddhaol yn eich datganiad, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod yr aelod gweithredol dros addysg wedi ymddiswyddo y bore yma. Yr oeddwn yn gwyllo'r newyddion ar y teledu cyn dod i'r Siambr y prynhawn yma, a gwelais arweinydd y cyngor yn dweud wrthym ei fod yn derbyn y cyfrifoldeb am hyn. Gadewch i mi ddweud hyn, Des: nid oes angen ar bobl Blaenau Gwent rhywun gyda'u dwylo yn yr awyr. Mae arnynt angen rhywun a fydd yn torchi eu llewys ac yn cyflawni'r swydd. Rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth. Ni ellir caniatáu i'r sefyllfa bresennol o ran arweinyddiaeth barhau.

Weinidog, yr wyf yn diolch i chi am y datganiad y prynhawn yma. Yr wyf yn sicrhau eich bod yn mynd i weithio'n galed i sicrhau bod y sefyllfa ym Mlaenau Gwent yn cael ei ddatrys. A allwch hefyd ein sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda, a darparu cymorth ar gyfer, Blaenau Gwent? Mae'r Llywodraeth hon wedi gwneud buddsoddiad mawr mewn addysg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a dyna'r allwedd i ddyfodol darparu addysg ar draws y fwrdeistref. Yr wyf yn gobeithio nad yw'r adroddiad hwn yn effeithio ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu'r buddsoddiad hwnnw, gan ei fod yn addo'r plant a'r bobl ifanc o Flaenau Gwent y cânt y gallu i gyflawni ac i lwyddo.

Leighton Andrews: Diolch i'r Aelod ar gyfer Blaenau Gwent am ei sylwadau. Mae'n gwbl iawn i roi gwybod i'r Siambr heddiw am ymddiswyddiad yr aelod cabinet dros addysg yn y sir.

Bwriad y gwaith yr ydym yn ei wneud yw troi'r sefyllfa o gwmpas o fewn y flwyddyn ysgol nesaf. Dyna pam y bydd Estyn yn cynnal arolygiad arall yr adeg hon y flwyddyn nesaf. Rydym wedi buddsoddi ym Mlaenau Gwent dros nifer o flynyddoedd, nid yn unig mewn addysg ôl-16, ond yn yr agenda ehangach yr ydym wedi'i ddatblygu yno drwy Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd. Nid yw'r buddsoddiad yn cael ei fygwth gan adroddiad heddiw; rydym wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw i fuddsoddi.

Blaenau Gwent is one of the authorities with the highest spending per pupil in Wales reinforces the point that I have made previously in the Chamber, namely that there is no correlation necessarily between the level of investment in the performance outcome. We must ensure that the money is being spent wisely and that steps are being taken to put in place appropriate levels of support and challenge for schools in the county.

I am confident that we will have a recovery board that will understand the issues that are necessary to turn the situation around, and I have great confidence in the task force, to be headed by Neath Port Talbot County Borough Council, which will draw on other local authorities, including local authorities in the same regional consortium as Blaenau Gwent, in putting in place the support that is necessary to those schools and learning environments.

Simon Thomas: Croesawaf ddatganiad y Gweinidog. Yr wyf i, a Phlaid Cymru, yn cefnogi'n llwyr y camau a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog i wrthdroi'r sefyllfa anffodus hon. Ni ellir gadael plant a phobl ifanc rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig heb y gefnogaeth a'r cyfle i gamu o'r sefyllfa â chymorth addysg.

Mae rhai cwestiynau yn aros. Yn wahanol i Angela Burns, rhaid imi ofyn y cwestiwn gan obeithio bod y Gweinidog wedi cael amser i feddwl amdano ers y cwestiynau ynghylch addysg yn gynharach. Pam mae awdurdod Blaenau Gwent wedi cael ei nodi'n drydydd o holl awdurdodau addysg Cymru yn ôl dangosyddion perfformiad y Llywodraeth ei hun mor ddiweddar â'r llynedd? Fe'i nodwyd yn drydydd am ychwanegu gwerth. Mae dwy o ysgolion y sir ymysg y 10 uchaf o ysgolion Cymru. Y dangosyddion hyn a fydd yn gynsail i unrhyw ddatblygiad sydd gan y Gweinidog mewn golwg ar gyfer bandio ysgolion er mwyn mesur perfformiad yn y dyfodol. Felly, mae'n hynod bwysig inni gael deall a oes gwendidau wedi bod yn ei adran ei hun yn arsylwi'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ym Mlaenau Gwent. Mae'r camau y mae wedi'u disgrifio heddiw i fynd i'r afael â'r sefyllfa yn hollol briodol, ond mae'n rhaid

Gwnaethpwyd dyfarniadau am reoli adnoddau, ond mae'r ffaith bod Blaenau Gwent yn un o'r awdurdodau â'r gwariant uchaf fesul disgybl yng Nghymru yn atgyfnerthu'r pwynt yr wyf wedi'i wneud o'r blaen yn y Siambr, sef nad oes cydberthynas o anghenraid rhwng y lefel o fuddsoddi yn y canlyniad perfformiad. Rhaid inni sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth a bod camau'n cael eu cymryd i sefydlu lefelau priodol o gymorth a her i ysgolion yn y sir.

Rwy'n hyderus y bydd gennym fwrdd adfer a fydd yn deall y materion sy'n angenrheidiol i droi'r sefyllfa o gwmpas, ac mae gennyf hyder mawr yn y tasglu, a fydd yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac a fydd yn tynnu ar awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol yn yr un consortiwm rhanbarthol â Blaenau Gwent, i roi ar waith y cymorth y mae ei angen ar yr ysgolion a'r amgylcheddau dysgu hynny.

Simon Thomas: I welcome the Minister's statement. Plaid Cymru and I fully support the steps that have been outlined by the Minister to get to grips with this unfortunate situation. We cannot leave the children and young people of some of our most disadvantaged communities without the support and opportunity to step out of the situation with the assistance of education.

Some questions remain. Unlike Angela Burns, I have to ask this question and I hope that the Minister has had an opportunity to think about it since we had the questions on education earlier. Why was the Blaenau Gwent authority placed third of all local authorities in Wales according to the Government's own performance indicators as recently as last year? It was ranked third for adding value. Two of the county's schools were in the top 10 of Welsh schools. These indicators will be the basis for any development that the Minister has in mind in terms of banding schools in order to assess performance in the future. Therefore, it is very important for us to understand whether there have been weaknesses in his department in overseeing what has been happening in Blaenau Gwent. The steps that he has outlined today to deal with the situation are completely appropriate, but he must now ask

iddo ofyn a oes methiannau wedi bod yn ei adran ei hun o ran cydnabod y problemau hyn a mynd i'r afael â hwy.

Dyma'r pumed neu'r chweched arolwg gan Estyn o holl awdurdodau addysg Cymru, a hyd yn hyn mae'r darlun yn ddu iawn. Yr oedd y Gweinidog yn ddigon dewr i gydnabod yn ei araith i Sefydliad Materion Cymreig nad yw'r hyn sydd gan Estyn i'w ddweud am y cynghorau sir yn ei adroddiadau yn foddhaol o gwbl.

Mae'r ail gwestiwn sy'n codi yn ymwneud â darparu addysg yn rhanbarthol—rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi ac y mae Plaid Cymru yn ei gefnogi mewn egwyddor. Fodd bynnag, y cwestiwn o ran yr ardal hon yw a fydd yr hyn sy'n digwydd yn awr ym Mlaenau Gwent yn tynnu i lawr yr awdurdodau eraill o'i gylch sy'n gorfod cydweithio â'r awdurdod hwnnw yn ôl y patrwm rhanbarthol a awgrymwyd gan y Llywodraeth. Hoffwn i'r Gweinidog ddweud ychydig am hynny hefyd.

Fel dywedodd y Gweinidog, nid arian ac adnoddau sydd wrth wraidd y broblem hon. Mae Blaenau Gwent yn codi treth cyngor uchel—yn uwch na'r cyfartaledd—ac yn gwario mwy ar addysg nag awdurdodau eraill. Yn wir, yr oedd yn trosglwyddo mwy o arian i'r dosbarth ar gyfartaledd hefyd. Felly, yn sicr nid problem o ran yr arian a'r adnoddau sy'n cael eu trosglwyddo i'r dosbarth yw hwn, ond problem o ran arweiniad proffesiynol a gwleidyddol. Dyna oedd ar fai. Mae'r adroddiad yn dweud hynny'n glir iawn. Hoffwn dynnu sylw'r Gweinidog ac Aelodau at y dyfyniad hwn yn Saesneg. Dywed yr adroddiad:

'Previous administrations in Blaenau Gwent avoided taking the difficult decisions needed to address significant shortcomings. However, to date, this administration has begun to lay foundations for improving educational standards and provision for children and young people.'

Dyna osod y bai yn blwmp ac yn blaen ar y weinyddiaeth flaenorol ym Mlaenau Gwent, ac yr ydym i gyd yn gwybod pa blaid oedd mewn grym ym Mlaenau Gwent yn ystod y

whether there have been failings in his own department in recognising these problems and finding solutions to them.

This is the fifth or sixth Estyn review of all education authorities in Wales and, to date, the picture is very bleak. The Minister was brave enough to acknowledge in his speech to the Institute of Welsh Affairs that Estyn's reports to date on the county councils have not been satisfactory in any sense.

The second question that arises is on the regionalisation of education provision—something that I support and that Plaid Cymru supports in principle. However, the question in relation to this area is whether what is happening now in Blaenau Gwent will drag down the other local authorities that surround it, which will have to co-operate with Blaenau Gwent to conform to the regionalisation pattern suggested by the Government. Therefore, I would like the Minister to say a little about that as well.

As the Minister said, money and resources are not the root of this problem. Blaenau Gwent charges a high level of council tax—higher than the average—and has spent more than other authorities on education. Indeed, it was transferring more money on average to the classroom as well. Therefore, this is not a problem of the funding and resources transferred to the classroom, but a problem in terms of professional and political leadership. The report makes that very clear. I would like to draw the attention of the Minister and Members to this quotation in English. The report says:

Mae gweinyddiaethau blaenorol ym Mlaenau Gwent wedi osgoi gwneud y penderfyniadau anodd a oedd eu hangen i fynd i'r afael â diffygion arwyddocaol. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r weinyddiaeth hon wedi dechrau gosod y seiliau ar gyfer gwella'r safonau a'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc.

That places the blame clearly on the previous administration in Blaenau Gwent, and we all know which party was in power in Blaenau Gwent in the last century. I know that the

ganrif ddiwethaf. Yr wyf yn gwybod bod y Gweinidog yn ddiffuant yn ei awydd a'i barodrwydd i wella safonau ym Mlaenau Gwent, ac, yn wir, yn genedlaethol, a rhoddaf glod iddo am hynny. Ef yw un o'r ychydig Weinidogion sy'n dangos menter ac arloesedd yn y Llywodraeth bresennol. Fodd bynnag, yr ydym yn cael ein gadael â'r canlyniad trist hwn: mae cannoedd o blant a phobl ifanc a'u rhieni heddiw ym Mlaenau Gwent sy'n dymuno clywed ymddiheuriad gan y rhai sydd wedi'u gadael yn y sefyllfa anffodus hon.

Leighton Andrews: Well, there certainly should be an apology from the leadership of Blaenau Gwent council to parents and pupils in Blaenau Gwent. This is a serious issue and we are responding seriously as a Government to the issues that have been raised in the Estyn report. We do not run education services in Blaenau Gwent; that is the responsibility of the council. Estyn has put in place a common inspection framework that is tougher and which has been producing significant and important reports on a number of local authorities in recent months.

The Member raised the question of value added, which is one of a number of pieces of data that we use to make judgements about the performance of a school system. Value added measures the distance travelled between two points, taking account of the context. If a learner is underperforming at the start of the period, they can show positive progress or positive value added but still underperform at the end of the process. A learner cannot get a job with their value added score. That is why we use value added as part of an overall picture of performance and progress. Like other indicators, it gives only part of the picture. Therefore, the data that we are producing for the family of schools and the family of schools data that we have previously supplied through the school effectiveness framework look at a number of elements of data and enable comparative judgements to be made. That is why we dispute the use of simplistic league tables based on a single piece of published information.

The Member is right to draw attention to the

Minister is sincere in his desire and willingness to improve standards in Blaenau Gwent and, indeed, on a national level, and I praise him for that. He is one of the few innovative and enterprising Ministers in this Government. However, we are left with this sad conclusion: there are hundreds of children, young people and parents in Blaenau Gwent today who want to hear an apology from those who have left them in this unfortunate situation.

Leighton Andrews: Wel, yn sicr, dylai fod ymddiheuriad gan arweinyddiaeth cyngor Blaenau Gwent i rieni a disgyblion ym Mlaenau Gwent. Mae hwn yn fater difrifol ac yr ydym yn ymateb o ddifrif fel Llywodraeth i'r materion a godwyd yn adroddiad Estyn. Nid ydym yn rhedeg gwasanaethau addysg ym Mlaenau Gwent; cyfrifoldeb y cyngor yw hynny. Mae Estyn wedi rhoi ar waith fframwaith arolygu cyffredin sy'n llymach ac sydd wedi bod yn cynhyrchu adroddiadau sylweddol a phwysig ar nifer o awdurdodau lleol yn y misoedd diwethaf.

Cododd yr Aelod y cwestiwn o werth ychwanegol, sy'n un o nifer o ddarnau o ddata a ddefnyddiwn i lunio barn am berfformiad system ysgolion. Mae gwerth ychwanegol yn mesur y pellter sy'n cael ei deithio rhwng dau bwynt, gan ystyried y cyd-destun. Os yw dysgwr yn tanberfformio ar ddechrau'r cyfnod, gallant ddangos cynnydd cadarnhaol neu werth cadarnhaol wedi'i hychwanegu ond dal i dangyflawni ar ddiwedd y broses. Ni all dysgwyr gael swydd gyda'u sgôr gwerth ychwanegol. Dyna pam y defnyddiwn werth ychwanegol fel rhan o ddarlun cyffredinol o berfformiad a chynnydd. Fel dangosyddion eraill, dim ond rhan o'r darlun y mae'n ei roi. Felly, mae'r data yr ydym yn eu cynhyrchu ar gyfer y teulu o ysgolion a'r teulu o ddata ysgolion, yr ydym wedi'u cyflenwi o'r blaen drwy'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, yn edrych ar nifer o elfennau o ddata a galluogi barn gymharol i gael ei gwneud. Dyna pam yr ydym yn dadlau'r defnydd o dablau cynghrair syml yn seiliedig ar un darn o wybodaeth a gyhoeddwyd.

Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at y ffaith

fact that this is not a matter of resources, either in terms of the spend per pupil—for it is one of the highest spending authorities in Wales—or in terms of what is delegated to schools, because, as the Member said, it delegates above the average in Wales to schools. However, like many other authorities, I think that it could do more than that.

On the regional agenda, we are deliberately going to a local authority that has received a good Estyn report to help us to provide leadership in turning Blaenau Gwent council around. However, it will draw on other authorities, including authorities in the region, to provide the support and to ensure that the capacity is in place to help to turn the situation around in Blaenau Gwent. We continue to support—and I am glad that he supports—the development of regional consortia in education in Wales. Support has been given by a number of local authorities to Blaenau Gwent, including Newport, up to now. Our own school standards unit will certainly have a role to play in helping to turn around the situation in Blaenau Gwent. This is a serious issue. We are responding seriously as a Government that takes these issues seriously.

William Graham: Minister, I commend your action in this case, but you will know that the most important thing now is to restore the confidence of parents, teachers and pupils. Will you commit to publishing the report so that we know how these failings occurred, when they occurred and how effective the remedies that you proposed will be?

Leighton Andrews: I am prepared to put further information into the public domain. I have been considering with my officials and lawyers over the last 48 hours what steps we might take to put the independent recovery board in place, and we have identified some potential names to be part of that. Those individuals are currently being canvassed for membership of that board. As was the case when action was taken by my predecessor in respect of Denbighshire, we will make this

nad mater o adnoddau yw hwn, naill ai o ran y gwariant fesul disgybl—gan ei fod yn un o'r awdurdodau sy'n gwario fwyaf yng Nghymru—neu o ran yr hyn sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion, oherwydd, fel y dywedodd yr Aelod, mae'n dirprwyo uwchlaw'r cyfartaledd yng Nghymru i ysgolion. Fodd bynnag, fel llawer o awdurdodau eraill, yr wyf yn meddwl y gallai wneud mwy na hynny.

Ar yr agenda rhanbarthol, rydym yn mynd yn fwiadol i awdurdod lleol sydd wedi derbyn adroddiad da gan Estyn i'n helpu i ddarparu arweinyddiaeth wrth droi Cyngor Blaenau Gwent o gwmpas. Fodd bynnag, bydd yn tynnu ar awdurdodau eraill, gan gynnwys awdurdodau yn y rhanbarth, er mwyn darparu cymorth ac i sicrhau bod y gallu yn ei le er mwyn helpu i droi'r sefyllfa o gwmpas ym Mlaenau Gwent. Rydym yn parhau i gefnogi—ac yr wyf yn falch ei fod yntau yn cefnogi—datblygu consortia rhanbarthol mewn addysg yng Nghymru. Mae cymorth wedi'i roi gan nifer o awdurdodau lleol i Flaenau Gwent, gan gynnwys Casnewydd, hyd yn hyn. Bydd gan ein huned safonau ysgolion ein hunain yn sicr rôl i'w chwarae wrth helpu i droi o gwmpas y sefyllfa ym Mlaenau Gwent. Mae hwn yn fater difrifol. Rydym yn ymateb o ddifrif fel Llywodraeth sy'n cymryd y materion hyn o ddifrif.

William Graham: Weinidog, yr wyf yn cymeradwyo eich camau gweithredu yn yr achos hwn, ond byddwch yn gwybod mai'r peth mwyaf pwysig yn awr yw adfer hyder rhieni, athrawon a disgyblion. A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad er mwyn i ni wybod sut y digwyddodd y diffygion hyn, pa bryd yr oeddent wedi digwydd a pha mor effeithiol y bydd yr atebion a gynigiwyd gennych?

Leighton Andrews: Yr wyf yn barod i roi gwybodaeth bellach i'r cyhoedd. Rwyf wedi bod yn ystyried gyda'm swyddogion a'm cyfreithwyr yn ystod y 48 awr diwethaf pa gamau y gallem eu cymryd i roi'r bwrdd adfer annibynnol yn ei le, ac rydym wedi nodi rhai enwau posibl i fod yn rhan o hynny. Mae'r unigolion hynny yn cael eu canfasio ar hyn o bryd i fod yn aelod o'r bwrdd hwnnw. Fel oedd yn wir pan gymerwyd camau gan fy rhagflaenydd mewn perthynas â Sir

information available. When Estyn re-inspects, we will have further information to put into the public domain at that time as well.

Jocelyn Davies: Minister, the report shows that the life chances of pupils in Blaenau Gwent have been hampered by the lack of leadership by senior officers and members in successive administrations. As we heard, it is not a matter of money nor is it a matter of the potential of the children. Previous reports have not been responded to, and it is clear that previous administrations have avoided making difficult decisions. Minister, I believe that you can make difficult decisions, but are you aware that this is not confined to education and that this council has needed an advisory board in the past to oversee its decisions? Have you seen the recent James report which points to a systemic culture of bullying and harassment by members and staff, which must affect all aspects of service delivery within the council? I welcome the fact that the council is not in denial, but do you agree that the many failures of the past must be confronted for the sake of the children in Blaenau Gwent?

Leighton Andrews: Indeed, and that is why we are putting in place a taskforce to work with an independent recovery board that will report to me on the work that it is doing to turn the situation around. The wider corporate issues are matters for my colleague, the Minister for Local Government and Communities, to consider, and he will be doing that over the forthcoming weeks.

Aled Roberts: Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn tristau o weld yr adroddiad hwn. Ar ran fy ngrŵp, yr wyf yn diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Yr ydym yn cefnogi'r camau a gymerodd y Gweinidog. Fel Simon Thomas, yr wyf i hefyd yn cefnogi'r symudiad tuag at gonsortia rhanbarthol gan y bydd hynny yn symud pethau ymlaen. Mae'n glir o'r adroddiad bod rhai o'r ffaelecteddau ym Mlaenau Gwent wedi bod yn digwydd ers blynnyddoedd lawer. Un o'r problemau sydd gennyf gyda'r adroddiad yw pam nad yw'r

Ddinbych, byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael. Pan fydd Estyn yn ail-arolygu, bydd gennym ragor o wybodaeth i'w rhoi i'r cyhoedd bryd hynny hefyd.

Jocelyn Davies: Weinidog, dengys yr adroddiad bod cyfleoedd bywyd disgyblion ym Mlaenau Gwent wedi eu llesteirio gan ddiffyg arweinyddiaeth gan uwch swyddogion ac aelodau mewn gweinyddiaethau olynol. Fel y clywsom, nid yw'n fater o arian ac nid yw'n fater o botensial y plant. Nid ymatebwyd i adroddiadau blaenorol, ac mae'n amlwg bod gweinyddiaethau blaenorol wedi osgoi gwneud penderfyniadau anodd. Weinidog, credaf y gallwch wneud penderfyniadau anodd, ond a ydych yn ymwybodol nad yw hyn yn gyfyngedig i addysg a bod y cyngor hwn wedi bod angen bwrdd ymgynghorol yn y gorffennol i oruchwylio ei benderfyniadau? A ydych wedi gweld yr adroddiad James diweddaraf sy'n cyfeirio at ddiwylliant systemig o fwlio ac aflonyddu gan aelodau a staff, y mae'n rhaid iddo effeithio ar bob agwedd ar ddarparu gwasanaeth o fewn y cyngor? Croesawaf y ffaith nad oedd y cyngor yn gwadu, ond a ydych yn cytuno bod yn rhaid i lawer o fethiannau'r gorffennol gael eu hwynebu er mwyn y plant ym Mlaenau Gwent?

Leighton Andrews: Yn wir, a dyna pam yr ydym yn rhoi ar waith dasglu i weithio gyda'r bwrdd adfer annibynnol a fydd yn adrodd i mi ar y gwaith y mae'n ei wneud i droi'r sefyllfa o gwmpas. Mae'r materion corfforaethol ehangach yn faterion ar gyfer fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i'w hystyried, a bydd yn gwneud hynny yn ystod yr wythnosau sydd i ddod.

Aled Roberts: I am sure that we are all saddened by this report. On behalf of my group, I thank the Minister for the statement. We support the steps taken by the Minister. Like Simon Thomas, I also support the move towards regional consortia, as that will progress the agenda. What is clear from this report is that some of the failings in Blaenau Gwent have been happening over a period of many years. One of the problems that I have with this report is why those deficiencies have not been noted by Estyn until very

diffygion hyn wedi cael eu nodi gan Estyn hyd nes yn ddiweddar. Byddwn yn gadael y Cynulliad yr wythnos hon, ond mae'r adroddiad yn sôn y bydd Blaenau Gwent yn cyflwyno ei adborth yn ystod y pythefnos nesaf. Felly, sut y byddwn fel Aelodau Cynulliad yn cael ein hysbysu o'r camau y bydd Blaenau Gwent yn eu cymryd? A oes amserlen hefyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion rheoli corfforaethol o fewn y cyngor?

Leighton Andrews: From his previous experience, the Member will understand the thoroughness of the current Estyn inspection framework. We will receive the proposed action plan of Blaenau Gwent, which we have asked for on an accelerated timescale, and we will take that into account in the work that will be done by the independent recovery board. However, as I said, it is my intention to remove executive responsibility for education from Blaenau Gwent while the independent recovery board is in action, and it will take over that responsibility by working on an operational basis through the taskforce.

I also welcome his support for regional consortia—I am glad that there is all-party support for the operation of regional consortia in education. We are clearly moving in that direction, alongside the recommendations of the report of the task and finish group, which was chaired by Viv Thomas, on the structure of delivery in education, so that is progress in terms of the shaping of a consensus within the Assembly. However, we cannot place reliance on the work that is proposed by Blaenau Gwent, and that is why I am putting in place an independent recovery board.

3.30 p.m.

Julie James: I just wanted to draw to the Minister's attention to something that I know he already knows a little about. Jocelyn Davies just mentioned a report that I did with a different hat on before I became an Assembly Member. I shared the gist of that report with the Minister for local government earlier today. I just want to put on record that I am very happy to give a copy of that report

recently. We will leave the Assembly this week and the report mentions that Blaenau Gwent will bring forward its response to the report over the next fortnight. How will we, as Assembly Members, be made aware of the steps that Blaenau Gwent is taking? Also, does the Minister for Local Government and Communities have a timetable for the corporate management issues within the council?

Leighton Andrews: O'i brofiad blaenorol, bydd yr Aelod yn deall trylwyrdd fframwaith arolygu presennol Estyn. Byddwn yn derbyn cynllun gweithredu arfaethedig Blaenau Gwent, yr ydym wedi gofyn amdano ar amserlen gyflymach, a byddwn yn ystyried hynny yn y gwaith a fydd yn cael ei wneud gan y bwrdd adfer annibynnol. Fodd bynnag, fel y dywedais, fy mwriad yw dileu cyfrifoldeb gweithredol dros addysg Blaenau Gwent tra bod y bwrdd adfer annibynnol yn gweithredu, a bydd yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb hwnnw drwy weithio ar sail weithredol drwy'r tasglu.

Yr wyf hefyd yn croesawu ei gefnogaeth i'r consortia rhanbarthol—yr wyf yn falch y ceir cefnogaeth pob plaid ar gyfer gweithredu consortia rhanbarthol mewn addysg. Mae'n amlwg ein bod yn symud yn y cyfeiriad hwnnw, ochr yn ochr ag argymhellion adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, a gadeiriwyd gan Viv Thomas, ar strwythur y ddarpariaeth mewn addysg, felly mae hynny'n gynnydd o ran llunio consensws yn y Cynulliad. Fodd bynnag, ni allwn ddibynnu ar y gwaith a gynigir gan Flaenau Gwent, a dyna pam yr wyf yn rhoi yn ei le bwrdd adfer annibynnol.

Julie James: Yr oeddwn am dynnu sylw'r Gweinidog at rywbeth yr wyf yn gwybod ei fod eisoes yn gwybod ychydig am. Mae Jocelyn Davies newydd grybwyll adroddiad a wneuthum pan oeddwn yn gwisgo het wahanol cyn imi ddod yn Aelod Cynulliad. Rhennais hanfod yr adroddiad hwnnw gyda'r Gweinidog dros lywodraeth leol yn gynharach heddiw. Hoffwn gofnodi fy mod

to either Minister if that would be helpful, or to discuss it with them.

Leighton Andrews: I thank the Member for that. Clearly, we would welcome seeing any report that is of direct relevance to helping us to turn the situation around in Blaenau Gwent.

Bethan Jenkins: You said in your statement that the director of education of Neath Port Talbot, Karl Napieralla, will be taking over the board that will be looking into Blaenau Gwent. I appreciate that we do not want to be parochial here, but I am concerned about the fact that Neath Port Talbot is also going through quite a lot of changes with regard to school closures. There have also been concerns about the way in which that council has been delivering on this agenda, especially with regard to putting Llangiwg Primary School and Godre'r Graig Primary School up for reorganisation, then sitting on that decision and then going back to it time and again. We need to be sure that the people who are going to be doing this are of the highest quality because of Blaenau Gwent's particular situation. I want to be sure that Neath Port Talbot will be dealt with effectively, and that Blaenau Gwent will also be dealt with effectively. I am not sure whether this is the best answer to this particular issue.

Leighton Andrews: Llywydd, that was not a serious contribution. Neath Port Talbot County Borough Council has received a good report from Estyn and it is widely respected in terms of its performance in education, as is its director of education. I am very pleased that the leader of Neath Port Talbot County Borough Council has agreed that the authority can be engaged in helping to turn around the situation in Blaenau Gwent. It will draw on input from other local authorities. Neath Port Talbot County Borough Council has been through the Estyn inspection and has done well in it.

Bethan Jenkins: Sorry, may I—

The Presiding Officer: Order. No, I am

yn hapus iawn i roi copi o'r adroddiad hwnnw i'r naill Weinidog pe byddai hynny o gymorth, neu i'w drafod gyda hwy.

Leighton Andrews: Diolchaf yr Aelod am hynny. Wrth gwrs, byddem yn croesawu gweld unrhyw adroddiad sydd yn uniongyrchol berthnasol i'n helpu i droi'r sefyllfa o gwmpas ym Mlaenau Gwent.

Bethan Jenkins: Dywedasoeh yn eich adroddiad y bydd cyfarwyddwr addysg Castell-Nedd Port Talbot, Karl Napieralla, yn cymryd awenau'r bwrdd a fydd yn ystyried Blaenau Gwent. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydym am fod yn blwyfol yma, ond yr wyf yn poeni am y ffaith bod Castell-Nedd Port Talbot hefyd yn mynd drwy gryn dipyn o newidiadau o ran cau ysgolion. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch y modd y mae'r cyngor hwnnw wedi bod yn cyflawni'r agenda hwn, yn enwedig o ran cyflwyno Ysgol Gynradd Llangiwg ac Ysgol Gynradd Godre'r Graig ar gyfer ad-drefnu, ac yna eistedd ar y penderfyniad hwnnw a mynd yn ôl ato dro ar ôl tro. Mae angen i ni fod yn siŵr bod y bobl a fydd yn gwneud hyn o'r ansawdd uchaf oherwydd sefyllfa benodol Blaenau Gwent. Rwyf am fod yn siŵr y bydd Castell-nedd Port Talbot yn cael ei drin yn effeithiol, ac y bydd Blaenau Gwent hefyd yn cael ei drin yn effeithiol. Nid wyf yn siŵr a'i hwn yw'r ateb gorau i'r mater penodol hwn.

Leighton Andrews: Llywydd, nid oedd hwnnw'n gyfraniad difrifol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi derbyn adroddiad da gan Estyn ac mae'n cael ei barchu yn eang o ran ei berfformiad ym maes addysg, fel y mae ei gyfarwyddwr addysg. Rwy'n falch iawn bod arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cytuno y gall yr awdurdod gymryd rhan i helpu gwyrddroi'r sefyllfa ym Mlaenau Gwent. Bydd yn tynnu ar fewnbwn gan awdurdodau lleol eraill. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi bod drwy'r arolwg Estyn ac wedi gwneud yn dda ynddo.

Bethan Jenkins: Mae'n ddrwg gennyf, a allaf—

Y Llywydd: Trefn. Na, mae'n ddrwg gennyf.

sorry. Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau Motions to Elect Members to Committees

Cynnig NDM4792 Rosemary Butler

Motion NDM4792 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Aled Roberts (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Children and Young People Committee in place of Kirsty Williams (Welsh Liberal Democrats) to take effect from 19 September 2011.

Cynnig NDM4793 Rosemary Butler

Motion NDM4793 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle William Powell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Eluned Parrott (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of William Powell (Welsh Liberal Democrats) to take effect from 19 September 2011.

Cynnig NDM4794 Rosemary Butler

Motion NDM4794 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Aled Roberts (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Public Accounts Committee in place of Peter Black (Welsh Liberal Democrats) to take effect from 19 September 2011.

Cynnig NDM4795 Rosemary Butler

Motion NDM4795 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Eluned Parrott (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee in place of Peter Black (Welsh Liberal Democrats) to take effect from 19 September 2011.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move the motions.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiau y cynigion.

The Presiding Officer: Unless there are any objections, I propose that the votes and the motion are grouped. I see that there are no objections. The proposal is to agree the motions. Does any Member object? I see that

Y Llywydd: Oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiau fod y pleidleisiau a'r cynnig yn cael eu grwpio. Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Y cynnig yw cytuno ar y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn

there are no objections. Therefore, the motions are agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynigion.
Motions agreed.*

Cynnig i Ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y Refferendwm ar Bwerau'r Cynulliad

Motion to Amend Standing Orders following the Assembly Powers Referendum

Cynnig NDM4787 Rosemary Butler

Motion NDM4787 Rosemary Butler

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2011;

1. Considers the Report of the Business Committee 'Proposed amendments to Standing Orders following the Assembly powers referendum' laid in the Table Office on 6 July 2011;

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

2. Approves the proposal to revise the Standing Orders, as set out in Annex B of the Report of the Business Committee.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move the motion.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiaf y cynnig.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn yr eitem hon. Byddaf innau a'r grŵp Ceidwadol yn cefnogi'r cynnig hwn sydd ger ein bron ni heddiw, oherwydd fel y deallaf, mae'r newidiadau hyn, fwy neu lai, yn newidiadau technegol yn sgîl y refferendwm llwyddiannus. Fodd bynnag, yr wyf eisiau gwneud pwynt ehangach ynglŷn â chraffu ar ddeddfwriaeth gan bwyllgorau. Mae'r newid o Fesurau i Filiau yn rhoi cyfrifoldeb pwysig arnom ni fel sefydliad, ac mae'n bwysig felly ein bod ni'n cael y cyfle a'r amser priodol i graffu ar Filiau newydd. Rhaid inni sicrhau bod pwyllgorau'r Cynulliad yn cael yr amser priodol i graffu ar ddeddfwriaeth. Mae hyn yn hynod o bwysig i sicrhau atebolrwydd democrataidd y Cynulliad.

Paul Davies: I am grateful for the opportunity to participate in this item. The Conservative group and I will support the motion that is before us today because, as I understand it, these changes are more or less technical changes fully the successful referendum. However, I want to raise a broader issue regarding the scrutiny of legislation by committees. The change from Measures to Bills places an important responsibility on us as an institution, and it is therefore important that we have the opportunity and the appropriate time to scrutinise new Bills. We must ensure that Assembly committees are apportioned the appropriate time to scrutinise legislation. This is exceptionally important to ensure the democratic accountability of the Assembly.

Derbyniaf mai'r Pwyllgor Busnes sy'n gwneud y penderfyniad, o dan Reol Sefydlog Rhif. 26.7, ynglŷn â pha bwyllgorau sy'n ystyried deddfwriaeth a faint o amser mae'r pwyllgorau'n cael i ystyried deddfwriaeth, ac mae hynny'n hollol briodol wrth gwrs. Fodd

I accept that it is the Business Committee that will take the decisions under Standing Order No. 26.7 as regards which committees will consider legislation and how much time they will be given to consider it, and that is completely appropriate of course. However,

bynag, mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu sefydlu sy'n gwneud yn siŵr bod y pwyllgorau yn cael chwarae teg i graffu ar unrhyw ddeddfwriaeth maent yn ei hystyried. O ystyried ein bod yn awr yn sefydliad sydd â phwerau deddfu llawn, mae hyn yn hynod o bwysig. Yr wyf yn ymwybodol wrth gwrs nad oedd rhai pwyllgorau wedi cael yr amser priodol i edrych ar ddeddfwriaeth yn y gorffennol, felly, yr wyf yn credu bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael y mater yn gywir ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad. Bu achosion yn y gorffennol lle methodd y Pwyllgor Busnes â chaniatáu mwy o amser i rai pwyllgorau am resymau digon teg a dealladwy, ond yr wyf yn credu ei bod yn awr yn hynod o bwysig ein bod yn sicrhau bod pwyllgorau'r dyfodol yn cael yr amser priodol i graffu ar Ffiliau.

Yr wyf yn deall bod cyfnod o 12 wythnos o leiaf yn Senedd yr Alban, er enghraifft, i bwyllgorau ystyried a chraffu ar Ffiliau yn ystod Cyfnod 1. Efallai gallwn ni, fel sefydliad, edrych ar gyflwyno rhywbeth tebyg yn y fan hon i sicrhau system graffu effeithiol.

Yr wyf yn hynod o ddiolchgar i'r Llywydd am adael i mi gyfrannu i'r eitem hon a byddwn yn hynod o ddiolchgar pe bai'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes yn gallu edrych ar y mater hwn ac ystyried y sefyllfa yn y dyfodol agos.

The Presiding Officer: Thank you for raising those points. I think that all Members would agree that the highest quality scrutiny is absolutely essential with our new powers. However, the time allowed for the scrutiny of Bills by committees does not relate to the changes that are before us today. The majority of these changes are technical and relate to the terminology used to describe Assembly legislation. However, as Chair of the Business Committee, I am sure that such concerns will be taken into account when the Business Committee makes decisions on the timetable for Bills as they come before the Assembly. I am sure that all Members of the Business Committee will have listened carefully to what you have said today.

it is vital that we ensure that high standards are in place that will ensure that the committees are given fair play in scrutinising any legislation that they are to consider. Bearing in mind that we are now an institution with full law-making powers, this is important. I am aware that committees in the past have not been given the appropriate time to look at legislation; therefore, I believe that we must ensure that we do this right at the beginning of the fourth Assembly. There have been cases in the past where the Business Committee failed to allow more time for some committees for quite fair and understandable reasons, but I believe that it is now exceptionally important to ensure that future committees are given the appropriate time to scrutinise Bills.

I understand that, in the Scottish Parliament, for example, there is a period of at least 12 weeks for committees to consider scrutiny during Stage 1 of the Bills. Perhaps we, as an institution, could look at introducing something similar here to secure an effective scrutiny system.

I am exceptionally grateful to the Presiding Officer for allowing me to contribute to this item, and I would be exceptionally grateful if the Presiding Officer and the Business Committee could look at this issue and consider the situation in the near future.

Y Llywydd: Diolch ichi am godi'r pwyntiau hynny. Credaf y byddai pob Aelod yn cytuno bod y craffu o'r ansawdd uchaf yn gwbl hanfodol gyda'n pwerau newydd. Fodd bynnag, nid yw'r amser a ganiateir ar gyfer craffu ar Ffiliau gan bwyllgorau yn ymwneud â'r newidiadau sydd ger ein bron heddiw. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn dechnegol ac yn ymwneud â'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio deddfwriaeth y Cynulliad. Fodd bynnag, fel cadeirydd y Pwyllgor Busnes, yr wyf yn sicr y bydd pryderon o'r fath yn cael eu hystyried pan fydd y Pwyllgor Busnes yn gwneud penderfyniadau ar yr amserlen ar gyfer Biliau wrth iddynt ddod gerbron y Cynulliad. Yr wyf yn sicr y bydd pob Aelod o'r Pwyllgor Busnes wedi gwrandao'n ofalus ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud heddiw.

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, yr wyf, felly, yn datgan bod y cynnig wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Twristiaeth, Hyrwyddo Cymru Dramor, Allforion a Buddsoddi Mewnol Tourism, the Promotion of Wales Overseas, Exports and Inward Investment

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 and 3 in the name of Peter Black and amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 3 yn enw Peter Black, a gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

Cynnig NDM4786 Nick Ramsay

Motion NDM4786 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

1. Calls on the Welsh Government to:

a) Cydnabod rôl allweddol twristiaeth yn economi Cymru;

a) Recognise the key role of tourism in the Welsh economy;

b) Hyrwyddo Cymru dramor yn gyfan gwbl;

b) Promote Wales overseas as a whole;

c) Cynyddu nifer y cwmnïau sy'n allforio o Gymru a gwerth allforion o Gymru;

c) Increase the number of companies exporting from Wales and the value of Welsh exports;

d) Sicrhau bod rhagor o fewnfuddsoddi i Gymru yn cael ei annog.

d) Ensure that further inward investment into Wales is encouraged.

Andrew R.T. Davies: I move the motion.

Andrew R.T. Davies: Cynigiaf y cynnig.

Three amendments have been tabled to the motion. We will accept amendment 1, tabled in the name of Peter Black. The upskilling of the workforce is a critical part of developing any business plan or model, and attracting greater inward investment. Many Members who have visited companies will fully support that sentiment.

Cyflwynwyd tri gwelliant i'r cynnig. Byddwn yn derbyn gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Mae uwchsgilio'r gweithlu yn rhan hanfodol o ddatblygu unrhyw gynllun busnes neu fodel, a denu mwy o fuddsoddiad o'r tu allan. Bydd llawer o Aelodau sydd wedi ymweld â chwmnïau yn cefnogi'r teimlad hwnnw'n llawn.

We will also support amendment 2, tabled in the name of Jocelyn Davies, on the principle that it would be foolish in these current times

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies, ar yr egwyddor y byddai'n annoeth yn y cyfnod

not to explore any avenues that could lever in extra money to help with infrastructure projects and thus develop Wales as a truly globalised marketplace for business to perform.

We shall be abstaining from voting on amendment 3. While we are not against the principle of a Welsh stock exchange, we believe that further work needs to be undertaken in this field. I remember, many a time, the former Member for Cardiff Central, Jenny Randerson, speaking with compassion and conviction on this issue, but I still do not believe that the case for it has been made entirely. While I would not wish to vote down the amendment, we will certainly abstain from voting on it.

We must accept that the Welsh market is small; therefore, it is important that Wales looks beyond its borders for economic growth. Opportunities for tourism, promotion, exports and inward investment exist, but they all too often remain untapped. It is vital for the health of the Welsh economy that all business opportunities are exploited. Tourism supports more than 10 per cent of the Welsh economy. As such, it deserves to be taken more seriously by this new Government. Wales has seen international visitor numbers fall from 1.1 million in 2008 to 955,000 the following year. The number of overnight visits also declined. Even UK traffic to Wales has decreased.

Given that in 2009 more than 100,000 people were employed in Wales in tourism, and total expenditure by visitors to Wales was in the region of £1.4 billion—a figure down by some £300 million on the five-year cycle, from £1.75 billion—the decline in tourism numbers is bad news for Welsh business. Further tourism statistics are not available because the Welsh Government, unlike Westminster, does not publish key statistics regularly, or in sufficient detail. Given the decline in numbers, we need to address this deficiency in order to respond effectively. The Wales Tourist Board was brought in-

presennol i beidio ag archwilio unrhyw lwybrau a allai ddenu arian ychwanegol i helpu gyda phrosiectau seilwaith a thrwy hynny datblygu Cymru fel marchnad gwirioneddol fyd-eang ar gyfer busnes i berfformio.

Byddwn yn ymatal rhag pleidleisio ar welliant 3. Er nad ydym yn erbyn yr egwyddor o gyfnewidfa stoc Gymreig, credwn fod angen gwneud gwaith pellach yn y maes. Yr wyf yn cofio, lawer tro, y cyn Aelod dros Ganol Caerdydd, Jenny Randerson, yn siarad gyda thosturi ac argyhoeddiad am y mater hwn, ond eto, nid wyf yn credu bod achos ar ei gyfer wedi'i wneud yn gyfan gwbl. Er na fyddwn yn dymuno pleidleisio yn erbyn y gwelliant, byddwn yn sicr yn ymatal rhag pleidleisio arno.

Rhaid inni dderbyn bod y farchnad yng Nghymru yn fach; felly, mae'n bwysig bod Cymru yn edrych y tu hwnt i'w ffiniau ar gyfer twf economaidd. Mae cyfleoedd ar gyfer twristiaeth, dyrchafiad, allforion a buddsoddi mewnol yn bodoli, ond maent yn rhy aml yn parhau i fod heb eu cyffwrdd. Mae'n hanfodol ar gyfer iechyd economi Cymru fod yr holl gyfleoedd busnes yn cael eu hecsbloetio. Mae twristiaeth yn cefnogi mwy na 10 y cant o economi Cymru. Fel y cyfryw, mae'n haeddu cael ei gymryd o ddifrif gan y Llywodraeth newydd hon. Mae Cymru wedi gweld nifer yr ymwelwyr rhyngwladol yn gostwng o 1.1 miliwn yn 2008 i 955,000 y flwyddyn ganlynol. Mae nifer yr ymweliadau dros nos hefyd yn gostwng. Mae hyd yn oed draffig y Deyrnas Unedig i Gymru wedi gostwng.

O ystyried bod dros 100,000 o bobl yn 2009 yn cael eu cyflogi yng Nghymru mewn twristiaeth, ac yr oedd cyfanswm y gwariant gan ymwelwyr i Gymru oddeutu £1.4 biliwn—ffigwr sydd i lawr ryw £300 miliwn ar y cylch pum mlynedd, o £1.75 biliwn—mae'r gostyngiad yn y nifer o dwristiaid yn newyddion drwg i fusnesau Cymru. Nid yw ystadegau twristiaeth pellach ar gael gan nad yw Llywodraeth Cymru, yn wahanol i San Steffan, yn cyhoeddi ystadegau allweddol yn rheolaidd, neu yn ddigon manwl. O ystyried y gostyngiad mewn niferoedd, mae angen i ni fynd i'r afael â'r diffyg hwn, er mwyn

house in 2006, as Visit Wales, in order to use a single brand to promote Wales across the world. In April 2006, the then First Minister, Rhodri Morgan, said:

‘Using one single brand for all the work we do in promoting Wales across the world means we will be more effective than ever in capitalising on those strengths and telling the world about them.’

However, the decline in tourist numbers and other business ventures suggests that the Welsh Government’s marketing is not working. The tourism partnership in north Wales believes that the level of knowledge of Wales and what it has to offer is quite poor and that overseas markets have even less knowledge. The 2011 Labour manifesto pledges to promote Wales as a destination, but it is unclear as to how that will be achieved, and past performance is not encouraging. Therefore, I hope that the Minister will use the opportunity offered by this debate to indicate how this manifesto commitment will be taken forward.

The UK Government has pledged to co-fund a marketing campaign with the private sector, with a total value of £100 million, which will aim to attract 4 million extra visitors to Britain and £2 billion more in spending. Tourism bodies in England will be modified to be focused, industry-led partnerships to improve marketing expertise. Perhaps the Welsh Government could learn from those partnerships. The UK Government has also offered tax support for the tourism industry, including exemptions from national insurance contributions and cutting the main rate of corporation tax.

A key area for tourism and the economy is international air links. Unfortunately, Wales is also falling behind other regions of the UK in this regard. In 2010, passenger numbers at Cardiff Airport fell by 14 per cent compared with 2009, while, in the same period, Bristol

ymateb yn effeithiol. Dygwyd Bwrdd Croeso Cymru yn fewnol yn 2006, fel Croeso Cymru, er mwyn defnyddio un brand i hyrwyddo Cymru ledled y byd. Ym mis Ebrill 2006, dywedodd, Rhodri Morgan, y Prif Weinidog ar y pryd:

Mae defnyddio un brand sengl ar gyfer yr holl waith a wnawn wrth hyrwyddo Cymru ledled y byd yn golygu y byddwn yn fwy effeithiol nag erioed wrth fanteisio ar y cryfderau hynny a dweud wrth y byd amdanynt.

Fodd bynnag, mae’r gostyngiad yn nifer y twristiaid ac yn y mentrau busnes eraill yn awgrymu nad yw marchnata Llywodraeth Cymru yn gweithio. Mae’r bartneriaeth twristiaeth yng ngogledd Cymru yn credu bod y lefel o wybodaeth am Gymru a’r hyn sydd ganddi i’w gynnig yn eithaf gwael a bod gan y marchnadoedd tramor hyd yn oed llai o wybodaeth. Mae maniffesto Llafur 2011 yn addo hyrwyddo Cymru fel cyrchfan, ond nid yw’n glir ynghylch sut y bydd hynny’n cael ei gyflawni, ac nid yw’r perfformiad yn y gorffennol yn galonogol. Felly, gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn defnyddio’r cyfle a gynigir gan y ddadl hon i ddangos sut y bydd yr ymrwymiad maniffesto hwn yn cael ei ddatblygu.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi addo cyd-ariannu ymgyrch farchnata gyda’r sector preifat, gyda chyfanswm gwerth £100 miliwn, a fydd yn anelu at ddenu 4 miliwn o ymwelwyr ychwanegol i Brydain a £2 biliwn yn fwy o wariant. Bydd cyrff twristiaeth yn Lloegr yn cael eu haddasu i fod yn bartneriaethau sy’n canolbwyntio, dan arweiniad y diwydiant i wella arbenigedd marchnata. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru ddysgu o’r partneriaethau hynny. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi cynnig cymorth treth ar gyfer y diwydiant twristiaeth, gan gynnwys eithriadau o’r cyfraniadau yswiriant gwladol a thorri prif gyfradd y dreth gorfforaeth.

Un maes allweddol ar gyfer twristiaeth a’r economi yw cysylltiadau awyr rhyngwladol. Yn anffodus, mae Cymru hefyd yn colli tir o’i gymharu â rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig yn hyn o beth. Yn 2010, bu gostyngiad o 14 y cant yn nifer y teithwyr ym

Airport passenger numbers grew by almost 2 per cent. During the last week, I have visited two IT companies that are based in Cardiff and they emphasised the importance of having good transport and, in particular, air links, not only for them to go to see their customers around the United Kingdom but, above all, for customers to come to visit their premises in Cardiff. It is vital that the Welsh Government works with the airport operator to develop not only tourism opportunities, but also business opportunities.

The Welsh economy sadly continues to perform poorly compared with the rest of the UK. Although Welsh exports have performed reasonably well during the past two years, Wales still lags behind similar English regions such as the south west and the north east. Despite significant inward investment—around £7 billion was invested between 1980 and 1995—Wales continues to perform poorly compared with similar regions in the UK. The competitiveness and economic performance of Wales continue to decline. Despite development spending by the Welsh Government being consistently higher than in England or Scotland—economic development spending in Wales was estimated to be £107 per person in 2009, compared with £97 in the north-east of England, the next highest—Wales now has the least competitive economy, having fallen behind the north-east of England in the UK competitiveness index of 2010.

As I have already indicated, the Welsh market is small and, as a result, Wales needs partners around the world. However, a recent survey found that, compared with other UK regions, Welsh business is less globally engaged. Other sources have said that, compared with many other regions, Wales barely engages with the global economy. The Welsh Labour Government abolished the Welsh Development Agency in 2006 and replaced it with International Business Wales. We now have the economic renewal

Maes Awyr Caerdydd o'i gymharu â 2009, tra, yn yr un cyfnod, tyfodd nifer y teithwyr ym Maes Awyr Bryste i bron 2 y cant. Yn ystod yr wythnos diwethaf, yr wyf wedi ymweld â dau gwmni technoleg gwybodaeth sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac maent yn pwysleisio pwysigrwydd cael trafndiaeth dda ac, yn arbennig, cysylltiadau awyr, nid yn unig er mwyn iddynt ymweld â'u cwsmeriaid o gwmpas y Deyrnas Unedig ond, uwchlaw popeth, er mwyn i'w cwsmeriaid allu ymweld â'u safle yng Nghaerdydd. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwr y maes awyr i ddatblygu nid yn unig cyfleoedd twristiaeth, ond hefyd cyfleoedd busnes.

Mae economi Cymru, yn anffodus, yn parhau i berfformio'n wael o'i chymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Er bod allforion o Gymru wedi perfformio'n weddol dda yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Cymru yn dal i lusgo y tu ôl i ranbarthau tebyg yn Lloegr megis y de-orllewin a'r gogledd-ddwyrain. Er gwaethaf mewnfuddsoddiad sylweddol—buddsoddwyd tua £7 biliwn rhwng 1980 a 1995—mae Cymru'n parhau i berfformio'n wael o'i chymharu â rhanbarthau tebyg yn y Deyrnas Unedig. Mae cystadleurwydd a pherfformiad economaidd Cymru yn parhau i ostwng. Er gwaethaf y ffaith bod gwariant datblygu gan Lywodraeth Cymru'n gyson uwch nag y mae yn Lloegr neu'r Alban—amcangyfrifwyd bod gwariant economaidd yng Nghymru yn £107 y person yn 2009, o'i gymharu â £97 yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, y nesaf uchaf—mae gan Gymru bellach yr economi lleiaf cystadleuol, gan ei fod wedi gostwng y tu ôl i ogledd-ddwyrain Lloegr ym mynegai cystadleurwydd y Deyrnas Unedig yn 2010.

Fel yr wyf eisoes wedi ei nodi, mae'r farchnad yng Nghymru yn fach ac, o ganlyniad, mae ar Gymru angen partneriaid ar draws y byd. Fodd bynnag, canfu arolwg diweddar bod busnesau yng Nghymru yn cymryd rhan lai byd-eang o'i gymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Mae ffynonellau eraill wedi dweud, o'i gymharu â llawer o ranbarthau eraill, bod Cymru prin yn ymgysylltu â'r economi byd-eang. Diddymwyd Awdurdod Datblygu Cymru gan Lywodraeth Lafur Cymru yn 2006 ac fe'i

programme that abolished IBW and replaced it with integrated sector teams. Given this level of confusion, is it any wonder that the Welsh Government has been severely criticised for abolishing the WDA and for its record of spending? A recent report by Oxford Intelligence about awareness of development agencies found that the WDA came joint second, despite having been inactive for more than five years. Furthermore, Sir Roger Jones stated that abolishing the WDA would sentence Wales to 10 years in the industrial development wilderness. The Welsh Government must listen to these concerns and recognise that Wales needs to be more of a global player, projecting a positive brand for Wales around the world.

disodlwyd gan Fusnes Rhyngwladol Cymru. Erbyn hyn, mae gennym y rhaglen adnewyddu economaidd a ddiddymodd IBW a'i ddisodli gyda thimau sector integredig. O ystyried y lefel hon o ddryswch, a ydyw'n unrhyw syndod bod Llywodraeth Cymru wedi cael ei beirniadu'n hallt am ddiddymu'r WDA ac am ei record o wariant? Canfu adroddiad diweddar gan Oxford Intelligence am ymwybyddiaeth asiantaethau datblygu bod y WDA yn dod yn ail ar y cyd, er nad yw wedi bod yn weithgar ers mwy na phum mlynedd. Ar ben hynny, dywedodd Syr Roger Jones y byddai diddymu'r WDA yn dedfrydu Cymru i 10 mlynedd yn anialwch datblygiad diwydiannol. Rhaid i Lywodraeth Cymru wrando ar y pryderon hyn a chydabod bod angen i Gymru fod yn fwy o chwaraewr byd-eang, sy'n estyn brand cadarnhaol ar gyfer Cymru o amgylch y byd.

3.45 p.m.

Repeated Welsh Government reorganisations are taking attention away from the task of selling Wales to the world and have had a demoralising effect on the staff involved. A strong and recognisable brand needs to be built. We have a strong story to tell and a narrative to promote, and the Welsh Government needs to lead. I hope that the Minister uses this opportunity to set out her priorities—not only in the field of tourism but, above all, in the projection of the image of Wales as a business-friendly culture and a place that is open for business, to create jobs that will sustain the people of Wales in going forward. I urge Members to support the motion today.

Mae ad-drefnu parhaus gan Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw oddi wrth y dasg o werthu Cymru i'r byd ac wedi cael effaith danseiliol ar y staff sy'n rhan o hynny. Mae angen adeiladu brand cryf sy'n hawdd i'w adnabod. Mae gennym stori dda i'w hadrodd a naratif i'w hybu, ac y mae angen i Lywodraeth Cymru arwain ar hynny. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn defnyddio'r cyfle hwn i amlinellu ei blaenoriaethau—nid yn unig ym maes twristiaeth, ond, yn bennaf, o ran cyfleu'r ddelwedd o Gymru fel diwylliant sy'n gyfeillgar i fusnes a rhywle sydd ar agor i fusnes, i greu swyddi a fydd yn cynnal pobl Cymru yn y dyfodol. Anogaf Aelodau i gefnogi'r cynnig heddiw.

Gwelliant 1 Peter Black

Amendment 1 Peter Black

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Add as new sub point at end of point 1:

Buddsoddi mewn sgiliau fel y bydd gan fusnesau yng Nghymru fwy o botensial i allforio a denu rhagor o fewnfuddsoddi.

Invest in skills so that businesses in Wales will have increased potential for exports and attracting greater inward investment.

Gwelliant 3 Peter Black

Amendment 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y byddai Cyfnewidfa Stoc Cymru yn helpu i hyrwyddo Cymru fel economi fodern.

Believes a Welsh Stock Exchange will help promote Wales as a modern economy.

Peter Black: I move amendments 1 and 3 in my name.

Peter Black: Cynigiaf welliannau 1 a 3 yn fy enw.

I will carry on from where Andrew R.T. Davies finished with regard to the abolition of the WDA. I supported that decision and I have not changed my mind, but the problem was that, once the WDA was abolished, there was no strategic take-up of the work that it was doing to attract inward investment to Wales. In 2004, Wales attracted around £4.5 billion of foreign direct investment, which more than trebled the following year. However, since then we have fallen back. As Andrew pointed out, we have fallen from second to ninth in the inward investment tables produced by UK Trade and Investment and Foreign Direct Investment. We have taken our eye off the ball as regards attracting inward investment to Wales.

Rwyf am ddal ati lle gorffennodd Andrew R.T. Davies o ran dileu'r WDA. Cefnogais y penderfyniad hwnnw ac nid wyf wedi newid fy meddwl, ond y broblem oedd, unwaith y cafodd y WDA ei ddiddymu, nid oedd unrhyw un i ddal ati gyda'r gwaith strategol hwnnw yr oedd yn ei wneud i ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru. Yn 2004, denodd Cymru ryw £4.5 biliwn o fuddsoddiad uniongyrchol o dramor, a threblodd hynny y flwyddyn wedyn. Fodd bynnag, ers hynny rydym wedi llithro'n ôl. Fel y dywedodd Andrew, rydym wedi llithro o ail i nawfed yn y tablau mewnfuddsoddiad a gynhyrchwyd gan Fasnach a Buddsoddi y DU a Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor. Rydym wedi anghofio canolbwyntio o ran denu mewnfuddsoddiad i Gymru.

Starting to address that problem is a huge issue. We need a more structured and strategic approach to attracting inward investment. If we are not going to bring back a purpose-built quango like the Welsh Development Agency, we need to start putting in place co-ordinated and concerted efforts to do the same job under the auspices of the Welsh Government. That has not happened since the WDA was abolished and does not appear to be happening as yet under the current Government.

Mae dechrau ymdrin â'r broblem honno yn fater sylweddol. Rydym angen ffordd fwy strwythuredig a strategol i ddenu mewnfuddsoddiad. Os nad ydym am ddod â chwango pwrpasol fel Awdurdod Datblygu Cymru yn ôl, mae angen i ni ddechrau rhoi ymdrechion cydlynus a chadarn ar waith i wneud yr un gwaith o dan ymbarél Llywodraeth Cymru. Ni chafodd hynny ei wneud ers diddymu'r WDA ac nid yw'n edrych fel pe bai'n digwydd hyd yma o dan y Lywodraeth bresennol.

The Welsh Liberal Democrat amendments hopefully address this in two ways. First, on a Welsh stock exchange, I noted Andrew's comment that he is agnostic on this point. We believe that a Welsh stock exchange would serve two purposes: it would help to raise capital for Welsh businesses and would help to promote the Welsh economy across the world. Access to credit for medium-sized companies is notoriously difficult at the moment, and when access to credit is difficult, many companies list on a stock exchange. However, a good number of companies in Wales are unable to list on the London stock exchanges because of the high associated costs. Even the alternative investment market—the smaller branch of the

Gobeithio bod gwelliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ymdrin â hyn mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, o ran cyfnewidfa stoc Cymru, nodaf sylw Andrew ei fod yn agnostig ar y pwynt hwn. Credwn y byddai cyfnewidfa stoc Cymru yn cyflawni dau beth: byddai'n helpu i godi cyfalaf i fusnesau o Gymru a byddai'n helpu i hybu economi Cymru ar draws y byd. Mae cael gafael ar gredyd i gwmnïau canolig eu maint yn anodd iawn ar y funud, a phan fo cael gafael ar gredyd yn anodd, mae nifer o gwmnïau yn rhestru ar gyfnewidfa stoc. Fodd bynnag, nid yw nifer dda o gwmnïau yng Nghymru yn gallu rhestru ar gyfnewidfeydd stoc Llundain oherwydd y costau uchel cysylltiedig. Nid yw hyd yn oed y farchnad fuddsoddi amgen—

London stock exchange that is aimed at smaller companies—is still out of the reach of many Welsh businesses, as the associated costs are too great. A Welsh stock exchange would be easier for many to access. If it focused primarily on medium-sized businesses, the regulatory regime could be more proportionately designed in order to attract a variety of companies into its fold.

Another advantage of a Welsh stock exchange is that it would put down a marker that the Welsh economy is open to global investment. There are few successful economies—even those in smaller countries than Wales—that do not have their own stock exchange. A Welsh stock exchange is viable; a recent Federation of Small Businesses study found that 34 per cent of members would support a stock exchange for Wales and 21 per cent of members would consider floating their business in the short or long term. Like the Welsh Liberal Democrats, the FSB has called for a feasibility study into establishing a stock exchange. The previous Government committed itself to looking at the feasibility of a Welsh stock exchange, but the new Minister for business has confirmed that the Government will not pursue this issue, as it believes that the private sector should instigate it. However, we argue that the Government should initiate this. A stock exchange should be seen as part of an essential infrastructure established by the Government and adopted by the private sector. For the next few years, it is possible that a stock exchange would need a subsidy to ensure that it was viable in the first instance. That kind of seed funding is, in our view, a price worth paying if it helps to bring new forms of capital into Welsh companies. With that in mind, we urge the Government to reconsider its position on not establishing a Welsh stock exchange.

Our other amendment concerns investment in skills, which can be used to improve the ability of Welsh businesses to compete overseas and to attract overseas investment into Wales. The succession of reports highlighting the poor performance of the Welsh education system shows just how much of an opportunity we are missing. This is not only devastating for the individuals concerned, who may miss out on life

cangen lai cyfnewidfa stoc Llundain sydd wedi ei hanelu at gwmnïau llai—o fewn cyrraedd llawer o fusnesau o Gymru, gan fod y costau cysylltiedig yn ormod. Byddai cyfnewidfa stoc Cymru yn llawer haws cael mynediad iddi i lawer. Os ydyw wedi ei ffocysu fwyaf ar fusnesau canolig eu maint, gellid dylunio'r drefn reoliadol yn fwy cymesur i ddenu amrywiaeth o gwmnïau ati.

Mantais arall o gael cyfnewidfa stoc Cymru yw y byddai'n tynnu sylw at y ffaith bod economi Cymru ar agor i fuddsoddiad bydeang. Ychydig iawn o economïau llwyddiannus—hyd yn oed y rhai mewn gwledydd llai na Chymru—sydd ddim yn meddu ar gyfnewidfa stoc eu hunain. Mae cyfnewidfa stoc Cymru yn hyfyw; canfu astudiaeth ddiweddar gan Ffederasiwn y Busnesau Bach y byddai 34 y cant o'i aelodau yn cefnogi cyfnewidfa stoc i Gymru ac y byddai 21 y cant o aelodau yn ystyried cyhoeddi cyfrannau eu busnes yn y tymor byr neu hir. Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mae'r FSB wedi galw am astudiaeth ddichonolrwydd o gyfnewidfa stoc Cymru, ond cadarnhaodd y Gweinidog busnes newydd na fydd y Llywodraeth yn mynd ar drywydd y mater, gan ei bod yn credu y dylai'r sector preifat ei sefydlu. Fodd bynnag, rydym yn dadlau y dylai'r Llywodraeth ei sefydlu. Dylid ystyried cyfnewidfa stoc fel rhan o seilwaith hanfodol a sefydlir gan y Llywodraeth a'i fabwysiadu gan y sector preifat. Dros y blynyddoedd nesaf, mae'n bosibl y byddai angen cymhorthdal ar gyfnewidfa stoc i sicrhau ei bod yn hyfyw yn y lle cyntaf. Mae'r math hwnnw o gyllid sbarduno, yn ein barn ni, yn bris gwerth ei dalu os ydyw'n helpu i ddod â mathau newydd o gyfalaf i gwmnïau o Gymru. O gofio hynny, rydym yn erfyn ar y Llywodraeth i ailystyried ei safbwynt ar beidio â sefydlu cyfnewidfa stoc Cymreig.

Mae ein gwelliant arall yn ymwneud â buddsoddi mewn sgiliau, y gellid eu defnyddio i wella gallu busnesau o Gymru i gystadlu dramor a denu buddsoddiad o dramor i Gymru. Mae'r gyfres o adroddiadau yn tanlinellu perfformiad wael system addysg Cymru yn dangos faint o gyfle yr ydym yn ei golli. Nid yw hyn yn unig yn enbydus i'r unigolion dan sylw, a allai golli cyfleoedd bywyd, ond y mae hefyd yn gwneud difrod

opportunities, but is also seriously damaging our ability to improve the nation's skills to create the high-level jobs, products and enterprises that will set Wales up as an international player in the business world. Unfortunately, Wales is losing out to other regions in the UK with regard to foreign investment. We need to start reversing that trend, which, combined with the points made here in this motion and our amendments, would be the start of turning this around and putting Wales, once more, in the top two areas with regard to attracting inward investment.

Gwelliant 2 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

e) Edrych ar bob llwybr posibl er mwyn cynnal gwariant cyfalaf ar brosiectau seilwaith fel ffordd o roi hwb i gwmnïau Cymru a'u gallu i gystadlu mewn marchnad fyd-eang.

Alun Ffred Jones: Cynigiai welliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

Yr wyf yn falch iawn o'r cyfle i gynnig y gwelliant hwn. Yr wyf am siarad ar y gwelliant a gwneud sylw ar y pwynt cyntaf sydd yng nghynnig y Toriaid, ynglŷn â thwristiaeth. Gan fod y dadleuon hyn wedi cael eu gwneud eisoes yn y Siambr, nid oes angen imi bwysleisio pa mor bwysig yw gwariant cyfalaf er mwyn diwallu'r anghenion yng Nghymru o safbwynt ffyrdd a rheilffyrdd, ysbytai, canolfannau iechyd ac ysgolion newydd. Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnal y gwariant hwnnw ac yn darganfod ffyrdd o'i ariannu yn wyneb y toriadau llym o du Llywodraeth Llundain. Un o'r ffeithiau syml ynglŷn â'r diwydiant adeiladu yw bod yr arian sy'n cael ei wario, at ei gilydd, yn cylchdroi yn yr economi leol—cwmnïau lleol sy'n aml yn ennill y contractau, gweithwyr lleol sy'n cael eu cyflogi, ac mae'r gadwyn gyflenwi yn aml yn dod â budd lleol. Felly, mae manteision amlwg iawn o gynnal y gwariant, a'i gynyddu os yn bosibl, ar gynlluniau fel hyn.

Mynychais wobrau sefydliad rheolaeth adeiladu llywodraeth leol yn y Senedd yn

mawr i'n gallu i wella sgiliau'r genedl i greu swyddi lefel uchel, cynnyrch a mentrau a fydd yn sefydlu Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn y byd busnes. Yn anffodus, mae Cymru yn colli allan i ranbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig o ran buddsoddiad o dramor. Mae angen inni ddechrau gwyrddroi y duedd honno, a fyddai, ynghyd â'r pwyntiau a wnaed yma yn y cynnig hwn ac yn ein gwelliannau, yn dechrau gwyrddroi hyn ac yn rhoi Cymru, drachefn, ymysg y ddwy ardal orau o ran denu mewnfuddsoddiad.

Amendment 2 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

e) Explore all avenues in order to sustain capital spending on infrastructure projects as a means of boosting Welsh companies and their ability to compete in a globalised marketplace.

Alun Ffred Jones: I move amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

I am very pleased to be able to move this amendment. I will speak to the amendment and comment on the first point of the Conservative motion, on tourism. As these arguments have already been made in the Chamber, there is no need for me to reiterate the importance of capital spending in order to meet Wales's needs for new roads and railways, hospitals, health centres and schools. It is vital that we sustain that funding and find new ways of financing it in the face of the drastic cuts being imposed by the London Government. One simple fact about the construction industry is that, on the whole, the money spent circulates in the local economy—it is often local companies that are contracted and local workers employed, and the supply chain often brings local benefits. Therefore, sustaining and, if possible, increasing this funding has obvious benefits.

I recently attended the local authority building control awards in the Senedd, and

ddiweddar, a gwelais y gwaith gwych a wneir gan gwmnïau lleol ar hyd a lled Cymru—yn gwmnïau bach a mawr, yn benseiri ac yn adeiladwyr. Fodd bynnag, mae pryderon ymhlith y cwmnïau hynny, yn rhannol oherwydd y gostyngiad yn y gwaith adeiladu, ond hefyd oherwydd y dulliau presennol o dendro gan lywodraeth leol a chan Lywodraeth ganolog.

Mae llawer o agweddau ar y mater hwn sy'n ein hatgoffa o bwysigrwydd rhoi cefnogaeth i'n cwmnïau adeiladu. Yr oeddwn yn dathlu'n ddiweddar gyda chwmi adeiladu llwyddiannus iawn yn y gogledd, sydd bellach yn gwneud trosiant blynyddol o dros £250 miliwn. Fodd bynnag, ychydig iawn o'i waith sydd yng Nghymru. Yr hyn sy'n bwysig am y chwmi hwnnw, a chwmiâu tebyg, yw ei fod yn hyfforddi pobl ar gyfer y gweithlu ac yn datblygu sgiliau a rheolwyr; mae'r budd, felly, yn dod yn ôl i Gymru. Felly, pwysleisiaf fod yn rhaid i'r Llywodraeth weithredu ar fyrder i ddod â chynlluniau gerbron i gynnal y gwariant cyfalaf, megis drwy gynllun tebyg i gynllun Adeiladu dros Gymru a gynigiwyd gan Blaid Cymru. Yr ydym wedi gwneud tipyn o waith ar hynny, ac yr ydym yn fwy na pharod i rannu'r gwaith hwnnw gyda'r Llywodraeth.

Hoffwn wneud sylw neu ddau ynghylch pwynt cyntaf y cynnig, ar bwysigrwydd twristiaeth. Wrth gwrs, yr oedd Llywodraeth Cymru'n Un yn cydnabod rôl allweddol twristiaeth, sy'n cyflogi hyd at 100,000 o bobl pan fydd y tymor ar ei anterth. Unwaith eto, cyfunir yma nifer fawr o ddisgyblaethau sy'n berthnasol i waith y Llywodraeth. Mae hyfforddi ac addysg, er enghraifft, yn bwysig ac yn effeithiol iawn mewn rhai rhannau o'r wlad er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc. Mae hefyd yn cyfuno pob math o bethau sy'n ymwneud â threftadaeth, yr amgylchedd, atyniadau a busnesau lleol.

Cyfeiriaf at un o'r trefi yr wyf yn eu cynrychioli, sef Caernarfon. Mae gwaith Cadw, gyda'r gweithgaredd yn y castell, yn cyfuno gyda'r gwaith amgylcheddol a wnaed yn y drefn ei hun, ar y Maes, ynghyd ag atyniad Rheilffordd yr Ucheldir, sydd wedi dod i'r dref yn ddiweddar, gan gysylltu Porthmadog a Chaernarfon—mae wedi bod yn hynod lwyddiannus ac wedi derbyn llawer

saw the excellent work done by local companies the length and breadth of Wales—by small and large companies, architects and builders. However, those companies have concerns, partly because of the reduction in building work, but also because of the tendering regime currently used by local and central Government.

Many aspects of this issue remind us of the importance of supporting our construction companies. I was recently celebrating with a very successful construction company in north Wales, which has an annual turnover of over £250 million. However, only a small amount of its work is undertaken in Wales. The important point about that company, and others like it, is that it trains people for the workforce and develops skills and managers; the benefit, therefore, comes back to Wales. I stress, therefore, that the Government must act urgently to bring plans forward to sustain capital spending, through things such as the Build for Wales scheme put forward by Plaid Cymru. We have done a great deal of work on that, and are more than willing to share that with the Government.

I would like to make one or two comments about the motion's first point, on the importance of tourism. The One Wales Government, of course, recognised the key role of tourism, which employs up to 100,000 people at the height of the season. Once again, this combines a number of disciplines that are relevant to the Government's work. Education and training, for example, are important and very effective in some parts of Wales in offering opportunities for young people. It also combines all sorts of things that are relevant to heritage, the environment, attractions and local businesses.

I will refer to one of the towns that I represent—Caernarfon. Cadw's work at the castle combines with the environmental work being done in the town itself, on the Maes, and the Welsh Highland Railway attraction that has recently been developed, linking Porthmadog and Caernarfon—it has proved extremely successful and received a lot of public funding, as well as opposition. That

o arian cyhoeddus, ynghyd â llawer o wrthwynebiad. Mae'r cyfuniad hwnnw, ynghyd â'r gwariant a welwyd yng Nghaergybi i ddenu llongau mordeithio, wedi golygu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dod i Gaernarfon fel ymwelwyr. Y dystiolaeth ar hynny yw bod dau westy newydd wedi agor yn ddiweddar, ac un ohonynt wedi ehangu. Clywais Andrew R.T. Davies yn dweud bod ein ffigurau yn wael; nid yw hynny'n wir. Mae ffigurau ymwelwyr â Chymru, at ei gilydd, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn galonogol iawn, a dyna ganlyniad yr arolygon a wnaed gan y diwydiant.

Yr wyf yn hapus i gefnogi'r cynnig hwn, a byddwn hefyd yn nodi'r llwyddiannau a welwyd ym maes twristiaeth.

Mark Isherwood: Tourism provides almost one in 10 Welsh jobs, supporting almost 40,000 jobs in north Wales alone. North Wales accounts for 1 per cent of the UK population, but for 3 per cent of domestic tourism nights. The hospitality industry is key to tourism and plays an enormous part in the Welsh economy—including restaurants, pubs, hotels and contract catering. Nearly three quarters of tourism industry employees in Wales are employed in the hospitality sector, and 84 per cent of restaurants, 82 per cent of pubs and 59 per cent of hotels are microbusinesses employing less than 10 people. This has a large impact on recruitment, retention and skills.

The major issue affecting hospitality in Wales remains the lack of suitably skilled applicants, which may indicate that employers are recruiting staff who do not have the necessary skills. Action is, therefore, required to improve the image of the industry as an employer, promote career opportunities, ensure greater uptake of industry-recognised qualifications, and provide up to date skills and labour-market intelligence in order to support future strategic development.

To be competitive, Wales must offer facilities, customer services and value of world-class standards. We must also

combination, linked with the expenditure that there has been in Holyhead to attract cruise ships, has meant a significant increase in the numbers of people visiting Caernarfon as tourists. The evidence is that two new hotels have recently opened in the town, one of which has expanded. I heard Andrew R.T. Davies say that our figures were poor; that is not the case. The visitor figures in Wales over the last few years have been very encouraging indeed, and that is what the surveys carried out by the industry suggest.

I am happy to support this motion, and would also note the current successes in tourism.

Mark Isherwood: Mae twristiaeth yn cyfrif am bron un ym mhob 10 swydd yng Nghymru, gan gefnogi bron i 40,000 o swyddi yn y gogledd yn unig. Mae'r gogledd yn cyfrif am 1 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig, ond 3 y cant o nosweithiau twristiaeth domestig. Mae'r diwydiant lletygarwch yn allweddol i dwristiaeth ac y mae'n chwarae rhan anferth yn economi Cymru—gan gynnwys bwytai, tafarndai, gwystai ac arlwyo contract. Mae bron i dri chwarter y rhai a gyflogir yn y diwydiant twristiaeth yn cael eu cyflogi yn y sector lletygarwch, ac y mae 84 y cant o fwytai, 82 y cant o dafarndai a 59 y cant o westai yn ficrofusnesau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl. Mae hyn yn cael cryn effaith ar recriwtio, cadw staff a sgiliau.

Y brif broblem sy'n effeithio o hyd ar letygarwch yng Nghymru yw diffyg ymgeiswyr â sgiliau addas, sydd efallai yn dangos bod cyflogwyr yn recriwtio staff sydd heb y sgiliau y mae eu hangen. Mae angen gweithredu felly i wella delwedd y diwydiant fel cyflogwr, hybu cyfleoedd gyrfa, sicrhau bod mwy yn dilyn cymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant, a darparu'r sgiliau diweddaraf a'r wybodaeth am y farchnad lafur er mwyn cefnogi datblygu strategol yn y dyfodol.

I fod yn gystadleuol, rhaid i Gymru gynnig cyfleusterau, gwasanaethau i gwsmeriaid a gwerth o'r safon uchaf. Rhaid inni hefyd

capitalise on the tourism potential in areas not traditionally associated with tourism. Tourism is worth some £166 million per annum to Flintshire, for example, sustaining jobs and supporting the rural economy, small and medium-sized enterprises and community improvements. Flintshire Tourism Association was established in recognition of the need to be working far better together in north-east Wales, to be improving the north Wales borderlands brand and image, to capitalise on the status given to Pontcysyllte world heritage site, and to be working on our cultural, language and welcoming initiative.

Flintshire pulls more visitors from Chester than from Snowdonia, but found its ability to advertise diminished. North-east Wales is within the reach of 15.5 million potential visitors—a bigger pot than even Cardiff can call upon. It needs to be marketed far more in the midlands and north-west of England accordingly.

The previous Minister developed the north-east Wales cultural action plan, stating that this was designed, among other things, to establish a programme for the Pontcysyllte world heritage site to act as an attractor, and the basis for tourism, cultural and wider development projects. I welcomed his reference to links between the world heritage site and Llangollen, three counties festival plans, and the National Eisteddfod in Wrexham this year and Denbighshire in 2013. However, if we are to tackle high-levels of worklessness in the surrounding area, we must also link this to other exciting local regeneration initiatives, including proposals by the Glyn Valley Tramway Trust in Chirk—its representatives have been in the Assembly today—the Plas Kynaston canal group, the marina project at Cefn Mawr, and the Brymbo heritage group.

Holiday parks support rural jobs and local economies, and 95 per cent of north Wales's tourist bed spaces are in this sector—the figure for the whole of Wales is about 65 per cent—yet Visit Wales's marketing has focused on the remaining 5 per cent. Visitors to the waterways of Wales spend £34 million annually. The completion of a 32-berth basin

fanteisio ar botensial twristiaeth mewn ardaloedd nad ydynt yn gysylltiedig yn draddodiadol â thwristiaeth. Mae twristiaeth yn werth tua £166 miliwn bob blwyddyn i Sir y Fflint, er enghraifft, gan gynnal swyddi a chefnogi'r economi wledig, mentrau bach a chanolig a gwelliannau yn y gymuned. Sefydlwyd Cymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint er mwyn cydnabod bod angen cydweithio'n llawer gwell yn y gogledd-orllewin, i wella brand a delwedd gwlad y ffin yn y gogledd, i fanteisio ar y statws a roddwyd i safle treftadaeth y byd Pontcysyllte, ac i weithio ar ein menter diwylliant, iaith a chroesawu.

Mae Sir y Fflint yn denu mwy o ymwelwyr o Gaer nag Eryri, ond canfu fod ei gallu i hysbysebu wedi lleihau. Mae'r gogledd-ddwyrain o fewn cyrraedd 15.5 miliwn o ymwelwyr posibl—nifer fwy nag y gall hyd yn oed Caerdydd ei honni. Mae angen iddo gael ei farchnata yn llawer mwy yng nghanolbarth a gogledd-ddwyrain Lloegr yn unol â hynny.

Datblygodd y Gweinidog blaenorol y cynllun gweithredu diwylliannol ar gyfer y gogledd-ddwyrain, gan ddweud mai ei fwriad, ymysg pethau eraill, oedd sefydlu rhaglen ar gyfer safle treftadaeth y byd Pontcysyllte i weithredu fel rhywle i ddenu, ac fel sail i brojectau twristiaeth, diwylliannol a datblygu ehangach. Roeddwn yn croesawu ei gyfeiriad at gysylltiadau rhwng safle treftadaeth y byd a Llangollen, y cynlluniau ar gyfer gŵyl tair sir, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni a Sir Ddinbych yn 2013. Fodd bynnag, os ydym am daclo lefelau uchel o fod heb waith yn yr ardal o amgylch, rhaid inni hefyd gysylltu hyn â mentrau adfywio lleol cyffrous eraill, gan gynnwys cynigion gan Glyn Valley Tramway Trust yn y Waun—bu ei gynrychiolwyr yn y Cynulliad heddiw—grŵp camlas Plas Kynaston, y project marina yng Nghefn Mawr a grŵp treftadaeth Brymbo.

Mae parciau gwyliau yn cefnogi swyddi gwledig ac economïau lleol, ac y mae 95 y cant o lefydd gwely ymwelwyr yn y gogledd yn y sector hwn—y ffigur ar gyfer Cymru gyfan yw tua 65 y cant—ond eto mae marchnata Croeso Cymru yn canolbwyntio ar y 5 y cant sy'n weddill. Mae ymwelwyr i ddyfrffyrdd Cymru yn gwario £34 miliwn

in Llangollen in 2004 generated £0.25 million of additional income for the town annually and created or safeguarded 17 jobs. Holiday parks and waterways therefore merit a higher profile in the Welsh Government's tourism marketing.

4.00 p.m.

Concerns were raised in the recent consultation on the Welsh Government's proposals for a new tourism signage policy on the trunk road network. It is considered that looking at trunk roads in isolation of the bigger picture is fractional and not encompassing. Any signage system needs to be comprehensive, so that once visitors are off the trunk roads the signage to take them to their destination continues. We need to be better than our competitors so that we draw more visitors into Wales, and, once they are here, we need to provide consistent and easily identifiable signs. Signage is essential in directing people to specific events, such as Mold Food Festival, which contributes up to £800,000 to the local economy. It is also essential to off-trunk-road attractions such as the castles at Flint and Ruthin. The proposal to treat west Wales more favourably is also considered a non-starter. Equal treatment for north Wales would provide an excellent opportunity to encourage visitors to explore east, west and south Wales. Tourism is an integral part of the Welsh economy, comprising a range of service industries, and, as such, an integrated approach needs to be adopted by the Welsh Government.

Vaughan Gething: I am pleased to have an opportunity to speak in the debate. As we all know, tourism is of major economic importance to Wales, contributing around £3 billion each year to the Welsh economy. In Cardiff alone, it supports about 13,000 jobs, with total tourist expenditure in Cardiff of £850 million. While the number of overseas visitors has declined in the past year, the latest figures suggest that Wales is doing quite well compared with other countries of the UK in what is a challenging economic climate.

bob blwyddyn. Gwnaeth cwblhau basn 32-angorfa yn Llangollen yn 2004 gynhyrchu £0.25 miliwn o incwm ychwanegol i'r dref bob blwyddyn ac y mae wedi creu neu ddiogelu 17 o swyddi. Mae parciau gwyliau a dyfrffyrdd yn haeddu proffil uwch ym marchnata twristiaeth Llywodraeth Cymru.

Codwyd pryderon yn yr ymgynghoriad diweddar am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi arwyddion twristiaeth newydd ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Ystyrir bod edrych ar gefnffyrdd ar wahân i'r darlun ehangach yn ffracsiynol a heb fod yn amgylchynol. Mae angen i unrhyw system arwyddion fod yn gynhwysfawr, fel bod yr arwyddion i fynd ag ymwelwyr i'w cyrchfannau yn parhau unwaith y byddant oddi ar y cefnffyrdd. Mae angen inni fod yn well na'n cystadleuwyr fel ein bod yn tynnu mwy o ymwelwyr i Gymru, ac, unwaith y maent yma, mae angen inni ddarparu arwyddion cyson a hawdd eu hadnabod. Mae arwyddion yn hanfodol er mwyn cyfeirio pobl i ddigwyddiadau penodol, megis Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug, sy'n cyfrannu hyd at £800,000 i'r economi leol. Mae hefyd yn hanfodol i atyniadau oddi ar gefnffyrdd, megis y cestyll yn y Fflint a Rhuthun. Ystyrir bod y cynnig i ymdrin â gorllewin Cymru yn fwy ffafriol hefyd yn annichonadwy. Byddai triniaeth gyfartal ar gyfer gogledd Cymru yn darparu cyfle gwych i annog ymwelwyr i grwydro o amgylch dwyrain, gorllewin a de Cymru. Mae twristiaeth yn rhan annatod o economi Cymru, yn cynnwys amrediad o ddiwydiannau gwasanaeth, ac felly, mae angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull integredig.

Vaughan Gething: Yr wyf yn falch o gael cyfle i siarad yn y ddadl. Fel y gwyddom oll, mae twristiaeth o bwys economaidd mawr i Gymru, gan gyfrannu tua £3 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru. Yng Nghaerdydd yn unig, mae'n cefnogi tua 13,000 o swyddi, gyda chyfanswm gwariant yng Nghaerdydd o £850 miliwn. Tra bod nifer yr ymwelwyr o dramor wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod Cymru yn gwneud yn bur dda o gymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn yr hinsawdd

economaidd heriol sydd.

Darren Millar: The evidence seems to suggest that the tourists who spend the most when they visit the United Kingdom have travelled on transatlantic routes. Do you regret that your Government has not taken the initiative to develop a transatlantic route into Cardiff airport?

Darren Millar: Ymddengys bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y twristiaid sy'n gwario fwyaf pan fyddant yn ymweld â'r Deyrnas Unedig wedi teithio ar deithiau dros yr Iwerydd. A ydych yn gresynu nad yw eich Llywodraeth wedi cymryd y cam cyntaf i ddatblygu llwybr dros yr Iwerydd i faes awyr Caerdydd?

Vaughan Gething: I will speak about visitors later, but I do not think that the Government is solely responsible for levering in and creating transatlantic routes. There are commercial considerations in relation to flights to and from the airport.

Vaughan Gething: Fe wnaif siarad am ymwelwyr yn nes ymlaen, ond ni chredaf fod y Llywodraeth yn llwyr gyfrifol am ysgogi a chreu teithiau dros yr Iwerydd. Ceir ystyriaethau masnachol o ran hedfan i'r maes awyr ac oddi yno.

Wales has a great deal to offer, not just to the rest of the UK but to the rest of the world. We have a beautiful coast not only in north Wales, as I acknowledge, but in south and west Wales, and I regularly visit the coast with friends when they come to see me. My constituency boasts several tourist attractions, particularly in the seaside town of Penarth, although Cardiff also has a sea frontage. While there are art galleries and the pier, which will be renovated with money from the heritage lottery fund, as well as parks and beautiful architecture, there are two problems with Penarth's tourist offer at present. Guests of my wife were visiting this weekend; they were Kevin and Randy, who are a glamorous couple, and we enjoyed having them. As we went to the Penarth carnival—[*Interruption.*] His name really is Randy.

Mae gan Gymru lawer i'w cynnig, nid yn unig i weddill y Deyrnas Unedig ond i weddill y byd. Mae gennym arfordir hardd nid yn unig yng ngogledd Cymru, fel rwyf yn cydnabod, ond yn ne a gorllewin Cymru, ac rwy'n ymweld â'r arfordir yn rheolaidd gyda ffrindiau pan fyddant yn dod i'm gweld. Mae fy etholaeth i yn brolio nifer o atyniadau i dwristiaid, yn enwedig yn nhref glan môr Penarth, er bod gan Gaerdydd lan môr hefyd. Er y ceir orielau celf a'r pier a fydd yn cael ei adnewyddu ag arian o gronfa dreftadaeth y loteri, yn ogystal â pharciau a'r bensaerniaeth brydferth, mae dwy broblem gyda'r hyn sydd gan Benarth i'w gynnig i dwristiaid ar hyn o bryd. Roedd gwesteion fy ngwraig yn ymweld â ni y penwythnos hwn; Kevin a Randy, sy'n gwpl hudolus, a gwnaethom fwynhau eu lletya. Wrth inni fynd i garnifal Penarth—[*Torri ar draws.*] Yn wir, Randy yw ei enw.

The Presiding Officer: Order. Can you stick to tourism and not give personal details?

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi gadw at dwristiaeth a pheidio â rhoi manylion personol?

Vaughan Gething: As we were attending the Penarth carnival, they asked why there was an enormous gap in the Penarth seafront where Beach Cliff once was. Unfortunately, that huge gap is largely the result of a developer who does not want to make progress and a council that is unable or unwilling to ensure that that progress takes place. It is a serious problem for the town of Penarth that, in the height of the tourism season, there is such an unedifying welcome

Vaughan Gething: Wrth inni fynychu carnifal Penarth, gofynnwyd pam fod bwlch anferth yng nglan môr Penarth lle y bu *Beach Cliff* unwaith. Yn anffodus, mae'r bwlch enfawr hwnnw i raddau helaeth o ganlyniad i ddatblygwyr sydd ddim am wneud cynnydd a chynghor sy'n methu neu'n amharod i sicrhau bod y cynnydd hwnnw'n digwydd. Mae'n broblem ddifrifol i dref Penarth, yn anterth y tymor twristiaeth, bod y fath olygfa yn croesawu ymwelwyr ar ôl iddynt basio

for visitors once they pass Penarth pier pavilion. I also want to raise concerns about the future of Cosmeston Medieval Village, which is threatened with a significant reduction in its offer for education visitors and tourists.

There has been significant regeneration in this part of my constituency, in Butetown, the old docks area, now known to others as Cardiff bay—to me, it is still Butetown. We have the international sports village, which may eventually be completed and have more sports facilities in it. We also have the Wales Millennium Centre, the new apartments that Assembly Members may occasionally stay in, and the Assembly building. Over this weekend and others, we have seen some of the huge number of tourists who come through the Cardiff bay area, who come to visit Wales and see a significant representation of Wales's past, its development and its future, right here in the heart of my constituency. Looking at how that has developed, it is important to recognise that planning matters to tourist development. We cannot simply allow piecemeal development, as that may affect the future tourism appeal of the city and the country.

I shall not go through all of the attractions available in Cardiff, because I am not a walking leaflet for the city. However, in addition to the draw that we have here in Cardiff, I recognise that there are tourist spots around the rest of Wales. I took my father-in-law to Big Pit last year. It was the first time that I had been there. On our way there, I was struck by the number of different tourist attractions and visitor options available to even the most moderately intrepid visitor to the country. I was delighted to visit that site.

It is fair to say that tourism is taken seriously by the Welsh Government. It is a priority sector, and I am pleased to see the focus that it already has within the new department that Edwina heads. Significant funds have already been made available to support tourism, and I think that the major events strategy in particular is one that we can be proud of—there are events such as the Millennium Magic weekend, test and one-day cricket, and

pafiliwn pier Penarth. Hoffwn hefyd godi pryderon am ddyfodol Pentref Canoloesol Cosmeston, sydd o dan fygythiad gyda gostyngiad sylweddol yn ei gynnig ar gyfer ymwelwyr addysg a thwristiaid.

Bu adfywio sylweddol yn y rhan hon o'm hetholaeth, yn Butetown, hen ardal y dociau, a elwir gan eraill bellach yn fae Caerdydd—i mi, mae'n dal i fod yn Butetown. Mae gennym y pentref chwaraeon rhyngwladol; efallai y caiff ei gwblhau yn y pen draw, gyda mwy o gyfleusterau chwaraeon ynddo. Mae gennym hefyd Ganolfan Mileniwm Cymru, y fflatiau newydd hynny efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn aros ynddynt weithiau, ac adeilad y Cynulliad. Dros y penwythnos hwn ac eraill, rydym wedi gweld rhai o'r nifer enfawr o dwristiaid sy'n dod drwy ardal bae Caerdydd, sy'n dod i ymweld â Chymru ac yn gweld cynrychiolaeth sylweddol o orffennol Cymru, ei datblygiad a'i dyfodol, yma yng nghanol fy etholaeth. Wrth edrych ar sut y mae hynny wedi datblygu, mae'n bwysig cydnabod bod cynllunio'n bwysig i ddatblygu twristiaeth. Ni allwn ganiatáu datblygu tameidiog, yn syml, oherwydd gallai hynny effeithio ar apêl twristiaeth y ddinas a'r wlad yn y dyfodol.

Nid af drwy'r holl atyniadau sydd ar gael yng Nghaerdydd, oherwydd nid taflen ar draed i'r ddinas mohonof. Fodd bynnag, yn ogystal â'r atyniad sydd gennym yma yng Nghaerdydd, rwy'n cydnabod bod mannau twristiaid o gwmpas gweddill Cymru. Euthum â'm tad-yng-nghyfraith i Big Pit y llynedd. Dyna'r tro cyntaf imi fod yno. Ar ein ffordd yno, cefais fy nharo gan nifer yr atyniadau i dwristiaid gwahanol a'r opsiynau i ymwelwyr sydd ar gael i hyd yn oed y rhai mwyaf cymedrol anturus i'r wlad. Yr oeddwn yn falch iawn o ymweld â'r safle hwnnw.

Mae'n deg dweud bod twristiaeth yn cael ei chymryd o ddifrif gan Lywodraeth Cymru. Mae'n sector blaenoriaeth, ac yr wyf yn falch o weld y ffocws sydd ganddi eisoes o fewn yr adran newydd y mae Edwina yn ei llywio. Mae arian sylweddol eisoes wedi cael ei ddarparu i gefnogi twristiaeth, a chredaf fod y strategaeth digwyddiadau mawr yn benodol yn un y gallwn fod yn falch ohoni—ceir digwyddiadau megis y penwythnos

those events can bring huge numbers of visitors into the capital to see what Wales has to offer. The final point is that it is important that we ensure that our infrastructure is capable of delivering large numbers of visitors to, from and around the country to see all that we have to offer.

Darren Millar: I welcome the opportunity to participate in this afternoon's debate. Wales is, of course, well known for its warm welcome and its hospitality, and there is no doubt that our glorious landscapes, beautiful national parks, villages, hamlets, seaside resorts and castles are a considerable draw for the 13 million tourists who flock to visit us each year. Indeed, in north Wales, tourism is the bread and butter of the local economy. My constituency, Clwyd West, is blessed with a number of important tourist attractions, including the stunning Clwydian range, the Welsh Mountain Zoo at Colwyn Bay, which I visited again last week—one of many visits—and some vibrant and bustling seaside resort towns, such as Colwyn Bay and kiss-me-quick Towyn.

As well as these more traditional attractions, Wales has, in our chapels and holy wells, a very rich religious heritage that has gone untapped and unnoticed by the majority of visitors for far too long. Millions of people around the world embark on spiritual pilgrimages each year. They flock to the religious hot spots that we might all think of, such as Jerusalem, Vatican City, Mecca and Lourdes. It is estimated that 1.5 million visitors went to northern Italy last year to the exhibition of the shroud of Turin—its first exhibition in decades. Here in the UK, many thousands of people make their way to places such as Lindisfarne, Canterbury and elsewhere. The past few years have seen a significant increase in spirituality in the UK. Despite little marketing of these places, pilgrim sites and other sacred sites in all parts of the United Kingdom are seeing an increase in the number of tourists. I believe that Wales could, and should, make the most of this wonderful opportunity to engage with religious tourism.

Millennium Magic, criced prawf ac undydd, a gall y digwyddiadau hynny ddod â niferoedd mawr o ymwelwyr i'r brifddinas i weld yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Y pwynt olaf yw ei fod yn bwysig inni sicrhau bod ein seilwaith yn gallu darparu niferoedd mawr o ymwelwyr i'r wlad ac o'i chwmpas i weld y cwbl sydd gennym i'w gynnig.

Darren Millar: Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Mae Cymru yn adnabyddus am ei chroeso cynnes a'i lletygarwch, wrth gwrs, ac nid oes amheuaeth nad yw ein tirweddau godidog, parciau cenedlaethol hardd, pentrefi, pentrefannau, cyrchfannau glan y môr a chestyll yn atyniad sylweddol i'r 13 miliwn o dwristiaid sy'n heidio i ymweld â ni bob blwyddyn. Yn wir, yng ngogledd Cymru, twristiaeth yw bara menyn yr economi leol. Mae fy etholaeth i, Gorllewin Clwyd, wedi'i bendithio â nifer o atyniadau twristiaid pwysig, gan gynnwys bryniau godidog Clwyd, Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn, yr ymwelais ag ef unwaith eto yr wythnos diwethaf—un o'r ymweliadau niferus—a rhai trefi glan môr prysur a bywiog, fel Bae Colwyn a Thywyn tyrd-â-sws.

Yn ogystal â'r atyniadau mwy traddodiadol hyn, mae gan Gymru, yn ein capeli a ffynhonnau sanctaidd, dreftadaeth grefyddol gyfoethog iawn sydd heb ei chyffwrdd ac yn ddisylw gan y mwyaf o ymwelwyr am lawer yn rhy hir. Mae miliynau o bobl ledled y byd yn cychwyn ar bererindodau ysbrydol bob blwyddyn. Maent yn heidio i'r manau poeth crefyddol y byddem oll, efallai, yn meddwl amdanynt, megis Jerwsalem, y Fatican, Mecca a Lourdes. Amcangyfrifir bod 1.5 miliwn o ymwelwyr wedi mynd i ogledd yr Eidal y llynedd i arddangosfa amdo Turin—ei harddangosfa gyntaf ers degawdau. Yma yn y Deyrnas Unedig, mae miloedd lawer o bobl yn gwneud eu ffordd i leoedd fel Lindisfarne, Caergaint a manau eraill. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ysbrydolrwydd yn y Deyrnas Unedig. Er gwaethaf ychydig farchnata o'r lleoedd hyn, mae pererinion a safleoedd cysegredig eraill ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig yn gweld cynnydd yn nifer y twristiaid. Credaf y gallai ac y dylai Cymru wneud y mwyaf o'r cyfle gwych hwn i ymgysylltu â thwristiaeth grefyddol.

In 2008, the Gweini report, 'Faith in Wales', estimated that over 2.5 million tourists visit religious buildings in the country every year, contributing over £12 million to the Welsh economy. It highlighted that the motives for these visits often went beyond an interest in architecture to include an interest in religious history. Opportunities to promote faith trails, following historical pilgrim routes, holy wells and the resting places of Celtic saints, should not be overlooked in terms of their potential to draw in new visitors. I have been impressed by the initiative under way in north Wales at the moment to develop a pilgrims' way—an initiative that has been established by volunteers seeking to open up the old routes that pilgrims used to take. It is a wonderful initiative, but it has come together through the work of volunteers, without the support of the Welsh Government or any other statutory organisation. I think that we can do better than that in future.

Even those who do not have a faith can, and do, appreciate the history, the connection to the past, and the tranquillity and beauty of many of our sacred sites. It is important to note that local communities can benefit a great deal from the promotion of these sites, whether they are used for exercise in walking them as a part of a pilgrim route, for improving knowledge of local history or just for the sense of wellbeing that a visit to such places can inspire. I think that we need to widen the appeal of religious tourism. The promotion of these sacred sites is a real missed opportunity on the part of the Government. I hope that, in future, the Wales tourism action plan, which I know is under constant review, will include a stream for religious tourism and the opportunities it affords our nation.

Bethan Jenkins: Efallai y bydd y cyfraniad hwn yn un mwy difrifol na fy nghyfraniad cynharach. Mae'n bleser cymryd rhan yn y drafodaeth hon ar dwristiaeth yng nghydestun yr . Mae llawer o bobl yn meddwl y bydd datgysylltiad yn sgîl y ffaith bod twristiaeth bellach wedi'i thynnu o'r

Yn 2008, amcangyfrifir yr adroddiad Gweini, 'Ffydd yng Nghymru', bod dros 2.5 miliwn o dwristiaid yn ymweld ag adeiladau crefyddol yn y wlad bob blwyddyn, sy'n cyfrannu dros £12 miliwn i economi Cymru. Amlygodd fod cymhellion yr ymweliadau hyn yn aml yn mynd y tu hwnt i'r diddordeb mewn pensaernïaeth i gynnwys diddordeb yn hanes crefyddol. Ni ddylid anwybyddu cyfleoedd i hyrwyddo llwybrau ffydd, dilyn llwybrau pererinion hanesyddol, ffynhonnau sanctaidd a manau gorffwys y seintiau Celtaidd, o ran eu potensial i ddenu ymwelwyr newydd. Rwyf yn edmygus o'r fenter sydd ar y gweill yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu ffordd y pererinion—menter a sefydlwyd gan wirfoddolwyr sy'n ceisio agor yr hen lwybrau a ddefnyddiwyd gan bererinion. Mae'n fenter wych, ond y mae wedi dod at ei gilydd drwy waith gwirfoddolwyr, heb gymorth gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw sefydliad statudol arall. Credaf y gallwn wneud yn well na hynny yn y dyfodol.

Gall hyd yn oed y rhai nad oes ganddynt ffydd werthfawrogi'r hanes, y cysylltiad â'r gorffennol, a llonyddwch a harddwch llawer o'n safleoedd cysegredig, ac y maent yn gwneud hynny. Mae'n bwysig nodi y gall cymunedau lleol elwa cryn dipyn o hyrwyddo'r safleoedd hyn, boed a ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer ymarfer drwy eu cerdded fel rhan o lwybr pererinion, ar gyfer gwella gwybodaeth am hanes lleol neu ar gyfer yr ymdeimlad o les sy'n gallu ysbrydoli ymweld â lleoedd o'r fath yn unig. Credaf fod angen inni ehangu apêl twristiaeth grefyddol. Mae hyrwyddo'r safleoedd cysegredig hyn yn gyfle gwirioneddol a gollwyd ar ran y Llywodraeth. Gobeithiaf, yn y dyfodol, y bydd cynllun gweithredu twristiaeth Cymru—gwn ei fod dan adolygiad cyson—yn cynnwys ffrwd ar gyfer twristiaeth grefyddol a'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi i'n cenedl.

Bethan Jenkins: Perhaps this contribution will be more serious than my earlier contribution. It is a pleasure to take part in this discussion on tourism in relation to the economy. Many people think that there will be disconnect now that tourism has been removed from the heritage portfolio, where it

portffolio treftadaeth, lle yr oedd o dan Lywodraeth Cymru'n Un. Gobeithiaf yn fawr y bydd y Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth fel rhan o dwristiaeth a thwf yr , er nad yw'n rhan o'r un portffolio rhagor.

Mynychais ddigwyddiad dydd Llun gyda llawer o fudiadau treftadaeth er mwyn cwmpasu fy mhorthffolio treftadaeth. Dywedodd y mudiadau hynny bod llawer o bobl sydd yn dod i Gymru—hyd yn oed pobl o Loegr—am weld yr ystrydebau o Gymru a phobl Cymru, megis defaid a hen fenywod mewn hetiau. Mae'r mudiadau am weld y pethau hynny gan mai dyna'r pethau sydd yn gwerthu ac yn gwneud arian ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, dywedodd pobl eraill yno bod yn rhaid inni lunio sut yr ydym am weld Cymru yn edrych i'r dyfodol a gwerthu ein hanes mewn ffordd newydd a radical yn hytrach na chydymffurfio â'r ystrydebau hynny. Felly, credaf mai'r sialens yw sicrhau cydbwysedd rhwng ceisio gwneud arian drwy dwristiaeth a pharchu pobl Cymru a'r hyn y maent am ei weld fel rhan o dwristiaeth Cymru a'r ffordd ymlaen. Dywedaf hynny oherwydd bod pobl Cymru yn mynd ar wyliau yng Nghymru. Nid wyf yn credu ein bod yn gweiddi'n ddigon uchel am y ffaith bod pobl o Abertawe, er enghraifft, yn mynd ar wyliau i sir Benfro neu bod pobl o Gaerdydd yn mynd ar wyliau i'r gogledd. Mae'n rhaid inni edrych ar sut yr ydym yn apelio at y bobl hynny hefyd.

Pwynt pwysig arall a wnaethpwyd yn y digwyddiad ddydd Llun oedd bod Prifysgol Cymru, Casnewydd yn edrych ar lwybrau treftadaeth ar hyd a lled Cymru. Gwn fod Prifysgol Abertawe hefyd yn edrych ar adnoddau gweledol a digidol er mwyn hwyluso datblygiad y llwybrau treftadaeth hynny. Maent am ddefnyddio *Second Life*, er enghraifft, a cherddoriaeth fodern ar rai o'r llwybrau hynny. Byddwn yn annog y Gweinidog i edrych ar hynny er mwyn rhannu gwybodaeth ar sut y gallwn ddathlu'r pethau haniaethol a diriaethol, gan gwmpasu'r hyn nad ydym yn gallu ei weld a phethau mwy creadigol fel cerdd, cerddoriaeth ac yn y blaen.

Mae'n rhaid inni fod yn realistig ynglŷn â'r ffordd ymlaen a cheisio uno'r hyn yr ydym

was under the One Wales Government. I very much hope that the Government will acknowledge the importance of heritage as part of tourism and the growth of the economy, even though it is no longer part of the same portfolio.

I attended an event on Monday with many heritage organisations in order to scope my heritage portfolio. Those organisations said that many people who come to Wales, even those from England, want to see the stereotypes of Welsh people and Wales, such as sheep and old women in hats. The organisations want to see those things, because those are the things that sell and that make money for Wales. However, others said that we need to shape what we want Wales to look like in future and sell our history in a new and radical way rather than conform to those stereotypes. Therefore, I think that the challenge is to strike a balance between trying to make money through tourism and respecting the people of Wales and what they want to see as part of Welsh tourism and the way forward. I say that because the people of Wales go on holiday in Wales. I do not think that we make enough noise about the fact that people from Swansea, for example, go on holiday to Pembrokeshire or that people from Cardiff go on holiday to north Wales. We need to look at how we appeal to those people as well.

Another important point made at that event on Monday was that the University of Wales, Newport is looking into heritage trails throughout Wales. I know that Swansea University is also looking at visual and digital resources to promote the development of those heritage trails. They want to use *Second Life*, for example, and modern music on some of those trails. I would encourage the Minister to look into that in order to share information on how we can celebrate both the tangible and intangible, encompassing what cannot be seen and more creative aspects such as poetry, music and so on.

We need to be realistic about the way forward and try to unify what we are doing in

yn ei wneud o ran treftadaeth a thwristiaeth. Edrychaf ymlaen at y Bil amddiffyn treftadaeth a fydd yn cael ei gyflwyno gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, byddwn yn erfyn i hynny ddod o'n blaen yn gynharach na 2014, gan bod ein hadeiladau diwydiannol, yn enwedig, yn diflannu'n awr. Erbyn 2014, efallai na fydd rhai o'r adeiladau hynny yn bodoli i gael eu cynnwys fel rhan o'r llwybrau treftadaeth y soniais amdanynt yn gynharach. I gloi, yr wyf yn falch bod y Llywodraeth ddiwethaf, o dan arweinyddiaeth Alun Ffred Jones ar y portffolio perthnasol, wedi ymrwymo i gefnogi ailddatblygiad Sain Ffagan, os bydd y prosiect yn llwyddo i ddenu arian y gronfa loteri treftadaeth. Mae'n bwysig i dwristiaeth ddiwylliannol bod gennym amgueddfa hanes cenedlaethol i Gymru a'n bod yn gwerthu Cymru mewn ffordd bositif iawn.

4.15 p.m.

Mohammad Asghar: Tourism supports around 10 per cent of the Welsh economy. Therefore, it is clear that the Welsh Government must take this sector seriously. I want to focus my comments on the importance of tourism and promoting our nation as a tourist destination to overseas markets.

Wales is a beautiful region of the United Kingdom, and to fulfil our potential we must look beyond our borders and to overseas markets. Sadly, between 2008 and 2009, there was a huge decline in tourism in this part of the world. In 2009, the then First Minister, Rhodri Morgan, admitted that we struggle to get Americans to understand what Wales is and where Wales is. Tourism Partnership North Wales has also said that the knowledge of what Wales has to offer is quite poor, and that it is even worse in overseas markets.

This has to change, as we cannot stay like this forever. Last year, the Ryder Cup came and went, but we did not make the most of it. Newport has not gained much. Newport City Council is doing its best to improve the image and the success of businesses in Newport. It was fantastic that the Ryder Cup

heritage and in tourism. I look forward to the heritage protection Bill that will be introduced by the Government. However, I would ask that it come before us earlier than 2014, because our industrial buildings, in particular, are disappearing now. By 2014, some of those buildings may not exist to be incorporated as part of the heritage trails that I mentioned earlier. To conclude, I am pleased that the previous Government, under the leadership of Alun Ffred Jones on the relevant portfolio, made a commitment to support the redevelopment of St Fagans, if the project succeeds in attracting heritage lottery fund money. It is important for cultural tourism that we have a history museum for Wales and sell Wales in a very positive way.

Mohammad Asghar: Mae twristiaeth yn cefnogi tua 10 y cant o economi Cymru. Felly, mae'n amlwg bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd y sector hwn o ddifrif. Rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar bwysigrwydd twristiaeth a hyrwyddo ein cenedl fel cyrchfan twristiaid i farchnadoedd tramor.

Mae Cymru'n rhanbarth hardd o'r Deyrnas Unedig, ac i gyflawni ein potensial mae'n rhaid inni edrych y tu hwnt i'n ffiniau ac i farchnadoedd tramor. Yn anffodus, rhwng 2008 a 2009 cafwyd gostyngiad enfawr mewn twristiaeth yn y rhan hon o'r byd. Yn 2009, cyfaddefodd y Prif Weinidog bryd hynny, Rhodri Morgan, ein bod yn ei chael hi'n anodd i gael Americanwyr i ddeall beth yw Cymru a ble y mae Cymru. Mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru hefyd wedi dweud bod y wybodaeth ynglŷn â'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig yn eithaf gwael, ac y mae hyd yn oed yn waeth mewn marchnadoedd tramor.

Mae'n rhaid i hyn newid, oherwydd ni allwn aros fel hyn am byth. Y llynedd, fe ddaeth ac aeth y Cwpan Ryder, ond ni wnaethom y mwyaf ohono. Nid yw Casnewydd wedi ennill llawer. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud ei orau i wella'r ddelwedd a llwyddiant busnesau yng Nghasnewydd.

was held there, but the potential long-term legacy benefits, particularly in terms of tourism, must not be missed by the Welsh Government. Links that were established and generated must be followed up. The First Minister says that one of the biggest issues with Ireland's 2006 Ryder Cup at the K Club was a failure to follow up on the contacts established during the tournament. The Welsh Government must be proactive and not let that happen here. I know that discussions have taken place with the US ambassador regarding the US Government building up a real presence in Wales. Minister, how far will that go to improve the image of our tourism industry to Americans? That has obvious potential for boosting tourism, but I have been disappointed at the subsequent information offered by the First Minister as to the success of ongoing discussions.

Next year, the first event of the 2012 Olympic Games will come to Wales, providing significant opportunities to promote our nation to the world. I hope that the Minister can outline what plans the Welsh Government has to utilise Wales's unique involvement in the hosting of next year's games to boost tourism.

I was alarmed to discover that Wales had no representation whatsoever at the world travel market in London last year. As I said to the First Minister earlier this year, the event attracted almost 27,000 visitors, thousands of members of the international press and included stallholders from UK destinations like Scotland, London and Yorkshire. Wales's absence from this exhibition is troubling and shows a lack of ambition in properly promoting Wales to the world.

Statistics have already shown that the people who come to Wales tend to have a good time. We have so many great things to offer tourists—a survey last year showed that seven out of 10 tourists said that they would definitely come back and visit Wales again to enjoy the beautiful scenery, the food and the sense of community. One thing that tourists love is our castles like the fabulous

Roedd yn wych bod y Cwpan Ryder wedi'i gynnal yno, ond ni ddylai Llywodraeth Cymru golli'r manteision etifeddiaeth hirdymor posibl, yn enwedig o ran twristiaeth. Mae'n rhaid dilyn y cysylltiadau a sefydlwyd ac a gynhrychir. Dywed y Prif Weinidog mai un o'r materion mwyaf gyda Chwpan Ryder 2006 Iwerddon yn y K Club oedd methiant i ddilyn ar y cysylltiadau a sefydlwyd yn ystod y bencampwriaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol a pheidio â gadael i hynny ddigwydd yma. Rwy'n gwybod bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda llysgennad yr Unol Daleithiau ynghylch Llywodraeth yr Unol Daleithiau yn adeiladu presenoldeb gwirioneddol yng Nghymru. Weinidog, pa mor bell yr aiff hynny i wella delwedd ein diwydiant twristiaeth i Americanwyr? Mae potensial amlwg i roi hwb i dwristiaeth, ond rwyf wedi bod yn siomedig gyda'r wybodaeth ddilynol a gynigir gan y Prif Weinidog am lwyddiant trafodaethau parhaus.

Y flwyddyn nesaf, bydd digwyddiad cyntaf Gemau Olympaidd 2012 yn dod i Gymru ac yn darparu cyfleoedd sylweddol i hyrwyddo ein cenedl i'r byd. Gobeithiaf y gall y Gweinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio rhan unigryw Cymru wrth gynnal gemau'r flwyddyn nesaf i hybu twristiaeth.

Synnais i ddarganfod nad oedd gan Gymru unrhyw gynrychiolaeth o gwbl yn y farchnad deithio ryngwladol yn Llundain y llynedd. Fel y dywedais wrth y Prif Weinidog yn gynharach eleni, denodd y digwyddiad bron 27,000 o ymwelwyr a miloedd o aelodau'r wasg ryngwladol yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrchfannau'r Deyrnas Unedig, megis yr Alban, Llundain a Swydd Efrog. Mae absenoldeb Cymru o'r arddangosfa hon yn peri gofid ac yn dangos diffyg uchelgais wrth hyrwyddo Cymru i'r byd yn iawn.

Mae ystadegau eisoes wedi dangos bod y bobl sy'n dod i Gymru yn tueddu i gael amser da. Mae gennym gynifer o bethau da i gynnig twristiaid—dangosodd arolwg y llynedd fod saith allan o 10 o dwristiaid wedi dweud y byddent yn bendant yn dod yn ôl ac yn ymweld â Chymru eto i fwynhau'r golygfeydd hardd, y bwyd a'r ymdeimlad o gymuned. Un peth y mae twristiaid yn ei garu

Caerphilly and Raglan castles in my region of South Wales East. Research from Visit Britain has found that visiting a Welsh castle is more popular with overseas tourists than going to Buckingham Palace or a Premier League football match. Yet despite this glowing endorsement of our castles, the Welsh Government has no strategy in place to build on this promising situation with castles in this part of the world. The Welsh Government must seize all such opportunities that present themselves to promote Wales to the world and to enhance our reputation abroad.

Kenneth Skates: Thank you, Presiding Officer, for allowing me to speak in this important and interesting debate. We have heard many good observations and ideas thus far. It is good to hear so many colleagues from north Wales talking up the area, particularly Clwyd South where, as you rightly say, we have many great groups and phenomenal sights. We also have 37,000 people employed in the tourism sector in north Wales; therefore, it is crucial to our economy.

With 8 million visitors annually, let it never be said that north Wales does not punch well above its weight when it comes to attracting visitors. A quarter of the UK's population live within two hours of our green and great region, giving it enormous growth potential, but it should also be pointed out that tourism is not currently evenly distributed across the whole of north Wales. The north-west counties of Anglesey, Conwy and Gwynedd account for around 75 per cent of staying visits and 60 per cent of day visits, while the north-east accounts for just 25 per cent of staying visits and just 22 per cent of overall expenditure. We need to change this if we are to realise the ambition of placing north Wales in the top five destinations in the UK. It is a great challenge, but it is one that would see income rise to more than £2 billion per year—an increase of more than 10 per cent at the best times. To achieve this, we need to address two issues.

yw ein cestyll, fel cestyll chwedlonol Caerffili a Rhaglan yn fy rhanbarth i, Dwyrain De Cymru. Mae ymchwil gan VisitBritain wedi canfod bod ymweld â chastell Cymreig yn fwy poblogaidd gyda thwristiaid tramor na mynd i Balas Buckingham neu gêm bêl-droed uwch-gynghrair. Eto, er gwaethaf y gymeradwyaeth wresog hon o'n cestyll, nid oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth ar waith i adeiladu ar y sefyllfa addawol hon gyda chestyll yn y rhan hon o'r byd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar bob cyfle o'r fath sy'n cyflwyno eu hunain i hyrwyddo Cymru i'r byd a gwella ein henw da dramor.

Kenneth Skates: Diolch ichi, Lywydd, am ganiatáu imi siarad yn y ddatl bwysig a diddorol hon. Clywsom lawer o sylwadau a syniadau da hyd yma. Mae'n dda i glywed cynifer o gydweithwyr o ogledd Cymru yn creu sôn am yr ardal hon, yn enwedig De Clwyd lle, fel yr ydych yn iawn i'w ddweud, mae gennym lawer o grwpiau da a golygfeydd syfrdanol. Mae gennym hefyd 37,000 o bobl sydd wedi eu cyflogi yn y sector twristiaeth yng ngogledd Cymru; felly, mae'n hollbwysig i'n heconomi.

Gydag 8 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, peidied neb byth â dweud nad yw gogledd Cymru yn mynd ymhell y tu hwnt i bob disgwyl pan ddaw at ddenu ymwelwyr. Mae chwarter o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn byw o fewn dwy awr o'n rhanbarth gwyrdd a gwych, sy'n rhoi iddi'r potensial o dwf aruthrol, ond dylid hefyd nodi nad yw twristiaeth wedi'i dosbarthu'n gyfartal ar hyn o bryd ar draws gogledd Cymru gyfan. Mae siroedd y gogledd-orllewin, sef Ynys Môn, Conwy a Gwynedd yn cyfrif am ryw 75 y cant o ymweliadau dros nos a 60 y cant o ymweliadau dydd, tra bod y gogledd-ddwyrain yn cyfrif am 25 y cant yn unig o ymweliadau dros nos a 22 y cant yn unig o'r gwariant cyffredinol. Mae angen newid hyn os ydym i wireddu'r uchelgais o osod gogledd Cymru ymysg y pum cyrchfan uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'n her fawr, ond yn un a fyddai'n gweld incwm yn cynyddu i fwy na £2 biliwn y flwyddyn—cynnydd o fwy na 10 y cant ar yr adegau gorau. I gyflawni hyn, mae angen inni ymdrin â dau fater.

First, we need to provide a tourist infrastructure and product that matches the quality of our natural assets, and we need to put in place a marketing strategy that is distinctive, not disjointed and is commercially savvy and sells our unique selling points. I am minded to ask you to think about the happiest place on earth. It was not Vaughan's house at the weekend, but it is, in fact, Walt Disney World in Florida. Prior to the opening of the Magic Kingdom in the 1970s, Orlando was largely unknown. Disney changed this by attracting millions of visitors. It now has six theme parks; it covers an area of land the size of a small county; it is better recognised around the globe than many countries; and it enjoys a visitor satisfaction level that few five-star hotels can match. Everything that it does is aimed at one thing: to profit from happiness and from the feeling that people leave their parks with. We could do with looking at the success of Disney more closely.

Disney World is sold to holidaymakers very cleverly. It has a simple but unique and distinctive identity; the strength, depth and quality of the product is unsurpassed; and it sells itself on the back of cohesive big-ticket attractions like Cinderella's Castle, Pirates of the Caribbean, and so forth, not as a disjointed mass of individual attractions. It also benefits from attracting people to its parks by selling the product through films, and so it has a strong recognised identity, to which Andrew R.T. Davies rightly drew attention as something that we need in Wales.

We can apply these lessons to the tourism product and to our marketing strategy. Primarily, we need a clear division of responsibility and an end to the duplication of promotional materials from different stakeholders and tourist organisations. Local authorities must work together in a more strategic and joined-up way, and promote not solely their own local authority areas, but the attractions that are located in the broader area. To this end, they would do well to combine resources, to improve the accommodation, training and infrastructure, and to allow the larger tourism partnerships

Yn gyntaf, mae angen inni ddarparu seilwaith twristiaeth a chynnyrch sy'n cyfateb ag ansawdd ein hasedau naturiol, ac mae angen inni roi ar waith strategaeth farchnata sy'n unigryw, nid yn ddigyswllt, ac sy'n gyfarwydd â materion masnachol ac yn gwerthu ein pwyntiau gwerthu unigryw. Yr wyf yn bwriadu gofyn i chi feddwl am y lle hapusaf ar y ddaear. Nid tŷ Vaughan ar y penwythnos ydyw, ond mewn gwirionedd, Walt Disney World yn Fflorida ydyw. Cyn agor y Deyrnas Hudol yn y 1970au, roedd Orlando yn anhysbys i raddau helaeth. Fe newidiodd Disney hyn drwy ddenu miliynau o ymwelwyr. Bellach, mae ganddo chwe pharc thema; mae'n cwmpasu ardal o dir maint sir fach; fe'i cydnabyddir o amgylch y byd yn well na llawer o wledydd; a phrin yw'r gwestai pum-seren sy'n gallu cystadlu â'r lefel o foddhad y mae'n ei darparu i ymwelwyr. Mae popeth y mae'n ei wneud yn anelu at un peth: gwneud elw o hapusrwydd ac o'r teimlad y caiff pobl wrth adael eu parciau. Byddai'n beth da inni edrych ar lwyddiant Disney yn agosach.

Mae Disney World yn cael ei werthu i bobl sydd am fynd ar wyliau yn glyfar iawn. Mae ganddo hunaniaeth syml ond unigryw a nodedig; mae cryfder, dyfnder ac ansawdd y cynnyrch yn ddigyffelyb; ac y mae'n gwerthu ei hun ar gefn atyniadau cydlynus mawr fel Castell Sinderela, Môr-ladron y Caribî, ac ati, nid fel mäs datgymalog o atyniadau unigol. Mae hefyd yn elwa o ddenu pobl i'w parciau drwy werthu ei gynnyrch drwy ffilmiau, ac felly mae ganddo hunaniaeth gydnabyddedig gref. Tynnodd Andrew R.T. Davies sylw at hwn, yn gwbl briodol, fel rhywbeth y mae arnom ni ei angen yng Nghymru.

Gallwn gymhwyso'r gwersi hyn i'r cynnyrch twristiaeth ac i'n strategaeth farchnata. Yn bennaf, mae angen inni gael rhaniad clir o gyfrifoldeb a diwedd ar ddyblygu deunyddiau hyrwyddo gan wahanol randdeiliaid a sefydliadau twristiaeth. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd mewn ffordd fwy strategol a chydgyssylltiedig, a hybu nid yn unig eu hardaloedd awdurdod lleol eu hunain, ond yr atyniadau hynny sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ehangach. I'r perwyl hwn, byddent yn gwneud yn dda i gyfuno adnoddau, i wella'r llety, hyfforddiant a seilwaith, ac i ganiatáu

to take the lead on the overall portion of the region. In achieving this, local authorities must sign up to co-ordinated plans and focus on promoting smaller attractions and infrastructure, leaving the tourism partnership to promote the region and the big-ticket attractions.

I see this as an important strand of the work of the Minister for Local Government and Communities. This collaboration agenda is vital to boosting the tourism sector and ensuring that we maximise the value of tourism in north Wales. Linkages at a devolved level are crucial to this agenda. That is a message that I picked up very strongly from rural communities in my constituency of Clwyd South. Those communities believe that we have a vital role to play here in promoting rural tourism.

The Rural Affairs Sub-committee in the last Assembly suggested that a greater emphasis should be placed on the strategic role of the Welsh Government in putting in place infrastructure improvements, such as effective transport links and broadband coverage, which help tourist businesses to thrive. Furthermore, in tough economic times, we need to focus support on enterprises that are determined to offer a quality experience that fits in with the overall marketing strategy of Wales and its regions.

I firmly believe that tourism is at the centre of north Wales's economic future. That future lies in making the most of our regional assets and using the unique advantages of north Wales. It is a special place and it deserves a special effort to get its tourism offering right. I have referred to Walt Disney World, but north Wales is the real deal—a land of unparalleled myth and legend and of industrial, cultural and environmental giants. With a hard-headed, determined focus and clear, uniform and imaginative marketing, we can deliver a stronger tourist economy and assist in creating a more distinctive and attractive identity for the region.

i'r partneriaethau twristiaeth mwy o faint i gymryd yr awenau ar y gyfran gyffredinol o'r rhanbarth. Wrth gyflawni hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymrwymo i gynlluniau cydgysylltiedig a chanolbwyntio ar hyrwyddo atyniadau llai a seilwaith, gan adael i'r bartneriaeth dwristiaeth hyrwyddo'r rhanbarth a'r atyniadau mawr.

Gwelaf hyn fel elfen bwysig o waith y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r agenda hwn o gydweithredu yn hanfodol i roi hwb i'r sector twristiaeth a sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf posibl o werth twristiaeth yng ngogledd Cymru. Mae cysylltiadau ar lefel ddatganoledig yn hanfodol i'r agenda hwn. Roedd honno'n neges y sylwais arni'n gryf iawn o gymunedau gwledig yn fy etholaeth, De Clwyd. Mae'r cymunedau hynny'n credu bod gennym rôl hanfodol i'w chwarae yma wrth hyrwyddo twristiaeth wledig.

Roedd Is-bwyllgor Materion Gwledig y Cynulliad diwethaf wedi awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar rôl strategol Llywodraeth Cymru wrth roi ar waith gwelliannau seilwaith, megis cysylltiadau trafniadaeth effeithiol a darpariaeth band eang, sy'n helpu busnesau twristiaeth i ffynnu. Yn ogystal â hynny, mewn cyfnodau economaidd anodd, mae angen inni ganolbwyntio cefnogaeth ar fentrau sy'n benderfynol o gynnig profiad o ansawdd sy'n gweddu i strategaeth farchnata gyffredinol Cymru a'u rhanbarthau.

Credaf yn gryf fod twristiaeth yn ganolog i ddyfodol economaidd y gogledd. Ceir y dyfodol hwnnw o wneud y mwyaf o'n hasedau rhanbarthol a defnyddio manteision unigryw gogledd Cymru. Mae'n lle arbennig sy'n haeddu ymdrech arbennig i gael yr hyn y gall twristiaeth ei gynnig yn iawn. Cyfeiriais at Walt Disney World, ond gogledd Cymru yw'r fargen go iawn—tir myth a chwedlau digyffelyb ac o gewri diwydiannol, diwylliannol ac amgylcheddol. Gyda ffocws pendant a phenderfynol a marchnata clir, unffurf a llawn dychymyg, gallwn ddarparu economi dwristiaid cryfach a helpu i greu hunaniaeth mwy unigryw a deniadol ar gyfer y rhanbarth.

The Minister for Business, Enterprise, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a

Technology and Science (Edwina Hart): I am delighted that this issue has been chosen for debate and support the motion that has been tabled by Nick Ramsay. Tourism's value to the Welsh economy is fully recognised by the Welsh Government and we are committed to promoting Wales as a high-quality tourist destination. Unlike the Tory regional Member for South Wales East, I shall be ensuring that Wales will be marketed across the UK and the rest of the world as a country, not a region. The Member for Clwyd South said that north Wales is a special place, but I regard Wales as a special place, whether the north, south, east or west. We have great beauty in every part of Wales, whether industrial or rural. It is important that we market all parts of Wales in an equitable way.

I listened with interest to the opening remarks made by Andrew R.T. Davies, the opposition spokesperson, in which he spoke about the UK Government's position. It is interesting that Visit Britain, which is funded by the UK Government, has faced a significant cut to its budget and it will be interesting to see how that develops.

To turn to the matter in hand, tourism contributes around £4.2 billion annually to the Welsh economy and employs between 70,000 and 100,000 people at the peak of the season. Visit Wales markets Wales internationally through a network of agencies in the United States of America, Germany, France, Italy, Spain, the Netherlands and Belgium. Through this work, it generates about £40 million-worth of advertising coverage by hosting a wide range of overseas media and journalist visits throughout Wales. The Visit Wales proper holidays campaign has proved successful in achieving its targets for promoting and increasing the awareness of Wales as a destination. Forty-three per cent of the UK population recalls Visit Wales's promotions this year, an increase from 39 per cent in 2010. Seventy-nine per cent of UK consumers contacting Visit Wales so far this year say that they are likely to visit within the next 12 months and 33 per cent have already visited. The successful concept of the proper holidays campaign will now be

Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Rwy'n falch iawn bod y mater hwn wedi'i ddewis ar gyfer y ddadl ac yn cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd gan Nick Ramsay. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr gwerth twristiaeth i economi Cymru ac rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaid o ansawdd uchel. Yn wahanol i'r Aelod Torïaidd rhanbarthol dros Ddwyrain De Cymru, byddwn yn sicrhau y caiff Cymru ei marchnata ar draws y Deyrnas Unedig a gweddill y byd fel gwlad, nid rhanbarth. Dywedodd yr Aelod dros Dde Clwyd fod gogledd Cymru'n lle arbennig, ond yr wyf yn ystyried Cymru fel lle arbennig, boed yn y gogledd, y de, y dwyrain neu'r gorllewin. Mae gennym gryn harddwch ym mhob rhan o Gymru, boed yn wledig neu'n ddiwydiannol. Mae'n bwysig ein bod yn marchnata pob rhan o Gymru mewn modd teg.

Gwrandewais â diddordeb ar sylwadau agoriadol Andrew R.T. Davies, llefarydd yr wrthblaid, pan siaradodd am safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n ddiddorol bod VisitBritain, a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, wedi wynebu toriad sylweddol i'r gyllideb a bydd yn ddiddorol i weld sut y bydd hynny'n datblygu.

I droi at y mater dan sylw, mae twristiaeth yn cyfrannu tua £4.2 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru ac yn cyflogi rhwng 70,000 a 100,000 o bobl ar anterth y tymor. Mae Croeso Cymru yn marchnata Cymru'n rhyngwladol drwy rwydwaith o asiantaethau yn Unol Daleithiau America, yr Almaen, Ffrainc, yr Eidal, Sbaen, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg. Drwy'r gwaith hwn, mae'n cynhyrchu gwerth £40 miliwn o ddarllediad hysbysebu drwy gynnal amrywiaeth eang o gyfryngau tramor ac ymweliadau newyddiadurwyr ledled Cymru. Bu ymgyrch gwyliau go iawn Croeso Cymru yn llwyddiannus wrth gyflawni ei dargedau ar gyfer hyrwyddo a chynyddu'r ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan. Mae 43 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn dwyn i gof hyrwyddiadau Croeso Cymru eleni, cynnydd o 39 y cant yn 2010. Mae 79 y cant o ddefnyddwyr y Deyrnas Unedig sydd wedi cysylltu â Chroeso Cymru hyd yn hyn eleni wedi dweud eu bod yn debygol o ymweld o fewn y 12 mis nesaf ac y mae 33 y

taken forward to a new UK and Ireland visitors campaign, starting on 25 August, involving television adverts and other media and marketing activities.

The issue of marketing, which was raised by Bethan Jenkins, a Member for my region, is important. The key in marketing is who you market to; that is, your audience. Visit Wales is managing a £17.4 million EU-funded digital marketing programme aimed at helping businesses to adopt new digital technologies to enable them to meet visitor expectations and become more competitive in the marketplace. This will include the advantages of taking up online booking, using social media such as Facebook, Twitter and blogs, and the potential use of mobile phone applications.

Another Visit Wales EU-funded project is destination marketing. It aims to encourage partnerships between communities, the public, private and third sectors to adopt a co-ordinated approach to marketing their areas as tourism destinations. That is funded to the tune of £10.3 million. The Welsh Government is also making multimillion pound investments in tourism through its regeneration and rural development programmes. As a Government, we are committed to ensuring that more major events are hosted across Wales to help to extend the tourism season. This is a key issue. We must have an all-year-round product in Wales and we must encourage its development.

To address some of these issues, we have a dedicated major events unit, which was established to develop a portfolio of events. Mark Isherwood, a regional Member for North Wales, also spoke about visitors, and this is key. English visitors are key to Wales and you see the importance of the way in which we market across our border, when you see the number of English visitors. When we look at domestic visitors and the current issues of cash being tight, we have to be

cant eisoes wedi ymweld. Caiff cysyniad llwyddiannus yr ymgyrch gwyliau go iawn ei ddwyn ymlaen i ymgyrch newydd y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, yn dechrau ar 25 Awst, gan gynnwys hysbysebion teledu a gweithgareddau eraill y cyfryngau a marchnata.

Mae'r mater o farchnata, a godwyd gan Bethan Jenkins, Aelod ar gyfer fy rhanbarth i, yn bwysig. Yr hyn sy'n bwysig mewn marchnata yw at bwy yr ydych chi'n marchnata; hynny yw, eich cynulleidfia. Mae Croeso Cymru yn rheoli rhaglen farchnata ddigidol £17.4 miliwn a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, a anelwyd at helpu busnesau i fabwysiadu technolegau digidol newydd i'w galluogi i fodloni disgwyliadau ymwelwyr a dod yn fwy cystadleuol yn y farchnad. Bydd hyn yn cynnwys y manteision o gymryd rhan mewn archebu ar-lein, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter a blogiau a'r defnydd posibl o gymwysiadau ffôn symudol.

Prosiect arall Croeso Cymru a ariennir gan yr UE yw marchnata cyrchfan. Ei nod yw annog partneriaethau rhwng cymunedau, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i fabwysiadu dull cydgysylltiedig i farchnata eu hardaloedd fel cyrchfannau twristiaeth. Mae hynny wedi'i ariannu i'r gost o £10.3 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud buddsoddiadau gwerth miliynau o bunnoedd mewn twristiaeth drwy ei rhaglenni adfywio a datblygu gwledig. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau mawr yn cael eu cynnal ledled Cymru i helpu ymestyn y tymor twristiaeth. Mae hwn yn fater allweddol. Mae'n rhaid inni gael cynnyrch gydol-y-flwyddyn yng Nghymru a rhaid inni annog ei ddatblygiad.

I fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, mae gennym uned digwyddiadau mawr pwrpasol, a sefydlwyd i ddatblygu portffolio o ddigwyddiadau. Hefyd, siaradodd Mark Isherwood, Aelod rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, am ymwelwyr, ac y mae hyn yn allweddol. Mae ymwelwyr o Loegr yn allweddol i Gymru ac yr ydych yn gweld pwysigrwydd y ffordd yr ydym yn marchnata ar draws ein ffin, pan welwch chi nifer yr ymwelwyr o Loegr. Pan edrychwn ar

radical in the development of certain effective and efficient policies. For example, I have discussed with officials the issue of camping and caravan policies across Wales, which are very important. That brings in planning issues, which I have been discussing with my colleague the Minister for Environment and Sustainable Development, because it is important that we do that.

4.30 p.m.

Earlier in the debate, somebody mentioned heritage and the excellent work undertaken by Alun Ffred to establish links between heritage and tourism, which are important, as is ecotourism. I also take on board the point made by Darren Millar about the interest that there is in the religious life of Wales and how people come specially to look at some of the trails and to visit some of these places. That definitely needs to be more integrated. It is important that we recognise that there is a role to be played by all of this.

Andrew R.T. Davies, the opposition spokesperson, spoke about Cardiff Airport. I receive a considerable volume of correspondence about Cardiff Airport and the Government shares the concerns that you have raised, and these are issues that we hope to address. There are obviously issues regarding Welsh exports and inward investment in the wider discussion, but it is important for us to recognise that we have to promote Wales overseas as a whole.

Members have spoken about their individual experiences: we have had an entertaining contribution from the Member for Cardiff South and Penarth this afternoon, who waxed lyrical about his constituency, as have other Members. I would like to remind Members that I represent Gower, which is, of course, the prettiest constituency in Wales, when we are discussing issues around the tourism agenda. [*Laughter.*]

I was taken by the contribution by the Member for Clwyd South about the importance of tourism infrastructure, marketing strategies and more joined-up work. That is something that we have started

ymwelwyr domestig a'r materion cyfredol ynghylch arian parod yn dynn, mae'n rhaid inni fod yn radical wrth ddatblygu rhai polisiau effeithiol ac effeithlon. Er enghraifft, rwyf wedi trafod gyda swyddogion y mater o bolisiau gwerysyla a charafanio ledled Cymru, sy'n bwysig iawn. Daw hynny â materion cynllunio, yr wyf wedi bod yn eu trafod gyda'm cyd-Aelod, y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, oherwydd mae'n bwysig inni wneud hynny.

Yn gynharach yn y ddadl, soniodd rhywun am dreftadaeth a'r gwaith rhagorol a wnaed gan Alun Ffred i sefydlu cysylltiadau rhwng treftadaeth a thwristiaeth, sy'n bwysig, fel y mae ecodwristiaeth. Derbyniaf hefyd y pwynt a wnaeth Darren Millar am y diddordeb sydd ym mywyd crefyddol Cymru a sut y mae pobl yn dod yn arbennig i edrych ar rai o'r llwybrau ac i ymweld â rhai o'r lleoedd hyn. Mae angen i hynny fod yn fwy integredig yn bendant. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod rôl i'w chwarae gan hyn i gyd.

Soniodd Andrew R.T. Davies, llefarydd yr wrthblaid, am Faes Awyr Caerdydd. Rwy'n cael cryn dipyn o ohebiaeth am Faes Awyr Caerdydd ac mae'r Llywodraeth yn rhannu'r pryderon a godwyd gennych, ac mae'r rhain yn faterion yr ydym yn gobeithio ymdrin â hwy. Wrth gwrs, ceir materion ynghylch allforion Cymru a mewnfuddsoddi yn y drafodaeth ehangach, ond mae'n bwysig inni gydnabod bod rhaid inni hyrwyddo Cymru dramor fel cyfan-gorff.

Mae Aelodau wedi siarad am eu profiadau unigol: rydym wedi cael cyfraniad difyr gan yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth y prynhawn yma, a wnaeth draethu'n huawdl am ei etholaeth ef, fel y mae Aelodau eraill wedi ei wneud. Hoffwn atgoffa Aelodau fy mod yn cynrychioli'r Gwŷr, sydd, wrth gwrs, yr etholaeth ddelfaf yng Nghymru, pan rydym yn trafod materion sy'n ymwneud â'r agenda dwristiaeth. [*Chwerthin.*]

Fe wnaeth gyfraniad yr Aelod dros Dde Clwyd argraff arnaf am bwysigrwydd seilwaith twristiaeth, strategaethau marchnata a gwaith mwy cydgyssylltiedig. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi dechrau ei wneud yn

to do in Government, but there is a plethora of organisations that we need to bring together, to draw the strands together and to get far more strategic on this agenda.

Andrew R.T. Davies: The Member for Clwyd South touched on the Florida experience in Orlando. While something of that size is not anticipated, we have many seaside towns that have a strong tradition of tourism but, sadly, time has been rather challenging to their facades, shall we say. Will the Government bring forward a seaside town initiative and strategy to bring those aspects together so that there is potential for regeneration to benefit tourism?

Edwina Hart: There is much talk about the bugging of telephones at the moment and I am sure that something must be going on in my office, because one of the issues that I have been discussing with officials is how to make seaside towns look more attractive so that they can be put on the tourism trail. Landlords leave some of the buildings empty and they fall into a state of absolute disrepair. If tourists are walking along looking for a restaurant and they see boarded up buildings, that does not help tourism, so it is an issue that I am already looking at.

Promoting Wales is at the core of our business and we have a number of formal and informal Government relationships. We use the London-based diplomatic corps; we work with embassies, high commissions and consulates. We try to arrange VIP visits to Wales and overseas visits by Welsh Ministers and others. We have to do more work in this area as regards the co-ordination of this agenda. When we look at Welsh exports, we have to stimulate trade and work with the six key sectors, the anchor companies and their supply chains, as well as other businesses. That will give us significant opportunities as part of what we do. The sector approach is very encouraging for us as regards how they will be able to develop links to business trade fairs abroad and how we can link everything in. Sector-focused trade missions enable us to support companies to visit key markets, meet potential customers and create business development opportunities. In discussions with me, the sectors and HE are keen to enhance their role in participating in the trade

y Llywodraeth, ond mae llu o gyrff y mae angen inni ddwyn ynghyd, i dynnu'r elfennau at ei gilydd ac i ddod yn llawer mwy strategol ar yr agenda hwn.

Andrew R.T. Davies: Soniodd yr Aelod dros Dde Clwyd am y profiad yn Fflorida, Orlando. Er na ragwelir rhywbeth o'r maint hwnnw, mae gennym lawer o drefi glan môr sydd â thraddodiad cryf o dwristiaeth, ond yn anffodus, mae amser wedi bod braidd yn anodd i'w ffasadau, dywedwn. A wnaiff y Llywodraeth gyflwyno menter trefi glan môr a strategaeth i ddod â'r agweddau hynny at ei gilydd fel bod potensial ar gyfer adfywio er budd twristiaeth?

Edwina Hart: Ceir llawer o sôn am fygio ffonau ar hyn o bryd ac rwy'n siŵr bod yn rhaid bod rywbeth yn digwydd yn fy swyddfa i, oherwydd un o'r materion y bûm yn trafod gyda swyddogion yw sut y mae gwneud trefi glan môr i edrych yn fwy deniadol fel y gellir eu rhoi ar y llwybr twristiaeth. Mae landlordiaid yn gadael rhai o'r adeiladau'n wag ac maent yn dirywio'n ddifrifol. Os yw twristiaid yn cerdded o gwmpas yn chwilio am fwyty a gwelant adeiladau sydd dan goed, nid yw'n helpu twristiaeth, felly mae'n fater yr wyf eisoes yn ei ystyried.

Mae hyrwyddo Cymru wrth graidd ein busnes ac mae gennym nifer o berthnasau Llywodraeth ffurfiol ac anffurfiol. Defnyddiwn y corfflu llysgenhadol a leolir yn Llundain; rydym yn gweithio gyda llysgenadaethau, uchel gomisiynau ac isgenadaethau. Ceisiwn drefnu ymweliadau pwysig iawn â Chymru ac ymweliadau tramor gan Weinidogion Cymru ac eraill. Mae'n rhaid inni wneud mwy o waith yn y maes hwn o ran cydlynu'r agenda hwn. Pan edrychwn ar allforion Cymru, mae'n rhaid inni ysgogi masnach a gweithio gyda'r chwe sector allweddol, y cwmnïau angor a'u cadwyni cyflenwi, yn ogystal â busnesau eraill. Bydd hynny'n rhoi cyfleoedd sylweddol inni fel rhan o'r hyn a wnawn. Mae'r dull sector yn galonogol iawn i ni o ran sut y gallant ddatblygu cysylltiadau i ffeiriau masnach busnes tramor a sut y gallwn gysylltu popeth. Mae teithiau masnach sy'n canolbwyntio ar sectorau yn ein galluogi i gefnogi cwmnïau i ymweld â marchnadoedd allweddol, cwrdd â darpar

missions and promoting the image of Wales abroad.

Wales is open for business and inward investment is important to us. There was a time when people had to think about whether they should come to Wales. We have to do more on this. We have to show that we have a strong skills base and can give competitive finance offers if required. We have to be pragmatic about inward investment for high-value projects with clear, sustainable benefits, but it is important that we focus on what we can do locally to create a business-friendly environment and what we can do to maximise inward investment to Wales. Bespoke finance is available from the sector teams for potential investors. It is important that we do all of this and continue to support the market needs of small and medium-sized enterprises, including their trade opportunities. I think that a lot has to be done in that area.

We will be supporting amendment 1, tabled in the name of the Welsh Liberal Democrats and amendment 2, tabled in the name of the Jocelyn Davies. However, on amendment 3, I understand that the Welsh Liberal Democrats will be disappointed, but the view of the financial professional sector panel during its discussions with me was that any attempt to establish a Welsh stock exchange would be viable only if it were driven by the private sector. That is the advice that I have received. I am happy to return to the issue of a Welsh stock exchange and review the options in the next 12 months.

This has been an excellent debate and we are all committed to promoting Wales. Wales is a beautiful place with good food, good heritage and a vibrant culture—a place to do business, with good people in it.

Suzu Davies: I take this opportunity to thank all the speakers in today's debate. The fact that there have been 11 speakers, including me, is an indication of how seriously the

gwsmeriaid a chreu cyfleoedd datblygu busnes. Mewn trafodaethau gyda mi, mae'r sectorau ac addysg uwch yn awyddus i wella eu rôl mewn cymryd rhan yn y teithiau masnach a hyrwyddo delwedd Cymru dramor.

Mae Cymru ar agor i fusnes ac mae mewnfuddsoddi yn bwysig i ni. Bu adeg pan oedd yn rhaid i bobl feddwl a ddylid dod i Gymru. Rhaid inni wneud mwy ar hyn. Mae'n rhaid inni ddangos bod gennym sylfaen sgiliau gref ac y gallwn roi cynigion cyllid cystadleuol os oes angen. Mae'n rhaid inni fod yn bragmatig am fewnfuddsoddi ar gyfer prosiectau gwerth uchel gyda manteision clir, cynaliadwy, ond mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud yn lleol i greu amgylchedd cyfeillgar i fusnes, a'r hyn y gallwn ei wneud i gynyddu i'r eithaf mewnfuddsoddiad i Gymru. Mae cyllid pwrpasol ar gael gan y timau sector i ddarparu fuddsoddwyr. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn i gyd ac yn parhau i gefnogi anghenion marchnad busnesau bach a chanolig, gan gynnwys eu cyfleoedd masnach. Credaf fod llawer i'w wneud yn y maes hwnnw.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies. Fodd bynnag, ynghylch gwelliant 3, deallaf y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn siomedig, ond barn panel y sector proffesiynol ariannol yn ystod ei drafodaethau gyda mi oedd y byddai unrhyw ymgais i sefydlu cyfnewidfa stoc Gymreig yn ymarferol dim ond os oedd yn cael ei lywio gan y sector preifat. Dyna'r cyngor a dderbyniais. Yr wyf yn hapus i ddychwelyd at y mater o gyfnewidfa stoc yng Nghymru ac i adolygu'r opsiynau yn y 12 mis nesaf.

Bu hon yn ddadl wych, ac rydym oll yn ymrwymo i hyrwyddo Cymru. Mae Cymru'n le prydferth gyda bwyd da, treftadaeth dda a diwylliant bywiog—mae'n lle i wneud busnes, gyda phobl dda ynddo.

Suzu Davies: Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch i'r holl siaradwyr yn y ddadl heddiw. Mae'r ffaith ein bod wedi cael 11 o siaradwyr, gan gynnwys fi, yn arwydd o ba mor ddifrifol y

subject of tourism in particular, and the economy more generally, is taken by everyone in this Chamber and, I would hope, everyone in Wales.

It is fair to say that we are all worried about the decline in visitor numbers and tourism, and taking the whole idea in-house has not been wholly successful. We remember Rhodri Morgan's ambitious plans to have a style brand for Wales and it has not worked in its current manifestation, not least for the reasons given by Andrew R.T. Davies and Peter Black: there seems to have been no grasp of the strategic remit of the Wales Tourist Board and the WDA since they have come in-house. That is despite the fact that we have these world-class attractions that have been competitively described by various Members, including Vaughan Gething, Ken Skates and Darren Millar. That is a disappointment to us all.

After all, the Welsh tourism industry supports 100,000 jobs, contributes 5 per cent of our GVA, which is already the lowest in the UK, as well as 11 per cent of our wider economy. That is why I am pleased that the UK Government has given some tax support, not just in terms of the national insurance breaks that Andrew R.T. Davies mentioned, but also reversing the plans to abolish tax on long-standing holiday lets. That is an important issue for us in Wales, not least in my own region, where one of the problems that is limiting the growth in tourism is the lack of variety of holiday accommodation. The situation is not improved by the stories that you hear of entrepreneurs seeking to fill that need, but coming across bureaucratic delays involving Government officers, arguing, for example, over the size of the plaque to acknowledge the funder's contribution to building a bunkhouse. Such contributions should of course be acknowledged, but should not be the subject of great argument and delay. I hope that we will see a more pragmatic approach on the road signage issue that was brought up by Mark Isherwood.

cymerir y pwnc twristiaeth yn benodol, a'r economi'n fwy cyffredinol, gan bawb yn y Siambr hon, a, byddwn yn gobeithio, pawb yng Nghymru.

Mae'n deg i ddweud ein bod oll yn pryderu am y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a thwristiaeth, ac nid yw dod â'r holl syniad yn fewnol wedi bod yn gwbl lwyddiannus. Cofiw'n gynlluniau uchelgeisiol Rhodri Morgan i gael brand arbennig i Gymru ac nid yw wedi gweithio yn ei amlygiad presennol, nid yn lleiaf am y rhesymau a roddwyd gan Andrew R.T. Davies a Peter Black: mae'n ymddangos nad oes unrhyw ddealltwriaeth wedi bod o gylchoedd gwaith strategol Bwrdd Croeso Cymru a'r WDA ers iddynt ddod yn fewnol. Mae hynny er gwaethaf y ffaith bod gennym yr atyniadau hyn o'r radd flaenaf a ddisgrifiwyd yn gystadleuol gan Aelodau amrywiol, gan gynnwys Vaughan Gething, Ken Skates a Darren Millar. Mae hynny'n siom i ni i gyd.

Wedi'r cwbl, mae diwydiant twristiaeth Cymru yn cefnogi 100,000 o swyddi, yn cyfrannu 5 y cant o'n gwerth ychwanegol gros, sy'n barod yr isaf yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag 11 y cant o'n heconomi ehangach. Dyna pam yr wyf yn falch bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi rhywfaint o gymorth treth, nid yn unig o ran y seibiannau yswiriant cenedlaethol y soniodd Andrew R.T. Davies amdanynt, ond hefyd gwrthdroi ar gynlluniau i ddiddymu'r dreth ar gartrefi gwyliau hirsefydlog. Mae hwnnw'n fater pwysig i ni yng Nghymru, nid yn lleiaf yn fy rhanbarth i, lle y mae un o'r problemau sy'n cyfyngu ar y twf mewn twristiaeth yw'r diffyg amrywiaeth o lety gwyliau. Nid yw'r sefyllfa'n gwella drwy'r storïau a glywch o entrepreneuriaid sy'n ceisio llenwi'r angen hwnnw, ond yn dod ar draws oedi biwrocraidd yn ymwneud â swyddogion Llywodraeth, yn dadlau, er enghraifft, dros faint y plac sy'n cydnabod cyfraniad y cyllidwr i adeiladu byncws. Wrth gwrs y dylid cydnabod cyfraniadau o'r fath, ond ni ddylai fod yn destun cryn ddadlau ac oedi. Gobeithiaf y byddwn yn gweld ymagwedd fwy pragmataidd tuag at y mater arwyddion ffordd a godwyd gan Mark Isherwood.

I take encouragement from the Government's

Cymeraf anogaeth gan ymrwymiad

legislative commitment on built heritage, and I hope to be able to support the Minister's plans on that. However, to do so, like Bethan Jenkins, I think that we need to hear about it in the context of a powerful drive to use industrial heritage to attract not just traditional, but more adventurous and contemporary tourists to Wales. A lot of excellent local work has been done in Wales, for example, by the Heart and Soul of Wales body, and that is exactly as it should be. However, that sort of work now needs to be capitalised upon at national level as part of a coherent strategy to sell Wales. I am not sure that Ken Skates really wants to turn Wales into Disneyland, but that commercial savvy is something that we need in Wales, and we should not be afraid of it.

As Mark Isherwood explained, we should be looking at targeted marketing for certain parts of Wales, but as part of an idea to promote Wales as a place with an identity of its own, and a brand of its own. Again, we should not overlook opportunities to market Wales as part of the UK, and we must not overlook the opportunity to take advantage of the £100 million programme that is being brought forward by the UK Government. That programme includes work with the private sector and that is also something that we should not be scared of.

Christine Chapman: When we talk about marketing, we talk about tourists coming in from outside, but it also about marketing places of interest to people within Wales. I do not know whether you agree, but we often fail to notice the good things on our doorstep, and enjoying the countryside, for example, can help with keeping fit and healthy.

Suzy Davies: I could not agree more. I mentioned Mark's contribution about targeting marketing within Britain—he was talking about selling parts of north Wales to the midlands, for example. Our own at-home tourism is just as important and I hope, particularly with the introduction of the cycling legislation, that we will all manage to enjoy our local environment a little bit more.

deddfwriaethol y Llywodraeth ar dreftadaeth adeiledig, a gobeithiaf allu cefnogi cynlluniau y Gweinidog ar hynny. Fodd bynnag, i wneud hynny, fel Bethan Jenkins, credaf fod angen inni glywed amdano yng nghyd-destun ymgyrch bwerus i ddefnyddio treftadaeth ddiwydiannol i ni ddenu nid yn unig dwristiaid traddodiadol ond twristiaid mwy anturus a chymheiriol i Gymru. Gwnaethpwyd llawer o waith lleol rhagorol yng Nghymru, er enghraifft, gan y corff Calon ac Enaid Cymru, ac mae hynny'n union fel y dylai fod. Fodd bynnag, mae angen i'r math hwnnw o waith, yn awr, fanteisio arnynt ar lefel genedlaethol fel rhan o strategaeth gydlynol i werthu Cymru. Nid wyf yn siŵr fod Ken Skates wir eisiau troi Cymru yn Disneyland, ond mae bod yn feistrolgar yn fasnachol yn rhywbeth y mae arnom ei angen yng Nghymru, ac ni ddylem ei ofni.

Fel yr eglurodd Mark Isherwood, dylem fod yn edrych ar dargedu marchnata ar gyfer rhai rhannau o Gymru, ond fel rhan o syniad i hyrwyddo Cymru fel lle sydd â'i hunaniaeth a'i brand ei hun. Eto, ni ddylem anwybyddu cyfleoedd i farchnata Cymru fel rhan o'r Deyrnas Unedig, ac ni ddylem anwybyddu'r cyfle i fanteisio ar y rhaglen £100 miliwn honno a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen honno'n cynnwys gwaith gyda'r sector preifat, ac mae hynny hefyd yn rhywbeth na ddylem ei ofni.

Christine Chapman: Wrth sôn am farchnata, siaradwn am dwristiaid yn dod i mewn o'r tu allan, ond y mae hefyd ynglŷn â marchnata lleoedd o ddi-ddordeb i bobl yng Nghymru. Ni wn a ydych yn cytuno, ond rydym yn aml yn methu â sylwi ar y pethau da ar garreg ein drws, a gall mwynhau cefn gwlad, er enghraifft, helpu gyda chadw'n heini ac yn iach.

Suzy Davies: Ni allwn gytuno mwy. Soniais am gyfraniad Mark am dargedu marchnata o fewn Prydain—yr oedd yn sôn am werthu rhannau o ogledd Cymru i ganolbarth Lloegr, er enghraifft. Mae ein twristiaeth ein hunain yr un mor bwysig, a gobeithiaf, yn enwedig gyda chyflwyniad y ddeddfwriaeth beicio, y byddwn oll yn llwyddo i fwynhau ein hamgylchedd lleol ychydig yn fwy.

I now turn to something that Darren Millar said. I must admit that my personal pilgrimage this week will be to St Fagans to look at the Act of Union that is on display, but there is no reason why built heritage should not include religious heritage. That idea could be explored further, particularly when we are talking about the American market. Why are we not exploring the American midwest, for example, where personal heritage is becoming very popular? We should exploit genealogy tourism in Wales. If President Obama can claim Irish antecedents, I am sure that we can drum up a couple of Welsh people for him to be proud of as well.

The visitor numbers from the USA have declined since 2003, but we should be looking to improve on that, as well as marketing in the east. If I am right, I believe that the Welsh Government still has 17 overseas offices, therefore we should be looking to them to give us better value for money. The low value of the pound means that Welsh exports have not been too bad over the past two years, but we are in a situation whereby bodies such as University of Wales Institute, Cardiff and the Institute of Chartered Accountants say that we barely engage globally, which we must do.

I hope that the Welsh Government's legislation on sustainable development, for example, has its eye on global markets as well as local viability. The internal market is small, and, as Mohammad Asghar said, we must look beyond our boundaries. We need to support amendments 1 and 2 to this motion simply because of the point that Peter raised, that in order to start looking at those global markets, we certainly need to be upskilling. With that point, I just want to say thank you all for taking part in what has been an interesting debate.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, the unamended motion is agreed in accordance

Trof yn awr at rywbeth a ddywedodd Darren Millar. Rhaid imi gyfaddef mai fy mhererindod bersonol i yr wythnos hon fydd i Sain Ffagan i edrych ar y Ddeddf Uno sy'n cael ei arddangos, ond nid oes unrhyw reswm pam na ddylai treftadaeth adeiledig gynnwys treftadaeth grefyddol. Gellid edrych ar y syniad hwnnw ymhellach, yn enwedig pan ydym yn sôn am y farchnad Americanaidd. Pam nad ydym yn archwilio gorllewin canolbarth America, er enghraifft, lle mae treftadaeth bersonol yn dod yn boblogaidd iawn? Dylem fanteisio ar dwristiaeth hel achau yng Nghymru. Os gall Arlywydd Obama hawlio rhagflaenwyr Gwyddelig, rwy'n siŵr y gallwn ennyn ychydig Gymry iddo fod yn falch ohonynt hefyd.

Mae nifer yr ymwelwyr o'r Unol Daleithiau wedi gostwng ers 2003, ond dylem geisio gwella ar hynny, yn ogystal â marchnata yn y dwyrain. Os ydwyf yn iawn, credaf fod gan Lywodraeth Cymru 17 o swyddfeydd tramor o hyd, felly dylem fod yn edrych arnynt i roi gwell gwerth am arian inni. Mae gwerth isel y bunt yn golygu nad yw allforion o Gymru wedi bod yn rhy ddrwg dros y ddwy flynedd diwethaf, ond rydym mewn sefyllfa lle mae cyrff megis Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd a Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yn dweud mai prin yr ydym yn ymgysylltu yn fyd-eang, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud.

Gobeithio bod gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy, er enghraifft, ei llygaid ar farchnadoedd byd-eang yn ogystal â hyfywedd lleol. Mae'r farchnad fewnol yn fach, ac, fel y dywedodd Mohammad Asghar, mae'n rhaid inni edrych y tu hwnt i'n ffiniau. Mae angen inni gefnogi gwelliannau 1 a 2 i'r cynnig hwn, dim ond oherwydd y pwynt a godwyd gan Peter, er mwyn dechrau edrych ar y marchnadoedd byd-eang hynny, yn sicr mae angen inni uwchsgilio. Ar y pwynt hwnnw, rwyf am ddiolch i bawb am gymryd rhan mewn dadl ddiddorol.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno'r cynnig heb welliant. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate

Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus Public Sector Employment

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Peter Black, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Nick Ramsay.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Peter Black, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Nick Ramsay.

Cynnig NDM4789 Jocelyn Davies

Motion NDM4789 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gymunedau ledled y wlad; ac

1. Recognises the importance of public sector employment to communities throughout the country; and

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

2. Calls on the Welsh Government to:

a) Gyhoeddi ei chynllun ynghylch staffio swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol;

a) Publish its plan regarding the future staffing of Welsh Government offices;

b) Wrthod unrhyw gynnig i gau swyddfeydd Llywodraeth Cymru; a

b) Reject any proposal to close Welsh Government offices;

c) Sicrhau dosbarthiad teg o swyddi Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

c) Ensure an equitable distribution of Welsh Government jobs throughout Wales.

Alun Ffred Jones: Cynigiaf y cynnig.

Alun Ffred Jones: I move the motion.

Yr wyf yn falch o'r cyfle i gynnig y cynnig hwn yn enw Jocelyn Davies. Yr wyf am ddatgan yn glir ar y dechrau nad prif bwrpas Llywodraeth yw creu swyddi i weision sifil er eu lles eu hunain, ond, ar y llaw arall, mae'n ffaith bod sefydlu'r Cynulliad hwn yng Nghaerdydd wedi creu cyfleoedd gwaith a gyrfa amrywiol i gannoedd, os nad miloedd, o'n cydwladwyr, a hynny, gobeithio, er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl ym mhob rhan o Gymru. Fodd bynnag, er tegwch i drethdalwyr, mae presenoldeb swyddfeydd mewn gwahanol ardaloedd a chreu cyfleoedd gwaith y tu allan i Gaerdydd

I am pleased to be able to move this motion in the name of Jocelyn Davies. I wish to make it clear at the outset that it is not the main aim of Government to create civil servant posts for their own sake, but, on the other hand, it is a fact that the establishment of this Assembly in Cardiff has created job opportunities in a variety of careers for hundreds, if not thousands, of our compatriots, which will, hopefully, improve the quality of life of people in all parts of Wales. However, in fairness to taxpayers, the presence of offices in various localities and the creation of job opportunities outside Cardiff is vital, which is

yn hollbwysig, a dyna arweiniodd at y strategaeth ddatganoli a chreu canolfannau ym Merthyr, Aberystwyth a Llandudno.

Mae ymchwil diweddar yn ne-orllewin Lloegr ac ym Manceinion yn dangos cymaint yw cyfraniad economaidd y swyddi a'r swyddfeydd lleol hyn, gydag un amcangyfrif yn rhoi ffigwr o gyfraniad cyfwerth â £7.5 miliwn i'r economi leol yn flynyddol am bob 100 o swyddi. Dyna paham yr ymatebodd y Llywodraeth hon ac Aelodau'r Cynulliad mor ffyrnig pan gyhoeddwyd y byddai 250 o swyddi yn diflannu yn swyddfa basbort Casnewydd. Condemniwyd Llywodraeth Llundain gan bawb yn ddiwahân. Felly, onid ydyw colli 100 o swyddi mewn trefi fel Llandrindod, Caerfyrddin, Caernarfon a'r Drenwydd yn llawer mwy niweidiol? Fodd bynnag, dyna yr ymddengys sydd ar y gweill gan y Llywodraeth.

Gadewch inni edrych ar y cefndir. Pan benderfynwyd sefydlu swyddfeydd yn Aberystwyth a Llandudno, rhoddwyd pob math o addewidion. Gofynnais nifer o gwestiynau, dro ar ôl tro, ynghylch ai canoli swyddi yn Llandudno ac Aberystwyth oedd y bwriad, neu ddatganoli swyddi o Gaerdydd. Mae'n werth edrych yn ôl ar rai o'r datganiadau a wnaethpwyd.

4.45 p.m.

Yn 2005, dywedodd Alun Pugh, a oedd yn Weinidog ar y pryd:

'a relatively small number of jobs will be moved from Caernarfon to Llandudno Junction. A much greater number of jobs will be moved from Cardiff to north Wales... I am happy to see that.'

Yn 2006, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd:

'I am not aware of any intention to reduce the number of civil servants working in Caernarfon by transferring them to the new office in Llandudno Junction.'

Yn 2004, dywedodd Sue Essex, a oedd yn gyfrifol am y prosiect:

what led to the devolution strategy and the creation of centres in Merthyr, Aberystwyth and Llandudno.

Recent research in south-west England and in Manchester shows the extent of the economic contribution of these local jobs and offices, with one estimate putting the contribution at a level of £7.5 million per annum to the local economy for every 100 jobs. That is why the Government here and Assembly Members were so angry when it was announced that 250 jobs were to be lost from the Newport passport office. The London Government was condemned by everybody. Therefore, is not the loss of 100 jobs in towns such as Llandrindod Wells, Carmarthen, Caernarfon and Newtown even more damaging? However, that appears to be the Government's intention.

Let us look at the background. When the decision was taken to establish offices in Aberystwyth and Llandudno, all kinds of pledges were made. I asked a number of questions, on numerous occasions, on whether this was an issue of centralising jobs in Llandudno and Aberystwyth or of devolving jobs from Cardiff. It is worth looking back at some of the statements made.

In 2005, Alun Pugh, who was a Minister at the time, said:

Bydd nifer cymharol fach o swyddi yn cael eu symud o Gaernarfon i Gyffordd Llandudno. Bydd nifer llawer yn fwy o swyddi yn cael eu symud o Gaerdydd i ogledd Cymru ... Yr wyf yn hapus i weld hynny.

In 2006, the First Minister at the time said:

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fwriad i leihau nifer y gweision sifil sy'n gweithio yng Nghaernarfon drwy eu trosglwyddo i'r swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno.

In 2004, Sue Essex, who was responsible for the project, said:

'The location strategy will bring good-quality Assembly job opportunities across Wales.'

Bydd y strategaeth leoli yn dod â chyfleoedd swyddi Cynulliad o ansawdd da ledled Cymru.

Mae'n werth cofio'r frawddeg honno.

It is worth remembering that sentence.

Yn 2006, yr oedd sôn am ddatganoli 130 o swyddi o Gaerdydd i Llandudno, a dywedodd Sue Essex:

In 2006, there was talk of devolving 130 jobs from Cardiff to Llandudno, and Sue Essex said:

'I am pleased to say that this figure has already increased significantly. The Cabinet has given me a commitment to relocate a total of 200 posts from Cardiff to Llandudno Junction. The functions transferring are the Department of Enterprise, Innovation and Networks, the Department for Education, Lifelong Learning and Skills, Finance and Public Performance Services.'

Rwy'n falch dweud bod y ffigur hwn eisoes wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r Cabinet wedi ymrwymo i adleoli cyfanswm o 200 o swyddi o Gaerdydd i Gyffordd Llandudno. Mae'r swyddogaethau sy'n trosglwyddo yn cynnwys yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cyllid a Gwasanaethau Perfformiad Cyhoeddus.

Mae'n mynd ymlaen i sôn am y ffaith bod 23 swydd yn symud o Gaernarfon i Llandudno.

She goes on to talk about the fact that 23 jobs were moving from Caernarfon to Llandudno.

'There are no plans to transfer any further posts from this office to Llandudno Junction.'

Nid oes unrhyw gynlluniau i drosglwyddo unrhyw swyddi pellach o'r swyddfa hon i Gyffordd Llandudno.

Dyna'r addewidion a roddwyd gan Weinidogion y Cabinet.

Those are the promises made by Cabinet Ministers.

I never play the north-Wales-versus-south-Wales card, but promises were made that relocating posts from Cardiff to Llandudno and Aberystwyth was a vital ingredient of the strategy. Recent statements cast doubt on whether that has happened. The quoted figures show no increase.

Nid wyf byth yn chwarae'r cerdyn gogledd Cymru yn erbyn de Cymru, ond gwnaethpwyd addewidion bod adleoli swyddi o Gaerdydd i Llandudno ac Aberystwyth yn elfen hanfodol o'r strategaeth. Mae datganiadau diweddar yn bwrw amheuaeth ynghylch a ydyw hynny wedi digwydd. Nid yw'r ffigurau a ddyfynnir yn dangos unrhyw gynnydd.

Simon Thomas: Does Alun Ffred agree that there is concern regarding not only the global figures but the types of jobs that are being devolved in Wales? Senior civil service jobs have, on the whole, remained in Cardiff. Surely it should be part of any location strategy for senior civil service posts and decision-making jobs also to be moved out of the capital and spread throughout Wales.

Simon Thomas: A ydyw Alun Ffred yn cytuno bod pryder ynghylch nid yn unig y ffigurau byd-eang ond y mathau o swyddi sy'n cael eu datganoli yng Nghymru? Mae uwch swyddi yn y gwasanaeth sifil wedi, ar y cyfan, aros yng Nghaerdydd. Siawns y dylai fod yn rhan o unrhyw strategaeth leoli i symud swyddi'r uwch wasanaeth sifil a swyddi gwneud penderfyniadau hefyd allan o'r brifddinas a'u lledaenu ledled Cymru.

Alun Ffred Jones: Thank you for making that point; I was just coming to it. [*Laughter.*] As for senior civil service posts in Llandudno, for example—the position may

Alun Ffred Jones: Diolch i chi am wneud y pwynt hwnnw; Roeddwn i ar fin dod ato. [*Chwerthin.*] O ran swyddi yn yr uwch wasanaeth sifil yn Llandudno, er enghraifft—

be slightly better in Aberystwyth—you can count the number of senior civil servants on one hand. Even if you lost a digit or two, you could still count them on the same hand.

It is impossible to ascertain how many posts have been devolved. Figures released by the Government over the past few months show 60, 78 and even 130 new jobs being devolved to Llandudno. If that is true, it suggests that there has been a huge cut in the number of staff in the original workforce. Both things cannot be true; you cannot have devolved 130 jobs to Llandudno and end up with a figure that is lower than the figure for 2007. Therefore, what is next? We know that the Cabinet will discuss the relocation strategy on 26 July, having been too busy over the past two months, presumably, to discuss the matter and come to a decision. Of course, Members will not be here to scrutinise that decision.

The First Minister has stated here that no decision has been made. A senior civil servant told workers in Llandudno that an office will close. However, in a letter to me, the Permanent Secretary states that some Government offices may close. Today, I hear that a representative of the PCS union has been suspended from his work, presumably for trying to protect the jobs of his members.

Then, in a statement yesterday, the Minister for business tried to clarify the position, stating that the Welsh Government is committed to retaining jobs in Caernarfon, Carmarthen, Newtown and Llandrindod Wells. She went on to refer to hot-desking and home-working. So, there is no commitment there on the offices. I suppose that the question that must be posed is this: are offices to close? What comes to mind is the question of how you can take jobs away from regional towns, with the subsequent loss to the local economy and the effect on job prospects in those areas. It appears that jobs going in Newtown is fine, while jobs going in Newport is an abomination. We ask the Government to come clean and to treat all parts of Wales fairly and with dignity.

gall y sefyllfa fod ychydig yn well yn Aberystwyth—gallwch gyfrif nifer yr uwch weision sifil ar un llaw. Hyd yn oed os collech ddigid neu ddwy, gallech eu cyfrif o hyd ar yr un llaw.

Mae'n amhosibl canfod faint o swyddi sydd wedi cael eu datganoli. Mae'r ffigurau a ryddhawyd gan y Llywodraeth yn ystod y misoedd diwethaf yn dangos 60, 78 a hyd yn oed 130 o swyddi newydd yn cael eu datganoli i Landudno. Os yw hynny'n wir, mae'n awgrymu y bu toriad enfawr yn nifer y staff yn y gweithlu gwreiddiol. Ni all y ddau beth fod yn wir; ni allwch fod wedi datganoli 130 o swyddi i Landudno a gweld bod gennych ffigwr sy'n is na'r ffigwr ar gyfer 2007. Felly, beth sydd nesaf? Gwyddom y bydd y Cabinet yn trafod y strategaeth adleoli ar 26 Gorffennaf, ar ôl bod yn rhy brysur yn ystod y ddeufis ddiwethaf, yn ôl pob tebyg, i drafod y mater a dod i benderfyniad. Wrth gwrs, ni fydd Aelodau yma i graffu ar y penderfyniad hwnnw.

Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yma nad oedd penderfyniad wedi ei wneud. Dywedodd uwch was sifil wrth weithwyr yn Llandudno y bydd swyddfa yn cau. Fodd bynnag, mewn llythyr ataf, mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn datgan y gall rhai swyddfeydd Llywodraeth gau. Heddiw, clywais fod cynrychiolydd o'r undeb PCS wedi cael ei wahardd o'i waith, yn ôl pob tebyg am geisio diogelu swyddi ei aelodau.

Yna, mewn datganiad ddoe, ceisiodd y Trefnydd egluro'r sefyllfa, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gadw swyddi yng Nghaernarfon, Caerfyrddin, y Drenewydd a Llandrindod. Aeth ymlaen i gyfeirio at system o weithio wrth sawl gweithfan a gweithio gartref. Felly, nid oes unrhyw ymrwymiad yno ar y swyddfeydd. Mae'n debyg mai'r cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn yw hwn: a ydyw swyddfeydd yn mynd i gau? Yr hyn sy'n dod i'r meddwl yw'r cwestiwn o sut y gallwch gymryd swyddi i ffwrdd o drefi rhanbarthol, gyda'r golled ddilynol i'r economi leol a'r effaith ar ragolygon swyddi yn yr ardaloedd hynny. Mae'n ymddangos bod swyddi yn mynd yn y Drenewydd yn iawn, tra bod swyddi yn mynd yng Nghasnewydd yn ffieidd-dra. Rydym yn gofyn i'r Llywodraeth gyfaddef y cyfan ac i

drin pob rhan o Gymru yn deg a gydag urddas.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Amendment 1 Jane Hutt

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau â'r Strategaeth Leoli, sy'n ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru ddarparu swyddi a gwasanaethau o fewn adeiladau effeithlon a hygyrch ar draws Cymru.

2. Calls on the Welsh Government to continue with the Location Strategy, which supports the delivery of Welsh Government jobs and services from efficient and accessible buildings across Wales.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move amendment 1 in my name.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.

Gwelliant 2 Peter Black

Amendment 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hystâd yn cael ei defnyddio i'r eithaf i gefnogi cymunedau ledled Cymru.

Calls on the Welsh Government to ensure the optimal use of its estate for supporting communities throughout Wales.

William Powell: I move amendment 2 in the name of Peter Black.

William Powell: Cynigiau welliant 2 yn enw Peter Black.

I thank Alun Ffred for his forensic analysis of the issues that led to the situation facing us.

Yr wyf yn diolch i Alun Ffred am ei ddadansoddiad fforensig o'r materion a arweiniodd at y sefyllfa sy'n ein hwynebu.

The Welsh Government is committed to dispersing jobs, as we have heard, from Cardiff to the rest of Wales, as seen in the creation of offices in Merthyr Tydfil, Llandudno Junction and Aberystwyth. Yet any attempt to move jobs from small rural offices, such as at Newtown, Llandrindod Wells, Caernarfon, Carmarthen and Brecon, to these regional hubs would counteract the very positive effect that was achieved in the first place by the setting up of these new offices.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wasgaru swyddi, fel y clywsom, o Gaerdydd i weddill Cymru, fel y gwelir yn y swyddfeydd ym Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth. Eto byddai unrhyw ymgais i symud swyddi o swyddfeydd bach gwledig, megis yn y Drenewydd, Llandrindod, Caernarfon, Caerfyrddin ac Aberhonddu, i'r canolfannau rhanbarthol hyn yn gwrthweithio'r effaith gadarnhaol iawn a gafodd ei chyflawni yn y lle cyntaf drwy sefydlu'r swyddfeydd newydd hyn.

Public sector jobs are crucial to rural communities. Not only do they keep people going in well-paid jobs, but these people also keep small shops, restaurants and local communities thriving. Public sector jobs are crucial to keeping young people and graduates in rural communities, even if they are not engaged in the highest level of the decision making, as Simon Thomas has

Mae swyddi yn y sector cyhoeddus yn hanfodol i gymunedau gwledig. Nid yn unig y maent yn cadw pobl i fynd mewn swyddi sy'n talu'n dda, ond mae'r bobl hyn hefyd yn cadw siopau bach, bwytai a chymunedau lleol yn ffyniannus. Mae swyddi yn y sector cyhoeddus yn hanfodol i gadw pobl ifanc a graddedigion mewn cymunedau gwledig, hyd yn oed os nad ydynt yn cymryd rhan yn y

referred to. This is so much better than everybody having to flock to Cardiff for work, with the associated brain drain.

The relocation of offices from the small communities in which they are currently based, from Newtown and Llandrindod Wells, to Aberystwyth would mean that the jobs would suddenly become as remote as if they had moved back to Cardiff. In the current economic climate, there is little prospect of these jobs, once removed, being replaced by other public sector jobs or, indeed, by jobs in the private sector. The Government states that no jobs will be lost, but if you move jobs so far away that they cannot be accessed, you will effectively have sacked their current holders. Removing these jobs from such small communities, when there is little realistic possibility of their being replaced, is potentially catastrophic.

Relocation to Aberystwyth from rural mid Wales is not easy for the workers themselves. The commute from Llandrindod Wells or Newtown to Aberystwyth is around 90 miles a day. We also know that, at the moment, there is not even an hourly service on the railway line between Newtown and Aberystwyth—although, that is something that we want to see some progress on. It must also be stated that the earliest bus leaves Llandrindod Wells at 9.03 a.m. and arrives in Aberystwyth at 10.42 a.m., which is far too late for the start of any average working day. From Newtown to Aberystwyth is a two-hour journey each way, and from Caernarfon to Llandudno Junction is a journey of over an hour, which includes a bus journey and a train link.

The crucial point is not only about the employment aspects of these rural offices; it is also about the services that members of the public, the rural communities and the farming sector need to access. We need to be cognisant of that as well. We endorse plans for a full consultation on any office closures throughout Wales, to consider not only the

lefel uchaf o wneud penderfyniadau, fel y cyfeiriwyd ato gan Simon Thomas. Mae hyn yn gymaint yn well na phawb yn gorfod heidio i Gaerdydd i weithio, gyda'r draen dawn cysylltiedig.

Byddai adleoli swyddfeydd oddi wrth y cymunedau bach lle y maent wedi'u lleoli ar hyn o bryd, o'r Drenwydd a Llandrindod, i Aberystwyth yn golygu y byddai'r swyddi yn dod, yn sydyn, mor bell i ffwrdd fel pe baent wedi symud yn ôl i Gaerdydd. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid oes mawr o obaith o'r swyddi hyn, unwaith y maent wedi symud, yn cael eu disodli gan swyddi eraill yn y sector cyhoeddus, neu, yn wir, gan swyddi yn y sector preifat. Mae'r Llywodraeth yn datgan na fydd unrhyw swyddi yn cael eu colli, ond os byddwch yn symud swyddi mor bell i ffwrdd nad oes modd cael mynediad iddynt, byddwch, i bob pwrpas, wedi diswyddo eu deiliaid presennol. Gallai cael gwared ar y swyddi hyn o gymunedau mor fach, pan nad oes llawer o bosibilrwydd realistig o'u hailosod, fod yn drychinebus.

Nid yw adleoli i Aberystwyth o ganolbarth Cymru wledig yn hawdd ar gyfer y gweithwyr eu hunain. Mae'r cymudo o Landrindod neu Drenwydd i Aberystwyth ryw 90 milltir y dydd. Rydym hefyd yn gwybod nad oes, ar hyn o bryd, hyd yn oed gwasanaeth bob awr ar y rheilffordd rhwng y Drenwydd ac Aberystwyth—er, mae hynny'n rhywbeth yr ydym am weld rhywfaint o gynnydd arno. Rhaid datgan hefyd bod y bws cynharaf yn gadael Llandrindod am 09:03 ac yn cyrraedd Aberystwyth am 10:42, sydd yn llawer yn rhy hwyr i ddechrau unrhyw ddiwrnod cyffredin o waith. Mae'r daith o'r Drenwydd i Aberystwyth yn ddwy awr bob ffordd, ac y mae'r daith o Gaernarfon i Gyffordd Llandudno yn cymryd dros awr, sy'n cynnwys taith bws a chyswllt trên.

Mae'r pwynt hollbwysig nid yn unig am agweddau cyflogaeth y swyddfeydd gwledig; mae hefyd yn ymwneud â'r gwasanaethau y mae ar aelodau o'r cyhoedd, y cymunedau gwledig a'r sector ffermio angen cael mynediad iddynt. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o hynny hefyd. Rydym yn cymeradwyo cynlluniau ar gyfer

advantages and disadvantages of closing offices, but the knock-on impact of those closures. These decisions should not be taken lightly or in isolation. It will have a major impact on small communities, and taking skilled jobs out of those communities will add to the struggle to retain young people and a vibrant community in those areas. The Government's commitment to decentralising services from Cardiff should not and must not result in further centralisation into the regional hubs.

ymgyngoriad llawn ar unrhyw broses o gau swyddfeydd ledled Cymru, i ystyried nid yn unig manteision ac anfanteision cau swyddfeydd, ond sgîl-effaith y cau hynny. Ni ddylid cymryd y penderfyniadau hyn yn ddifeddwl nac ar wahân. Bydd yn cael effaith fawr ar gymunedau bach, a bydd cymryd swyddi medrus y tu allan i'r cymunedau hynny'n ychwanegu at y frwydr i gadw pobl ifanc a chymuned fywiog yn yr ardaloedd hynny. Ni ddylai ymrwymiad y Llywodraeth i ddatganoli gwasanaethau o Gaerdydd arwain at ganoli pellach i'r canolfannau rhanbarthol.

Gwelliant 3 Nick Ramsay

Amendment 3 Nick Ramsay

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod pwysigrwydd swyddi Llywodraeth Cymru yn Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin a Chaernarfon i'r economïau lleol.

Recognises the importance to the local economies of Welsh Government jobs in Llandrindod Wells, Newtown, Carmarthen and Caernarfon.

Gwelliant 4 Nick Ramsay

Amendment 4 Nick Ramsay

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n ddi-oed i egluro sefyllfa ei swyddfeydd rhanbarthol mewn datganiad ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Calls on the Welsh Government to clarify without delay the position of its regional offices in a written statement to the National Assembly for Wales.

Gwelliant 5 Nick Ramsay

Amendment 5 Nick Ramsay

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â'r undebau yn ei hadolygiad o anghenion staffio mewn swyddfeydd rhanbarthol.

Calls on the Welsh Government to consult with unions in its review of staffing needs in regional offices.

Nick Ramsay: I move amendments 3, 4 and 5 in my name.

Nick Ramsay: Cynigïaf welliannau 3, 4 a 5 yn fy enw i.

It is a pleasure to be called in this debate. In many respects, I agree with many of the comments already made by William Powell and Alun Ffred Jones. I think that we all agree with a number of key elements of the Plaid Cymru motion before us. In fact, I agree with points a and c. However, I have issues with point b, which calls for the

Mae'n bleser i gael fy ngalw yn y ddadl hon. Ar lawer ystyr, yr wyf yn cytuno â llawer o'r sylwadau a wnaed eisoes gan William Powell ac Alun Ffred Jones. Credaf ein bod i gyd yn cytuno â nifer o elfennau allweddol cynnig Plaid Cymru sydd ger ein bron. Yn wir, yr wyf yn cytuno â phwyntiau a ac c. Fodd bynnag, mae gennyf anhawster gyda phwynt

rejection of any proposal to close Welsh Government offices. That is not because I think that there is a case for them to be closed or for not having the number that we currently have, but because I think that the Government needs to have an element of flexibility with regard to where it sites those offices. I would not want to restrict that, so I will not be supporting the motion unamended.

The Welsh Conservatives believe that power should be decentralised—we have heard the word ‘decentralise’ used a great deal in previous contributions. Part of this clearly involves decentralising Welsh Government jobs, as has happened over a number of years now due to previous Welsh Government initiatives. It was interesting to hear Alun Ffred talking about the Department for Enterprise, Innovation and Networks—it was a blast from the past to hear about one of the former departments and portfolio arrangements. The process of decentralisation has been pursued by the UK Government for a long time. It was certainly the approach of the 1960s and 1970s, and there is no doubt that the Welsh Government should pursue the same policy here. We accept the Government’s amendments with regard to continuing with the location strategy and supporting the delivery of jobs in efficient buildings across Wales. As I have said, we differ from the motion with regard to there being a lack of leeway about where the current offices are sited. Clearly, if there is a strong reason to close an office, now or at some point in future, it should be looked at and the Government should have that flexibility.

With regard to the other amendments, the Liberal Democrats’ amendment 2 seeks to ensure the optimum use of the Government estate. We also support this. It is clearly common sense. I moved amendments 3, 4 and 5, calling on the Welsh Government to clarify without delay the position of its regional offices and to consult fully on any review of staffing and offices. I hope that that is also common sense, but I think that it helps the motion to have that clearly set out. There is no doubt at all that the regional offices that we have been talking about are capable of

b, sy’n galw am wrthod unrhyw gynnig i gau swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Nid yw hynny oherwydd fy mod yn credu bod achos iddynt gael eu cau neu fod achos dros beidio â chael y nifer sydd gennym ar hyn o bryd, ond oherwydd y credaf fod angen i’r Llywodraeth gael elfen o hyblygrwydd o ran ble y mae’n lleoli’r swyddfeydd hynny. Ni fyddwn am gyfyngu ar hynny, felly ni fyddaf yn cefnogi’r cynnig heb ei ddiwygio.

Cred Ceidwadwyr Cymreig y dylid datganoli pŵer—yr ydym wedi clywed y gair ‘datganoli’ yn cael ei ddefnyddio cryn dipyn mewn cyfraniadau blaenorol. Mae rhan o hyn yn amlwg yn golygu datganoli swyddi Llywodraeth Cymru, fel sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd bellach o ganlyniad i fentrau blaenorol Llywodraeth Cymru. Yr oedd yn ddiddorol clywed Alun Ffred yn siarad am yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau—roedd yn adlais o’r gorffennol i glywed am un o’r hen adrannau a threfniadau portffolio. Mae’r broses o ddatganoli wedi cael ei dilyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ers amser maith. Yr oedd yn sicr yn ymagwedd o’r 1960au a’r 1970au, ac nid oes amheuaeth y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd yr un polisi yma. Rydym yn derbyn gwelliannau’r Llywodraeth mewn perthynas â pharhau â’r strategaeth lleoliad a chefnogi cyflwyno swyddi mewn adeiladau effeithlon ar draws Cymru. Fel yr wyf wedi ei ddweud, yr ydym yn anghytuno â’r cynnig o ran y ffaith bod diffyg hyblygrwydd ynghylch ble y mae’r swyddfeydd presennol yn cael eu lleoli. Wrth gwrs, os oes rheswm cryf dros gau swyddfa, nawr neu ar ryw adeg yn y dyfodol, dylid ei ystyried a dylai’r Llywodraeth gael yr hyblygrwydd hwnnw.

O ran y gwelliannau eraill, mae gwelliant 2 y Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio sicrhau’r defnydd gorau posibl o ystâd y Llywodraeth. Rydym hefyd yn cefnogi hyn. Mae’n amlwg yn synnwyr cyffredin. Cynigiais welliannau 3, 4 a 5, yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro yn ddi-oed sefyllfa ei swyddfeydd rhanbarthol ac i ymgynghori’n llawn ar unrhyw adolygiad o staffio a swyddfeydd. Yr wyf yn gobeithio bod hynny’n synnwyr cyffredin hefyd, ond credaf ei fod yn helpu’r cynnig i nodi hynny’n glir. Nid oes amheuaeth o gwbl bod

playing an important part in the success of regional economies in mid Wales, west Wales and north Wales. That is why amendment 3 refers to offices in specific locations.

Too often, the focus has been on the shiny, new expensive buildings and not on the principle of devolved jobs. In many ways, that is a shame. Having travelled the length and breadth of Wales over the past few months—for a certain process within my party—I have had the advantage of speaking firsthand to people about their views on their local areas. The issue of offices and decentralisation of jobs has come up. Sadly, it is not always a glowing view from many people. The expression bandied about with regard to many offices is ‘waste of money’. This is a problem of perception that the Welsh Government must deal with at some point, whether now or in future.

One concern of local people is the number of new jobs created locally. William Powell spoke about this. We need to know accurately how many jobs are being created, how many are being offered to local people and how many are straightforward relocations from Cardiff and elsewhere. Obviously, there is going to be a relocation of jobs from Cardiff as part of this process, and that is to be welcomed, but people in north Wales, certainly, need to feel that they have equality of access to high-quality Government jobs, which the Government would, I am sure, want them to have. There is an issue here about the quality of jobs; we do not want tokenism whereby many of the higher grade jobs are retained centrally and north and west Wales get what is left.

5.00 p.m.

Public sector employment is crucial to Wales. We often talk about the need to grow the private sector, and that is too often confused with a lack of recognition of the importance of the public sector. My party certainly recognises its importance and the role that the Welsh Government has to play in providing

y swyddfeydd rhanbarthol yr ydym wedi bod yn siarad amdanynt yn gallu chwarae rhan bwysig yn llwyddiant yr economïau rhanbarthol yng nghanolbarth Cymru, gorllewin Cymru a gogledd Cymru. Dyna pam y mae gwelliant 3 yn cyfeirio at swyddfeydd mewn lleoliadau penodol.

Yn rhy aml, mae'r ffocws wedi bod ar yr adeiladau newydd sgleiniog a drud, ac nid ar yr egwyddor o swyddi sydd wedi'u datganoli. Mewn sawl ffordd, mae hynny'n drueni. Ar ôl teithio ar hyd a lled Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf—ar gyfer proses benodol o fewn fy mhlaidd—yr wyf wedi cael y fantais o siarad o lygad y ffynnon â phobl am eu barn ar eu hardaloedd lleol. Mae'r mater o swyddfeydd a datganoli swyddi wedi dod i fyny. Yn anffodus, nid yw bob amser yn farn wresog gan lawer o bobl. Yr ymadrodd sydd byth a hefyd yn cael ei grybwyll mewn perthynas â llawer o swyddfeydd yw 'gwastraff arian'. Mae hon yn broblem o ganfyddiad y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymdrin â hi ar ryw adeg, boed yn awr neu yn y dyfodol.

Un o bryderon pobl leol yw nifer y swyddi newydd a grëwyd yn lleol. Siaradodd William Powell am hyn. Mae angen i ni wybod yn gywir faint o swyddi sy'n cael eu creu, faint sy'n cael eu cynnig i bobl leol a sawl un sydd, yn syml, yn cael eu hadleoli o Gaerdydd a mannau eraill. Mae'n amlwg y bydd adleoli swyddi o Gaerdydd fel rhan o'r broses hon, ac y mae hynny i'w groesawu, ond mae pobl yn y gogledd, yn sicr, angen teimlo eu bod yn cael mynediad cyfartal at swyddi Llywodraeth o ansawdd uchel, y byddai'r Llywodraeth, yr wyf yn sicr, am iddynt eu cael. Mae problem yma ynghylch ansawdd y swyddi; nid ydym eisiau symboleiddiaeth lle mae llawer o'r swyddi graddau uwch yn cael eu cadw yn ganolog a'r gogledd a'r

Mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn allweddol i Gymru. Rydym yn aml yn sôn am yr angen i dyfu'r sector preifat, ac y mae hynny'n rhy aml yn cael ei ddrysio gyda diffyg cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y sector cyhoeddus. Mae fy mhlaidd yn sicr yn cydnabod ei bwysigrwydd a'r rôl sydd gan

jobs in the public sector. Wales is an area of the United Kingdom that needs support, and the public sector has a key role to play in that.

Mark Drakeford: In my contribution this afternoon, I want to focus on the first part of the motion, which refers to the importance of public sector employment to communities throughout Wales. I want to do that because the Prime Minister in his lecture to us yesterday got this exactly wrong. He began by making a point that is widely accepted, that is, that the private sector in Wales needs to grow. He then fell into the basic neoconservative error of asserting that the private sector is too small because the public sector is too big. That mantra of ‘private good, public bad’ is never far below the surface of the present Westminster coalition Government, but its premise is mistaken both economically and socially.

Economically, the argument fails to understand the impact that public sector employment has on the wider economy. A report by the University of Manchester only two years ago concluded that, for a period stretching back well into the Thatcher area, the growth in private sector employment in the United Kingdom has largely been the product of public expenditure decisions—state sponsored and state supported, as the report says.

Once you get below the surface of that, you understand that the teacher employed in a local authority school in Wales is a public sector employee and, according to the Prime Minister’s definition, an obstacle in the path of the Welsh economy. However, a teacher in a private school is counted by the Office for National Statistics as a private sector employee, and is thus in receipt of the Prime Minister’s approval, despite the fact that, as the University of Manchester report demonstrates, such schools are highly dependant on fiscal favours from the state, do nothing to pay for the training infrastructure upon which they depend for staff, and, in

Lywodraeth Cymru i’w chwarae wrth ddarparu swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae Cymru yn rhan o’r Deyrnas Unedig sydd angen cymorth, ac mae gan y sector cyhoeddus ran allweddol i’w chwarae yn hynny.

Mark Drakeford: Yn fy nghyfraniad y prynhawn yma, yr wyf am ganolbwyntio ar ran gyntaf y cynnig, sy’n cyfeirio at bwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gymunedau ledled Cymru. Rwyf am wneud hynny oherwydd i’r Prif Weinidog yn ei ddarlith i ni ddoe gael hyn yn gwbl anghywir. Dechreuodd drwy wneud pwynt sy’n cael ei dderbyn yn eang; hynny yw, bod angen i’r sector preifat yng Nghymru i dyfu. Yna syrthiodd i mewn i’r camgymeriad ‘neoconservative’ sylfaenol o honni bod y sector preifat yn rhy fach oherwydd bod y sector cyhoeddus yn rhy fawr. Nid yw’r mantra o ‘preifat da, cyhoeddus drwg’ byth ymhell o dan wyneb y Llywodraeth glymblaid bresennol yn San Steffan, ond mae ei gysail yn anghywir yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Yn economaidd, mae’r ddadl yn methu â deall yr effaith y mae cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ei chael ar yr economi ehangach. Daeth adroddiad gan Brifysgol Manceinion ond dwy flynedd yn ôl i’r casgliad bod, am gyfnod yn ymestyn ymhell yn ôl i gyfnod Thatcher, y twf mewn cyflogaeth yn y sector preifat yn y Deyrnas Unedig wedi bod, i raddau helaeth, yn gynnrych o benderfyniadau gwariant cyhoeddus—wedi’i noddi a’i gefnogi gan y wladwriaeth, fel y dywed yr adroddiad.

Ar ôl i chi fynd o dan wyneb hynny, rydych yn deall bod yr athro a gyflogir mewn ysgol awdurdod lleol yng Nghymru yn weithiwr yn y sector cyhoeddus ac, yn ôl diffiniad y Prif Weinidog, yn rhwystr yn llwybr economi Cymru. Fodd bynnag, mae athro mewn ysgol breifat yn cael ei gyfrif gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel gweithiwr yn y sector preifat, ac felly yn derbyn cymeradwyaeth y Prif Weinidog, er gwaethaf y ffaith, fel y dengys adroddiad Prifysgol Manceinion, bod ysgolion o’r fath yn hynod yn ddibynnol ar ffafrau ariannol gan y wladwriaeth, yn gwneud dim i dalu am y seilwaith hyfforddiant y maent yn dibynnu arno ar

many cases, could not continue to trade were it not for the fees paid directly to them from the public purse.

Far from squeezing out the private sector, public expenditure and the public sector employment that it provides is crucial in supporting economic growth across Wales. If investment is squeezed out of public services, growth is imperilled, not promoted.

The prescription that we were offered yesterday was not only mistaken economically, but socially destructive. I am always struck by the way in which those who have never needed to rely on the services provided by public sector employees are so confident that the rest of us can do without them. As a leader of a Cabinet of millionaires, it is perhaps not surprising that the Prime Minister was so dismissive of the work of public sector workers in Wales.

Nick Ramsay: We need to clarify that the Prime Minister has spoken on many occasions about the valuable work of people in the public sector, particularly in the national health service. He has said that he could not have survived without having it to rely on over the last few years. That point needs to be put on the record.

Mark Drakeford: It is all very well for the Prime Minister to pay lip service to the work of public service workers when it suits him to do so, but, on Monday, he published a White Paper that talks about the wholesale privatisation of public services, including the health service and others, putting public services and public sector workers in jeopardy.

We judge people by what they do rather than by what they say. The UK Government attaches no value to the work of people in public services—in health, education, social care, and in supporting the work of this Assembly—but we know that people rely on them day in, day out, and that they provide the bedrock of Welsh communities and

gyfer staff, ac, mewn llawer o achosion, na allai barhau i fasnachu oni bai am y ffioedd a delir yn uniongyrchol iddynt o'r pwrs cyhoeddus.

Ymhell o wasgu allan y sector preifat, mae gwariant cyhoeddus a'r gyflogaeth yn y sector cyhoeddus y mae yn ei ddarparu yn hanfodol wrth gefnogi twf economaidd ledled Cymru. Os yw buddsoddiad yn cael ei wasgu allan o wasanaethau cyhoeddus, mae twf yn cael ei beryglu, nid ei hyrwyddo.

Mae'r presgripsiwn a gynigiwyd i ni ddoe nid yn unig yn economaidd anghywir, ond yn ddinistriol yn gymdeithasol. Yr wyf yn cael fy nharo bob tro gan y ffordd y mae rhai nad ydynt erioed wedi angen dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr y sector cyhoeddus mor hyderus y gall y gweddill ohonom wneud hebddynt. Fel arweinydd Cabinet o filiwnyddion, efallai nad yw'n syndod bod y Prif Weinidog mor ddiystyriol o waith gweithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Nick Ramsay: Mae angen i ni wneud yn glir bod y Prif Weinidog wedi siarad ar sawl achlysur am waith gwerthfawr pobl yn y sector cyhoeddus, yn enwedig yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae wedi dweud na allai fod wedi goroesi heb orfod dibynnu arno dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae angen rhoi ar gofnod y pwynt hwnnw.

Mark Drakeford: Mae'n ddigon hawdd i'r Prif Weinidog esgus cefnogi gwaith gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus pan fydd yn gyfleus iddo wneud hynny, ond, ddydd Llun, cyhoeddodd Bapur Gwyn sy'n sôn am breifateiddio llwyr y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd ac eraill, gan roi gwasanaethau cyhoeddus a gweithwyr y sector cyhoeddus yn y fantol.

Rydym yn barnu pobl yn ôl yr hyn y maent yn eu wneud yn hytrach nag wrth yr hyn y maent yn eu ddweud. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi dim gwerth ar waith pobl yn y gwasanaethau cyhoeddus—ym meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, ac wrth gefnogi gwaith y Cynulliad hwn—ond gwyddom fod pobl yn dibynnu arnynt

support the lives of people within them. If today's motion goes some way towards redressing the impression given here yesterday, it will have achieved something worth while. I am grateful for the chance to have played some small part in putting the record straight.

Elin Jones: Mae swyddfa Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth wedi bod yn fuddsoddiad pwysig iawn i'r dref ac i'r ardal. Cofiaf ymgyrchu sawl blwyddyn yn ôl i sicrhau mai Aberystwyth fyddai lleoliad y swyddfa honno, pan oedd y Gweinidog ar y pryd—Edwina Hart, credaf—yn ystyried y Drenewydd, Llandrindod a Chaerfyrddin ar gyfer y buddsoddiad hwnnw. Fodd bynnag, gwnaethpwyd y buddsoddiad yn Aberystwyth yn y pen draw. Caewyd swyddfeydd rhanbarthol ym Machynlleth ac Aberaeron a chanolwyd y swyddi yn Aberystwyth. Nid oedd bwriad ar y pryd i gau swyddfeydd yn Llandrindod na'r Drenewydd a'u canoli yn Aberystwyth. Bwriad y strategaeth leoli oedd datganoli o Gaerdydd i'r rhanbarthau, nid canoli o fewn y rhanbarthau.

Mae eraill eisoes wedi sôn am bwysigrwydd economaidd y swyddfeydd hyn, gyda lleoli rhyw 100 o staff mewn pedair tref farchnad yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar hyn o bryd. Mae tair o'r pedair swyddfa hyn yn ymwneud yn bennaf â thaliadau i ffermwyr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu bron dim gwasanaeth yn uniongyrchol. Un o'r ychydig wasanaethau mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am ei ddarparu'n uniongyrchol yw taliadau i ffermwyr. Mae'n debyg y bydd y Llywodraeth eisieu buddsoddi mewn datblygu taliadau ar-lein ar ryw bwynt yn y dyfodol agos, a phan ddigwydd hynny efallai y bydd angen llai o staff i weinyddu'r taliadau hynny. Fodd bynnag, ni ddylai hynny arwain at leihau rôl a phwysigrwydd y swyddfeydd yn Llandrindod, Caernarfon a Chaerfyrddin. Gyda chynllunio tymor hir, gallwn gynllunio swyddi gwasanaeth sifil eraill yn y swyddfeydd yn y trefi hynny.

Yr wyf yn ymwybodol bod y Llywodraeth yn edrych ar bolisi recriwtio'n awr sydd naill ai'n niwtral o ran lleoliad neu'n recriwtio tu allan i Gaerdydd yn fwriadol. Mae gan y

ddydd ar ôl dydd, a'u bod yn darparu sylfaen i gymunedau Cymru ac yn cefnogi bywydau'r bobl oddi mewn iddynt. Os bydd cynnig heddiw yn mynd beth ffordd tuag at unioni'r argraff a roddwyd yma ddoe, bydd wedi cyflawni rhywbeth gwerth chweil. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i chwarae rhyw ran fechan i unioni'r sefyllfa.

Elin Jones: The Welsh Government office in Aberystwyth has been an important investment for the town and the region. I remember campaigning several years ago to ensure that Aberystwyth was the location for that office, when the Minister at the time—Edwina Hart, I believe—was also considering Newtown, Llandrindod Wells and Carmarthen for that investment. However, it was in Aberystwyth that the investment was eventually made. The regional offices in Machynlleth and Aberaeron were closed and the jobs centralised in Aberystwyth. There was no intention at the time to close the offices in Llandrindod Wells or Newtown and centralise them in Aberystwyth. The aim of the location strategy was to decentralise from Cardiff, not to centralise within the regions.

Others have mentioned the economic importance of these offices, with the location of around 100 staff in four market towns being considered by the Cabinet at present. Three of those four offices deal mainly with payments to farmers. The Welsh Government delivers almost no services directly. One of the few services that the Government is responsible for delivering directly is payments to farmers. It is likely that the Government will want to invest in developing online payments at some point in the near future, and when that happens it may be that fewer staff will be needed to administer those payments. However, that should not lead to a reduction in the role and the importance of the offices in Llandrindod Wells, Caernarfon and Carmarthen. With long-term planning, we can plan for other civil service posts in those offices in those three towns.

I am aware that the Government is now looking at a recruitment policy that is either location-neutral or deliberately recruits outside of Cardiff. The Sustainable Futures

Gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy bolisi o recriwtio tu allan i Gaerdydd. Mae'r polisi hwnnw wedi bod yn weithredol o 1 Gorffennaf. Fodd bynnag, os edrychwch ar wefan recriwtio Llywodraeth Cymru, gwelwch fod saith swydd yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd, a gall pob un ohonynt gael eu recriwtio o Gaerdydd, hyd yn oed yr un swydd yn y Gyfarwyddiaeth Dyfodol Cynaliadwy, sef y swydd rheolwr cynllun Arbed. Felly, mae'n ymddangos bod y Llywodraeth, heddiw, yn torri ei pholisi recriwtio ei hunan ar gyfer y gyfarwyddiaeth honno.

Mae agweddau ar ddatganiad y Llywodraeth ddoe ar y swyddfeydd hynny i'w croesawu ac, o bosibl, yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ewyllys da gan y Cabinet tuag at y staff yn y gwahanol ranbarthau. Fodd bynnag, mae gweithred y Llywodraeth heddiw yn gwahardd dros dro gynrychiolydd undeb rhanbarthol yn warthus, a bydd yn tanseilio unrhyw hyder gan staff rhanbarthol ym mwriadau'r Llywodraeth. Yr wyf yn siŵr nad oedd hynny'n weithred uniongyrchol gan y Gweinidog, ond gofynnaf i'r Gweinidog drefnu i siarad â'r Ysgrifennydd Parhaol ar fyrder i ddweud wrthi bod gwahardd dros dro cynrychiolydd undeb ar sail mater fel hyn yn annerbyniol—i mi a, gobeithio, i fwyafrif Aelodau yn y Siambr heddiw.

I gloi, yr wyf eisiau gweld cyflogaeth yn y gwasanaethau sifil yng Nghymru ar draws y rhanbarthau, gyda'r tair swyddfa fawr newydd a chyfres o rai llai mewn rhanbarthau eraill. Yn ogystal â chadw swyddfeydd, yr wyf hefyd eisiau clywed oddi wrth y Gweinidog wrth iddi ymateb na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn sgîl unrhyw newid polisi, nac ychwaith symud swyddi gorfodol yn deillio o unrhyw benderfyniad a fydd y Cabinet yn ei gymryd ddiwedd y mis.

Yn y Llywodraeth flaenorol, gwrthodais i a Gweinidogion eraill Plaid Cymru unrhyw ymgais, gan weision sifil yn bennaf, i ystyried cau swyddfeydd fel y rhai yn Llandrindod, Caernarfon a'r Drenewydd. Cytunodd y Prif Weinidog ar y pryd gyda ni ar hynny. Yr wyf eisiau gweld y Cabinet unwaith eto—ar 26 Gorffennaf, gan eu bod wedi rhoi'r dyddiad inni—yn dweud 'na' wrth y gwasanaeth sifil ac yn cefnogi model

Directorate has a policy of recruiting outside Cardiff. That policy has been in effect from 1 July. However, if you look at the recruitment website of the Welsh Government today, you will see that seven posts are advertised currently, all of which can be recruited from Cardiff, even the one post in the Sustainable Futures Directorate, which is the post of Arbed scheme leader. Therefore, it appears that the Government is, today, breaking its own recruitment policy for this directorate.

Some aspects of yesterday's Government statement on these offices are to be welcomed and may give some reassurance about the Cabinet's goodwill towards the staff in the various regions. However, the Government's actions today to suspend a regional union representative are atrocious and will undermine any confidence that regional staff have in the Government's intentions. I am sure that it was not the direct action of the Minister, but I ask the Minister to urgently seek a conversation with the Permanent Secretary and tell her that suspending a union representative on such an issue is unacceptable—to me and, hopefully, to most Members in the Chamber today.

To conclude, I want to see employment in the civil service in Wales spread across the regions, with the three new major offices and a series of smaller offices in other regions. In addition to retaining offices, I also want to hear from the Minister when she responds that there will be not be any compulsory redundancies as a result of any change in policy, nor any enforced job relocation as a result of any decision taken by the Cabinet at the end of the month.

In the previous Government, I and other Plaid Cymru Ministers rejected any attempt, mainly by civil servants, to consider the closure of offices such as those in Llandrindod Wells, Caernarfon and Newtown. The First Minister at that time agreed with us. I want to see the Cabinet once again—on 26 July, as they have given us the date—saying 'no' to the civil service and supporting a strong regional model of offices

rhanbarthol cryf o swyddfeydd ar hyd a lled Cymru. Mae'r Prif Weinidog hwn yn dweud ei fod eisiau sefyll cornel Cymru. Yr wyf eisiau ei weld yn Brif Weinidog sydd yn sefyll pob cornel Cymru.

Mohammad Asghar: I am grateful for the opportunity to speak in this debate. Welsh Government jobs are very important to the communities of Llandrindod Wells, Newtown, Carmarthen and Caernarfon. For that reason, it is essential that the Welsh Government should make a statement as soon as possible confirming the position with regard to its smaller regional offices. The level of uncertainty that exists is unfair to the people employed in those offices and disruptive to the wider communities in which those offices are located. Speculation that the offices could close is at odds with the Welsh Government policy of spreading its offices across Wales. I am concerned at the impact that these closures could have on local economies in Wales and urge the Welsh Government, as highlighted in our amendment 5, to consult with unions in its review of staffing needs in regional offices.

In Wales, we face several major challenges linked to our economy. As the Prime Minister said in the Chamber yesterday, there is a desperate need in Wales to grow the private sector and to boost enterprise to ease unemployment. My honourable friends on the other side of the channel—the Chamber, I mean; or, indeed, on the other side of the channel and the Chamber—need a lecture on this, because every developed economy in the world is based on private sector development. I do not know what world they are living in. They are coming up with ideas that make no sense whatsoever; they do not want this country to be prosperous. There is a long list of—[*Interruption.*] They talk about a long list of achievements, but they have actually put our economy back. We are at the bottom of all the regions in the United Kingdom; that shows how good they are.

As we all know, Wales is over-reliant on the public sector and that is a challenge that the Welsh Government must be ready to deal

throughout Wales. This First Minister says that he wants to stand up for Wales. I want to see him be a First Minister who stands up for every part of Wales.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae swyddi Llywodraeth Cymru yn bwysig iawn i gymunedau Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin a Chaernarfon. Am y rheswm hwnnw, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad cyn gynted ag y bo modd i gadarnhau'r sefyllfa o ran ei swyddfeydd rhanbarthol llai. Mae lefel yr ansicrwydd sy'n bodoli yn annheg i'r bobl a gyflogir yn y swyddfeydd hynny ac yn tarfu ar y gymuned ehangach lle y lleolir y swyddfeydd hynny. Mae sôn y gallai'r swyddfeydd gau yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru o ledaenu ei swyddfeydd ledled Cymru. Yr wyf yn pryderu am yr effaith y gallai'r caeadau hyn ei chael ar economïau lleol yng Nghymru ac rwy'n annog Llywodraeth Cymru, fel yr amlygwyd yn ein gwelliant 5, i ymgynghori â'r undebau yn ei hadolygiad o anghenion staffio mewn swyddfeydd rhanbarthol.

Yng Nghymru, rydym yn wynebu nifer o heriau mawr sy'n gysylltiedig â'n heconomi. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn y Siambr ddoe, mae angen dybryd yng Nghymru i dyfu'r sector preifat ac i hybu mentergarwch i leddfu diweithdra. Mae fy ffrindiau anrhydeddus ar ochr arall y sianel—y Siambr, yr wyf yn ei olygu; neu, yn wir, ar ochr arall y sianel a'r Siambr—angen darlith ar hyn, oherwydd bod pob economi a ddatblygwyd yn y byd yn cael ei seilio ar ddatblygiad y sector preifat. Nid wyf yn gwybod pa fyd y maent yn byw ynddo. Maent yn dod o hyd i syniadau nad ydynt yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl; nid ydynt am i'r wlad hon fod yn ffyniannus. Mae rhestr hir o—[*Torri ar draws.*] Maent yn siarad am restr hir o lwyddiannau, ond mewn gwirionedd, maent wedi rhoi ein heconomi yn ôl. Rydym ar waelod pob un o'r rhanbarthau yn y Deyrnas Unedig; mae hynny'n dangos pa mor dda y maent.

Fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae Cymru yn or-ddibynnol ar y sector cyhoeddus ac y mae hynny'n her y mae'n rhaid i Lywodraeth

with. That is why, on this side of the Chamber, we want the Welsh Government to act on enterprise zones, which could offer invaluable business support to Wales's poorer communities. Manufacturing also plays a crucial part in our economy, yet a strategy much promised by the preceding administration has turned into a 12-page document compiled by the manufacturing forum.

However, it is also clear that Welsh Government jobs in towns such as Carmarthen and Caernarfon are hugely important and provide key career opportunities to many in those areas. Centralising jobs in other areas will take career opportunities away from smaller towns. It is important that both rural and urban communities across Wales play a part in the governance of Wales. That is real devolution. Members in the Chamber must understand the meaning of devolution and the big society, an understanding that they are still lacking—[*Interruption.*] Yes, I agree with you.

5.15 p.m.

The staff based in offices in Llandrindod Wells, Newtown, Carmarthen and Caernarfon deserve clarification regarding their future and the future of the offices that they are based in. I urge the Welsh Government to ensure that this review is conducted in a transparent manner, and I am sure that it will listen this time. I have heard people across Wales refer to both the Welsh Government and National Assembly for Wales as Cardiff-centric bodies, concerned primarily with the happenings of the Welsh capital. The news concerning the future of some of the regional offices will not help to change this perception.

Aled Roberts: Mae'n debyg bod nifer ohonom wedi bod yn poeni am y strategaeth ranbarthol am nifer o fisoedd. Fel y dywedodd Alun Ffred, mae symud swyddi o Gaernarfon i Gyffordd Llandudno'n ddigon anodd, ond wrth feddwl am yr hyn a ddywedodd Bill Powell am symud o Bowys

Cymru fod yn barod i ymdrin â hi. Dyna pam, ar yr ochr hon i'r Siambr, y dymunwn i Lywodraeth Cymru weithredu ar ardaloedd menter, a allai gynnig cymorth busnes amhrisiadwy i gymunedau tlotaf Cymru. Mae gweithgynhyrchu hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn ein heconomi, ac eto mae strategaeth sydd wedi ei haddo lawer gan y weinyddiaeth flaenorol wedi troi i mewn i ddogfen 12-tudalen a luniwyd gan y fforwm gweithgynhyrchu.

Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg bod swyddi Llywodraeth Cymru mewn trefi fel Caerfyrddin a Chaernarfon yn hynod o bwysig ac yn darparu cyfleoedd gyrfaol allweddol i lawer yn yr ardaloedd hynny. Bydd canoli swyddi mewn ardaloedd eraill yn cymryd cyfleoedd gyrfa i ffwrdd o drefi llai. Mae'n bwysig bod cymunedau gwledig a threfol ar draws Cymru yn chwarae rhan yn llywodraethu Cymru. Dyna ddatganoli go iawn. Rhaid i Aelodau yn y Siambr ddeall ystyr datganoli a'r gymdeithas fawr, dealltwriaeth eu bod yn dal yn brin—[*Torri ar draws.*] Ydw, yr wyf yn cytuno â chi.

Mae'r staff sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin a Chaernarfon yn haeddu eglurhad ynghylch eu dyfodol a dyfodol y swyddfeydd y maent wedi'u lleoli ynddynt. Yr wyf yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal mewn modd tryloyw, ac yr wyf yn sicr y bydd yn gwrando y tro hwn. Yr wyf wedi clywed pobl ledled Cymru yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fel cyrff sy'n perthyn i Gaerdydd, sy'n poeni'n bennaf am ddigwyddiadau ym mhrifddinas Cymru. Ni fydd y newyddion ynghylch dyfodol rhai o'r swyddfeydd rhanbarthol yn helpu i newid y canfyddiad hwn.

Aled Roberts: It appears that many of us have been worried about the regional strategy for several months. As stated by Alun Ffred, moving jobs from Caernarfon to Llandudno Junction is hard enough, but bearing in mind what Bill Powell said about moving from rural Powys to Aberystwyth, the situation

wledig i Aberystwyth, mae'r sefyllfa'n mynd yn waeth fyth. Pan agorwyd y swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno, bu'r Prif Weinidog yn dathlu adleoli swyddi o Gaerdydd i'r gogledd. Fodd bynnag, i fod yn gywir, hanes o adleoli swyddi o fewn y gogledd y ceir yma. Mae Ieuan Wyn Jones, o ganlyniad i'w gyn-swydd fel y Dirprwy Brif Weinidog, yn ymwybodol o'r cwestiynau a gafodd eu gofyn gan arweinyddion cynghorau gogledd Cymru rai misoedd yn ôl.

Yn wreiddiol, y bwriad oedd trosglwyddo 85 o swyddi o Gaerdydd i Gyffordd Llandudno. Er, i fod yn gywir, dim ond 12 o swyddi a gafodd eu symud. Ar ben hynny, cafodd 68 o swyddi newydd eu creu. Felly, o'r gweithlu presennol o 409, mae 250 o swyddi wedi'u hadleoli o rannau eraill o'r gogledd. Beth am yr addewid o 650 o swyddi newydd yn y gogledd pan agorwyd y swyddfa ym mis Medi 2010? Erbyn hyn, ceir datganiadau mai pwrpas swyddfa Llandudno yw rhoi cyfle i'r Llywodraeth adleoli o fewn rhanbarth Gogledd Cymru. Dyfynnaf yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog wrth iddo agor y swyddfa yn y gogledd ym mis Medi 2010,

'This new office provides a direct link with the community and demonstrates how serious we are about bringing government closer to the people of Wales.'

However, taking jobs from smaller, local offices, and concentrating them in one regional hub makes the Government even more distant from people in those communities in north Wales.

Rhaid dweud bod gan Lywodraeth Cymru strategaeth dda iawn o ran trafniadaeth gyhoeddus i'w swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno. Dyna'r unig strategaeth o'r fath sydd yn bodoli o fewn y swyddfeydd rhanbarthol ac mae dulliau sy'n galluogi pobl i ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus i ddod i'w gwaith yng Nghyffordd Llandudno. Fodd bynnag, beth am y pris personol sydd i'w dalu wrth i'r bobl hynny orfod cymryd 90 munud ychwanegol i fynd i'w swyddi yn Llandudno o Gaernarfon?

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1. Mae'n sôn am y strategaeth, sy'n dweud

becomes even worse. When the offices in Llandudno Junction were opened, the First Minister celebrated the relocation of jobs from Cardiff to north Wales. However, to be accurate, what we have is a history of relocating jobs within the north. Ieuan Wyn Jones, as a result of his former post as the Deputy First Minister, is aware of the questions that were asked by the leaders of the councils in north Wales some months ago.

Originally, the intention was to transfer 85 jobs from Cardiff to Llandudno Junction. Although, to be correct, only 12 jobs were moved. Moreover, 68 new jobs were created. Therefore, from the current workforce of 409, 250 jobs have been relocated from other parts of north Wales. What about the promise of 650 new jobs in north Wales when the office opened in September 2010? Now, statements are being made to the effect that the purpose of the office in Llandudno is to give the Government the opportunity to relocate within the North Wales region. I quote what the First Minister said as he opened the office in north Wales in September 2010,

Mae'r swyddfa newydd hon yn darparu cyswllt uniongyrchol â'r gymuned ac yn dangos pa mor ddifrifol yr ydym am ddod â llywodraeth yn agosach at bobl Cymru.

Fodd bynnag, mae cymryd swyddi o swyddfeydd llai, lleol, a'u canolbwyntio mewn un canolbwynt rhanbarthol yn gwneud y Llywodraeth yn hyd yn oed yn fwy pell oddi wrth bobl yn y cymunedau hynny yng ngogledd Cymru.

It must be said that the Welsh Government has a very good strategy in terms of public transport to its offices in Llandudno Junction. That is the only strategy of its kind that exists within the regional offices and there are mechanisms that enable people to use public transport to come to work in Llandudno Junction. However, what about the personal price that has to be paid when those people have to take an extra 90 minutes to get to their jobs in Llandudno from Caernarfon?

We will not be supporting amendment 1. It mentions the strategy, which says,

‘Some existing posts will relocate from Cardiff whilst others existing locally will be brought into the new offices.’

Am y rheswm hwnnw, byddwn yn gwrthod gwelliant 1. Nid yw'r strategaeth yn dangos y ffordd ymlaen i'r swyddfeidd yn Aberystwyth, Merthyr Tudful na Chyffordd Llandudno. Rhaid i'r Llywodraeth ddangos ei bod yn ymrwymedig i ddarparu swyddi ym mhob rhan o Gymru. Beth sydd ei angen yma yw adleoli swyddi, fel y dywedodd Simon Thomas—nid dim ond swyddi cyffredin, ond uwch swyddi. Mae teimad yn y gogledd fod yr uwch swyddi i gyd yn cael eu lleoli yn y de. Os ydym i fynd i'r afael â'r teimlad bod popeth yn dod i Gaerdydd, bydd yn rhaid inni ymwrthod â'r strategaeth hon.

Yr wyf yn cydweld â rhai siaradwyr o'r Blaid Lafur. Mae swyddi yn y sector gyhoeddus yn bwysig ac maent yn bwysicach byth yn ardaloedd fel Gwynedd, lle mae dros 30 y cant o swyddi yn dibynnu ar y sector gyhoeddus. Rhoddaf un ffigur arall i chi: rhaid inni gofio mai 10 y cant yn unig o swyddi Llywodraeth Cymru sy'n cael eu lleoli yn y gogledd, a hynny er bod 20.7 y cant o'r boblogaeth yn byw yna. Nid yw'r strategaeth hon yn gywir a gobeithiaf, ar 26 Gorffennaf, y bydd y Cabinet yn dangos nad yw'n fodlon gyda'r cynnig.

Rhodri Glyn Thomas: Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Credaf ei fod yn ddadl arbennig o bwysig yng nghyd-destun fy etholaeth i a'r sir y mae fy etholaeth yn rhan ohono gan fod swyddi yng Nghaerfyrddin eto dan fygythiad. Yng Nghaerfyrddin, yr ydym eisoes wedi colli swyddi o'r swyddfa budd-daliadau a'r swyddfa dreth, a mae mwy o swyddi dan fygythiad yn y swyddfa honno.

Yn ogystal â hynny, mae'r sefyllfa economaidd yn cael effaith ar swyddi profesiynol yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol. Mae Tinopolis yn Llanelli yn eithriadol o bwysig i'r diwydiant teledu a'r diwydiannau creadigol yn sir Gaerfyrddin, nid yn unig i'r economi leol ond hefyd oherwydd ei fod yn darparu swyddi ar gyfer Cymry Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, sy'n

Bydd rhai swyddi presennol yn adleoli o Gaerdydd tra bod eraill sydd eisoes yn bodoli yn lleol yn cael eu dwyn i mewn i'r swyddfeidd newydd.

For that reason, we will be rejecting amendment 1. The strategy does not show the way forward for the offices in Aberystwyth, Merthyr Tydfil or Llandudno Junction. The Government must demonstrate that it is committed to providing jobs in every part of Wales. What is needed here is the relocation of jobs, as Simon Thomas said— not just the lower grade posts, but also the senior posts. There is a feeling in north Wales that the senior posts are all located in the south. If we are to get to grips with the perception that everything comes to Cardiff, we have to reject this strategy.

I agree with some of the speakers from the Labour Party. Public sector jobs are important, and they are even more important in areas such as Gwynedd, where over 30 per cent of posts are dependent on the public sector. I have one further figure to give you: we must bear in mind that only 10 per cent of Welsh Government posts are currently located in north Wales, even though 20.7 per cent of the population live there. This strategy is not right, and I hope that, on 26 July, the Cabinet will demonstrate that it is not content with the proposal.

Rhodri Glyn Thomas: Thank you for the opportunity to take part in this debate. I believe that it is an extremely important debate in the context of my constituency and the county of which my constituency is a part as, once again, jobs in Carmarthen are under threat. In Carmarthen, we have already lost posts from the benefits office and the tax office, and now more jobs are under threat there.

In addition, the economic situation is having an effect on professional posts in Carmarthenshire in general. Tinopolis in Llanelli is extremely important to the television industry and the creative industries in Carmarthenshire, not only for the local economy, but also because it provides jobs for Welsh speakers in Carmarthenshire, which means that professional people who

golygu bod pobl profesiynol sydd am ennill eu bywoliaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu aros yn Sir Gaerfyrddin. Yr oedd gwasanaethau dwyieithog yn cael eu cynnig yn y swyddfa budd-daliadau ac yn y swyddfa dreth. Mae'r swyddi hyn yn eithriadol o bwysig i economi Sir Gaerfyrddin, ond hefyd er mwyn cynnal dwyieithrwydd yn y sir a chynnal y deinamig ieithyddol hwn.

Mae S4C wedi cyhoeddi ei weledigaeth, os 'gweledigaeth' yw'r gair cywir i ddisgrifio strategaeth sy'n sôn am ailddarlledu yn dragwyddol hen raglenni drwy'r haf a chwtdogi ar y nifer o raglenni newydd fydd yn cael eu comisiynu. Mae'r sector annibynnol wedi dweud ei fod yn derbyn ein bod mewn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd ar hyn o bryd, ac mae cwmnïau annibynnol yn y sector gynhyrchu wedi derbyn bod yn rhaid cwtogi ar eu prisiau ac yn fodlon gwneud hynny yn eu cytundebau. Fodd bynnag, am ryw reswm, mae S4C wedi penderfynu gwrthod yr awgrym hwnnw gan y cwmnïau teledu annibynnol. O ganlyniad i hynny, mae presenoldeb Tinopolis yn Llanelli dan fygythiad. Os edrychwn ar yr holl swyddi yn Sir Gaerfyrddin sydd dan fygythiad ar hyn o bryd, fel y dywedwyd gan Alun Ffred yn gynharach yn y ddadl, gwelwn y byddai colli'r swyddi yn cael effaith andwyol ar economi Sir Gaerfyrddin-i'r un radd, os nad yn waeth, na'r canlyniadau posibl yn dilyn y bygythiad i'r swyddi yn y Swyddfa Basbort yng Nghasnewydd. Mewn economi wledig fel economi Sir Gaerfyrddin, mae'r swyddi hyn yn creu sylfaen i'r economi hwnnw. Hebddynt, bydd yr economi yn cael ei heffeithio a bydd sefyllfa'r iaith Gymraeg yn cael ei niweidio.

Hyd yn oed yn fwy pwysig na hynny, bydd pobl yn teimlo na allant aros mewn cymuned fel Sir Gaerfyrddin ac, er mwyn cael bywoliaeth a gyrfa, byddant yn meddwl bod yn rhaid iddynt symud i ganolfannau eraill. Felly mae'r swyddi hyn yn eithriadol o bwysig ac maent yn rhan annatod o economi sir Gaerfyrddin. Yr wyf i, fel siaradwyr eraill y prynhawn yma, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadw ei haddewid i sicrhau parhad datganoli swyddi, ond i beidio â symud swyddi wedyn o ganolfannau fel Caerfyrddin er mwyn gwneud hynny. Mae angen i Lywodraeth Cymru roi datganiad clir a

want to earn their living through the medium of Welsh can stay in Carmarthenshire. Bilingual services were offered in the benefits office and the tax office. These posts are extremely important for the economy of Carmarthenshire, but also in order to sustain bilingualism in the county and to support that linguistic dynamic.

S4C has announced its vision, if 'vision' is the correct word to describe a strategy that involves repeating old programmes endlessly throughout the summer and reducing the number of new programmes that will be commissioned. The independent sector has said that it accepts that we are in an exceptionally difficult economic situation at present, and independent companies in the production sector have therefore accepted that they will therefore have to cut their prices, and have stated that they will do so in their contracts. However, for some reason, S4C has decided to reject that suggestion by independent television producers. As a result, the presence of Tinopolis in Llanelli is under threat. When you put together all of these jobs that are under threat in Carmarthenshire at the moment, as Alun Ffred said earlier in the debate, we see that losing those jobs would have a terrible effect on the economy of Carmarthenshire—a similar effect, if not worse, than the possible consequences of the threat to the jobs at the Passport Office in Newport. In a rural economy, like that of Carmarthenshire, these jobs create a foundation for that economy. Without them, the economy will be affected and the position of the Welsh language will be harmed.

Perhaps even more importantly, people will feel that they cannot stay in a community like Carmarthenshire and, in order to earn a living and have a career, they will feel that they have to move to other centres. Therefore, these jobs are extremely important, and are an inextricable part of the economy of Carmarthenshire. Like other speakers this afternoon, I call on the Welsh Government to keep its promise to decentralise jobs, but not then to move jobs from centres like Carmarthen in order to do that. The Welsh Government needs to make a clear statement here this afternoon, in order to ensure that

phendant inni'r prynhawn yma, er mwyn sicrhau bod y bobl sydd bellach yn teimlo bod eu swyddi a'u bywoliaeth o dan fygythiad yn cael eglurhad gan y Llywodraeth ynglŷn â'r strategaeth i'r dyfodol.

Llyr Huws Gruffydd: Dechreuaf drwy gyfeirio at adroddiad 'Cyflwr yr Ystad' a gyhoeddwyd yn 2010 gan Lywodraeth Cymru, sy'n sôn bod y swyddfeydd rhanbarthol yna i gwrdd â'r ymrwymiad i symud Llywodraeth y Cynulliad yn nes at bobl Cymru. I wireddu hynny, nid sôn yn unig a wnawn am swyddfeydd rhanbarthol mawr, er enghraifft, un swyddfa fawr yng ngogledd Cymru, ond am wreiddio presenoldeb y Llywodraeth mewn cymunedau ar draws Cymru, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n fwy hygyrch i bobl o bob rhan o Gymru, a hefyd bod y Llywodraeth yn fwy gweledol mewn cymunedau, ac felly'n fwy perthnasol i'r bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny.

Clywsom gyfeiriadau at y cyfraniad economaidd uniongyrchol pwysig sy'n dod yn sgîl lleoli swyddi a rhoi cyfleoedd gyrfa i bobl mewn rhai ardaloedd sy'n dioddef o ddiboblogi a diffyg swyddi o safon. Mae cyfeiriad wedi bod eisoes at ansawdd y swyddi hynny, ac mae Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol wedi dangos bod 90 y cant o brif swyddi'r gwasanaeth sifil yng Nghymru wedi'u lleoli yma yng Nghaerdydd o hyd. Felly, mae cwestiwn ynglŷn â datganoli swyddi o ansawdd i'r rhanbarthau hefyd.

Yr ydym yn ymwybodol o gyfraniad anuniongyrchol o safbwynt y fantais a'r gwaith i iscontractwyr a'r defnydd o fusnesau a gwasanaethau lleol. Mae Unsain wedi dangos mewn darn o ymchwil, o bob punt sy'n cael ei thalu i weithwyr sector gyhoeddus, caiff 64c eu hailgylchu mewn siopau a busnesau lleol. Mae oblygiadau amgylcheddol hefyd o ganoli swyddi, hyd yn oed ar lefel ranbarthol, o ran staff yn gorfod teithio ymhellach i'r gwaith, ac aelodau o'r cyhoedd yn teithio ymhellach i ddefnyddio gwasanaethau. Byddai'n ddiddorol gwybod beth fyddai gan y comisiynydd datblygu cynaliadwy i ddweud am y mater. Hwyrach y cawn wybod hynny mewn blwyddyn neu

those who feel that their jobs and their livelihoods are under threat receive an explanation from the Government regarding its strategy for the future.

Llyr Huws Gruffydd: I will begin by referring to the 'State of the Estate' report published in 2010 by the Welsh Government, which states that the regional offices exist to meet the commitment to move the Assembly Government closer to the people of Wales. To achieve that, it is not only a matter of talking about large regional offices, for example, one large office in north Wales, but for the Government's presence to be rooted in communities across Wales, ensuring that the Welsh Government is more accessible to people from all over Wales, and also that the Government will be more visible in communities, and therefore more relevant to the people who live in those communities.

We have heard references to the important direct economic contribution that results from relocating jobs and providing career opportunities for people in areas that are suffering from depopulation and a lack of good-quality jobs. A reference has already been made to the quality of those jobs, and the Public and Commercial Services Union has shown that 90 per cent of the main civil service jobs in Wales continue to be based here in Cardiff. Therefore, there is also the question regarding the decentralisation of good-quality jobs to the regions.

We are aware of the indirect contribution from the perspective of the advantage to and work for subcontractors and the use of local businesses and services. Unison has demonstrated in a piece of research that, of every pound that is paid to public sector workers, 64p will be recycled in local shops and businesses. There are also environmental implications in relation to the centralisation of jobs, even at a regional level, in terms of staff having to travel further to work, and members of the public having to travel further to access services. It would be interesting to know what the sustainable development commissioner would say on the matter. Perhaps we will know that in a year

ddwy.

Yr ydym yn wynebu gweld 600,000 o swyddi sector gyhoeddus yn cael eu torri gan Lywodraeth San Steffan, ac mae pobl yn y Siambr wedi beirniadu'r awgrym y dylai swyddfeydd Cyllid a Thollau EM, a'r Swyddfa Basbort yng Nghasnewydd cael eu cau. Yr un yw'r egwyddor yn fy marn i, ac mae'n bwysicach nag erioed, felly, bod y swyddi hyn yn cael eu cadw yn swyddfeydd llai y Llywodraeth.

Yr wyf am orffen drwy gyfeirio at wefan Llywodraeth Cymru, lle dywedir, yn yr adran sy'n sôn am swyddfeydd, fod Llywodraeth Cymru am drawsnewid o fod yn gorff sydd wedi'i ganoli i fod yn gorff Cymru gyfan. Byddai cau swyddfeydd rhanbarthol yn sicr yn bradychu'r dyhead hwnnw.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): This has been a useful and constructive debate that will certainly inform our considerations on these important issues in the Welsh Government. I will start by saying that the Welsh Government recognises the dedication and excellence of our public sector workforce, which is key to shaping a successful future for Wales. We also recognise the dedication that has ensured that public services to Welsh communities have not suffered, despite the most draconian cuts experienced in a generation impacting on our public services and, inevitably, their workforce. Those cuts are already leading to job losses in non-devolved organisations, such as at Newport's Passport Office, and, as Rhodri Glyn Thomas said, other offices, such as those of the HM Revenue and Customs and the Department for Work and Pensions. It is vital to remember that public sector jobs represent some 25.7 per cent of total employment in Wales. Therefore, this is not simply about the calibre of our workforce, but these jobs, as Alun Ffred Jones so clearly laid out, are fundamentally important to our economy, nationally and locally.

5.30 p.m.

or two.

We are faced with seeing 600,000 public sector jobs being cut by the Westminster Government, and people in the Chamber have criticised the suggestion that HM Revenue and Customs offices and the Passport Office in Newport should be closed. The principle is the same, in my opinion, and it is more important than ever, therefore, that these jobs are kept in the smaller offices of the Government.

I want to finish by referring to the Welsh Government's website, where it says, in the section that talks about offices, that the Welsh Government wants to transform itself from a centralised body to being an all-Wales body. The closure of regional offices is certainly a betrayal of that aspiration.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Mae hon wedi bod yn ddadl ddefnyddiol ac adeiladol a fydd yn sicr yn sail i'n hystyriaethau ar y materion pwysig hyn yn Llywodraeth Cymru. Dechreuaf drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ymroddiad a rhagoriaeth ein gweithlu yn y sector cyhoeddus, sy'n allweddol i lunio dyfodol llwyddiannus i Gymru. Rydym hefyd yn cydnabod yr ymroddiad sydd wedi sicrhau nad yw gwasanaethau cyhoeddus i gymunedau Cymru wedi dioddef, er gwaethaf y toriadau mwyaf didrugaredd a brofwyd mewn cenhedlaeth sy'n effeithio ar ein gwasanaethau cyhoeddus ac, yn anochel, eu gweithlu. Mae'r toriadau hynny eisoes yn arwain at golli swyddi mewn sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli, megis yn y Swyddfa Basbort yng Nghasnewydd, ac, fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, swyddfeydd eraill, megis rhai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n hanfodol cofio bod swyddi yn y sector cyhoeddus yn cynrychioli rhyw 25.7 y cant o gyfanswm cyflogaeth yng Nghymru. Felly, nid yw hyn, yn syml, yn ymwneud â safon ein gweithlu, ond mae'r swyddi hyn, fel y gosododd Alun Ffred Jones mor glir, yn sylfaenol bwysig i'n heconomi, yn genedlaethol ac yn lleol.

As was expressed by Mark Drakeford, the Member for Cardiff West, it is about valuing the public sector workforce and our public services, which are delivered collectively in Wales with our partners, without resorting to privatisation and costly private finance initiatives, and without dismantling our publicly provided and accountable public services. The Welsh Government's approach has been to ensure that Welsh public sector organisations are working together in collaboration and as partners, and it has committed to doing that. I include in that the trade unions and the emerging programme of work in relation to the workforce partnership council, which is chaired by the First Minister. We need that central focus with regard to Welsh public service workforce issues because organisations share so many of them, from staff welfare to workforce planning.

I was pleased to launch Adapt earlier this year, which is the new service for public sector bodies and their staff, which has a presence throughout Wales. Adapt supports displaced public servants by helping them to find new careers, including in social enterprise, thereby retaining skills and jobs for our communities. It builds on our exemplary ReAct programme for other sectors, and includes training subsidies for individuals. The Welsh Government has allocated £5 million to that scheme. That follows on from the pioneering ProAct scheme, which has been leading Wales out of the recession.

In addition, the recent memorandum of understanding between local government organisations and trade unions in Wales is a major step forward in helping to save jobs in our communities through agreeing on where we can work together in that regard.

Kirsty Williams: Minister, the First Minister announced yesterday the Government's intention to legislate with regard to sustainability, making it the Government's core organising principle. Could you explain what is sustainable about the potential closure

Fel y mynegwyd gan Mark Drakeford, yr Aelod dros Orllewin Caerdydd, mae'n ymwneud â gwerthfawrogi gweithlu'r sector cyhoeddus a'n gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd yng Nghymru gyda'n partneriaid, heb droi at breifateiddio a mentrau cyllid preifat costus, a heb ddatgymalu ein gwasanaethau cyhoeddus atebol a ddarperir yn gyhoeddus. Dull Llywodraeth Cymru fu sicrhau bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd ar y cyd ac fel partneriaid, ac y mae wedi ymrwymo i wneud hynny. Yr wyf yn cynnwys yn hynny undebau llafur a'r rhaglen waith mewn perthynas â chyngor partneriaeth y gweithlu, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog. Mae arnom angen y ffocws canolog mewn perthynas â materion gweithlu gwasanaethau cyhoeddus Cymru am fod sefydliadau yn rhannu cymaint ohonynt, o les staff i gynllunio'r gweithlu.

Roeddwn yn falch o lansio Adapt yn gynharach eleni, sef y gwasanaeth newydd ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus a'u staff, sydd â phresenoldeb ledled Cymru. Mae Adapt yn cefnogi dadleoli gweision cyhoeddus drwy eu helpu i ddod o hyd i yrfaedd newydd, gan gynnwys mewn mentrau cymdeithasol, a thrwy hynny gadw sgiliau a swyddi ar gyfer ein cymunedau. Mae'n adeiladu ar ein rhaglen ReAct rhagorol ar gyfer sectorau eraill, ac y mae'n cynnwys cymorthdaliadau hyfforddiant ar gyfer unigolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £5 miliwn at y cynllun hwnnw. Mae hynny'n dilyn ymlaen o'r cynllun ProAct arloesol, sydd wedi bod yn arwain Cymru allan o'r dirwasgiad.

Yn ogystal, mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth diweddar rhwng sefydliadau llywodraeth leol ac undebau llafur yng Nghymru yn gam mawr ymlaen o ran helpu i achub swyddi yn ein cymunedau trwy gytuno ar ble y gallwn weithio gyda'n gilydd yn y cyswllt hwnnw.

Kirsty Williams: Weinidog, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddoe fwrriad y Llywodraeth i ddeddfu mewn perthynas â chynaliadwyedd, gan ei wneud yn egwyddor drefniadol graidd y Llywodraeth. A allech egluro beth sy'n gynaliadwy am gau'r swyddfa yn

of the office in Llandrindod Wells and making those workers travel to Aberystwyth? What is sustainable about the effect of that on them and the community? Would that pass your sustainability test?

Jane Hutt: I hope that Members managed to see my written statement yesterday, which I am sure will have assured them about our commitment to retaining Welsh Government jobs in Caernarfon, Carmarthen, Newtown and Llandrindod Wells. Members know that our location strategy proposals will be discussed on 26 July at a Cabinet meeting in Llandudno Junction. Following the tabling of amendment 3 in the name of Nick Ramsay, I issued that written statement to clarify the position in respect of those offices, and to ensure that the workforce recognises our commitment to retaining those jobs in those towns. Nick Ramsay called for clarification and we recognised that this was an opportunity for us to give that reassurance before we discuss the review in a meeting of the Cabinet.

The location strategy will set out how our estate will help to support the delivery of our services and reduce the administrative burden during these challenging times. The overriding aim of the strategy is to ensure that our offices are in the right place to support the business of Government in Wales, at a cost that we can afford, and that civil servants are in the right place. I acknowledge the interchange between Alun Ffred Jones and Simon Thomas on the point about seniority in the civil service. There are competing pressures, but the need to protect and to improve our business and service delivery and the need to spread employment throughout Wales are key drivers. We are not immune to those pressures that the entire public sector in Wales and its workforce are facing.

We have worked for some years to rationalise the administrative estate during the period of the One Wales Government, as former Ministers will know, which was assisted by the delivery of the new consolidated offices in Merthyr Tydfil, Aberystwyth and Llandudno Junction. An important part of the

Llandrindod, o bosib, a gwneud i'r gweithwyr hynny deithio i Aberystwyth? Beth sy'n gynaliadwy am effaith hynny arnynt ac ar y gymuned? A fyddai hynny'n pasio eich prawf cynaliadwyedd?

Jane Hutt: Yr wyf yn gobeithio bod Aelodau wedi llwyddo i weld fy natganiad ysgrifenedig ddoe, yr wyf yn siŵr y bydd wedi rhoi sicrwydd iddynt am ein hymrwymiad i gadw swyddi Llywodraeth Cymru yng Nghaernarfon, Caerfyrddin, y Drenewydd a Llandrindod. Gŵyr Aelodau y bydd ein cynigion ar ein strategaeth lleoliad yn cael eu trafod ar 26 Gorffennaf mewn cyfarfod o'r Cabinet yng Nghyffordd Llandudno. Yn dilyn cyflwyniad gwelliant 3 yn enw Nick Ramsay, cyhoeddais y datganiad ysgrifenedig hwnnw i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r swyddfeydd hynny, ac er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn cydnabod ein hymrwymiad i gadw'r swyddi hynny yn y trefi hynny. Galwodd Nick Ramsay am eglurhad ac rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfle i ni roi'r sicrwydd hwnnw cyn i ni drafod yr adolygiad mewn cyfarfod o'r Cabinet.

Bydd y strategaeth leoli'n nodi sut y bydd ein hystâd yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau ac yn lleihau'r baich gweinyddol yn ystod y cyfnod heriol hwn. Prif nod y strategaeth yw sicrhau bod ein swyddfeydd yn y lle iawn i gefnogi busnes y Llywodraeth yng Nghymru, am gost y gallwn ei fforddio, a bod y gweision sifil yn y lle iawn. Yr wyf yn cydnabod yr ymgyfnewid rhwng Alun Ffred Jones a Simon Thomas ar y pwynt am hynafedd yn y gwasanaeth sifil. Ceir pwysau cystadleuol, ond mae'r angen i warchod a gwella ein busnes a'n darpariaeth o wasanaethau a'r angen i ledaenu cyflogaeth ledled Cymru yn ysbardunau allweddol. Nid ydym yn rhydd rhag y pwysau hynny y mae'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru a'i weithlu yn ei wynebu.

Rydym wedi gweithio am rai blynyddoedd i ad-drefnu'r ystâd weinyddol yn ystod cyfnod Llywodraeth Cymru'n Un, fel y bydd cyn-Weinidogion yn gwybod, a gafodd ei gynorthwyo gan gyflwyno'r swyddfeydd cyfunol newydd ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Rhan

decentralisation from Cardiff and of delivering that rationalisation is the fact that the Welsh Government has ensured that we have engaged the trade unions and the workforce and consulted fully. We will of course continue to do that. I will support the Welsh Conservatives' amendment, as we will of course consult—as we have done all the way through this process—on any review of staffing in relation to the work that we are doing with regard to relocation.

We continue to work with staff to encourage the best use of flexible working, such as homeworking and the wider use of all of our offices. Indeed, staff have made a great contribution on the best ways forward to ensure that we can meet their needs. We recognise the importance of sharing the economic benefits of jobs across the whole of Wales and the importance of Welsh Government jobs to local economies. It is important to say that this is not just a matter of a regional agenda; we are determined to maintain as many public service jobs as possible throughout Wales, close to partners and businesses, so that we are therefore better able to join up delivery locally. Those were points made by Aled Roberts and Elin Jones. It is important to recognise that, locally, regionally and nationally, we are committed to providing those jobs and that accessibility.

We must recognise, however, that any premises that we have in any area of Wales must offer best value for money and fulfil our business requirements. Reshaping our estate has the potential to generate savings over the life of this Welsh Government. We have achieved that and made sure that we can do that in partnership with others. On support, in terms of the current annual cost, we are putting in more than £5 million into the strategy.

In conclusion, this is an opportunity for us to ensure that the views that have been expressed in this debate help us in our decisions to ensure that, in the distribution of our services across Wales, we remain accessible, we contribute directly to local economies and we continue to provide good

bwysig o'r datganoli o Gaerdydd ac o ddarparu'r ad-drefnu yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ein bod wedi ymgysylltu â'r undebau llafur a'r gweithlu ac wedi ymgynghori'n llawn. Byddwn wrth gwrs yn parhau i wneud hynny. Byddaf yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig, gan y byddwn, wrth gwrs, yn ymgynghori—fel yr ydym wedi ei wneud drwy gydol yr holl broses—ar unrhyw adolygiad o staffio mewn perthynas â'r gwaith yr ydym yn ei wneud o ran adleoli.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r staff i annog y defnydd gorau o weithio'n hyblyg, megis gweithio gartref a'r defnydd ehangach o bob un o'n swyddfeydd. Yn wir, mae staff wedi gwneud cyfraniad mawr ar y ffyrdd gorau ymlaen i sicrhau ein bod yn gallu diwallu eu hanghenion. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhannu manteision economaidd swyddi ar draws Cymru gyfan a phwysigrwydd swyddi Llywodraeth Cymru i economïau lleol. Mae'n bwysig dweud nad yw hyn ond yn fater o agenda rhanbarthol; rydym yn benderfynol o gadw cynifer o swyddi gwasanaeth cyhoeddus â phosibl ledled Cymru, yn agos at bartneriaid a busnesau, er mwyn i ni, felly, allu cydlynu cyflenwi lleol. Gwnaed y pwyntiau hynny gan Aled Roberts ac Elin Jones. Mae'n bwysig cydnabod, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ein bod wedi ymrwymo i ddarparu'r swyddi hyn a bod hygyrchedd.

Rhaid inni gydnabod, fodd bynnag, bod yn rhaid i unrhyw fangre sydd gennym mewn unrhyw ardal o Gymru gynnig y gwerth gorau am arian a chyflawni ein gofynion busnes. Mae gan ail-lunio ein hystâd y potensial i gynhyrchu arbedion dros oes y Llywodraeth hon yng Nghymru. Rydym wedi cyflawni hynny ac wedi gwneud yn siŵr y gallwn wneud hynny mewn partneriaeth ag eraill. Ar gefnogaeth, o ran y gost flynyddol bresennol, yr ydym yn rhoi mwy na £5 miliwn i'r strategaeth.

I gloi, mae hwn yn gyfle inni sicrhau bod y safbwyntiau a fynegwyd yn y ddadl hon yn ein helpu yn ein penderfyniadau i sicrhau ein bod yn parhau, yn y dosbarthiad o'n gwasanaethau ledled Cymru, i fod yn hygyrch, ein bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at economïau lleol a'n bod yn parhau i

quality employment opportunities. We seek to save our jobs in the public sector and that is an important point. Our review of the location strategy will be geared towards delivering that objective, with our workforce and their representatives, and this debate has made a useful contribution to that.

Alun Ffred Jones: Diolch i bawb a gyfrannodd i'r ddadl. Mae llawer o bethau da iawn wedi cael eu dweud, a llawer y byddwn yn cytuno â nhw. Y gwir amdani, er hynny, yw mai'r penderfyniad ar 26 Gorffennaf a fydd yn dangos y gwir sefyllfa ac yn dangos a fydd y Llywodraeth yn diogelu'r swyddi hyn ar draws Cymru.

Gwnaeth William Powell bwynt ynglŷn â phellteroedd teithio. Mae'n bwynt pwysig, gan gymryd er enghraifft swyddi ym Mangor neu yng Nghaernarfon. Pe bai pawb sy'n gweithio yn y swyddfeydd hynny'n byw yn y trefi hynny, ni fyddai symud i Llandudno yn ddiweddd byd o bosibl, ond mae llawer o'r rheini sy'n gweithio yno yn byw yn Amlwch, yng ngogledd sir Fôn, neu ym Mhen Llŷn. Byddai nid yn unig yn anodd i deithio i Llandudno, o gofio'r sefyllfa gyda'r traffig ac ati, ond byddai hefyd yn golygu, wrth hysbysebu'r swyddi hynny yn y dyfodol, mai nid y bobl o Ben Llŷn neu Amlwch a fyddai'n ceisio amdanynt, ac felly bydd y dynamig economaidd sydd mor bwysig i lawer o gymunedau gwledig yn y sefyllfa anodd y cyfeiriodd Rhodri Glyn ati yn cael ei golli.

Rhodri Glyn Thomas: Ar y pwynt hwnnw, yr wyt wedi dangos yn glir y goblygiadau i'r bobl sy'n gweithio yn y swyddfeydd hynny, ond mae'r bobl hynny yn aml yn cynnig cyngor i bobl fel rhan o'u gwaith. Byddai'r bobl sy'n ceisio'r cyngor hwnnw yn gorfod gwneud yr un daith. Er enghraifft, mae'r swyddfa yng Nghaerfyrddin yn rhoi cyngor i amaethwyr y sir. Byddai'n rhaid i'r amaethwyr hynny wneud y daith i Aberystwyth i gael y cyngor hwnnw, a fyddai'n golygu colli darn helaeth o'u diwrnod yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r swyddfa i gael y wybodaeth honno. Gan fod y bobl yn y swyddi hynny yn byw yn eu cymunedau, mae ganddynt hefyd y wybodaeth leol sy'n eu galluogi i roi'r

ddarparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da. Rydym yn ceisio achub ein swyddi yn y sector cyhoeddus ac mae hynny'n bwynt pwysig. Bydd ein hadolygiad o'r strategaeth leoli yn cael ei anelu at gyflawni'r amcan hwnnw, gyda'n gweithlu a'u cynrychiolwyr, ac mae'r ddadl hon wedi gwneud cyfraniad defnyddiol at hynny.

Alun Ffred Jones: Thank you to everyone who has contributed to the debate. There have been some excellent contributions made and many things that I would agree with. Despite that, the truth is that it is the decision on 26 July that will tell us what the real situation is and whether the Government will safeguard these posts throughout Wales.

William Powell made a point about distances to travel. It is an important point, if we take jobs in Bangor or Caernarfon as an example. If everyone working in those offices lived in those towns, the shift to Llandudno would possibly not be the end of the world, but many of those working there live in Amlwch, in the north of Anglesey, or on the Llŷn peninsula. It will be not only difficult to travel to Llandudno, bearing in mind the traffic situation and so on, but it would also mean that when those posts were advertised in future, it is not the people living on the Llŷn peninsula or in Amlwch who would apply for them, and therefore we would lose the economic dynamic that is so important to so many rural communities in the current difficult situation to which Rhodri Glyn referred.

Rhodri Glyn Thomas: On that point, you have clearly demonstrated what the implications would be for those people working in those offices, but those people often provide advice to individuals as parts of their work. The people seeking that advice would have to make the same journey. For example, the Carmarthen office provides advice to farmers in the region. Those farmers would then have to travel to Aberystwyth for that advice, which would mean them losing a large part of their day travelling back and forth to obtain that information. As the people doing those jobs also live in those communities, they also have the local knowledge that allows them to offer that advice in a practical way.

cyngor hwnnw i bobl mewn ffordd ymarferol.

Alun Ffred Jones: Yr wyt wedi gwneud y pwynt yn well nag y gallaf i ymateb iddo ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn yr wyt ti'n ei ddweud. Yr wyf am gyfeirio at yr hyn ddywedodd Nick Ramsay ynglŷn â swyddi o ansawdd uchel. Cefais brofiad, fel y Gweinidog dros Dreftadaeth, o ddelio gydag adran a oedd wedi ei datganoli i Aberystwyth, sef CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, ac ni allaf ond dweud bod y gwasanaeth hwnnw'n gwbl effeithiol ac effeithlon. Mae'n profi ei bod yn bosibl datganoli swyddi o ansawdd heb amharu ar ansawdd y gwasanaeth. Mae hynny'n ein harwain at bwynt o wnaeth Mark Drakeford sef bod y swyddi hynny o ansawdd yn eithriadol o bwysig o ran y cyfraniad i'r economi. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'r hyn ddywedodd Mark Drakeford. Mae ef yn siŵr o fod yn deall pwysigrwydd y swyddi hynny i economïau lleol ar draws Cymru. Nid yw'n ddigon da i ganoli'r swyddi hynny mewn un neu ddwy o swyddfeydd. Maent yn bwysig yn symbolaidd, ond hefyd maent yn bwysig o ran eu cyfraniad economaidd. Yr wyf yn derbyn bod y Gweinidog, wrth ymateb, wedi bod yn hynaws iawn ac yn foneddigaidd yn ôl ei harfer. Gallwn gytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd, ond y gwir amdani yw mai'r penderfyniad hwnnw ar 26 Gorffennaf fydd yn profi beth yw gwir liw'r Llywodraeth a'i gwir agwedd tuag at y swyddfeydd rhanbarthol a'r bobl sy'n gweithio ynddynt.

Yr wyf am ddweud eto bod y newyddion bod swyddog undeb wedi cael ei wahardd o'i waith dros dro am wneud rhywbeth sy'n ymddangos i mi fel amddiffyn swyddi ei gydweithwyr yn fy llenwi â chryn dristwch. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn rhoi sylw i'r mater hwnnw yn y dyddiau nesaf.

I grynhoi, yr oedd y strategaeth fel yr oedd yn cael ei disgrifio ar y dechrau yn ymwneud â datganoli swyddi o Gaerdydd ac nid canoli swyddi mewn rhai canolfannau yn ardaloedd penodol o Gymru, er y byddai rhyw elfen o hynny'n digwydd, fel y dywedodd Elin Jones. Yr wyf yn gofyn i'r Llywodraeth i bwylo ac i ystyried o ddifrif beth fydd effaith y penderfyniad hwn ar 26 Gorffennaf. Yr wyf

Alun Ffred Jones: You have made the point far more effectively than I can respond to it and I agree entirely with what you have said. I will refer to Nick Ramsay's comments about high-quality jobs. I had the experience as Minister for Heritage of dealing with a department that had been devolved to Aberystwyth, namely CyMAL: Museums, Archives and Libraries Wales, and I can only say that that service was entirely effective and efficient. It proves that it is possible to devolve quality jobs without a detrimental effect on the quality of service. That leads us to the point that Mark Drakeford made, which was that the quality of those jobs is extremely important in terms of their contribution to the economy. I agree entirely with what Mark Drakeford said. He certainly understands the importance of those jobs to local economies across Wales. Centralising those jobs in one or two offices is not good enough. Although they are symbolically important, they also have an important contribution to make in economic terms. I accept that the Minister, in responding, was very gracious and genteel, as his/her way. We can agree with much of what she said, but the truth is that it is the decision on 26 July that will tell us what the Government's real intention is and what its attitude is towards the regional offices and the people who work in them.

I want to reiterate that the news that a union official has been suspended temporarily from work for doing something that appears to be defending the jobs of his or her colleagues fills me with sadness. I hope that the Minister will address that issue in the next few days.

To sum up, the strategy, as it was described at the outset, related to the devolution of jobs from Cardiff rather than to the centralisation of posts in certain centres in certain parts of Wales, although, as Elin Jones described, there would be some element of that. I am asking the Government to take heed and to consider the impact of this decision on 26 July. I want to use Elin Jones's words again,

am ddyfynnu Elin Jones unwaith eto, gan ei bod wedi ei ddweud mor gryno. Mae'r Prif Weinidog wedi sôn lawer gwaith am sefyll cornel Cymru. Mae'n rhaid iddo sefyll dros bob cornel o Gymru os ydyw am dderbyn cefnogaeth pawb yng Nghymru ac ar bob ochr i'r Siambr hon.

as she put it so succinctly. The First Minister has said on a number of occasions that he is to stand up for Wales. He has to stand up for every corner of Wales if he is to receive the support of everyone in Wales and from all sides of this Chamber.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, all voting on this item will be deferred to voting time.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, bydd yr holl bleidleisio ar yr eitem hon yn cael ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Busnesau Bach Small Businesses

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies, and amendment 3 in the name of Nick Ramsay. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. If amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliant 3 yn enw Nick Ramsay. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol.

Cynnig NDM4788 Peter Black

Motion NDM4788 Peter Black

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod busnesau bach yn hanfodol i adferiad economaidd Cymru ac yn chwarae rôl mewn economïau lleol ledled Cymru;

1. Notes that small businesses are essential to the Welsh economic recovery and play a role in local economies across Wales;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o ardrethi busnes er mwyn:

2. Calls on the Welsh Government to conduct a full review of business rates in order to:

a) Osgoi sefyllfa lle mae gwneud gwelliannau i eiddo yn cynyddu ei werth ac felly'n golygu bod ardreth y busnes yn uwch;

a) Avoid the scenario whereby the improvement of premises increases their value and therefore their business rate;

b) Newid y rôl y dylai awdurdodau lleol ei chwarae o ran casglu a chadw ardrethi busnes, er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol;

b) Change the role local authorities should have in collecting and retaining business rates, to address local needs;

c) Rhoi'r gorau i godiadau anferth mewn ardrethi busnes pan fo gwerthoedd yn

c) End huge rises in business rates when values increase and costs go up between

cynyddu a chostau'n codi rhwng blynyddoedd fel sydd wedi digwydd i lawer o fusnesau gwely a brecwast yn ddiweddar;

d) Ehangu'r rhyddhad ardrethi busnes i helpu mwy o gyfleusterau cymunedol fel swyddfeydd post, tafarndai, mentrau cymdeithasol a siopau annibynnol;

e) Penderfynu a fyddai Cymru'n elwa o fabwysiadu'r un trefniadau cyfrifo ardrethi busnes ag sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda Llywodraeth y DU.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i:

a) Rhewi ardrethi busnes nes caiff argymhellion yr adolygiad hwn eu rhoi ar waith;

b) Amlinellu manylion ei chynlluniau i lunio cynllun cynhwysfawr i leihau'r beichiau rheoleiddio ar fusnesau bach; a

4. Yn galw ar y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i asesu effaith ei pholisïau ar fusnesau bach yn rheolaidd.

Eluned Parrott: I move the motion.

Economic development is arguably the biggest challenge facing Wales and our response in dragging Wales out of recession is crucial. As a whole, the Welsh economy is underperforming and there are real causes for concern. To give a few examples, there is our declining gross value added rate, which is now just 74.3 per cent of the UK average; there are huge variations between different areas of Wales, with some areas of Wales almost twice as rich as others; and there is our low competitiveness compared to other parts of the UK. Our communities are intrinsically tied to the health of their local economies and, across Wales, these economies are struggling to continue as centres of business. How many of you can honestly say that you have not seen the symptoms of this decay and decline in your own constituencies and regions? There are high streets where half of the shops are empty. There are places where there is no

years as has happened to many B&Bs recently;

d) Extend business rate relief to help more community facilities such as post offices, pubs, social enterprises and independent shops;

e) Determine whether Wales would benefit from adopting the same accounting arrangements for business rates as Scotland and Northern Ireland have with the UK Government.

3. Further calls on the Welsh Government to:

a) Freeze business rates until the recommendations of this review are implemented;

b) Set out details on its plans to develop a comprehensive plan to reduce regulatory burdens on small businesses; and

4. Calls on the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to regularly assess the impact of her policies on small businesses.

Eluned Parrott: Cynigiau y cynnig.

Gellir dadlau mai'r her fwyaf sy'n wynebu Cymru yw datblygu economaidd ac y mae ein hymateb i lusgo Cymru allan o'r dirwasgiad yn hanfodol. Yn ei gyfanrwydd, mae economi Cymru yn tanberfformio a cheir achosion gwirioneddol i bryderu. I roi ychydig enghreifftiau, mae ein cyfradd gwerth ychwanegol gros, sy'n dirwyo, ac sydd bellach yn 74.3 y cant yn unig o gyfartaledd y DU; mae amrywiadau mawr rhwng gwahanol ardaloedd o Gymru, gyda rhai ardaloedd yng Nghymru bron ddwywaith mor gyfoethog ag eraill; ac mae ein gallu i gystadlu yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae ein cymunedau wedi eu clymu'n gynhenid i iechyd eu heconomiâu lleol a, ledled Cymru, mae'r economïau hyn yn ei chael yn anodd parhau fel canolfannau busnes. Faint ohonoch a all ddweud yn onest nad ydych wedi gweld y symptomau o'r pydredd a'r dirywiad hyn yn eich etholaethau a'ch rhanbarthau eich hunain? Ceir strydoedd

access to public transport and there are no jobs, and, for young people growing up in these circumstances, there is, frankly, no hope. On that point, I welcome Edwina Hart's recognition of the problem in today's debate on tourism, as that relates very directly to the situation in our seaside towns, which have seen a particular decline over the past decade or so.

Clearly, economic development policy over the past few decades has failed to deliver the results that the people of Wales so desperately need. The focus on attracting inward investment, which has been the central plank of Welsh economic policy for most of the devolution process, has not delivered. Even where jobs have been created, the profits tend to flow outside Wales, which means that enough money is not spent on spurring on Welsh-based companies to grow and succeed. A seed cannot grow in an empty pot, and where you have the kernel of a valuable and marketable business idea, you need to feed it appropriately. New entrepreneurs need networking opportunities, access to finance and the provision of effective support and advice to compete in tough economic times.

5.45 p.m.

The lack of that appropriate feed has been critical in the failure of this Government's technium facilities across Wales. An empty building is not an adequate business incubator, and it is not acceptable that the programme has lost the Government £5 million since 2001. Its purpose was to create wealth and attract investment, not suck it away from where it was really needed.

The Kauffman Foundation has established that a large percentage of new jobs created after a recession are created by new businesses, and not by businesses expanding into new places. Small businesses also have greater links with their community and are far less likely to relocate or search for

mawr lle y mae hanner y siopau yn wag. Ceir manau lle nad oes mynediad at gludiant cyhoeddus nac unrhyw swyddi, ac, ar gyfer pobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn yr amgylchiadau hyn, a dweud y gwir, nid oes gobaith. Ar y pwynt hwnnw, croesawaf gydnabyddiaeth Edwina Hart o'r broblem yn y ddadl heddiw ar dwristiaeth, gan fod hynny'n ymwneud yn uniongyrchol iawn â'r sefyllfa yn ein trefi glan môr, sydd wedi gweld gostyngiad arbennig dros y ddegawd ddiwethaf.

Mae'n amlwg bod y polisiau datblygu economaidd yn ystod y degawdau diwethaf wedi methu â chyflawni'r canlyniadau y mae ar bobl Cymru eu hangen yn daer. Nid yw'r ffocws ar ddenu buddsoddiad o'r tu allan, sydd wedi bod yn elfen ganolog o bolisi economaidd Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o'r broses ddatganoli, wedi cyflawni. Hyd yn oed lle y mae swyddi wedi eu creu, mae'r elw yn tueddu i lifo y tu allan i Gymru, sy'n golygu nad oes digon o arian yn cael ei wario ar annog cwmnïau o Gymru i dyfu a llwyddo. Ni all hedyn dyfu mewn potyn gwag, a lle y mae gennych gnewyllyn syniad busnes gwerthfawr a gwerthadwy, gnewyllyn syniad busnes gwerthfawr a gwerthadwy, mae angen i chi ei fwydo yn briodol. Mae angen cyfleoedd rhwydweithio, mynediad at gyllid a darparu cymorth a chynghor effeithiol entrepreneuriaid newydd i gystadlu mewn cyfnod economaidd anodd.

Mae diffyg llif priodol wedi bod yn allweddol o ran methiant canolfannau technium y Llywodraeth hon ledled Cymru. Nid yw adeilad gwag yn ddeorydd busnes digonol, ac nid yw'n dderbyniol bod y rhaglen wedi colli £5 miliwn i'r Llywodraeth er 2001. Ei bwrpas oedd creu cyfoeth a denu buddsoddiad ac nid eu cymryd oddi wrth y manau hynny lle'r oedd gwir angen amdanynt.

Mae Sefydliad Kauffman wedi canfod bod canran fawr o swyddi newydd a grëwyd ar ôl dirwasgiad yn cael eu creu gan fusnesau newydd, ac nid gan fusnesau sy'n ehangu i leoedd newydd. Mae gan fusnesau bach mwy o gysylltiadau â'u cymuned ac maent yn llawer llai tebygol o ail-leoli neu chwilio am

cheaper workforces elsewhere, as we have seen Bosch do in my region. However, small businesses are also more vulnerable to the financial crisis, because of the lack of funding available from the traditional banking sector.

Last year, the economic renewal programme was developed with the aim of creating a strong set of Welsh businesses. While I applaud the intentions of this programme, serious concerns were raised at the time about how it would impact on small businesses. For example, although the removal of the single investment fund, around half of which went to small businesses, has been replaced by infrastructure investment, which is useful to the business community as a whole, the benefits to small businesses are much more diffuse than they were under the previous arrangements. Secondly, the development of a sectoral approach to economic development benefits established businesses in established areas, but lacks the flexibility to allow new sectors and new niche markets to develop.

The plain fact is that if we do not support small businesses, particularly high-tech research-led businesses, we still will not see a vibrant Welsh economy. The removal of direct support for small businesses must be made up with other types of support, particularly access to funding and finance. Again, I welcome the Minister's undertaking to give the issue of a Welsh stock exchange some serious reflection. We cannot afford to allow innovative young businesses to be frozen out of Government support merely because they are not in the six chosen sectors.

This motion is not just about business rates; it is also about supporting the freedom of small companies and entrepreneurs. However, reforming business rates is a central part of that. On average, rates account for a third of a small business's expenditure. Our starting point is simple: the current regime is flawed in many ways. In the motion, we have outlined a number of problems, but I am sure that Members will have examples from across their constituencies. Likewise, I am sure that Members will have seen the recent

weithluoedd rhatach mewn mannau eraill, fel y gwelwch Bosch yn ei wneud yn fy rhanbarth. Fodd bynnag, mae busnesau bach hefyd yn fwy agored i'r argyfwng ariannol, oherwydd y diffyg cyllid o du'r sector bancio traddodiadol.

Y llynedd, datblygwyd rhaglen adnewyddu'r economi gyda'r nod o greu set gref o fusnesau Cymreig. Er fy mod yn cymeradwyo bwriadau y rhaglen hon, codwyd pryderon difrifol ar y pryd ynglŷn â sut y byddai'n effeithio ar fusnesau bach. Er enghraifft, er bod gwaredu'r gronfa fuddsoddi sengl—tua hanner a aeth i fusnesau bach—wedi cael ei ddisodli gan buddsoddi mewn seilwaith, sy'n ddefnyddiol i'r gymuned fusnes yn gyffredinol, mae'r manteision i fusnesau bach yn llawer mwy gwasgaredig nag yr oeddent o dan y trefniadau blaenorol. Yn ail, drwy ddatblygu ymagwedd sectoraidd i fuddion datblygu economaidd, sefydlwyd busnesau mewn ardaloedd sefydledig, ond nid oes yr hyblygrwydd i ganiatáu i sectorau newydd a marchnadoedd arbenigol newydd datblygu.

Y ffaith blaen yw, os nad ydym yn cefnogi busnesau bach, yn enwedig busnesau uwch-dechnoleg a arweinir gan ymchwil, ni fyddwn eto'n gweld economi ffyniannus yng Nghymru. Mae'n rhaid i fusnesau bach dderbyn mathau eraill o gymorth, yn enwedig mynediad at nawdd a chyllid, er mwyn gwneud yn iawn am y cymorth uniongyrchol a gollwyd. Unwaith eto, croesawaf ymrwymiad y Gweinidog i ystyried mater cyfnewidfa stoc Gymreig o ddifrif. Ni allwn fforddio caniatáu i fusnesau ifanc arloesol gael eu hepgor yn llwyr o gefnogaeth y Llywodraeth oherwydd nad ydynt yn y chwe sector a ddewiswyd.

Nid yw'r cynnig hwn yn ymwneud ag ardrethi busnes yn unig; mae hefyd yn ymwneud â chefnogi rhyddid cwmnïau bach ac entrepreneuriaid. Fodd bynnag, mae diwygio ardrethi busnes yn rhan ganolog o hynny. Ar gyfartaledd, mae ardrethi'n cyfrif am draean o wariant busnes bach. Mae ein man cychwyn yn syml: mae'r drefn bresennol yn ddiffygiol mewn nifer o ffyrdd. Rydym wedi amlinellu nifer o broblemau yn y cynnig, ond rwyf yn siŵr y bydd gan Aelodau enghreifftiau o bob rhan o'u

announcement in England that authorities may be allowed to keep the rates that they raise. The Welsh Government will be obliged to respond to those changes in a timely fashion if we are not to see business opportunities leech across the border into England. A comprehensive review would be the best place to start.

The status quo is stifling our local high streets, market towns and small enterprises. We cannot continue under the current system—there must be a root-and-branch review. However, while that review is undertaken we must ensure that we take responsible action to alleviate the problems facing small businesses right now, bearing in mind the need to make promises that can be paid for rather than placating the issue with uncosted spending plans. We propose that business rates should be frozen while that review is carried out.

Business regulation should also be reduced. Successive Governments have committed to reducing the burden on small businesses, but there has been little progress to date. I would like to see the Welsh Government streamline the regulation of our small businesses, and reduce their expenditure, in terms of time and money, in addressing their legal responsibilities.

I am confident that the Chamber will recognise that small businesses have a crucial role in ensuring Wales's long-term economic prosperity, in that they will create more jobs that stay in Wales for longer and that they will be the basis of the new high-tech Wales of the future. Supporting this motion will send a message to Wales's business community that we have heard its voice, and listened.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Dileu pwyntiau 2 a 3 o'r cynnig gwreiddiol a rhoi yn eu lle bwyntiau newydd 2 a 3, a nodir isod.

2. Yn cydnabod bod cynnwys y cyfrifoldeb arweiniol am bolisi ardrethi busnes o fewn

hetholaethau. Yn yr un modd, rwyf yn siŵr y bydd Aelodau wedi gweld y cyhoeddiad diweddar yn Lloegr y bydd awdurdodau efallai'n cael cadw'r ardrethi a godant. Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb i'r newidiadau hynny mewn modd amserol os ydym am osgoi gweld cyfleoedd busnes yn mynd dros y ffin i Loegr. Adolygiad cynhwysfawr fyddai'r lle gorau i ddechrau.

Mae'r status quo yn llethu ein strydoedd mawr lleol, ein trefi marchnad a'n mentrau bach. Ni allwn barhau yn y system bresennol—mae'n rhaid cael adolygiad o'r gwraidd i'r brig. Fodd bynnag, wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cymryd camau cyfrifol i liniaru'r problemau sy'n wynebu busnesau bach ar hyn o bryd, gan gadw mewn cof yr angen i wneud addewidion y gellir talu amdanynt yn hytrach na cheisio tawelu'r mater gyda chynlluniau gwariant heb eu costio. Rydym ni'n cynnig y dylai ardrethi busnes gael eu rhewi tra bod yr adolygiad hwnnw'n mynd rhagddo.

Mae angen llai o reoliadau busnes hefyd. Mae'r naill Lywodraeth ar ôl y llall wedi ymrwymo i leihau'r baich ar fusnesau bach, ond prin fu'r cynnydd hyd yn hyn. Hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn symleiddio'r rheoliadau'n ymwneud â'n busnesau bach, gan leihau eu gwariant, o ran amser ac arian, wrth fynd i'r afael â'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Rwy'n hyderus y bydd y Siambr yn cydnabod bod busnesau bach yn chwarae rhan hollbwysig o ran sicrhau ffyniant economaidd hirdymor Cymru, gan y byddant yn creu mwy o swyddi sy'n aros yng Nghymru am gyfnod hwy, ac y byddant yn sail i'r Gymru uwch-dechnolegol newydd yn y dyfodol. Bydd cefnogi'r cynnig hwn yn dangos i'r gymuned fusnes yng Nghymru ein bod ni wedi clywed ei llais, ac wedi gwrandao.

Amendment 1 Jane Hutt

Delete points 2 and 3 of the original motion and replace with new points 2 and 3, as below:

2. Acknowledges that placing lead responsibility for business rates policy in the

portffolio y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn rhoi arwydd clir ynghylch effaith bosibl ardrethi busnes ar fusnesau Cymru.

3. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu polisiau ynghylch ardrethi busnes er mwyn cyflwyno ardrethi teg a chymesur ar gyfer busnesau Cymru er mwyn bodloni amcanion economaidd a chymdeithasol y Llywodraeth.

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

Gwelliant 2 Jocelyn Davies

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o ardrethi busnes a pharhau â'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes cyfredol i fusnesau bach wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

Gwelliant 4 Jocelyn Davies

Dileu is-bwynt 3a) ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiau welliannau 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

Yr wyf yn llongyfarch yr Aelod a siaradodd yn flaenorol ar ei haraith lawn gyntaf yn y Cynulliad. Yr ydym yn ddiolchgar iawn ichi am eich cyfraniad. Nid yw'r ffaith nad wyf yn cytuno â rhai o'r pethau yr oeddech yn eu dweud yn adlewyrchiad o'r ffordd ddiwyll iawn y bu ichi gyflwyno eich dadleuon.

Cyfrifoldeb y Gweinidog yw amddiffyn y polisi ar adnewyddu'r economi, ond byddwn yn cyfeirio at ddau bwynt. Nid yw'r polisi hwnnw yn cau allan unrhyw gymorth i fusnesau bach, ac yn sicr nid yw'n cau allan unrhyw gymorth i fusnesau newydd. Felly, mae cyfleoedd i helpu busnesau bach. Yr oedd y polisi, pan y'i lluniwyd, yn derbyn bod angen inni wneud hynny. Ond, fel y dywedais, mater i'r Gweinidog bellach yw amddiffyn y polisi.

Yr wyf am gyfeirio at drethi busnes, yn

portfolio of the Business, Enterprise, Technology and Science Minister sends a clear signal about the impact that business rates can have on Welsh businesses.

3. Notes that the Welsh Government will review business rates policies to implement fair and proportionate rates for Welsh businesses to meet the Government's economic and social objectives.

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt.

Amendment 2 Jocelyn Davies

Delete point 2 and replace with:

2. Calls on the Welsh Government to conduct a full review of business rates and to continue with the current small business rate relief scheme while the review is underway.

Amendment 4 Jocelyn Davies

Delete sub point 3a) and renumber accordingly.

Ieuan Wyn Jones: I move amendments 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies.

I congratulate the Member who spoke before me on making her first full speech in the Assembly. We are very grateful to you for your contribution. The fact that I do not agree with some of the things that you said is not a reflection of the sincere way in which you presented your arguments.

It is the Minister's responsibility to defend the policy on economic renewal, but I would make two points. The policy does not exclude support for small businesses, and it certainly does not exclude support for new businesses. Therefore, there are opportunities to help small businesses. The policy, when it was drawn up, accepted that we needed to do this. However, as I said, it is now a matter for the Minister to defend the policy.

I want to refer to business rates, in particular,

benodol, gan gydnabod ar y dechrau bod y mater hwn wedi bod yn un dadleuol i fwy nag un Llywodraeth yn y lle hwn. Nid y lleiaf o'r dadleuon hynny yw lle y dylai cyfrifoldeb dros drethi busnes orwedd. Yr oedd beirniadaeth fawr gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ynglŷn â'r ffaith nad oedd cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am yr economi a thrafnidiaeth—dros y pedair blynedd diwethaf, fi gafodd y fraint o fod yn y sedd honno. Yr oeddwn, fel mae'n digwydd bod, yn cytuno â'r ddaedl mai yn adran yr economi y dylai'r cyfrifoldeb orwedd, ac yr wyf yn hynod falch, dan y trefniant newydd, mai'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fydd yn gyfrifol am drethi busnes. Mae rhai newidiadau eraill wedi'u gwneud yn yr adran na fyddwn yr un mor hapus yn eu cylch, ond mater i'w drafod ar amser arall yw hwnnw. Felly, mae trethi busnes bellach yn y lle iawn, dan gyfrifoldeb y Gweinidog iawn.

Peth arall y mae'n rhaid inni ei dderbyn yw bod lefel trethi busnes yn gallu cael effaith andwyol ar fusnesau bach yn benodol. Daeth hynny'n amlycach yn ystod y dirwasgiad. Bydd effaith hynny yn sicr i'w deimlo ar fusnesau bach am rai blynyddoedd.

Un peth a ddaeth yn amlwg i mi ystod trafferthion clwy'r traed a'r genau yn 2001 oedd pa mor fregus oedd busnesau bach gwledig. Mae rhai ohonom yn cofio bod ardal Eryri wedi'i chau am rai dyddiau yn ystod cyfnod y Pasg—cyfnod prysur iawn. Mae'n rhaid cyfaddef fy mod wedi fy synnu gymaint o effaith a gafodd cyfnod mor fyr ar fusnesau bach, bregus. Felly, mae rhywun yn dechrau dod i sylweddoli'r pwysau mae trethi busnes uchel yn eu rhoi ar fusnesau. Wrth gwrs, mae'r dirwasgiad wedi rhoi mwy o bwysau arnynt.

O edrych, felly, ar pam mae siopau bach a gwasanaethau mewn rhai ardaloedd, megis modurdai sy'n gwerthu tanwydd, tafarndai a gwestai bach, yn cau, un rheswm am hynny yw lefel uchel trethi busnes. Credaf fod gwasanaethau mewn cymunedau, boed yn gymunedau gwledig neu drefol, yn rhywbeth y dylem i gyd boeni yn eu cylch. Pan ddaeth cyfle i helpu busnesau bach gyda'r cynllun dros dro gan y Llywodraeth flaenorol, sydd

acknowledging at the outset that this issue has been controversial for more than one Assembly Government. Not least of the arguments has been where the responsibility for business rates should lie. There was a great deal of criticism from the Conservatives and the Liberal Democrats in relation to the fact that the responsibility did not lie with the Minister responsible for economy and transport—over the past four years, I had the privilege of being in that seat. I happened to agree with the argument that that responsibility should lie in the department for the economy, and I am pleased that, under the new arrangement, it is the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science that is responsible for business rates. There have been some other changes in the department that I would not be quite so happy about, but that is a matter for another time. Therefore, business rates are now in the right place, under the responsibility of the right Minister.

Another thing that we must accept is that the level of business rates can have a detrimental effect on small businesses in particular. That has become more evident during the recession. Its impact will be felt by small businesses for years to come.

One thing that became clear during the difficulties of the foot and mouth disease outbreak in 2001 was the fragility of small businesses in rural areas. Some of us remember Snowdonia being closed for several days during the Easter period—a very busy period. I must admit that I was surprised at how much of an effect such a short period had on fragile small businesses. Therefore, one begins to realise the pressure of high business rates on businesses. The recession has, of course, placed them under even greater pressure.

Looking therefore at why small shops and services in some areas, such as garages that sell fuel, public houses and small hotels, close, one reason for that is high business rates. I believe that services in communities, whether rural or urban, is an issue that should concern us all. When an opportunity came to help small businesses with the previous Government's temporary scheme, which is in place until September 2012, that was the

yn ei le tan fis Medi 2012, hwnnw oedd y ffordd iawn o ymateb—hanner busnesau bach Cymru yn talu dim trethi ac eraill yn cael help o hyd at 50 y cant hyd at werth trethiannol o £12,000.

I must confess that the current economic fall-out of financial problems that have faced the economy has had a massive impact on small businesses. Apart from the fact that they now have to work within much tighter margins, we must also accept that they have difficulty in raising working capital, in terms of finance. Most small businesses depend on an overdraft for their facilities—they cannot get access to long-term bank borrowing—and the cost has been increasing in recent years. That is why we are calling for the current system, which is a temporary system until September 2012, to continue until such time as we can have a better system in place. That is why I reject the Conservative amendment—it is an irresponsible and unaffordable policy that the Conservatives tried to promote during the election, and which was apparently to be funded from the sale of Welsh Government land. You can only sell land once—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude, please.

Ieuan Wyn Jones: The problem is that we need to ensure that this policy continues. That is why I am calling for support for my amendment and for rejection of the Conservative amendment.

Gwelliant 3 Nick Ramsay

Dileu is-bwynt 3a) a rhoi yn ei le:

Dileu'r holl ardrethi busnes ar gyfer busnesau sydd â gwerth ardrethol o £12000 neu lai a thapro ardrethi busnes ar gyfer busnesau sydd â gwerth ardrethol rhwng £12000 a £15000.

Andrew R.T. Davies: I move amendment 3 in the name of Nick Ramsay.

I welcome the opportunity to speak in this debate today, and I, too, congratulate the Member for South Wales Central on her first

correct way for us to respond—half of Wales's small businesses paying no rates and others receiving support of up to 50 per cent to a rateable value of £12,000.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef bod canlyniadau economaidd presennol y problemau ariannol sydd wedi wynebu'r economi wedi cael effaith enfawr ar fusnesau bach. Ar wahân i'r ffaith bod yn rhaid iddynt weithio o fewn ffiniau llawer tynnach erbyn hyn, mae'n rhaid i ni hefyd dderbyn eu bod yn cael anhawster wrth godi cyfalaf gweithio, o ran cyllid. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach yn dibynnu ar orddrafft—maent yn methu cael mynediad at fenthyca hirdymor gan fanciau—ac mae'r gost wedi bod yn cynyddu yn ddiweddar. Dyna pam yr ydym yn galw ar i'r system bresennol, sef system dros dro tan fis Medi 2012, barhau hyd nes y gallwn gael system well yn ei lle. Dyna pam yr wyf yn gwrthod gwelliant y Ceidwadwyr—mae'n bolisi anghyfrifol ac anfforddiadwy y ceisiodd y Ceidwadwyr ei hyrwyddo yn ystod yr etholiad, ac a oedd yn ôl pob golwg i gael ei ariannu drwy werthu tir Llywodraeth Cymru. Gallwch chi ddim ond gwerthu tir unwaith—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Ieuan Wyn Jones: Y broblem yw bod angen i ni sicrhau bod y polisi hwn yn parhau. Dyna pam yr wyf yn galw ar ichi gefnogi fy ngwelliant ac yn galw ar ichi wrthod gwelliant y Ceidwadwyr.

Amendment 4 Nick Ramsay

Delete sub point 3a) and replace with:

Abolish all business rates for businesses with a rateable value of £12000 or under and taper business rates with a rateable value of between £12000—£15000.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliant 3 yn enw Nick Ramsay.

Yr wyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw, ac yr wyf fi hefyd yn llongyfarch yr Aelod dros Ganol De Cymru

speech in Plenary. It is no mean feat to open a debate, and to do so with such eloquence, making points that were relevant to the business community across Wales. I congratulate her on her maiden speech in the Chamber.

Our amendment 3 reflects a long-standing Conservative policy. We believe that the alleviation of business rates up to £12,000 and the tapering of business rates up to £15,000 would be a substantial plank of support for businesses across Wales. Indeed, the author of this policy now sits in the higher echelons of the Chamber as Deputy Presiding Officer; when he was our business spokesman, he articulated this case forcefully. It is a long-standing Conservative policy that was costed in the budget that we presented in December. The former Deputy First Minister is quite right to point out that you can only sell something once, but this policy is only for the duration of an Assembly, and is costed.

The importance of this issue was graphically emphasised today in the Enterprise and Business Committee meeting, where we dealt with two petitions referred to us by the Petitions Committee. The petitions were about business rates in Narberth and Ceredigion, and the support that businesses in those areas are crying out for. I therefore make no apology for this amendment, and I hope that it finds support around the Chamber, because it is deliverable—there is no doubt about that—and it would have a real impact on businesses across Wales.

Obviously, this is far bigger than business rates. There are a host of issues coming together in the creation of an environment in which businesses can grow, flourish and put down roots. I welcome the Minister's comments, during the Conservative debate earlier, about the seaside towns strategy that she and Government colleagues are talking about. That is another long-standing Conservative policy that we have been promoting and articulating in the Chamber over the course of the last Assembly, and which is coming on stream in this Assembly. I welcome the Minister's positive response to such a strategy. We have many great

ar ei haraith gyntaf yn y Cyfarfod Llawn. Mae'n dipyn o gamp i agor trafodaeth, ac i wneud hynny gyda huodledd o'r fath, gan wneud pwyntiau a oedd yn berthnasol i'r gymuned fusnes ledled Cymru. Yr wyf yn ei llongyfarch ar ei haraith gyntaf yn y Siambr.

Mae ein gwelliant 3 yn adlewyrchu polisi Ceidwadol hirsefydlog. Rydym yn credu y byddai diddymu ardrethi busnes hyd at £12,000 a'u lleihau'n raddol hyd at £15,000 yn elfen bwysig o gefnogaeth i fusnesau ledled Cymru. Yn wir, mae awdur y polisi hwn yn awr yn eistedd yn un o seddi pwysicaf y Siambr fel Dirprwy Lywydd; pan oedd yn llefarydd busnes, fe wnaeth yr achos hwn yn rymus. Mae hwn yn bolisi Ceidwadol hirsefydlog a gafodd ei gostio yn y gyllideb a gyflwynwyd gennym ym mis Rhagfyr. Mae'r cyn-Ddirprwy Brif Weinidog yn hollol iawn i nodi y gallwch chi ddim ond gwerthu rhywbeth unwaith, ond dim ond ar gyfer un Cynulliad y bwriedir i'r polisi hwn barhau, a chafodd ei gostio.

Amlygwyd pwysigrwydd y mater hwn heddiw yn glir yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes, lle'r oeddem yn delio â dwy ddeiseb a gyfeiriwyd atom gan y Pwyllgor Deisebau. Roedd y deisebau'n ymwneud ag ardrethi busnes yn Arberth a Cheredigion, a'r cymorth y mae busnesau yn yr ardaloedd hynny yn crefu amdano. Felly, nid wyf yn ymddiheuro am y gwelliant hwn, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn cael cefnogaeth yn y Siambr, oherwydd mae modd rhoi hyn ar waith—nid oes amheuaeth am hynny—a byddai'n cael effaith wirioneddol ar fusnesau ledled Cymru.

Yn amlwg, mae hyn yn mynd y tu hwnt i ardrethi busnes. Mae llu o faterion yn dod at ei gilydd yn y broses o greu amgylchedd lle gall busnesau dyfu, ffynnu a bwrw gwreiddiau. Yr wyf yn croesawu sylwadau'r Gweinidog, yn ystod dadl y Ceidwadwyr yn gynharach, am y strategaeth ar gyfer trefi glan môr y mae hi a'i chydweithwyr yn y Llywodraeth yn siarad amdani. Mae hwnnw'n bolisi Ceidwadol hirsefydlog arall yr ydym wedi bod yn ei hyrwyddo a'i ddisgrifio yn y Siambr yn ystod y Cynulliad diwethaf, a chaiff ei roi ar waith yn ystod y Cynulliad hwn. Rwy'n croesawu ymateb cadarnhaol y Gweinidog i strategaeth o'r

opportunities here in Wales; it is about harnessing that ability and potential with what support can come from the Government in the centre, as well as local government, which has an important role to play.

I visited two businesses in my region last week— *[Interruption.]*

Joyce Watson: Thank you for giving way. I was surprised to hear you say that you are looking for support from local government. Is it not your policy, where you can—and as quickly as you can—to dismantle local government and all that sits within the public sector?

Andrew R.T. Davies: Given the legislative programme that your party's Government announced yesterday, including the forced amalgamation of councils via the legislative process, it is not necessarily this side of the Chamber that is dismantling local government. You have to accept that there is a role to play for local government, national Government and private business, working together to develop that atmosphere, rather than having a them-and-us mentality. I would suggest that there has been such a mentality in the public sector, which has taken the view that the private sector is 'nothing to do with us'. It is about everyone working to ensure that the environment is right for business to flourish. The use of public sector procurement contracts is a worthwhile exercise that we could look into to ensure that we can stimulate that private sector opportunity and development, thus allowing a lot of smaller businesses to access contracts. Local procurement in the food sector, for example, has regrettably diminished over the last few years, as indicated in the evidence of Cardiff University to the former Rural Development Sub-committee. It shows that the fine words spoken in this Chamber are not having an effect outside of it in action on the ground.

6.00 p.m.

I wholeheartedly endorse the sentiments that have already been expressed with regard to access to finance, which is a critical

fath. Mae gennym lawer o gyfleoedd gwych yma yng Nghymru; mae'n ymwneud â harneisio'r gallu a'r potensial ar y cyd â'r cymorth y gall y Llywodraeth ei roi yn ganolog, yn ogystal â llywodraeth leol, sydd â rôl bwysig i'w chwarae.

Ymwelais â dau fusnes yn fy rhanbarth yr wythnos diwethaf—*[Torri ar draws.]*

Joyce Watson: Diolch i chi am ildio. Yr oeddwn yn synnu wrth eich clywed yn dweud eich bod yn chwilio am gymorth gan lywodraeth leol. Onid eich polisi chi, lle bo modd—ac mor gyflym ag y gallwch—yw i ddatgymalu llywodraeth leol a phopeth arall o fewn y sector cyhoeddus?

Andrew R.T. Davies: O ystyried y rhaglen ddeddfwriaethol a gyhoeddodd Llywodraeth eich plaid chi ddoe, gan gynnwys uno cynghorau'n orfodol drwy'r broses ddeddfwriaethol, nid yr ochr hon i'r Siambr sydd o reidrwydd yn datgymalu llywodraeth leol. Mae'n rhaid i chi dderbyn bod gan lywodraeth leol, Llywodraeth genedlaethol a busnesau preifat rôl i'w chwarae, gan weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r awyrgylch hwnnw, yn hytrach na dilyn meddylfryd 'ni a nhw'. Byddwn yn awgrymu y bu meddylfryd o'r fath yn y sector cyhoeddus, sydd wedi gweld y sector preifat yn 'ddim byd i'w wneud â ni'. Mae'n ymwneud â phawb yn gweithio i sicrhau bod yr amgylchedd yn iawn er mwyn i fusnesau ffynnu. Mae'r defnydd o gontractau caffael yn y sector cyhoeddus yn ymarfer gwerth chweil y gallem edrych i mewn iddo er mwyn sicrhau y gallwn ni ysgogi'r cyfle a'r datblygiad hwnnw yn y sector preifat, gan ganiatáu i lawer o fusnesau llai gael mynediad at gontractau. Mae caffael lleol yn y sector bwyd, er enghraifft, wedi gostwng yn anffodus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y nodwyd yn nhystiolaeth Prifysgol Caerdydd i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gynt. Mae'n dangos nad yw'r geiriau teg a siaredir yn y Siambr hon yn cael effaith y tu allan iddi ar lawr gwlad.

Rwyf yn llwyr gefnogi'r teimladau sydd eisoes wedi cael eu mynegi o ran mynediad at gyllid, sydd yn elfen hanfodol ar gyfer

component for any business seeking to expand or develop a new idea. The increasing margins that banks and other finance houses are establishing to put those facilities in place are a major concern. It is imperative that the Government here and the Government in Westminster work co-operatively to ensure that the voice of small business is heard in that regard and that people can understand what needs to be done to support small businesses in Wales.

So, in moving amendment 3, I hope that it will find favour here. It has certainly found favour in the business community. What it proposes could be a very real plank of support for business across Wales.

William Powell: I would like to concentrate particularly on the plight of small and medium-sized businesses in the rural heartlands of Wales. Rural areas are often among those worst hit by the business rate rises that we have seen. In particular, I want to talk about the problems faced by those rural communities that put in effort into, and commit their own resources to, improving their local community, into redecorating and renovating local shops and creating a strong and vibrant high street. Indeed, these are issues that the Minister referred to earlier in the context of some of our seaside resorts. I am also particularly pleased to have been present this morning when the Enterprise and Business Committee decided to take forward some of the concerns that have been referred to it by the Petitions Committee, and other matters relevant to this, as part of its work stream. That is really encouraging.

However, to take the example of Narberth in my region, that town shows the damaging effect that the current business rate regime can have with regard to incentivising this sort of business improvement. Over a number of years, local businesses in Narberth, along with other parts of the community, were involved in improving the town centre and taking it forward. It is a real case study. A few years ago, it was my privilege, along with members of my local community and

unrhyw fusnes sy'n ceisio ehangu neu ddatblygu syniad newydd. Mae'r ymylon cynyddol y mae'r banciau a thai cyllid eraill yn eu sefydlu i roi'r cyfleusterau hynny ar waith yn bryder mawr. Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yma a'r Llywodraeth yn San Steffan yn gweithio'n gydweithredol er mwyn sicrhau bod llais busnesau bach yn cael ei glywed yn y cyswllt hwnnw a bod pobl yn gallu deall yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi busnesau bach yng Nghymru.

Felly, wrth symud gwelliant 3, yr wyf yn gobeithio y bydd yn dod o hyd i gefnogaeth yma. Yn sicr mae wedi dod o hyd i gefnogaeth yn y gymuned fusnes. Gallai'r hyn y mae'n ei gynnig fod yn elfen go iawn o gefnogaeth i fusnesau ledled Cymru.

William Powell: Hoffwn ganolbwyntio yn arbennig ar sefyllfa busnesau bach a chanolig eu maint yng nghadarnleoedd gwledig Cymru. Mae ardaloedd gwledig yn aml ymhlith y rhai sy'n cael eu taro waethaf gan y codiadau ardrethi busnes yr ydym wedi'u gweld. Yn benodol, yr wyf am siarad am y problemau a wynebir gan y cymunedau gwledig hynny sy'n rhoi ymdrech i mewn i, ac yn ymrwymo eu hadnoddau eu hunain i, wella eu cymuned leol, ailaddurno ac adnewyddu siopau lleol a chreu stryd fawr gref a bywiog. Yn wir, mae'r rhain yn faterion y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn gynharach yng nghyd-destun rhai o'n trefi glan môr. Rwyf hefyd yn arbennig o falch o fod wedi bod yn bresennol y bore yma pan benderfynodd y Pwyllgor Menter a Busnes i fwrw ymlaen â rhai o'r pryderon y cyfeiriwyd atynt gan y Pwyllgor Deisebau, a materion eraill sy'n berthnasol i hyn, fel rhan o'i ffrwd waith. Mae hynny'n wir yn galonogol.

Fodd bynnag, i gymryd Arberth yn fy rhanbarth i yn enghraifft, mae'r dref honno'n dangos yr effaith niweidiol y gall y gyfundrefn ardrethi busnes ar hyn o bryd gael o ran cymell y math hwn o welliant busnes. Dros nifer o flynyddoedd, yr oedd busnesau lleol yn Arberth, ynghyd â rhannau eraill o'r gymuned, yn cymryd rhan mewn gwella canol y dref ac yn mynd ag ef yn ei flaen. Mae'n astudiaeth achos go iawn. Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd yn fraint, ynghyd

the late Lord Richard Livsey of Talgarth, to be taken around Narberth by some local community leaders to see the work that they had done. In that context, I mention Joan Asby and the work that she has done, which is quite remarkable.

The effect of the 2008 revaluation of businesses was that the rateable values of many premises were increased. Thus, in 2010, the average increase in business rates was some 158 per cent. In fact, one premises had to be divided into four just to survive. Narberth is not the only example. There are many others throughout Wales. That means that there is a double disincentive for investment. It is not financially viable for businesses to invest in their own premises, and there is no incentive for local authorities to support investment and economic growth. Indeed, the Federation of Small Businesses has recognised this problem and called for

‘the Welsh Government to work with VOA to ensure that geographical areas which grow to become successful are not adversely penalised for this through the rates calculations. This is a disincentive for areas to increase the vibrancy of their high streets.’

Of course, this problem is not confined to rural Wales. However, the greater reliance of rural communities on their town centres as hubs for the wider community and, indeed, on rural tourism—which featured a great deal in the earlier debate—generate the important elements that we need to be aware of in addressing this acute problem.

I am also concerned about the regulation faced by farmers and rural businesses that choose to diversify into the food and drink industry. I believe that it is a sensible and advisable option for these businesses to take that course of diversification, but they should be encouraged to do so in order to contribute to a more sustainable agricultural sector and to boost that part of the industry. Currently, there is a plethora of restrictions on these businesses, be they the usual regulations on business, a cumbersome planning process or,

ag aelodau o fy nghymuned leol a'r diweddar Arglwydd Richard Livsey o Dalgarth, cael fy nhywys o gwmpas Arberth gan rai o arweinwyr y gymuned leol i weld y gwaith yr oeddent wedi'i wneud. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n cyfeirio at Joan Asby a'r gwaith y mae wedi'i wneud, sy'n eithaf rhyfeddol.

Effaith ailbrisiu busnesau yn 2008 oedd cynyddu gwerthoedd ardrethol llawer o safleoedd. Felly, yn 2010, cynyddwyd ardrethi busnes rhyw 158 y cant ar gyfartaledd. Yn wir, yr oedd yn rhaid i un adeilad gael ei rannu'n bedwar i oroesi. Nid Arberth yw'r unig esiampl; mae llawer o rai eraill ledled Cymru. Mae hynny'n golygu bod anghymhelliad dwbl ar gyfer buddsoddi. Nid yw'n ymarferol yn ariannol i fusnesau fuddsoddi yn eu heiddo eu hunain, ac nid oes unrhyw gymhelliant i awdurdodau lleol gefnogi buddsoddiad a thwf economaidd. Yn wir, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi cydnabod y broblem hon ac yn galw am i

Lywodraeth Cymru weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisiu i sicrhau nad yw ardaloedd daearyddol sy'n tyfu i fod yn llwyddiannus yn cael eu cosbi'n andwyol o'r herwydd drwy'r cyfrifiadau trethi. Mae hwn yn anghymhelliad i ardaloedd gynyddu llewyrch eu strydoedd mawr.

Wrth gwrs, nid yw'r broblem hon yn gyfyngedig i Gymru wledig. Fodd bynnag, mae dibyniaeth uwch cymunedau gwledig ar ganol eu trefi fel canolfannau ar gyfer y gymuned ehangach ac, yn wir, ar dwristiaeth wledig—a oedd yn amlwg iawn yn y ddadl gynharach—yn cynhyrchu'r elfennau pwysig y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt wrth fynd i'r afael â'r broblem aciwt hon.

Yr wyf hefyd yn bryderus am y rheoliadau sy'n wynebu ffermwyr a busnesau gwledig sy'n dewis arallgyfeirio i mewn i'r diwydiant bwyd a diod. Credaf ei fod yn opsiwn synhwyrol ac yn ddoeth i'r busnesau hyn arallgyfeirio yn y modd hwnnw, ond dylid eu hannog i wneud er mwyn cyfrannu at sector amaethyddol mwy cynaliadwy ac i roi hwb i'r rhan honno o'r diwydiant. Ar hyn o bryd, mae lluo o gyfyngiadau ar y busnesau hyn, boed yn y rheoliadau arferol ar fusnes, proses gynllunio feichus neu, yn wir, rhaglenni i

indeed, programmes for accessing business support. The motion calls for a detailed plan for how to reduce regulation on businesses. I would like this to explicitly include a programme on how to make it easier for farmers and rural businesses to diversify into the food and drink sector. Most farms are, by their nature, smaller businesses and they need to be agile in these difficult economic times. They are also vital to supporting the rural economy and they deserve our support.

Joyce Watson: I do not know who briefed David Cameron ahead of his address to the Chamber yesterday, but he got it very wrong when he talked about a lack of support for businesses here in Wales. For one thing, the Prime Minister claimed that the Welsh Government does not give enough support to small businesses. Clearly, he is not aware that, since 2008, our Government has funded rate relief for small businesses to a total of around £20 million a year, so that businesses across Wales save up to £7,355 on their bills—a policy that the Welsh Tories pledged to scrap at the elections in May. Compare that with the situation in England, where the UK Government charges a levy on larger businesses to fund its rate relief scheme. Thanks to the action of Welsh Labour in Government around half of businesses in Wales are not paying business rates, and around 20 per cent more will have seen their business rates significantly reduced. Therefore, I would suggest to David Cameron that his Government can learn lessons from Wales rather than the other way around.

The Prime Minister also criticised the size of the public sector in Wales. While his Government's policy is to slash public spending and cut jobs in the public sector and in the third sector, the Welsh Government is more focused on raising confidence among Welsh businesses and creating the right framework and conditions for companies to thrive in and grow. For example, just recently, the Welsh Government reopened the ProAct scheme to help companies whose businesses have been disrupted by the effects of the earthquakes in Japan. That is just one example of the proactive approach that we

gael mynediad cymorth busnes. Mae'r cynnig yn galw am gynllun manwl ar gyfer sut i leihau rheoleiddio ar fusnesau. Hoffwn i hwn gynnwys yn benodol rhaglen ar sut i'w gwneud yn haws i ffermwyr a busnesau gwledig arallgyfeirio i mewn i'r sector bwyd a diod. Mae'r rhan fwyaf o ffermydd, yn ôl eu natur, yn fusnesau llai, ac mae angen iddynt fod yn ystyth yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Maent hefyd yn hanfodol i gefnogi'r economi wledig ac maent yn haeddu ein cefnogaeth.

Joyce Watson: Nid wyf yn gwybod pwy a wnaeth briffio David Cameron cyn ei anerchiad i'r Siambr ddoe, ond roedd yn gwbl anghywir pan soniodd am ddiffyg cefnogaeth i fusnesau yma yng Nghymru. Yn un peth, honnodd y Prif Weinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o gefnogaeth i fusnesau bach. Yn amlwg, nid yw'n ymwybodol bod ein Llywodraeth ers 2008, wedi ariannu rhyddhad ardrethi i fusnesau bach am gyfanswm o oddeutu £20 miliwn y flwyddyn, fel bod busnesau ledled Cymru yn arbed hyd at £7,355 ar eu biliau—polisi yr addawodd y Torïaid Cymreig i gael gwared arno yn yr etholiadau ym mis Mai. Cymharwch hynny â'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae Llywodraeth y DU yn codi ardoll ar fusnesau mwy er mwyn ariannu ei chynllun rhyddhad ardrethi. Diolch i waith Llafur Cymru yn y Llywodraeth nid yw tua hanner y busnesau yng Nghymru yn talu ardrethi busnes, ac mae tua 20 y cant yn fwy wedi gweld eu hardrethi busnes yn gostwng yn sylweddol. Felly, byddwn yn awgrymu i David Cameron y gall ei Lywodraeth ddsygu gwersi o Gymru yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

Beirniadodd y Prif Weinidog hefyd faint y sector cyhoeddus yng Nghymru. Er mai polisi ei Lywodraeth yw torri gwariant cyhoeddus a thorri swyddi yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio mwy ar godi hyder ymysg busnesau Cymru a chreu'r fframwaith a'r amodau cywir er mwyn i gwmnïau ffynnu a thyfu. Er enghraifft, yn ddiweddar, ailagorodd Llywodraeth Cymru y cynllun ProAct i helpu cwmnïau y mae effeithiau'r daeargrynfeydd yn Japan wedi amharu arnynt. Dyna un enghraifft yn unig o'r dull gweithredu rhagweithiol yr ydym

have taken to support businesses in Wales. Yes, Wales needs to be business-friendly, but that does not mean indulging in a sterile debate about the relative sizes of the public and the private sector. Nor does it mean opening up the public and the third sector to evermore privatisation. It means the Government working with social partners and the business community to secure the fragile economic recovery.

One issue that we need to look at again—it has been discussed in the Chamber on numerous occasions—is how we can help smaller Welsh companies secure procurement contracts, especially in the construction industry. Securing value for public money is rightly and understandably the priority for local authorities and the tendering networks that they have created over the past few years have helped deliver that. However, smaller companies need support to become part of those networks. Otherwise, as we have seen, this work will, in almost every case, go to larger companies that are very often based outside Wales, at the expense of local jobs and local skills.

Peter Black: Listening to William Powell talk about Narberth, I had a sense of déjà vu relating to a debate that I took part in last week about Swansea city centre. Swansea city centre is suffering in the same way as many other retail centres—with the possible exception of Cardiff, because of the investment into St David's 2—from the economic depression and related issues. There has been a huge fall-off in trade in those centres for a number of reasons to do with out-of-town shopping centres in Swansea in particular, the growth of internet shopping, as well as a number of others around the fact that many people lack disposable income nowadays. However, among the issues that the traders raised with the council was that of rents and business rates. The council can do something about rents where it is the landlord, but not where the private sector is the landlord. However, the council cannot do anything about business rates, because they do not lie within its power. When I was first elected to

wedi'i gymryd i gefnogi busnesau yng Nghymru. Oes, mae angen i Gymru fod yn gyfeillgar i fusnes, ond nid yw hynny'n golygu ymgolli mewn dadl ddi-fudd am feintiau cymharol y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Nid yw ychwaith yn golygu gwneud y sectorau cyhoeddus a phreifat yn destun preifateiddio tragwydd. Mae'n golygu bod angen i'r Llywodraeth weithio gyda phartneriaid cymdeithasol a'r gymuned fusnes i sicrhau adferiad economaidd bregus.

Un mater y mae angen i ni edrych arno eto—mae wedi cael ei drafod yn y Siambr ar sawl achlysur—yw sut y gallwn ni helpu cwmnïau llai o Gymru i ennill contractau caffael, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu. Mae sicrhau gwerth am arian cyhoeddus yn gywir ddigon ac yn ddealladwy yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol, ac mae'r rhwydweithiau tendro y maent wedi eu creu dros y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i gyflawni hynny. Fodd bynnag, mae angen rhoi cefnogaeth i gwmnïau llai er mwyn iddynt ddod yn rhan o'r rhwydweithiau hynny. Fel arall, fel y gwelsom, bydd y gwaith hwn, ym mron pob achos, yn mynd i gwmnïau mwy o faint sydd yn aml iawn yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru, ar draul swyddi lleol a sgiliau lleol.

Peter Black: O wrando ar William Powell yn siarad am Arberth, cefais ymdeimlad o déjà vu yn ymwneud â dadl yr oeddwn wedi cymryd rhan ynndi'r wythnos diwethaf am ganol dinas Abertawe. Mae canol dinas Abertawe yn dioddef yn yr un modd â llawer o ganolfannau manwerthu eraill—ac eithrio o bosibl Caerdydd, oherwydd y buddsoddiad yng nghanolfan Dewi Sant 2—yn sgîl y dirwasgiad economaidd a materion cysylltiedig. Bu gostyngiad enfawr mewn busnes yn y canolfannau hynny am nifer o resymau yn ymwneud â chanolfannau siopa y tu allan i'r dref yn Abertawe yn benodol, twf siopa ar y rhyngwyd, yn ogystal â nifer o rai eraill yn ymwneud â'r ffaith bod llawer o bobl yn brin o incwm gwario'r dyddiau hyn. Fodd bynnag, ymhlith y materion a godwyd gan y masnachwyr gyda'r cyngor oedd rhenti ac ardrethi busnes. Lle mae'r cyngor yn landlord, gall wneud rhywbeth am renti, ond ni all wneud dim mewn achosion lle mae'r sector preifat yn landlord. Fodd bynnag, ni all y cyngor wneud unrhyw beth am ardrethi

Swansea City Council in 1984 that was not the case; at that time, the city council set the business rates, took the proceeds and applied them to its revenue in the usual way. That has all changed, and now the rates are collected by the City and County of Swansea, paid into a central pool and redistributed by formula. The level of the rate is set centrally by the Welsh Government. Therefore, although the council is doing everything that it possibly can to assist traders in the city centre, it is unable to influence one of the major costs that those traders face, despite the fact that their revenues are falling off sharply as a result of other issues. In other words, the economic conditions are such that the council should be helping those traders by reducing their rates, but it cannot do that. Therefore, there is a clear case that local authorities should have more control over those rates. I take this opportunity to ask the Minister for business to look at rateable values in Swansea and the rates that businesses are paying, because, if the council cannot do anything, the Government might be able to step in and help on that particular issue.

Mike Hedges: I agree with what Peter Black has just said. Some businessmen with shops in Swansea have said that they are paying higher rates and rents than businesses in comparable places in Cardiff. Some of them are saying that it is cheaper to be located in the new St David's centre than in the centre of Swansea. I do not know the truth of that; I do not know whether Peter Black does.

Peter Black: I do not know the truth of that either, Mike, but that was one of the points that were raised. Clearly, there is no comparison there.

Economic renewal will only occur if the whole of the public sector is working towards that goal. As economists, the Government and the economic renewal programme make clear, allowing local authorities to keep all or part of the proceeds of economic growth

busnes oherwydd nid ydynt o fewn ei bŵer. Pan gefais fy ethol gyntaf i Gyngor Dinas Abertawe ym 1984, nid oedd hynny'n wir; ar y pryd, cyngor y ddinas oedd yn gosod yr ardrethi busnes, yn cymryd derbyniadau ac yn eu cymhwyso at ei refeniw yn y ffordd arferol. Mae hynny i gyd wedi newid, ac yn awr mae'r ardrethi'n cael eu casglu gan Ddinas a Sir Abertawe, yn cael eu talu i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu yn ôl fformiwla. Mae lefel y ardreth yn cael ei gosod yn ganolog gan Lywodraeth Cymru. Felly, er bod y cyngor yn gwneud popeth y mae'n bosibl iddo'i wneud er mwyn helpu masnachwyr yng nghanol y ddinas, nid yw'n gallu dylanwadu ar un o'r prif gostau y mae'r masnachwyr hynny'n ei wynebu, er gwaethaf y ffaith bod eu refeniw yn lleihau'n gyflym o ganlyniad i faterion eraill. Mewn geiriau eraill, mae'r amodau economaidd yn golygu y dylai'r cyngor fod yn helpu'r masnachwyr hynny drwy leihau eu hardrethi, ond ni all wneud hynny. Felly, mae achos clir y dylai awdurdodau lleol gael mwy o reolaeth dros yr ardrethi hynny. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ofyn i'r Gweinidog dros fusnes i edrych ar werthoedd ardrethol yn Abertawe a'r ardrethi y mae busnesau yn eu talu, oherwydd, os na all y cyngor wneud unrhyw beth, efallai y bydd y Llywodraeth yn gallu camu i mewn a helpu ar y mater penodol hwnnw.

Mike Hedges: Cytunaf â'r hyn y mae Peter Black newydd ei ddweud. Mae rhai dynion busnes sy'n berchen ar siopau yn Abertawe wedi dweud eu bod yn talu ardrethi a rhenti uwch na busnesau mewn lleoedd tebyg yng Nghaerdydd. Mae rhai ohonynt yn dweud ei bod yn rhatach i gael eu lleoli yng nghanol canolfan newydd Dewi Sant nag yng nghanol Abertawe. Ni wn a yw hynny'n wir; ni wn a yw Peter Black yn gwybod.

Peter Black: Nid wyf yn gwybod y gwir am hynny ychwaith, Mike, ond dyna oedd un o'r pwyntiau a godwyd. Yn amlwg, nid oes cymhariaeth yno.

Bydd adnewyddu'r economi ddim ond yn digwydd os bydd y sector cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at y nod hwnnw. Fel y mae economegwyr, y Llywodraeth a rhaglen adnewyddu'r economi yn ei gwneud yn glir, byddai caniatáu i awdurdodau lleol gadw

would provide a real incentive to them to develop new businesses in their areas and offer them the flexibility to help local businesses in that regard. It is not just the Liberal Democrats who are saying that; I refer you to Gerry Holtham's second report, in which he says, in relation to business rates, namely non-domestic rates:

'Total pooling of NDR with no recognition of its source leaves councils with little financial incentive to encourage business in their area.'

That has to be a consideration and I hope that the Welsh Government will take that on board. I am sure that many local authorities are dedicated to ensuring a strong local economy, but, when push comes to shove, a financial dividend for economic growth will focus local authorities' minds and provide a quantitative analysis of which policies work and should be taken as best practice. In the past, the Welsh Liberal Democrats have raised the issue of tax increment financing. If local authorities had the power to set business rates, they could use some of that money to borrow against to regenerate areas that are in need of investment.

All in all, there is a strong case for the review of business rates as set out in the motion and, in the meantime, for freezing business rates at their current level, which would mean extending the scheme past 2012, as Plaid Cymru has set out. I support Plaid Cymru's amendment, amendment 2. However, in effect, in that amendment it has condensed the entire motion into three lines. Although brevity is sometimes a virtue, in this case, I think that a bit more detail is helpful and, for that reason, we will not vote for that amendment.

Julie James: I want to contribute briefly to the discussion, because I, too, took part in a range of meetings in Swansea city centre. We had a meeting that a large number of officials attended, along with a number of small and medium-sized enterprise traders, market

rhywfaint o'r enillion a ddaw o dwf economaidd, neu'r enillion i gyd, yn rhoi cymhelliant gwirioneddol iddynt i ddatblygu busnesau newydd yn eu hardaloedd ac yn cynnig iddynt yr hyblygrwydd i helpu busnesau lleol yn hynny o beth. Nid dim ond y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n dweud hynny; fe'ch cyfeiriaf at ail adroddiad Gerry Holtham, lle mae'n dweud, mewn perthynas ag ardrethi busnes, sef ardrethi annomestig:

Mae cyfanswm cronni NDR heb gydnabod ei ffynhonnell yn gadael cynghorau heb fawr o gymhelliant ariannol i annog busnesau yn eu hardal.

Rhaid i hynny fod yn ystyriaeth, ac rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hynny. Yr wyf yn siŵr bod llawer o awdurdodau lleol yn ymroddedig i sicrhau economi leol gref, ond, pan ddaw hi i'r pen, bydd difidend ariannol ar gyfer twf economaidd yn canolbwyntio meddyliau awdurdodau lleol ac yn darparu dadansoddiad meintiol o ba bolisiau sy'n gweithio ac y dylid eu cymryd fel arfer gorau. Yn y gorffennol, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi codi mater ariannu drwy gynyddrannau treth. Pe bai gan awdurdodau lleol y pŵer i osod ardrethi busnes, gallent ddefnyddio rhywfaint o'r arian i fentyca yn ei erbyn er mwyn adfywio ardaloedd sydd angen buddsoddiad.

At ei gilydd, mae achos cryf dros adolygu ardrethi busnes fel y nodir yn y cynnig ac, yn y cyfamser, ar gyfer rhewi ardrethi busnes ar eu lefel bresennol, a fyddai'n golygu ymestyn y cynllun y tu hwnt i 2012, fel y mae Plaid Cymru wedi gosod allan. Yr wyf yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru, gwelliant 2. Fodd bynnag, i bob pwrpas, mae'r gwelliant hwnnw wedi crynhoi'r cynnig cyfan yn dair llinell. Er bod byrder weithiau yn rhinwedd, yn yr achos hwn credaf y byddai ychydig yn fwy o fanylder yn ddefnyddiol ac, am y rheswm hwnnw, ni fyddwn yn pleidleisio dros y gwelliant hwnnw.

Julie James: Rwyf am gyfrannu'n fyr at y drafodaeth, oherwydd fy mod i hefyd yn cymryd rhan mewn ystod o gyfarfodydd yng nghanol dinas Abertawe. Cawsom gyfarfod lle'r oedd nifer fawr o swyddogion yn bresennol, ynghyd â nifer o fasnachwyr

traders and so on. One of the officials was from the valuation service, and I want to ensure that Members understand the complexity of the issues that the valuation service deals with in terms of business rates. The main complaint was that business rates are set on the basis of a five-year rolling cycle that cannot be moved, based on the assumption that property values will always go up. As we know, that has not been the case recently, and a large part of the problem results from the fact that property values have fallen, but the rates were set prior to the recent recession.

In addition, the removal of resources from the valuation service—I am not making a political point here, but, clearly, this is happening because of the removal of resources—has meant that normal appeals on business rates are taking 18 months to two years to deal with, which is a major problem for a struggling small or medium-sized enterprise, even if its appeal is successful in the end. I hope that the Minister, in considering these points, will take into account some of these complexities. I am sure that she will, but I just want Members to be aware of that additional level of complexity.

6.15 p.m.

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart): I have heard exceptionally well-made points in this afternoon's debate about the essential role that small businesses play in the economy and the issues around business rates and the impact that they have. We all agree that they are core to the economic and social fabric of Wales, because whether we go from Swansea and Mumbles, to mid Wales and then up to north Wales, we see small businesses. As a member of this Government, I certainly want to see an increase in the number of small firms being created in Wales, so that we can build a more enterprising economy. A lot of enterprise comes out of small and medium-sized enterprises, and it is therefore important that we build on their entrepreneurship skills and allow them to flourish.

mentrau bach a chanolig eu maint, masnachwyr marchnad ac yn y blaen. Roedd un o'r swyddogion o'r gwasanaeth prisio, ac rwyf am sicrhau bod Aelodau yn deall cymhlethdod y materion y mae'r gwasanaeth prisio yn delio â hwy o ran ardrethi busnes. Y prif gŵyn oedd bod ardrethi busnes yn cael eu gosod ar sail cylch treigl pum mlynedd na ellir ei symud, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd gwerth eiddo bob amser yn mynd i fyny. Fel y gwyddom, nid yw hynny wedi bod yn wir yn ddiweddar, ac mae rhan fawr o'r broblem yn codi o'r ffaith bod gwerth eiddo wedi gostwng ond bod yr ardrethi wedi eu gosod cyn y dirwasgiad diweddar.

Yn ogystal, mae cael gwared ar adnoddau o'r gwasanaeth prisio—nid wyf yn gwneud pwynt gwleidyddol yma, ond, yn amlwg, mae hyn yn digwydd oherwydd y gwaredu adnoddau—wedi golygu bod apelïadau arferol ynghylch ardrethi busnes yn cymryd 18 mis i ddwy flynedd i ddelio â hwy, sy'n broblem fawr o safbwynt menter bach neu ganolig ei maint sy'n wynebu trafferthion, hyd yn oed os yw ei apêl yn llwyddiannus yn y diwedd. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ystyried y pwyntiau hyn, yn cymryd rhai o'r cymhlethdodau hyn i ystyriaeth. Rwy'n siŵr y bydd hi, ond rwyf am i Aelodau wybod am y cymhlethdod ychwanegol hwnnw.

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Rwyf wedi clywed rhai pwyntiau rhagorol yn nadl y prynhawn yma am y rôl hanfodol y mae busnesau bach yn ei chwarae yn yr economi a'r materion o ran ardrethi busnes a'r effaith a gânt. Rydym oll yn cytuno eu bod yn greiddiol i ffabrig economaidd a chymdeithasol Cymru, achos pa un a ydym yn mynd o Abertawe a'r Mwmbwls, i'r canolbarth ac wedyn i fyny i'r gogledd, rydym yn gweld busnesau bach. Fel aelod o'r Llywodraeth hon, rwy'n sicr am weld cynnydd yn nifer y busnesau bach sy'n cael eu creu yng Nghymru, fel y gallwn ddatblygu economi fwy mentrus. Mae llawer o fentergarwch yn deillio o fentrau bach a chanolig eu maint, ac mae'n bwysig felly ein bod yn datblygu ein sgiliau entrepreneuriaeth a'u galluogi i ffynnu.

In recent weeks, I have had some exceptionally honest discussions with representatives of businesses, including small businesses—individually and collectively—as part of the council for economic renewal. Some meetings have seemed a little bit like the Tower of Babel with regard to the views expressed, but it has been important for me to meet business owners to get an idea about their worries and concerns. They told me in particular about the issues affecting their businesses and about their aspirations to grow. They obviously raised the issue of borrowing money, which they are finding difficult. The days when the bank manager took a risk on you 25 years ago and said, ‘I know your family and I know what you’re doing, so I trust you to have the money’ are long gone, and they therefore find this a difficult environment. We are exploring further what use can be made of small loans from the credit union movement for micro-businesses. That would mean that businesses would not have to go to the bank, but can use the credit unions, who know them from their communities and with whom those businesses already save.

Andrew R.T. Davies: The issues around finance are critical. There was a seminar here two weeks ago at which Barclays indicated that it is lending at record levels. Does the Welsh Government have any figures on the issue of finance to Welsh companies? If you do, are you able to share them with Members?

Edwina Hart: I will discuss with my officials what figures we readily have available and will share any appropriate figures with you.

Another issue raised was planning, which is a matter that I have already discussed with the Minister concerned. Planning issues affect not just retail, but also farm businesses in particular, in respect of what they need to do to diversify and to maximise what they can do with regard to renewable energy, for example hydroelectric power. Therefore, there are issues that are already under discussion.

Yn yr wythnosau diwethaf, cefais drafodaethau hynod o onest gyda chynrychiolwyr busnes, gan gynnwys busnesau bach—yn unigol ac ar y cyd—fel rhan o gyngor adnewyddu’r economi. Mae ambell gyfarfod wedi bod ychydig bach fel Tŵr Babel o ran y safbwyntiau a fynegwyd, ond bu’n bwysig i mi i gwrdd â pherchnogion busnes er mwyn cael syniad am eu pryderon. Dywedont wrthyf yn benodol am y materion sy’n effeithio ar eu busnesau a’u dyheadau i dyfu. Yn amlwg, gwnaethant sôn am fenthg arian, sy’n rhywbeth y maent yn ei gael yn anodd. Mae’r dyddiau pan oedd y rheolwr banc yn fodlon mentro arnoch chi 25 mlynedd yn ôl gan ddweud ‘Rwy’n nabod eich teulu ac rwy’n gwybod beth rydych yn ei wneud, felly rwy’n ymddiried yn och chi i gael yr arian’ wedi hen fynd, ac felly mae hwn yn amgylchedd anodd iddynt. Rydym yn edrych ymhellach i weld pa ddefnydd y gellid ei wneud o fenthyciadau bach gan fudiad yr undebau credyd ar gyfer microfusnesau. Golyga hynny na fyddai’n rhaid i fusnesau fynd at y banc ac y gallent ddefnyddio’r undebau credyd, sy’n eu hadnabod o’u cymunedau gan eu bod eisoes yn cynilo arian gyda hwy.

Andrew R.T. Davies: Mae’r materion yn ymwneud â chyllid yn allweddol. Roedd seminar yma bythefnos yn ôl lle dywedodd Barclays ei fod yn benthg mwy nag erioed. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ffigurau ar faint o gyllid a roddir i gwmnïau o Gymru? Os felly, a ydych yn gallu eu rhannu gydag Aelodau?

Edwina Hart: Byddaf yn trafod gyda fy swyddogion pa ffigurau sydd yn barod gennym ac yn rhannu unrhyw ffigurau priodol gyda chi.

Mater arall a godwyd oedd cynllunio, sy’n rhywbeth yr wyf wedi ei drafod yn barod gyda’r Gweinidog perthnasol. Mae materion cynllunio yn effeithio ar fanwerthu yn ogystal ag ar fusnesau fferm yn benodol, o ran beth maent angen ei wneud i arallgyfeirio a manteisio i’r eithaf ar beth y gallant ei wneud o ran ynni adnewyddadwy, er enghraifft pŵer hydrodrydanol. Felly, mae materion penodol eisoes yn cael eu trafod.

I plan to review the support needed by start-up businesses and small firms, and in particular micro-businesses, and I will be developing a specific micro-business strategy, which is important. Many of the firms that I have spoken to have five or fewer employees and therefore regard themselves as significantly different to some of the small enterprises that have between 14 and 50 employees. Therefore, they recognise that they might have specific needs.

Our aim must be to improve the conditions in which all businesses operate, and Andrew R.T. Davies and others rightly raised a procurement issue. We are trying to do our best with regard to procurement, however it sometimes does not work out with regard to local supply chains and how we can deal with issues. I have indicated to business that this is one area that I intend to look at to ensure that we maximise the potential for local firms.

We need to put in place the right foundations for business, such as infrastructure and skills development, as well as improving business conditions, which includes the business rate issue. In your opening speech to us, Eluned, you indicated that techniums had been an issue. However, there has been some real success with the techniums in Swansea and St Asaph, and the previous Deputy First Minister successfully dealt with the issues around techniums. Therefore, we are on a far more even keel and understand what we should have done and what we should not have done in that area.

On the Government amendment, I have agreed that we will review business rate policy to implement fair and proportionate rates for Welsh businesses to meet economic and social objectives. I will monitor business rate policy in Wales to ensure that they complement our overall economic and social policies. When I was given responsibility for this portfolio, I was pleased to have the responsibility for business rate policy, and I want to send a clear message to the business community that we recognise the impact that business rates have on Welsh business.

Rwy'n bwriadu adolygu'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau sydd newydd gychwyn a busnesau bach, ac yn enwedig microfusnesau, a byddaf yn datblygu strategaeth microfusnes benodol, sy'n bwysig. Mae gan lawer o'r cwmnïau y siaradais â hwy bump neu lai o weithwyr, ac felly maent yn ystyried bod gwahaniaeth sylweddol rhyngddynt hwy â rhai o'r mentrau bach y mae ganddynt rhwng 14 a 50 o weithwyr. Maent felly yn cydnabod y gallai fod ganddynt anghenion penodol.

Mae'n rhaid i ni gael y nod o wella'r amodau y mae pob busnes yn gweithredu ynddynt, ac mae Andrew R.T. Davies ac eraill wedi nodi'n gywir fod problem gyda chaffael. Rydym yn ceisio gwneud ein gorau o ran caffael, ond nid yw'n gweithio bob amser o ran cadwyni cyflenwi lleol a sut rydym yn ymdrin â phroblemau. Rwyf wedi dweud wrth fusnesau fod hwn yn faes rwy'n bwriadu edrych arno i sicrhau bod cwmnïau lleol yn manteisio i'r eithaf arno.

Mae angen i ni osod y seiliau cywir ar gyfer busnes, gan gynnwys seilwaith a datblygu sgiliau, yn ogystal â gwella amodau busnes, sy'n cynnwys arderthi busnes. Yn eich araith agoriadol i ni, Eluned, dywedoch fod y canolfannau technium wedi bod yn broblem. Fodd bynnag, cafwyd llwyddiant go iawn gyda'r rhain yn Abertawe a Llanelwy, ac fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog blaenorol ymdrin yn llwyddiannus â'r problemau o ran y canolfannau hyn. Felly, rydym ar dir llawer mwy cadarn ac yn deall beth ddylem fod wedi ei wneud a beth na ddylem fod wedi ei wneud yn y maes hwnnw.

O ran gwelliant y Llywodraeth, rwyf wedi cytuno y byddwn yn adolygu'r polisi ar ardrethi busnes er mwyn gweithredu ardrethi teg a chymesur i fusnesau Cymru er mwyn iddynt gwrdd ag amcanion economaidd a chymdeithasol. Byddaf yn monitro polisi ardrethi busnes yng Nghymru i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n polisiâu economaidd a chymdeithasol cyffredinol. Pan gefais y cyfrifoldeb am y portffolio hwn, roeddwn yn falch o gael y cyfrifoldeb am bolisi ardrethi busnes, ac rwyf eisiau anfon neges glir i'r gymuned fusnes ein bod yn cydnabod yr effaith y mae ardrethi busnes yn ei chael ar fusnes yng Nghymru.

We have taken a number of positive steps, and Ieuan Wyn Jones, the leader of Plaid Cymru, has outlined those. Since 2008, we have provided £20 million of funding for rate relief for small businesses. That compares favourably with the UK Government, which does not fund a small business rate relief scheme. Its scheme is funded by a levy on larger businesses. In 2008, we raised the threshold for rate relief and provided additional, targeted relief for post offices, small retailers, child carers, pubs and petrol stations. That really did help, particularly in the rural economy, in areas of social deprivation and in remote areas. Rate relief for small businesses was enhanced in October 2010 so that around half of small businesses now pay no rates, and a further 20 per cent have had their rate bills reduced. Those are significant actions, and it is important to recognise that they have been undertaken. We need to consider what the future holds and the costs and consequences of any further action that we take. We need to be very careful in that respect. Under our funding agreement with the Treasury, any relief scheme or other measure that is taken by Wales but that the Treasury does not fund in England has to be paid for by the Welsh Government. When we look at the financial settlement and the need to provide core public services, we have to look carefully at how we spend our money. The only way to increase rate relief for small businesses in Wales in the short term would be for the UK Government to fund relief for small businesses, or for us to find additional funding. Therefore, we need to look at this matter carefully, and I am happy to do so.

All policies have an impact on business, and some have a particular impact on small businesses. Therefore, it is important that we consider the policy agenda and the issues carefully. We are committed to consulting businesses and other social partners on things such as regulatory impact assessments. Good points have been made about regulation, but some of the regulations that worry small businesses, who raise issues relating to health and safety and employment law, for example, are not under our control. Those are matters

Rydym wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol, ac mae Ieuan Wyn Jones, arweinydd Plaid Cymru, wedi amlinellu'r rheini. Ers 2008, rydym wedi darparu £20 miliwn o gyllid ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae hynny'n cymharu'n ffafriol â Llywodraeth y DU, nad yw'n cyllido cynllun rhyddhad ardrethi busnes i fusnesau bach. Mae ei chynllun yn cael ei gyllido drwy ardoll ar fusnesau mwy. Yn 2008, gwnaethom godi'r trothwy ar gyfer rhyddhad ardrethi a darparu rhyddhad ychwanegol wedi ei dargedu i swyddfeydd post, manwerthwyr bach, gofalgwyr plant, tafarndai a gorsafoedd petrol. Ehangwyd rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ym mis Hydref 2010 fel nad yw tua hanner busnesau bach bellach yn talu unrhyw ardrethi, ac mae 20 y cant pellach wedi gweld gostyngiad yn eu biliau ardrethi. Mae'r rheini yn gamau sylweddol, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod eu bod wedi cael eu cymryd. Mae angen i ni ystyried beth a ddaw yn y dyfodol a chostau a goblygiadau unrhyw gamau pellach y gwnawn eu cymryd. Mae angen i ni fod yn ofalus iawn yn hynny o beth. Yn ôl ein cytundeb cyllido gyda'r Trysorlys, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru dalu am unrhyw gynllun rhyddhad neu fesur arall a gymerir gan Gymru ond nad yw'r Trysorlys yn ei gyllido yn Lloegr. Pan edrychwn ar y setliad ariannol a'r angen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus craidd, mae'n rhaid inni edrych yn ofalus ar sut y gwariwn ein harian. Yr unig ffordd i gynyddu rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru yn y tymor byr fyddai i Lywodraeth y DU gyllido rhyddhad i fusnesau bach, neu i ni ganfod cyllid ychwanegol. Felly, mae angen i ni edrych ar y mater hwn yn ofalus, ac rwy'n hapus i wneud hynny.

Mae bob polisi yn cael effaith ar fusnes, ac mae rhai yn cael effaith arbennig ar fusnesau bach. Mae'n bwysig felly ein bod yn ystyried yr agenda polisi a'r materion yn ofalus. Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori â busnesau a phartneriaid cymdeithasol eraill ar bethau fel asesiadau effaith rheoleiddiol. Gwnaed pwyntiau da am reoleiddio, ond nid yw rhai o'r rheoliadau sy'n destun pryder i fusnesau bach, sy'n codi materion am iechyd a diogelwch a chyfraith cyflogaeth, er enghraifft, o dan ein rheolaeth ni. Nid yw'r

that I cannot deal with; in the context of the debate, I will refer to what I am able to deal with.

I turn now to the amendments. The Conservatives' amendment 3, which calls for the abolition of rates for businesses that have a rateable value of up to £12,000, is not tenable. It may sound attractive, but it has not been costed. It is likely to cost tens of millions of pounds every year. It is not affordable or advisable, and has not been subject to a proper impact appraisal or value-for-money assessment. Anyone who knows anything about the economy and how the world works knows that. I am exceptionally sympathetic to Plaid Cymru's reasons for calling for a review of business rates, and the Government's amendment 1 goes in the same direction of travel. The enhanced rate relief scheme has been extended to 2012. It is too early to commit to extend it further, but I can undertake a review within that timescale. The Welsh Government recognises the importance of business rate relief and the pressure on small businesses. We must look at what we can do, and I intend to do so. However, we should not limit the outcomes with pre-emptive and uncoded proposals whose impact has not been properly assessed.

Kirsty Williams: I thank colleagues for their contribution to the debate, which has been good-natured and which demonstrates the commitment of Members across the Chamber to the importance of small businesses in Wales as a key driver in transforming the Welsh economy. Ieuan Wyn Jones, in moving Plaid Cymru's amendments 2 and 4, was predictable in his defence of the Government's current policy. However, like him, I welcome the moves to transfer responsibility for business rates to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Skills. That is appropriate and long overdue.

Andrew R.T. Davies was predictable in promoting the policy of business rate relief on behalf of the Conservatives. He was equally predictable in his inability to demonstrate how it could be paid for.

rheini yn faterion y gallaf ddelio â nhw; yng nghyd-destun y ddadl, fe gyfeiriai at yr hyn rwy'n gallu ddelio ag o.

Trof yn awr at y gwelliannau. Nid yw gwelliant 3 gan y Ceidwadwyr, sy'n galw am ddiddymu ardrethi i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, yn gynaliadwy. Efallai ei fod yn swnio'n ddeniadol, ond nid yw wedi ei gostio. Mae'n debyg o gostio degau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn. Nid yw'n fforddiadwy nac yn ddoeth, ac nid yw wedi bod yn destun i werthusiad effaith priodol nag asesiad gwerth-am-arian. Bydd unrhyw un sy'n gwybod unrhyw beth am yr economi a sut mae'r byd yn gweithio yn gwybod hynny. Mae gen i gydymdeimlad dwys at resymau Plaid Cymru dros alw am adolygiad o gyfraddau busnes, ac mae gwelliant 1 gan y Llywodraeth yn dilyn yr un trywydd. Cafodd y cynllun rhyddhad ardrethi busnes sydd wedi ei ehangu ei ymestyn tan 2012. Mae'n rhy fuan i ymrwymo i'w ehangu ymhellach, ond rwy'n addo cynnal adolygiad o fewn yr amser hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw rhyddhad ardrethi busnes a'r pwysau ar fusnesau bach. Rhaid inni edrych ar beth y gallwn ei wneud, ac rwy'n bwriadu gwneud hynny. Fodd bynnag, ni ddylem gyfyngu ar y canlyniadau gyda chynigion rhagfeddiannol sydd heb ei costio ac nad yw eu heffaith wedi cael ei hasesu yn briodol.

Kirsty Williams: Diolch i gydweithwyr am eu cyfraniad i'r ddadl, sydd wedi bod yn hwyliog ac sy'n dangos ymrwymiad Aelodau ar draws y Siambr i bwysigrwydd busnesau bach yng Nghymru fel elfen allweddol i drawsnewid economi Cymru. Roedd Ieuan Wyn Jones, wrth gyflwyno gwelliannau 2 a 4 gan Plaid Cymru, yn ôl y disgwyl yn amddiffyn polisi presennol y Llywodraeth. Fodd bynnag, yn debyg i yntau, rwy'n croesawu'r symudiadau i drosglwyddo cyfrifoldeb am ardrethi busnes i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Sgiliau. Mae hynny'n briodol ac yn hir-ddisgwyliedig.

Yn ôl y disgwyl, roedd Andrew R.T. Davies yn hybu'r polisi rhyddhad ardrethi busnes ar ran y Ceidwadwyr. Yn ôl y disgwyl hefyd, nid oedd yn gallu dangos sut y gellid talu amdano.

Andrew R.T. Davies: It is easy to say that, but we provided a budget last December. This is a long-standing Conservative policy. [*Interruption.*] I can hear collective indignation from the right. I have not heard any good alternatives from your good selves.

Kirsty Williams: It is my recollection that the Conservatives failed to table any amendments to the Government's budget motion last year. I suggest that, if one was truly serious about the ability to deliver on this policy, that would have been the perfect opportunity to express that. As for our proposals, we have tabled the motion before us, and the £39 million that it would cost to freeze business rates for a year is affordable, even under the current difficult circumstances. However, I agree with your comments about procurement—comments that were echoed by Joyce Watson.

It was pleasing to hear the trio of pleas on behalf of Swansea this afternoon, from Peter Black, Julie James and Mike Hedges. I spent a great deal of my childhood, and most of my Saturday afternoons, with my grandma in Swansea town centre. The last stop of the day, before we caught the bus home to Blaen-y-Maes, was to the market, where she would buy an ox heart at the butcher's for her supper, half a pound of Brazil nut toffee for herself and half a pound of sweets for me— [*Interruption.*]

Jocelyn Davies: She told you it was half a pound, I am sure.

Kirsty Williams: You can get a lot of wine gums in half a pound. [*Laughter.*] Maybe it was a quarter; I may have exaggerated.

It has been depressing in recent years to see Swansea city centre struggle. If ever there was a city that needed the policies that we are proposing for regeneration, it is Swansea, which is deserving of that attention and level of support.

In her contribution, Edwina recognised the important role that small businesses play, and the importance of business rates to the

Andrew R.T. Davies: Mae'n hawdd dweud hynny, ond gwnaethom ddarparu cyllideb fis Rhagfyr diwethaf. Mae hwn yn bolisi hirsefydlog gan y Ceidwadwyr. [*Torri ar draws.*] Clywaf fonllef o ddicter o'r dde. Ni chlywais unrhyw gynigion amgen da gennych chi.

Kirsty Williams: Fy nghof i yw na wnaeth y Ceidwadwyr gyflwyno unrhyw welliannau i gynig cyllideb y Llywodraeth y llynedd. Os oeddech chi wir o ddifri am y gallu i gyflawni'r polisi hwn, rwy'n awgrymu y byddai hwnnw wedi bod yn gyfle delfrydol i fynegi hynny. O ran ein cynigion, rydym wedi cynnig y cynnig sydd ger ein bron, ac mae'r £39 miliwn y byddai'n ei gostio i rewi ardrethi busnes am flwyddyn yn fforddiadwy, hyd yn oed yn yr amgylchiadau anodd presennol. Fodd bynnag, rwy'n cytuno gyda'ch sylwadau am gaffael—sylwadau a adleisiwyd gan Joyce Watson.

Roedd yn bleser clywed y gri gan y triawd ar ran Abertawe y prynhawn yma, gan Peter Black, Julie James a Mike Hedges. Treuliais lawer iawn o fy mhlethndod, a'r rhan fwyaf o fy mhrynhawniau Sadwrn, gyda fy nain yng nghanol dinas Abertawe. Stop olaf y dydd, cyn i ni ddal y bws adref i Flaen-y-Maes, oedd y farchnad, lle byddai'n prynu calon ychen yn y cigydd at ei swper, hanner pwys o daffi cnau Brasil i hi ei hun a hanner pwys o fferins i mi— [*Torri ar draws.*]

Jocelyn Davies: Rwy'n siŵr iddi ddweud wrthych chi mai hanner pwys oedd o.

Kirsty Williams: Mi allwch chi gael llawer o *wine gums* mewn hanner pwys. [*Chwerthin.*] Efallai mai chwarter oedd o; efallai fy mod i wedi gor-ddweud.

Bu'n brofiad diflas yn ystod y blynyddoedd diwethaf i weld canol dinas Abertawe yn cael trafferthion. Os bu erioed ddinas oedd angen y polisiau adfywio rydym yn eu cynnig, Abertawe yw honno, ac mae'n haeddu'r sylw hwnnw a'r lefel honno o gefnogaeth.

Yn ei chyfraniad, cydnabu Edwina y rôl bwysig y mae busnesau bach yn ei chwarae, a pha mor bwysig yw ardrethi busnes i

success of those small businesses. It is not just a case of business rates being too high for too many; no business enjoys paying taxation at any level, but business rates are often too high, and the way in which they are set is unfair. Rates can be unpredictable for certain businesses—you need only speak to those in the hospitality sector, who saw massive increases in their business rates at the most recent evaluation. They can be a disincentive to investing in a business, as not only do you have to raise the capital, which we have heard is difficult enough, to actually pay for the improvements to your building, you also have to factor in the ongoing revenue costs of the business rates. They can be a disincentive to improving your business and they can undermine the maintenance of vital services in some of our most deprived and rural communities. While we acknowledge that a significant amount of time and resource have gone into the current rate relief scheme, it is right to freeze business rates for a year and carry out a comprehensive review to establish whether the regime is the optimum for supporting businesses during this time.

Another aspect of the motion before us concerns business regulation. Again, the Minister is quite right—many legal duties have been placed on businesses over which the National Assembly can have little or no influence. However, there are very many that we can influence. Much of the primary legislation that we introduced for the first time in the last Assembly had an impact on business. Each piece of legislation on its own seemed perfectly reasonable, but it is the cumulative effect that can deal a hammer blow to business. One regulation can be perfectly reasonable, but what if that follows another 12 pieces of legislation introduced by the Government over the previous 12 months? I believe that the regulatory impact assessments that accompanied legislation have often been lacking in detail, and they have not truly reflected the costs and impact on business. Why is that? It is because much of the legislation left the detail to future regulations, which meant that the regulatory impact at that particular stage was nigh on impossible to understand until future regulations came out. This Government

lwyddiant y busnesau bach hynny. Nid mater yw hi o ardrethi busnes yn rhy uchel i ormod o bobl; nid oes unrhyw fusnes yn mwynhau talu trethi ar unrhyw lefel, ond mae ardrethi busnes yn aml yn rhy uchel, ac mae'r ffordd y cânt eu gosod yn annheg. Mae ardrethi yn gallu bod yn anrhagweladwy i rai busnesau—nid oes ond rhaid ichi ofyn i'r rheini yn y sector lletygarwch, a welodd gynnydd anferth yn eu hardrethi busnes yn dilyn y gwerthusiad diweddaraf. Maent yn gallu bod yn anghymhelliad i fuddsoddi mewn busnes, oherwydd nid yn unig mae'n rhaid ichi godi'r cyfalaf, sydd fel y clywsom yn ddigon anodd, i dalu am wneud gwelliannau i'ch adeilad, ond rhaid i chi hefyd gynnwys costau referniw parhaus yr ardrethi busnes. Maent yn gallu bod yn anghymhelliad i wella eich busnes ac maent yn gallu tanseilio'r gwaith o gynnal gwasanaethau allweddol yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a gwledig. Er ein bod yn cydnabod bod amser ac adnoddau sylweddol wedi eu hymroi i'r cynllun rhyddhad ardrethi presennol, mae'n iawn i rewi ardrethi busnes am flwyddyn a chynnal adolygiad trwyadl er mwyn gweld ai dyma yw'r drefn orau i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae agwedd arall ar y cynnig ger ein bron yn ymwneud â rheoleiddio busnes. Unwaith eto, mae'r Gweinidog yn hollol iawn bod llawer o ddyletswyddau cyfreithiol wedi eu gosod ar fusnesau nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol lawer o ddylanwad drostynt, os o gwbl. Cafodd llawer o'r ddeddfwriaeth gynradd y gwnaethom ei chyflwyno am y tro cyntaf yn y Cynulliad diwethaf effaith ar fusnes. Roedd yn edrych fel pe bai pob darn o ddeddfwriaeth ynddo'i hun yn ddigon rhesymol, ond yr effaith gronol sy'n gallu cael ergyd drom ar fusnesau. Mae un rheoliad yn gallu bod yn ddigon rhesymol, ond beth os yw hynny'n dilyn 12 darn o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan y Llywodraeth dros y 12 mis blaenorol? Credaf fod diffyg manylder yn aml wedi bod yn yr asesiadau effaith rheoliadol a ddaeth yn sgîl deddfwriaeth, ac nid ydynt wedi adlewyrchu y gwir gostau a'r effaith ar fusnes. Pam hynny? Achos roedd llawer o'r ddeddfwriaeth yn gadael y manylion i reoliadau yn y dyfodol, a oedd yn golygu bod yr effaith reoliadol ar yr adeg honno fwy neu lai yn amhosibl i'w deall hyd nes bod

should be looking at a one-in, one-out policy for business regulation and the appropriate use of sunset clauses, so that, when a regulation is introduced, it will automatically fall at a certain date so that we can evaluate whether the regulation has been of use and has delivered on the basis that it was set out.

I am grateful that we have managed to reach some kind of consensus today, in as much as we will have a review of business rates. I hope that the suggestions and the anomalies that we have identified in this afternoon's debate will be looked at as part of that review, with a commitment from the Government that it will be sensitive to the needs of business, and small businesses in particular, when developing policy and legislation in the months to come.

6.30 p.m.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time. It has been agreed that voting time will take place after the last item of business. We have now reached that point. Before proceeding to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4789: O blaid 14, Ymatal 1, Yn erbyn 37.
Motion NDM4789: For 14, Abstain 1, Against 37.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Parrott, Eluned
Powell, William

rheoliadau yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi. Dylai'r Llywodraeth hon fod yn edrych ar bolisi un-mewn, un-allan ar gyfer rheoleiddio busnes, a defnyddio cymalau machlud yn briodol, felly pan gaiff rheoliad ei gyflwyno, bydd yn digwydd yn awtomatig ar ddyddiad penodol fel y gallwn werthuso a fu'r rheoliad o ddefnydd ac wedi delifro ar y sail y bwriadwyd iddo.

Rwy'n ddiolchgar ein bod wedi llwyddo i gyrraedd rhyw fath o gonsensws heddiw, yn yr ystyr y byddwn yn cael adolygiad o ardrethi busnes. Gobeithio y bydd yr awgrymiadau ac anghysondebau a nodwyd gennym yn nadl y prynhawn yma yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw, gydag ymrwymiad gan y Llywodraeth y bydd yn ymateb yn sensitif i anghenion busnes, a busnesau bach yn benodol, wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn y misoedd sydd i ddod.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohirir pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Rydym wedi cyrraedd y fan honno erbyn hyn. Cyn symud i'r cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul

Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Davies, Suzy
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Gething, Vaughan
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark
 James, Julie
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Price, Gwyn R.
 Ramsay, Nick
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Roberts, Aled

*Gwrthodwyd y cynnig.
 Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4789: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 14.
 Amendment 1 to NDM4789: For 40, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Antoniw, Mick
 Asghar, Mohammad
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Byron
 Davies, Keith
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Gething, Vaughan
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Black, Peter
 Davies, Jocelyn
 Gruffydd, Llyr Huws
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Parrott, Eluned
 Powell, William
 Roberts, Aled
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4789: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 2 to NDM4789: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne

Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4789: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 3 to NDM4789: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned

Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4789: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 4 to NDM4789: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.

Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4789: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 5 to NDM4789: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny

Rees, David
 Roberts, Aled
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Watson, Joyce
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment agreed.*

Cynnig NDM4789 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM4789 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gymunedau ledled y wlad;

1. Recognises the importance of public sector employment to communities throughout the country;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau â'r Strategaeth Leoli, sy'n ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru ddarparu swyddi a gwasanaethau o fewn adeiladau effeithlon a hygyrch ar draws Cymru;

2. Calls on the Welsh Government to continue with the Location Strategy, which supports the delivery of Welsh Government jobs and services from efficient and accessible buildings across Wales;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hystâd yn cael ei defnyddio i'r eithaf i gefnogi cymunedau ledled Cymru;

3. Calls on the Welsh Government to ensure the optimal use of its estate for supporting communities throughout Wales;

4. Yn cydnabod pwysigrwydd swyddi Llywodraeth Cymru yn Llandrindod, y Drenwydd, Caerfyrddin a Chaernarfon i'r economïau lleol;

4. Recognises the importance to the local economies of Welsh Government jobs in Llandrindod Wells, Newtown, Carmarthen and Caernarfon;

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n ddi-oed i egluro sefyllfa ei swyddfeydd rhanbarthol mewn datganiad ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac,

5. Calls on the Welsh Government to clarify without delay the position of its regional offices in a written statement to the National Assembly for Wales; and,

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â'r undebau yn ei hadolygiad o anghenion staffio mewn swyddfeydd rhanbarthol.

6. Calls on the Welsh Government to consult with unions in its review of staffing needs in regional offices.

*Cynnig NDM4789 fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 15.
 Motion NDM4789 as amended: For 39, Abstain 0, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Antoniw, Mick
 Asghar, Mohammad
 Chapman, Christine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Black, Peter
 Davies, Jocelyn
 Gruffydd, Llyr Huws

Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Byron
 Davies, Keith
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Gething, Vaughan
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark
 James, Julie
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Price, Gwyn R.
 Ramsay, Nick
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce

Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Parrott, Eluned
 Powell, William
 Roberts, Aled
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4789 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4789 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4788: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 48.
 Motion NDM4788: For 5, Abstain 0, Against 48.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Black, Peter
 Parrott, Eluned
 Powell, William
 Roberts, Aled
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Antoniw, Mick
 Asghar, Mohammad
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Byron
 Davies, Jocelyn
 Davies, Keith
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Gething, Vaughan
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley

Gruffydd, Llyr Huws
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Isherwood, Mark
 James, Julie
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Price, Gwyn R.
 Ramsay, Nick
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Watson, Joyce
 Whittle, Lindsay
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.
 Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4788: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 26.
 Amendment 1 to NDM4788: For 28, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Antoniw, Mick
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Keith
 Drakeford, Mark
 Evans, Rebecca
 Gething, Vaughan
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hedges, Mike
 Hutt, Jane
 James, Julie
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Price, Gwyn R.
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
 Black, Peter
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Byron
 Davies, Jocelyn
 Davies, Paul
 Davies, Suzy
 Finch-Saunders, Janet
 George, Russell
 Graham, William
 Gruffydd, Llyr Huws
 Isherwood, Mark
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Millar, Darren
 Parrott, Eluned
 Powell, William
 Ramsay, Nick
 Roberts, Aled
 Thomas, Rhodri Glyn
 Thomas, Simon
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol.
Amendments 2, 3 and 4 deselected.*

Cynnig NDM4788, fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4788, as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod busnesau bach yn hanfodol i adferiad economaidd Cymru ac yn chwarae rôl mewn economïau lleol ledled Cymru;

1. Notes that small businesses are essential to the Welsh economic recovery and play a role in local economies across Wales;

2. Yn cydnabod bod cynnwys y cyfrifoldeb arweiniol am bolisi ardrethi busnes o fewn portffolio y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn rhoi arwydd clir ynghylch effaith bosibl ardrethi busnes ar fusnesau Cymru;

2. Acknowledges that placing lead responsibility for business rates policy in the portfolio of the Business, Enterprise, Technology and Science Minister sends a clear signal about the impact that business rates can have on Welsh businesses;

3. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu polisiau ynghylch ardrethi busnes er mwyn cyflwyno ardrethi teg a chymesur ar gyfer busnesau Cymru er mwyn bodloni amcanion economaidd a chymdeithasol y Llywodraeth; ac,

3. Notes that the Welsh Government will review business rates policies to implement fair and proportionate rates for Welsh businesses to meet the Government's economic and social objectives; and

4. Yn galw ar y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i asesu effaith ei pholisiau ar fusnesau bach yn rheolaidd.

4. Calls on the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to regularly assess the impact of her policies on small businesses.

Cynnig NDM4788 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 12.

Motion NDM4788 as amended: For 42, Abstain 0, Against 12.

*Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:*

Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie

*Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:*

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Thomas, Rhodri Glyn

Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Mewies, Sandy
 Morgan, Julie
 Neagle, Lynne
 Parrott, Eluned
 Powell, William
 Price, Gwyn R.
 Rathbone, Jenny
 Rees, David
 Roberts, Aled
 Sargeant, Carl
 Skates, Kenneth
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Simon
 Watson, Joyce
 Whittle, Lindsay
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM4788 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4788 as amended agreed.*

The Deputy Presiding Officer: That concludes the business for today and for the term. I give particular congratulations to all of the newly elected Members.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â busnes heddiw ac am y tymor i ben. Llongyfarchiadau arbennig i bob Aelod sydd newydd ei ethol.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.36 p.m.
 The meeting ended at 6.36 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
 Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Antoniwi, Mick (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Keith (Llafur – Labour)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
 Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)

Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hedges, Mike (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Julie (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Julie (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
 Rees, David (Llafur – Labour)
 Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

